204. vtls005426244 ISYSARCHB22	File - Elwyn Davies, Caerdydd, 1948, Gorff. 22. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru wedi penderfynu talu breindal o ddeg y cant i W. J. Gruffydd am Y Flodeugerdd Gymraeg o 1 Gorff. 1947. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 204. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
205. vtls005426245 ISYSARCHB22	File - Evan Davies (cyfreithiwr), Caerdydd, 1929, Awst 26. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae Evan Davies wedi ateb llythyr y Parch. [Wynne] Griffith ac wedi derbyn ateb oddi wrth ei gyfreithwyr. Mae'n amgau copi o'r llythyr hwnnw [rhif 206 isod] ac yn gofyn am sylwadau W. J. Gruffydd. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 205. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
206. vtls005426246 ISYSARCHB22	File - Owen Dawson Wynn-evans (cyfreithiwr), Lerpwl, (at Evan Davies, cyfreithiwr, Caerdydd), 1929, Awst 22. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Ymateb i lythyr ynglŷn â'r Parch. Wynne Griffith a'i sylwadau yn Y Cyfarwyddwr. Nid ydynt yn credu bod gan W. J. Gruffydd le i gwyno. Y mae'r ddau yn teimlo'n gryf ar fater llyfrfeydd enwadol. Dylai W.G. fod wedi egluro ei fod yn cyfyngu ergyd pennill Horas i gyngor y bardd. Yr oedd y cyd-destun yn amlygu hyn, ond er mwyn osgoi amwysedd fe benderfynwyd cynnwys esboniad yn rhifyn Medi o'r cyfnodolyn. Copi teipysgrif. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 206. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
207. vtls005426247 ISYSARCHB22	File - George Davies, Treorci, [?1930au], Mai 11. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Sôn am gyfarfod ar 25 Mai pryd y disgwyliar tri chant a rhagor o gynrychiolwyr i glywed adroddiad o gyfarfod yn Siambr yr Awdurdod Lleol pan gyflwynwyd deiseb i'r Cyngor yn erfyn arnynt ystyried cyflwr difrifol y Gymraeg yn eu hysgolion. Gwahodd W. J. Gruffydd yno i annerch. Mae angen arnynt glywed am orffennol godidog yr iaith a thrymed eu cyfrifoldeb i ymffrostio yn eu breintiau a'u tras. Mae angen troi'r ysgolion yn ysgolion dwyieithog. Y Mae'r Blaid yn fwgan haerllug i'r bobl hyn.

	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 207. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
208. vtls005426248 ISYSARCHB22	File - Glyn Dwr Davies, Belfast,	1942, Meh. 29.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Wedi bod yn edrych dros Ynys yr Hud y noson cynt gyda'r Athro Jenkins. Y sgwrs honno wedi troi yn drafodaeth ar Elis Wynne, Goronwy Owen, O. M. Edwards a Thudur Aled. Hynny a gododd awydd arno i ysgrifennu at W. J. Gruffydd. Yr oedd hefyd wedi ei glywed ar y 'Brains Trust' yn amddiffyn mawredd Cymru. Wedi bod yn myfyrio yn llenyddiaethau Lloegr a'r Almaen mae'n dod i'r casgliad 'mai gan y Cymro'n unig y mae'r awen gartref'. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 208. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
209. vtls005426249 ISYSARCHB22	File - Gwynoro Davies, Abermaw,	1928, Chwef. 6.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Llawenhau o ddarllen yn y Western Mail for Owen Edwards i gael cofiant o'r diwedd. Cafodd Gwynoro Davies lawer o llythyrau ganddo ac y mae nifer go dda wedi eu cadw. Bu'n cydletya ag ef yng Ngholeg Aberystwyth. Ef a fu'r cyfrwng i ddwyn Gwynoro Davies yn fugail i Lanuwchllyn. Mae'n cynnig benthyg y llythyrau i W. J. Gruffydd. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 209. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
210. vtls005426250 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd] at Gwynoro Davies,	1928, Chwef. 7.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Diolch am lythyr 209 uchod. Bydd yn falch o gael derbyn y llythyrau a bydd yn eu dychwelyd cyn gynted ag sydd yn bosibl. Copi teipysgrif. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 210. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
211. vtls005426251 ISYSARCHB22	File - Gwynoro Davies, Abermaw,	1928, Chwef. 10.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n anfon 28 llythyr a deg cerdyn post at W. J. Gruffydd. Ysgrifennai [O. M. Edwards] mewn Saesneg yn y llythyrau cynnar er mwyn gloywi tipyn ar yr iaith. Ni fedrai O. M. Edwards na Gwynoro Davies fwy nag 'yes' neu 'no' nes eu bod yn ddeuddeg oed. Cerdyn post.	

	<p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 211.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
212. vtls005426252 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd] at Gwynoro Davies, 1928, Chwef. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Diolch am lythyr 211 uchod a'r ohebiaeth amgaegdig. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 212.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
213. vtls005426253 ISYSARCHB22	<p>File - J. H. Davies, Aberystwyth, 1914, Mawrth 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Diolch am gopi o erthygl W. J. Gruffydd ar y Mabinogion. Credai ei bod yn taflu llawer o oleuni newydd ar bwnc dryslyd. Beirniadu [Thomas] Shankland am wyngalchu Goronw Owen ar draul darostwng y Morrisiaid. Beth bynnag am Lewis Morris, mae'n anodd coelio bod William a Richard yn annheg ac angharedig yn yr hyn a ddywedant am y bardd. [Cyfeiriad at Thomas Shankland, 'Goronwy Owen', Y Beirniad cyf. IV (1914), tt.1-20.].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 213.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
214. vtls005426254 ISYSARCHB22	<p>File - J. P. Davies, (Porthmadog) a Ben Owen, Llanberis, 1938, Chwef. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Y ddau wedi cyfarfod ar aelwyd Nantpadarn ac yn trafod erthygl W. J. Gruffydd yn Y Cymro. ['Ysbryd newydd sy'n bwysig i Gymru ei feddiannu', Y Cymro, 12 Chwef. 1938, tt. 8-9]. Anfonant air o ddiolch at W. J. Gruffydd amdani. Ef yw un o'r ychydig genedlaetholwyr sydd wedi gweld gwerth Ymneilltuaeth. Cafwyd cynhadledd dda a diddorol yng Nghaernarfon y diwrnod cynt. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 214.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
215. vtls005426255 ISYSARCHB22	<p>File - J. P. Davies, Porthmadog, 1938, Awst 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Llongyfarch W. J. Gruffydd am yr hyn a ddywedodd yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 215.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
216. vtls005426256 ISYSARCHB22	File - Jenkin Alban Davies, Chigwell,	1952, Gorff. 22.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Gwahoddiad i fyr-bryd yng ngwesty'r Belle Vue, Aberystwyth ar 7 Awst, er mwyn cyfarfod Syr David Maxwell Fyfe.		
	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 216.		
	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
Cyfres Series 217-69. vtls005426257 ISYSARCHB22: Llythyrau: Davies, John-Edwards, Ifan ab Owen,			
<u>Dyddiad Date:</u> 1913-42. (dyddiad creu) (date of creation)			
<u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)			
<u>Nodyn Note [generalNote]:</u> Preferred citation: 217-69.			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
217. vtls005426258 ISYSARCHB22	File - John Davies, Caerdydd, (95 Heath Park Avenue),	1936, Hyd. 21.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Amddiffyn ei safbwynt personol mewn adolygiad ar Ceiriog, Saunders Lewis, y bu W. J. Gruffydd yn bwrw golwg drosto. Y mae'n sicrhau W. J. Gruffydd iddo ddarllen ei gynnyrch yn Y Llenor, ond nid yw'n teimlo dan orfodaeth i'w ddilyn yn anfeiriadol. Ymdriniaeth hir ar agweddau Catholig a Phrotestannaidd wrth feirniadu llenyddiaeth. Mae'n dadlau bod Saunders Lewis yn gwyrddroi rhai ffeithiau yn ei lyfr ar Ceiriog er mwyn dilorni'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, 'y ganrif ymneilltuol'. John Davies yn amddiffyn ei hawl i feirniadu 'pobl y Brifysgol' yn raddedigion ieuainc ac yn israddedigion. Ni ddylai 'snobs deallol' fel Saunders Lewis 'gael dweud yr hyn a fynnent am y werin'. Cafodd Saunders Lewis 'ormod lawer o raff i ddweud yr hyn a fynno am Ymneilltuaeth Cymru a neb yn ei wrthwynebu'. Y peth gorau fyddai anfon ei adolygiad i gyhoeddiad arall rhag creu problemau i W. J. Gruffydd a'r Llenor.		
	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 217.		
	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
218. vtls005426259 ISYSARCHB22	File - John Davies (Undeb Addysg y Gweithwyr), Caerdydd, (38 Charles Street),	1929, Hyd. 15.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i>		

	<p>Mae'r ymosodiad gan yr hwn a eilw ei hun yn 'Junior Member for Treorchy' ar W. J. Gruffydd yn un digywilydd iawn. Mae cynddrwg â'r un a wnaethpwyd ar y Parch. Herbert Morgan adeg y bu ei wraig farw. Mae'n synnu at y Western Mail yn cyhoeddi'r fath beth.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 218.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
219. vtls005426260 ISYSARCHB22	<p>File - L[ionel] Twiston Davies, Trefynwy, ?1941, Awst 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae Lionel Twiston Davies yn bwriadu cyflwyno cyfres o bortreadau o enwogion Cymru i'r Amgueddfa Genedlaethol. Gofynnodd i Evan Walters ymgymryd â'r gwaith a hydera y gall W. J. Gruffydd gytuno i gael tynnu ei lun.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 219.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
220. vtls005426261 ISYSARCHB22	<p>File - Lionel Twiston Davies, Trefynwy, [19]41, Hyd. 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae ganddynt gyfaill cyffredin yn Iorwerth Peate. Hoffai ddiolch i W. J. Gruffydd am gefnogi Iorwerth Peate yn Llys yr Amgueddfa. Yr oedd Lionel Twiston Davies yn un o ddau a bleidleisiodd yn erbyn ei ddiswyddiad. Cred bod yr helynt yn gwneud drwg mawr i'r Amgueddfa.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 220.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
221. vtls005426262 ISYSARCHB22	<p>File - T. Eric Davies, Dartmouth, Nova Scotia, [19]28, Meh. 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am araith W. J. Gruffydd yn Undeb yr Annibynwyr ym Machynlleth. Bu T. Eric Davies yn Annibynnwr, ond y mae erbyn hyn yn Undodwr. Cytuna â W. J. Gruffydd fod Calfiniaeth 'wedi gwneud cabledd o etholedigaeth Pawl'. Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am ei gyfraniad at ddeall Cymru a phethau Cymreig yn well.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 221.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
222. vtls005426263 ISYSARCHB22	<p>File - T. Huws Davies, Llundain, 1913, Mawrth 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Diolch am gopiau o gylchlythyr W. J. Gruffydd ynglŷn â'i ddrama. Mae pawb sydd yn credu yn yr ysbryd newydd yng Nghymru yn gwybod yn ddigon da mai W. J. Gruffydd yw ei broffwyd. Gofyn a welodd W. J. Gruffydd ei erthygl 'A New Wales' yn y Times ar ddydd Gwyl Dewi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 222.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
222(a). vtls005426264 ISYSARCHB22	<p>File - T. Huws Davies, San Steffan, [19]13, Medi 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch o glywed y gall W. J. Gruffydd ddod i Lundain. Awgrymu pryd a sut i gyfarfod. Wedi bwyd gyda'r nos yn ei gartref hoffai wahodd 'Elidir Sais', [William Hughes Jones, (?1884-1951), a J. O. Francis i'w gartref er mwyn iddynt gael cyfarfod W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 222(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
223. vtls005426265 ISYSARCHB22	<p>File - [T.] Huws [Davies], Kew Gardens, Surrey, [19]38, Awst 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Collodd y cyfle o glywed W. J. Gruffydd yn rhoi ei anerchiad fel Llywydd y Dydd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Atgoffa W. J. Gruffydd o'i addewid i ysgrifennu rhagair i Gylchgrawn Ceredigion Llundain.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 223.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
224. vtls005426266 ISYSARCHB22	<p>File - Tho[ma]s H. Davies, Port Said, 1938, Ion. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am y wledd a gafodd o ddarllen cofiant O. M. Edwards. Yr oedd nain Thomas H. Davies yn frodor o Lanuwchllyn. Yn amser ei nain defnyddid math cynnar o Welsh Not yn Ysgol y Llan, sef rhwng 1858 ac 1863. 'Y pryd hwnnw, nid am eu gyddfau y rhoesid y darn pren, ond yng nghegau'r plant. Nis gwn pa faint oedd hyd y darn pren, ond rhoesid ef yn nennol yn eu cegau am siarad Cymraeg'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 224.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
225. vtls005426267 ISYSARCHB22	<p>File - W. D. D[avies], 1942, Mawrth 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Anfon cyfieithiad Saesneg o gerdd W. J. Gruffydd 'Y Diwygiwr' (Owen Morgan Edwards), a gyhoeddwyd yn Ynys yr Hud gan awgrymu cyhoeddi'r cyfieithiad yn Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 225.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
226. vtls005426268 ISYSARCHB22	<p>File - W[illiam] Ll[ewelyn] Davies, 1937, Mai 10. Aberystwyth,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llythyr ar ran y Llyfrgell Genedlaethol yn rhoi hanes dau o lyfrau cyfrifon William Wynne o ganol y ddeunawfed ganrif. Daethant i'r Llyfrgell yn rhodd gan 'Carneddog'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 226.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
227. vtls005426269 ISYSARCHB22	<p>File - W. Lloyd Davies, Bournemouth, 1937, Gorff. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae W. Lloyd Davies yn barod i anfon at olygyddion y Cambrian Archaeological Journal i brotestio am nad oedd Harold Hughes, un o'r golygyddion, yn fodlon cynnwys slip hysbysebu ynglŷn â chofiant O. M. Edwards.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 227.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
228. vtls005426270 ISYSARCHB22	<p>File - W. Lloyd Davies, Bournemouth, [19]37, Gorff. 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch o glywed bod Dr Lloyd wedi rhoi H[arold] H[ughes] yn ei le. Bu'n pwyso dros gael erthyglau Cymraeg o dro i dro yn y cylchgrawn, ond ni chafwyd un hyd yn hyn. Mae'n dda ganddo glywed bod y cofiant yn cael y fath groeso ardderchog. Sôn am gyfarfyddiad a gafodd ag O. M. Edwards. Hanes yr ymgyrch i gael carreg fedd i 'Hwfa Môn'. Diddorol iawn oedd atgofion W. J. Gruffydd am William Jones, A.S. Awgryma y gallai rhywun fynd ati i adrodd hanes William Jones a'r ffordd y cafodd ei gaethiwo gan y Blaid Ryddfrydol. Paham nad yw Herbert Morgan yn mynd ymlaen â'r bwriad o gyhoeddi llythyrau 'Glan y Gors'?</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 228.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
229. vtls005426271 ISYSARCHB22	<p>File - W. S. Davies, Mwmbswls, Abertawe, 1935, Awst 30.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Ymholiadau yngl?n â chyfieithu darnau o Ladin.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 229.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
230. vtls005426272 ISYSARCHB22	<p>File - Richard Denham, [Pontrilas], [1941].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofyn cymorth W. J. Gruffydd i esbonio'r ffurfiau 'Pont tref heilas' ac 'Ynysyrwyddfa'. Gofyn os oes perthynas rhwng y ffurfiau 'culan', 'ceulan' a 'goilan'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 230.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
231. vtls005426273 ISYSARCHB22	<p>File - Richard Denham, [Pontrilas], [1941].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymholiad pellach yngl?n â 'Heilas', a chais i'w esbonio drwy ei gysylltu â'r enw teuluol 'Butler'. Ceisio cysylltu 'Lann Culan' a'r enw Llangua; mae'r lle hwnnw ar geulan uwchlaw afon Mynwy. Pa ystyr a ddylai roi i 'gwyddfa' - 'bedd' ynteu 'trigfan'?</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 231.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
232. vtls005426274 ISYSARCHB22	<p>File - Richard Denham, [Pontrilas], [1941], Rhag. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofyn i W. J. Gruffydd esbonio nifer o fân bwyntiau yngl?n ag enwau lleoedd. Gofyn hefyd am iddo awgrymu nifer o weithiau dibynadwy ym maes enwau lleoedd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 232.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
233. vtls005426275 ISYSARCHB22	<p>File - Richard Denham, [Pontrilas], 1942, Chwef. 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am gymorth W. J. Gruffydd hyd yma ond y mae W. J. Gruffydd yn ei ateb wedi awgrymu nad oes ganddo'r amser i ateb ei gwestiynau'n llawn er ei fod ar yr un pryd yn cytuno i fod o gymorth iddo. Mae'n mynd ati i esbonio sut y datblygodd ei ddiddordeb mewn enwau lleoedd a'r ffynonellau y mae wedi eu darllen hyd yn hyn. Mae'n gofyn sut y gall ddatblygu ei wybodaeth am wyddor dehongli enwau lleoedd. Mae'n barod i dreulio pedair awr y dydd yn dysgu'r grefft.</p>

	<p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 233.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
234. vtls005426276 ISYSARCHB22	<p>File - Violet Douglas-pennant, Llundain, [19]36, Gorff. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Yr oedd yn ddrwg gan Violet Douglas-Pennant golli W. J. Gruffydd yn yr arddwest a gynhaliwyd yn Neuadd Aberdâr [Coleg Caerdydd]. Mae'n amgau taflen brintiedig yngl?n â Stanley Baldwin ag achos Miss Douglas-Pennant.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 234.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
234(a). vtls005426277 ISYSARCHB22	<p>File - Taflen brintiedig yn amlinellu agwedd Stanley Baldwin tuag at achos Miss Douglas-Pennant a ddiswyddwyd o'r Women's Royal Air Force, c. 1935.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 234(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
235. vtls005426278 ISYSARCHB22	<p>File - D. Miall Edwards, Aberhonddu, 1935, Ebrill 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n anfon erthygl 'Amddiffyn Diwinyddiaeth' ar gyfer Y Llenor. [Fe'i cyhoeddwyd yn Y Llenor, cyf. XIV (1935), tt. 203-12].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 235.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
236. vtls005426279 ISYSARCHB22	<p>File - Ifan [Ab Owen] Edwards, Llanuwchllyn, [1920, rhwng Mai ac Awst].</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Cafodd hyd i gân W. J. Gruffydd 'Tr Diwygiwr' yn rhifyn Mawrth 1911 o [Cymru]; mae am ei hailgyhoeddi a byddai'n dda ganddo dderbyn erthygl gan W. J. Gruffydd yn ogystal. Nid yw Ifan Edwards a'i chwaer, Hat, yn bwriadu dod i'r Eisteddfod [am eu bod wedi colli eu tad]. Edrychant ymlaen at Eisteddfod Caernarfon [1921] yn eiddgar. Mae'n ansicr yngl?n â dyfodol Cymru, nid yw'n teimlo'n gymwys ar gyfer y gwaith. Hydera fod yn gyfrwng i roi llenyddiaeth anenwadol ac annibynnol i'r werin. Mae wedi cael swydd fel athro cynorthwyol yn Ysgol Sir Dolgellau am flwyddyn. Mae Mr Griffith yno yn Gymro trwyadl.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 236.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
237. vtls005426280 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, [19]28, Ion. 12. Llanuwchllyn, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n falch o glywed bod y parseli wedi cyrraedd yn ddiogel. Cynhwyswyd nifer o ddyddiaduron ei dad, ynghyd ag ach o deulu ei dad a'i fam. Y mae ef a'i chwaer, am yn ail, yn addo anfon tâl bob mis at W. J. Gruffydd. HOLA pa fath gyfrol sydd ganddo mewn golwg o ran natur a hyd. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 237. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
238. vtls005426281 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd] at Ifan Ab Owen 1928, Ion. 16. Edwards, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Y mae wedi derbyn y papurau a'r llythyrau ac y mae'r trefniant ariannol yn dderbyniol. Ei syniad ef am y [cofiant] yw dwy gyfrol tua phedwar can tudalen yr un. Gellid rhannu hynny yn ddeuddeg rhan o 72 tudalen yr un a'i gyhoeddi fesul rhan fel y gwnaed gyda'r Geiriadur Beiblaidd. Copi teipysgrif. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 238. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
239. vtls005426282 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, [19]28, Chwef. 2. Llanuwchllyn, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch i W. J. Gruffydd am gynnig llety iddo ar 11 Ebrill ac am gynnig dod i'w gyfarfod yn Abercynon. Mae'n bwriadu dod â'i gar ei hun. Ysgrifennwyd rhyw lun ar hanes plwyf Llanuwchllyn gan gyn-ficer, William Hughes, ond nid oes fawr iawn o wybodaeth ynddo heblaw am ddyddiadau geni a marwolaeth ficeriaid y plwyf. Mae'n amgau copiau o ddau rifyn o bapur newydd a gychwynnodd O. M. Edwards ar gyfer Llanuwchllyn, dim ond dau rifyn a ymddangosodd. Mae'n addo mynd ati i lunio'r llyfryddiaeth cyn bo hir ond y mae dros ei ben a'i glustiau mewn gwaith ar hyn o bryd. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 239. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
240. vtls005426283 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd] at Ifan Ab Owen 1928, Mawrth 12. Edwards, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Wrth fynd drwy lythyrau O. M. Edwards mae'n sylwi bod bwloch mawr ynddynt, sef ei gyfnod yn y Senedd. Y mae mwy o dywyllwch ynghylch y cyfnod hwn na'r un yn ei hanes. Tybed a oes yna lythyrau perthnasol ar gael yn rhywle?. Copi teipysgrif. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>

	Preferred citation: 240. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
241. vtls005426284 ISYSARCHB22	File - Ifan [Ab Owen Edwards], [19]28, Meh. 28. Llanuwchllyn, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Holi am y cofiant. Mae'n cynnig am wahanol swyddi. Bydd yn rhydd rhwng Gorffennaf 16 ac Awst 5. Mae Mrs Edwards yn gwahodd W. J. Gruffydd a'i wraig a Dafydd i aros atynt yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd Gwersyll yr Urdd yno rhwng Awst 5 a'r 30. Bydd yn rhydd yn ystod pythefnos gyntaf Medi. Awgrymu enwau pobl a fyddai'n cofio O. M. Edwards yng ngholeg Lincoln, [Rhydychen]. Mae'n amgau cyflog y deipyddes. Mae ei wraig yn llawer gwell a hoffai fedru talu'n ôl i Mrs Gruffydd am ei charedigrwydd. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 241. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
242. vtls005426285 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd] at Ifan Ab Owen 1930, Ion. 28. Edwards, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Y mae wedi llunio braslun o'r cofiant cyfan ac wedi gorffen ysgrifennu tua chwarter ohono. Fe gymer y gweddill ryw dri mis arall cyn y bydd yn barod i'r wasg. Mae'n amser i Ifan ab Owen Edwards ddechrau llunio'r llyfryddiaeth gyflawn ac y mae'n bryd dechrau trafod y mater gyda chyhoeddwr. Gallai brofi'n waith drud. Mae'n awgrymu Hughes a'i Fab, Gwasg Aberystwyth a Gwasg y Brifysgol. Addawodd W. J. Gruffydd i Prosser Rhys y cai gyfle i ystyried y gwaith, ond mai Ifan ab Owen Edwards oedd y rheolwr busnes. Copi teipysgrif. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 242. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
243. vtls005426286 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, [19]30, Ion. 30. Aberystwyth, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n llawenhau o glywed bod y cofiant yn dod yn ei flaen cystal. Mae'n addo mynd ati i lunio'r llyfryddiaeth. Awgryma roi nodyn yn Y Llenor yn gofyn am gyfeiriadau at erthyglau diarffordd o eiddo ei dad. Cyn mynd at gyhoeddwr mae'n awgrymu y dylid cael y gwaith yn barod mewn llawysgrif ac y dylent benderfynu ar ffurf y gwaith. Y mae yn bendant yn erbyn rhoi'r gwaith i Wasg y Brifysgol, nid yw'n bwriadu ymwneud â chorff a lywodraethir gan bwyllgor. Trafod y gwahanol weisg Cymreig eraill a rhesymau dros neu yn erbyn eu defnyddio. Rhaid i'r diwyg fod yn berffaith. Diau mai'r llyfr hwn, oherwydd ei destun a'i awdur, fydd prif lyfr hanner cyntaf ein canrif. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 243. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)

<p>244. vtls005426287 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [W. J. Gruffydd] at Ifan Ab Owen Edwards, 1930, Chwef. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n addo gwneud rhestr o gyfraniadau O. M. Edwards i'r cylchgronau. Mae'n bwriadu rhoi nodyn yn Y Llenor yngl?n â chyfeiriadau at weithiau diarffordd O. M. Edwards. Mae'n fodlon peidio â defnyddio Gwasg y Brifysgol ond bydd gofyn holi am amcangyfrifon gan nifer o weisg. Mae'n debyg mai Hughes a'i Fab a gaiff y gwaith yn y diwedd, ond ceir gwell telerau os credant bod eraill yn ceisio am y gwaith. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 244.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>245. vtls005426288 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ifan [Ab Owen Edwards], [19]30, Chwef. 4. Aberystwyth,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n addo gwneud ei orau gyda'r llyfryddiaeth ond bydd yn amhosibl darganfod popeth. Nid yw'n deall yr awgrym yngl?n â'r Gofeb. Yn bersonol, byddai'n well ganddo gadw'r cofiant yn glir oddi wrth bopeth a phawb. Gall autocrat wneud tipyn mwy o waith na phwyllgor. Sôn am Rowland Thomas, mae'n 'eithaf creadur' er cael llawer ffræe gydag ef.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 245.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>246. vtls005426289 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ifan Ab Owen Edwards, [?1930, cyn Ebrill]. Llanuwchllyn,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau llyfryddiaeth fras. Ni all ei chwblhau heb fynd i'r Llyfrgell Genedlaethol ac ni all fynd yno cyn diwedd Ebrill. Nid yw wedi amgau Cyfres y Fil. Mae'n amgau rhai eitemau ac yn anfon parcel arall gyda'r un post yn cynnwys hen ewyllys gan O. M. Edwards, llythyr oddi wrth Ruskin, dau lyfr ar Thomas Cromwell, a chopi cyflawn o Heddiw a'r Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 246.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>247. vtls005426290 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ifan Ab Owen Edwards, [19]35, Ion-30. Aberystwyth,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n teimlo'n dorcalonnus iawn yngl?n â'r cofiant. Mae'n gwybod maint llafur W. J. Gruffydd hyd yn hyn ond y mae'n anobeithio gweld ffrwyth y llafur hwnnw. Mae'n tybio weithiau mai gwell fyddai gofyn i rywun arall ddechrau o'r dechrau. Mae fel petai rhyw falltodd ar y cofiant.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 247.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>

	ARCH/MSS (GB0210)	
248. vtls005426291 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards Aberystwyth,	[19]35, Chwef. 15.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ymwybodol o brysurdeb W. J. Gruffydd a'r llu diddordebau eraill. Os na fedr addo gorffen y gwaith ymhen dwy flynedd, yna rhaid fydd cael rhywun arall i orffen y gwaith. Bu [David] Hughes Parry yn siarad ag R. T. Jenkins, ac y mae ef yn fodlon cymryd at y gwaith.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 248.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
249. vtls005426292 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards,	[19]35, Rhag. 8.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae yn colli pob diddordeb yn y cofiant. Annheilwng fyddai gadael pethau fel ag y maent. Hoffai wybod beth yw'r sefyllfa. Os yw W. J. Gruffydd wedi gorffen yna gellir anfon rhywun i gasglu'r papurau yn ôl.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 249.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
250. vtls005426293 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]36, Chwef. 21.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennodd at W. J. Gruffydd droeon ond ni chafodd ateb. Mae'n synnu ei fod wedi gwneud tro gwael â'r cofiant gan i O. M. Edwards wneud cymaint tros W. J. Gruffydd. Bydd Ifan ab Owen Edwards yng Nghaerdydd ar 29 Chwefror ac y mae'n bwriadu galw i gasglu'r papurau. Mae'n gofyn am ganiatâd i'w casglu o'r Coleg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 250.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
251. vtls005426294 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]36, Chwef. 23.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Nid yw'n barod i ymddiried y gwaith o ysgrifennu'r cofiant i efrydydd, hyd yn oed un o dan ofal W. J. Gruffydd. Mae am gasglu'r defnyddiau felly. Bydd yn rhaid i'r cofiannydd newydd ail wneud y gwaith i gyd. Mae'n gofyn am gael trefnu cyfarfod â W. J. Gruffydd ar unrhyw Sadwrn o'r pedwerydd ar ddeg o Fawrth ymlaen, er mwyn mynd trwy'r papurau a'u pacio.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 251.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>	

	ARCH/MSS (GB0210)	
252. vtls005426295 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]36, Mawrth 14.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ni fydd yng Nghaerdydd eto am beth amser. Fe fydd yn gweld ei chwaer ddechrau Ebrill ac fe gaiff air â hi y pryd hwnnw. Ni all Ifan ab Owen Edwards fforddio talu i efrydydd, y mae Cymru'r Plant a'r Urdd yn faich llethol ar ei gefn. Efallai mai gwell fyddai rhoi'r gorau i'r cofiant yn gyfangwbl.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 252.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
253. vtls005426296 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]36, Mai 25.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>O'r diwedd llwyddodd i gasglu prisiau argraffu'r cofiant ynghyd. Yr unig wasg a gynigiai gyhoeddi oedd Gwasg Aberystwyth, ond y Cambrian News fyddai eu hargraffwyr hwy. Y mae'n penderfynu cyhoeddi ei hunan fel 'Ab Owen' gan roi unrhyw elw i W. J. Gruffydd ac R.T. Jenkins. Rhestrir y prisiau a gafwyd gan wahanol weisg ar gyfer argraffu'n unig. Awgrymir bod W. J. Gruffydd yn anfon copi o'r gyfrol gyntaf at William Lewis, Caerdydd, a Hughes a'i Fab, y ddau gynnig isaf.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 253.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
254. vtls005426297 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]37, Mai 3.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae popeth yn barod ar gyfer gwasgaru'r cofiant. Archebwyd 200 copi eisoes ac fe anfonir 35 copi i'w hadolygu. Gall W. J. Gruffydd gael copïau gan William Lewis, yr argraffydd, ar gyfer ei hunan a chopi adolygu i'r Llenor. Holi yngl'n â chael caniatâd i gyhoeddi llythyrau yn y cofiant.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 254.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
255. vtls005426298 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]37, Mai 8.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Wedi derbyn y llythyr amgaedig gan William Lewis. Arch. Camb. yn gwrthod cynnwys taflen yngl? n â'r cofiant oherwydd daliadau gwleidyddol W. J. Gruffydd. Mae'n gadael y broblem yn nwylo W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 255.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>	

	ARCH/MSS (GB0210)	
255(a). vtls005426299 ISYSARCHB22	File - William Lewis, CYF., at Ifan Ab Owen Edwards,	1937, Mai 7.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae golygydd Arch. Camb. yn gwrthod cynnwys taflen yn hysbysebu'r cofiant o waith W. J. Gruffydd. Dychwelir y taflenni sydd drosodd. Cafwyd caniatâd i gynnwys y taflenni yn nhrefodion y Cymmrodorion.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 255(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
256. vtls005426300 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]37, Meh. 4.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi ei blesio'n fawr gyda diwyg y cofiant. 'Campwaith o argraffu llyfr buddiol a thlws ...'. Mae ganddo archebion am 300 o gopiau heblaw am gopiau i'w hanfon i'r holl bapurau ar gyfer adolygu.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 256.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
256(a). vtls005426301 ISYSARCHB22	File - Taflen hysbysebu Owen Morgan Edwards - Cofiant gan W. J. Gruffydd,	1937, Mehefin.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Printiedig.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 256(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
257. vtls005426302 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]37, Meh. 16.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'r cofiant yn gwerthu'n dda. Cafwyd ambell lythyr eisoes yn ei ganmol. Hanes un athro ysgol a ymgollodd ynddo a'i ddarllen o glawr i glawr rhwng amser swper a phedwar o'r gloch y bore! Aeth 550 o gopiau eisoes ac y mae archebion ar gyfer rhagor. Gan nad ymddangosodd adolygiadau hyd yma y mae'r rhagolygon yn wych. Archebwyd ail rwywiad o fil a bydd mil ar ôl heb eu rhwymo. Gofynnwyd i William Lewis beidio â chwalu'r teip. Cafwyd llythyr oddi wrth Mr Harold Hughes yn caniatáu gosod taflenni yn Arch. Camb. Y mae pobl o Lanuwchllyn sydd wedi darllen y cofiant yn dweud bod y disgrifiadau yn fyw iawn ac yn 'true to nature'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 257.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>	

	ARCH/MSS (GB0210)	
258. vtls005426303 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]37, Gorff. 3.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Yr oedd ateb W. J. Gruffydd i olygydd Arch. Camb. yn llariaidd iawn. Aeth 1,035 o gopiau o'r cofiant. Mae'r galw mawr drosodd. Glastwraidd iawn a diafael oedd adolygiad yr Athro T. G[wynn] J[ones] yn y Western Mail. Cafwyd un da, er hynny, gan E. M[organ] H[umphreys] yn y Liverpool Post. Ymddangosodd 'adolygiad addolgar' E.D. Jones yn Y Brython hefyd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 258.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
259. vtls005426304 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards Aberystwyth,	[19]37, Awst 13.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gwerthwyd 1,600 copi o'r cofiant, digon i dalu traul argraffu a rhwymo'r argraffiad cyntaf yn llwyr. Y mae'n debyg y bydd y 1,400 copi sy'n weddill wedi gwerthu erbyn y Nadolig. Y mae felly wedi dechrau meddwl am ailargraffiad. Bu Ifan ab Owen Edwards yn holi ei ewythr, J. J. Edwards am unrhyw gywiriadau y sylwodd arnynt. Cododd hwnnw fater bedydd O. M. Edwards a bod 'Cadi'r Gro' yn wall am 'Cadi'r Go'. Mae'n gofyn i W. J. Gruffydd ysgrifennu rhagymadrodd byr i'r ailargraffiad a nodi'r cywiriadau uchod.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 259.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
259(a). vtls005426305 ISYSARCHB22	File - John [Edwards] at Evan [Ifan Ab Owen Edwards],	1937, Awst 11.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ateb ymholiad yngl?n â Chadi'r Go. Sôn am fedyddio O. M. Edwards. Ymateb i'r cofiant yn dda iawn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 259(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
260. vtls005426306 ISYSARCHB22	File - Ifan Ab Owen Edwards, Aberystwyth,	[19]40, Meh. 18.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n deall paham na all W. J. Gruffydd ddod i Lanuwchllyn oherwydd anawsterau teithio. Byddai'n hoffi derbyn gair pendant ganddo os na fydd yn penderfynu dod yno. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 260.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>	

ARCH/MSS (GB0210)			
Cyfres Series 261-301. vtls005426307 ISYSARCHB22: Llythyrau: Edwards, J. Herbert-Evans,			
<u>Dyddiad Date:</u> 1903-45. (dyddiad creu) (date of creation)			
<u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)			
<u>Nodyn Note [generalNote]:</u> Preferred citation: 261-301.			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
261. vtls005426308 ISYSARCHB22	File - J. Herbert Edwards, Cranham, Caerloyw,	1932, Mai 13.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n hyderu y bydd yr eitem amgaeedig yn plesio. (Gw. 261a isod). Cafwyd cyfnod anodd ond y mae modd symud ymlaen yn awr gyda'r gwelliant ar y farchnad stoc. Gwelsai Syr Percy Watkins yn Llundain yr wythnos flaenorol a threfnwyd iddo gyfarfod â phwyllgor lleol Aberystwyth.		
	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 261.		
	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
261(a). vtls005426309 ISYSARCHB22	File - Syr John Rhys 1840 ... 1915 (Gwasg Gregynog). Apêl ar gyfer codi neuadd bentref ym Mhonterwyd,	[1931].	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Printiedig.		
	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 261(a).		
	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
262. vtls005426310 ISYSARCHB22	File - [J.] Goronwy Edwards, Coleg yr Iesu, Rhydychen,	[19]37, Chwef. 19.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ymddangosiad Hen Atgofion. Roedd cefndir y gyfrol yn gyfarwydd ac yn debyg i hanes plentynod J. Goronwy Edwards hefyd. Mae'n sylwi ar y traddodiad am wrthryfel Syr Gruffydd Llwyd yn 1322. Nid oes sail i'r traddodiad hwn yn ôl J. Goronwy Edwards. Y mae wedi cyhoeddi erthygl ar y pwynt yn yr English Historical Review yn 1915. Cefnogwr Lloegr i'r carn oedd Syr Gruffydd. Anodd deall paham y bu i hil Ednyfed Fychan droi yn erbyn Llywelyn ap Gruffydd cyn dechrau rhyfel 1282.		
	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i>		

	<p>Preferred citation: 262.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
263. vtls005426311 ISYSARCHB22	<p>File - [J.] Goronwy Edwards, Coleg yr Iesu, Rhydychen, 1939, Chwef. 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yn pwysu ar Wasg Clarendon i gyhoeddi blodeugerdd o farddoniaeth Gymraeg ar ddull yr Oxford Book of English Verse. Mae'n holi ynghylch addasrwydd y fenter. HOLA hefyd a ddefnyddid y gyfrol yn y cwrs gradd Cymraeg pe'i cyhoeddid.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 263.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
264. vtls005426312 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd] at [J.] Goronwy Edwards, Coleg yr Iesu, Rhydychen, 1939, Chwef. 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>W. J. Gruffydd yn rhoi ei resymau yn erbyn cyhoeddi blodeugerdd Gymraeg gan Wasg Clarendon. Y mae ei Flodeugerdd Gymraeg ef yn cael derbyn da ac nid yw yn meddwl fod lle i flodeugerdd arall. Hwyrach y gellid cyfiawnhau cael cyfrol yn cynnwys gwaith beirdd diweddar fel Parry-Williams a Williams Parry. Nid yw W. J. Gruffydd yn credu y gall un flodeugerdd gynnwys y mesurau caeth a rhydd ynghyd. Gellid cyfiawnhau blodeugerdd o gywyddau yn dangos datblygiad y cywydd. Byddai Gwasg Prifysgol Cymru yn gwrthwynebu gweld Rhydychen yn cyhoeddi cyfrol a fyddai'n bygwth gwerthiant Y Flodeugerdd Gymraeg. Hwyrach y gellid ychwanegu ychydig gerddi at y gwaith hwnnw a'i ailgyhoeddi fel yr Oxford Book of Welsh Verse. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 264.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
265. vtls005426313 ISYSARCHB22	<p>File - J. G[oronwy] Edwards, Coleg yr Iesu, Rhydychen, 1939, Chwef. 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ddiolchgar o dderbyn ymateb a hwnnw'n adwaith onest iawn. Yr oedd wedi rhagweld rhai o'r gwrthwynebiadau. Bydd yn mynd eto at y Wasg yn awr. Ei swyddogaeth ef yw gweithio fel canolwr rhwng Cymdeithas Dafydd ap Gwilym a'r Wasg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 265.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
266. vtls005426314 ISYSARCHB22	<p>File - John Hugh Edwards, Llundain, S.W.1, 1936, Meh. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Mae Vincent Evans wedi bod yn pwyso arno i ysgrifennu cyfrol ar Gymru. Daeth y syniad gwreiddiol mewn araith gan y Prif Weinidog, [Stanley] Baldwin, o flaen cymdeithas y Cymmrodorion. Fe ddywedodd ar ei araith y gwyddai'r mwyafrif o Saeson fwy am y trefedigaethau Prydeinig nag a wyddent am Gymru, eu cymydog agosaf. Mae'n bwriadu paratoi gwaith ar Gymru ac y mae'n gwahodd W. J. Gruffydd i gyfrannu erthygl o ddwy fil o eiriau yn trafod O. M. Edwards a John Morris-Jones. Y mae'n amgau siec fel tâl am y gwaith.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 266.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
267. vtls005426315 ISYSARCHB22	<p>File - John Hugh Edwards, Llundain, S.W.1, 1936, Meh. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch fod W. J. Gruffydd wedi bodloni ysgrifennu erthygl ar O. M. Edwards ar gyfer ei gyfrol arfaethedig. Gobeithia y bydd yn pwysleisio gwaith O. M. yn poblogeiddio llenyddiaeth Gymraeg. Rhestrir rhai cyfraniadau eraill a ddisgwyllir ar gyfer y gyfrol. Gall y cyfraniad am John Morris-Jones fod yn llawer byrrach.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 267.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
268. vtls005426316 ISYSARCHB22	<p>File - John Hugh Edwards, Llundain, S.W.1, 1936, Meh. 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi cyfarfod â Gwynn Jones yn Aberystwyth. Fe benderfynwyd cyhoeddi'r llyfr gydag un o gyhoeddwy'r blaenaf Llundain. Y mae Gwynn Jones yn ysgrifennu erthygl ar lenyddiaeth Gymraeg hyd at y cyfnod Tuduraidd ac 'Elfed' yn ysgrifennu ar lenyddiaeth Cymru o ddechrau'r ddeunawfed ganrif ymlaen. Gofynnir i W. J. Gruffydd ysgrifennu am lenyddiaeth cyfnod y Tuduriaid a'r ail ganrif ar bymtheg. Mae'n amgau siec am bum gini yn dâl am y gwaith.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 268.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
269. vtls005426317 ISYSARCHB22	<p>File - John Hugh Edwards, Llundain, S.W.1, [19]36, Meh. 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n anfon y siec yr anghofiodd ei hamgau y diwrnod blaenorol. Mae'n ategu ei apêl am erthygl gan W. J. Gruffydd ar gyfnod y Tuduriaid a'r ail ganrif ar bymtheg. Mae J. E. Lloyd yn cyfrannu pedair erthygl ar gyfer y gyfrol a bydd tair erthygl gan T. Gwynn Jones.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 269.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>269(a). vtls005426318 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Taflen deipiedig yn amlinellu cynnwys y gyfrol 'The Literature of Wales', [1936].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 269(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>270. vtls005426319 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J[ohn] Hugh Edwards, Llundain, S.W.1, 1936, Meh. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Croesodd eu llythyrau yngl?n â'r siec yr anghofwyd ei hamgau. Y mae'n falch iawn o barodrwydd W. J. Gruffydd i gyfrannu. Gan nad yw wedi trefnu yngl?n â'r bennod ar y ddeunawfed ganrif, hoffai petai W. J. Gruffydd yn ysgrifennu honno hefyd. Fe gaiff siec arall am bum gini am ymgymryd â hi. Yr oedd yn gefnogol iawn i gais W. J. Gruffydd am swydd prifathro Coleg y Brifysgol, Caerdydd. O. N. Rhestr o'r chwe chyfrol arfaethedig yn nodi eu cynnwys.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 270.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>271. vtls005426320 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Hugh Edwards, Llundain, S.W.1, 1936, Gorff. 31.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n gofyn am yr erthyglau sydd wedi eu haddo erbyn Awst yr ugeinfed. Mae'n hyderu y gall W. J. Gruffydd eu hysgrifennu erbyn hynny gan fod y gyfrol yn mynd i'r wasg y pryd hwnnw.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 271.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>272. vtls005426321 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Hugh Edwards, Llundain, S.W.1, 1936, Awst 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n falch iawn o glywed bod W. J. Gruffydd ar fin ysgrifennu yr erthyglau a addawyd ganddo. Bydd cysylltiad W. J. Gruffydd â'r gyfrol yn sicr o ychwanegu at ei phwysigrwydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 272.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>273. vtls005426322 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Hugh Edwards, Llandrindod, [1936], Medi 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n dda ganddo glywed bod W. J. Gruffydd wedi gorffen ei gyfraniad ar lenyddiaeth Gymraeg hyd at ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Byddai'n hoffi cael bywgraffiad byr o O. M. Edwards a John Morris-</p>

	<p>Jones yn ogystal ag ymdriniaeth ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt. Byddai'n hoffi derbyn y cyfraniad ar y ddeunawfed ganrif cyn y rhai ar O. M. Edwards a John Morris-Jones. Mae ganddo gopi o bob llyfr a gyhoeddwyd gan W. J. Gruffydd ac y mae'n un o'i edmygwyr mwyaf.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 273.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
274. vtls005426323 ISYSARCHB22	<p>File - John Hugh Edwards, Llandrindod, [1936], Medi 30.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi derbyn cyfraniad W. J. Gruffydd ac y mae'n eithriadol fodlon arno. Bydd y gyfres ar 'The Makers of Wales' yn dechrau gyda chyfraniad gan Ambrose Bebb ar y tywysogion brodorol. Bydd yn ymweld â Chaerdydd ar Hydref 2. Mae'n gwahodd W. J. Gruffydd i gael te neu ginio gydag ef yn y Royal Hotel y pryd hwnnw. O.N. Y mae'n falch iawn o beidio â bod ym merw gwleidyddiaeth yn awr. Fe achosodd ddigon o drafferth pan oedd yn aelod dros Ganol Morgannwg wrth gymharu ofnusrwydd yr aelodau Cymreig gyda beiddgarwch yr aelodau Gwyddelig a'r Suffragettes. Y ffordd o gael sylw John Bull yn Nhy'r Cyffredin oedd drwy daflu bricsen ato. Dyma paham y mae yn edmygu gweithred ddewr arweinwyr Plaid Genedlaethol Cymru. Gan na wyr gyfeiriad trysorydd y Gronfa Amddiffyn y mae'n gofyn i W. J. Gruffydd os y bydd cystal â throsglwyddo cyfraniad iddo.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 274.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
275. vtls005426324 ISYSARCHB22	<p>File - John Hugh Edwards, Llundain, [19]36, Tach. 20. S.W.1,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n hyderu bod W. J. Gruffydd wedi troi ei olygon at yr erthygl a addawodd ar lenyddiaeth y ddeunawfed ganrif. Hoffai ei derbyn ymhen pythefnos.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 275.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>353. vtls005426408 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. R. Hughes, Llundain, SW9, 1937, Gorff. 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n disgwyl gweld W. J. Gruffydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith y noson ganlynol. Hoffai pe bai modd cyhoeddi Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd yn union ar ôl y Cadeirio. Bydd Beirniadaethau Abergwaun a Machynlleth ar werth ymhen wythnos. Bydd cyfrol y Cyfansoddiadau ar werth ar wahân gan y Pwyllgor Lleol. Bu yng Nghaerdydd yn ddiweddar a chael sgwrs gyda G. J. W[illiams] yng Ngwaelod-y-garth a chlywed am 'antics y llys bondigrybwyll a fu'n ceisio mygu'r ymdrafod ar achos Saunders Lewis.' Ceisiodd cyfeillion Machynlleth yn daer i rwystro Ashton rhag anfon ei 'hen lythyr gwirion' i'r Western Mail. Buasai'n well petai W. J. Gruffydd wedi gohirio eu nodion golygyddol hyd y rhifyn nesaf.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 353.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>354. vtls005426409 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. R. Hughes, Llundain, SW9, 1938, Hyd. 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am ei eiriau caredig yn Y Llenor. Ef a fu'n gyfrifol am benodi D. Owen Evans i'r gadeiryddiaeth er iddynt gael 'aml ysgarmes bur gas' yn ystod y deugain mlynedd blaenorol. Mae D. Owen Evans yn gyfrifol am lawer o lwyddiant y Cyngor. Derbyniodd air gan Syr John [E.] Lloyd yn dweud bod y traethawd ar 'Hanes Plwyf Llandebie' yn werth ei gyhoeddi gan Gyngor yr Eisteddfod. Y mae'r gwaith wedi ei drefnu a'i deipio'n ddestlus ac yn barod i'w argraffu. Hwyrach y gallai Gwasg y Brifysgol ei gyhoeddi dros y Cyngor gan ddwyn y ddau fudiad yn nes at ei gilydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p>

	Preferred citation: 354. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
355. vtls005426410 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Llundain, SW9, [19]38, Hyd. 25. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch am lythyr W. J. Gruffydd ac am gael gweld ei lythyr at Cynan. Mae'n sôn am drafodaeth ar ran o Gyfansoddiad yr Eisteddfod a fu'n achos colli tymer sef yr hyn a elwid yn 'Bond yr Orsedd'. Mae'n ymddiheuro am unrhyw ddiffyg a fu yn ystod y trafodaethau i ddeall ei gilydd. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 355. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
356. vtls005426411 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn, 1941, Chwef. 3. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n anfon copi o apêl gan y Prifathro J. Morgan Jones ar ran Cynhadledd er Diogelu Diwylliant Cymru gyda'r un post. Disgwylir i'r swyddogion ei harwyddo a'i hanfon ymlaen at bawb y tybir y bydd iddynt gyfrannu. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 356. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
357. vtls005426412 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn, 1941, Mai 10. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Cydnabod swm o £2. 12s. Y mae'r 'Cofion' yn boblogaidd iawn. Bu'n rhaid argraffu 11,000. Fe'u dosberthir drwy'r eglwysi. Y mae'n amlinellu erthygl, 'Y Tri Hen Bererin', y bwriada ei llunio ar gyfer Y Llenor. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 357. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
358. vtls005426413 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn, 1942, Gorff. 11. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Y mae wedi derbyn beirniadaethau Cynan ac [E.] Prosser Rhys ar gyfer y Goron. Fe'u hanfonodd at yr argraffwyr gan fod y ddau yn dyfarnu'r Goron i'r un cystadleuydd. Gofid i bawb fydd deall nad yw'r prif feirniad [W. J. Gruffydd] yn cytuno â hwy. Hydera y caiff feirniadaeth o law W. J. Gruffydd i'w chyhoeddi yn y Cyfansoddiadau. Mae'n holi a yw W. J. Gruffydd yn golygu bod yn yr Eisteddfod ddydd y Coroni. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>

	Preferred citation: 358. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
359. vtls005426414 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn, 1942, Gorff. 14. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n ddrwg ganddo ddeall bod W. J. Gruffydd yn teimlo'n sâl. Gresyn ganddo hefyd yw methiant W. J. Gruffydd i gytuno â'i gydfeirniaid. Y mae D. R. Hughes yn awgrymu nodyn i'w argraffu yn y Cyfansoddiadau gan na allodd W. J. Gruffydd, oherwydd gwaeledd, lunio beirniadaeth. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 359. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
360. vtls005426415 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn, 1942, Gorff. 16. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Ymddiheuro am y sgwrs radio yngl?n â'r Coroni. Nid oedd yn bwriadu tramgwyddo W. J. Gruffydd. Rhaid cynnwys y nodyn yn y Cyfansoddiadau ac awgrymir argraffu beirniadaeth W. J. Gruffydd yn Y Cymro a'r Faner ar ôl y Coroni gyda chyfle i'r ddau feirniad arall i ateb yn yr un rhifyn. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 360. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
361. vtls005426416 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn, 1942, Gorff. 16. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Copi o lythyr 360 uchod. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 361. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
362. vtls005426417 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn, 1942, Gorff. 31. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Ni chafodd ateb i'w lythyr blaenorol. Hydera fod W. J. Gruffydd yn well erbyn hyn. Mae'n amgau proflen o'r beirniadaethau a'r nodyn. A yw W. J. Gruffydd yn bwriadu dod i Aberteifi i draddodi'r feirniadaeth? Mae cludo pobl y Gogledd o Aberystwyth i Aberteifi yn dal yn broblem. Fe ataliwyd gwerthiant rhaglen yr Eisteddfod yn Aberteifi gan yr heddeidwaid am fod map o'r dre ynddo!. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 362. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i>

	ARCH/MSS (GB0210)	
363. vtls005426418 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn,	1942, Awst 2.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Derbyniodd feirniadaeth W. J. Gruffydd. Mae'n amgau copi o lythyr Gorff. 16 (gw. 361 uchod) i brofi iddo gydnabod hynny eisoes. Mae hefyd yn amgau copi o'r feirniadaeth rhag ofn na chadwyd un ganddo.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 363.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
364. vtls005426419 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn,	1942, Awst 11.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfonodd gopi o feirniadaeth W. J. Gruffydd i'r Cymro, Y Faner ac i Cynan a Prosser Rhys yn wyneb y paragraff personol a gynhwysai. Bydd datganiad byr ganddynt hwythau. Cafwyd Eisteddfod hapus iawn. Cafwyd hwyl yn y Gymanfa Ganu. Yr oedd Bethania (B.) yn llawn fore Sadwrn, Bethania a Chapel Mair yn llawn yn y prynhawn a Bethania, Capel Mair a'r Tabernacl yn llawn yn yr hwyr. Casglwyd £57. 10s. at 'Cofion Cymru'. Y mae'n llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei ethol yn aelod o Gyngor yr Amgueddfa.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 364.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
365. vtls005426420 ISYSARCHB22	File - D. R. Hughes, Hen Golwyn,	1943, Meh. 14.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ysgrifennu i ddiolch i W. J. Gruffydd am ei ran yn trefnu i D. R. Hughes dderbyn gradd anrhydeddus gan Brifysgol Cymru. Cafodd wybod mai W. J. Gruffydd a fydd yn ei gyflwyno yn y seremoni. Mae'n diolch am bob amlygiad o garedigrwydd W. J. Gruffydd tuag ato ar hyd y blynyddoedd. Mae'n rhyfeddu mwy at fawrfrydigrwydd W. J. Gruffydd gan ei fod yn deall fod D. R. Hughes yn perthyn i 'wersyll arall' yn yr etholiad.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 365.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
366. vtls005426421 ISYSARCHB22	File - E. E[rnest] H[ughes], Abertawe,	1938, [Meh.] 5.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am raglen radio 'Dull y Byd hwn'. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 366.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>	

	ARCH/MSS (GB0210)	
367. vtls005426422 ISYSARCHB22	File - [E.] Ernest [Hughes], Abertawe,	[1942].
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	
	Trafod rhestr etholwyr y Brifysgol. [D. Brynmor] Anthony yn anfonon derbyn cyfeiriad newydd gan neb ond yr etholwr ei hunan. Mae cyfran helaeth o gefnogwyr y Blaid â chyfeiriadau sefydlog gan fod cynifer ohonynt yn wrthwynebwr cydwybodol neu'n athrawon, gweinidogion, etc. Yn anffodus mae'r rhai a fyddai'n pleidleisio i W. J. Gruffydd wedi eu gwasgaru yn y lluoedd arfog ac yng ngwasanaeth y llywodraeth. Mae'n awgrymu sut y gellid delio â'r fath sefyllfa. Trefnu cyfarfod etholiadol yn Abertawe ar gyfer W. J. Gruffydd ar ôl gêm rygbi rhwng Cymru a'r R.A.F. Atodiad Mae'n anfon drafft o lythyr y gellid ei anfon at bobl sydd yn debygol o bleidleisio dros W. J. Gruffydd i'w hatgoffa i newid eu cyfeiriadau ar restr y Gofrestrfa os oes angen.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>	
	Preferred citation: 367.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i>	
	ARCH/MSS (GB0210)	
368. vtls005426423 ISYSARCHB22	File - [E.] Ernest [Hughes], Abertawe,	1943, Ion. 31.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	
	Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei fuddugoliaeth. Yr oedd yn well canlyniad nag y gallai ei ddisgwyl o gofio cyflwr Cofrestr y Graddedigion. Y mae ymateb da i'w fuddugoliaeth. Mae'r pleidleisio trwm yn arwydd o'r diddordeb mawr a grëwyd gan yr etholiad.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>	
	Preferred citation: 368.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i>	
	ARCH/MSS (GB0210)	
369. vtls005426424 ISYSARCHB22	File - Griff. [W. Hughes], Blaenau Ffestiniog,	1942, Ebrill 9.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	
	Mae'n ysgrifennu at W. J. Gruffydd er mwyn datgelu mai ef a anfonodd barseil o siwgwr, menyng Cymreig a thorth o fara gwyn ato'n ddi-enw. Bwriadai i'r weithred fod yn un ddirgel ond rhag ofn y byddai W. J. Gruffydd yn drwgdybio'r parsel mae'n ysgrifennu ato yn awr. Fe'u bwriedir i gynorthwyo W. J. Gruffydd i wella wedi salwch. Mae'n amgau papur ar athroniaeth crefydd gan ofyn i W. J. Gruffydd roi ei farn arno. Hydera fod Dafydd [mab W. J. Gruffydd] yn iawn, nid oes newyddion am Robert mab Griff W. Hughes. Y maent yn bryderus iawn yn ei gylch.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>	
	Preferred citation: 369.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i>	
	ARCH/MSS (GB0210)	
370. vtls005426425 ISYSARCHB22	File - H. D. Hughes, Caergybi,	[19]36, Rhag. 28.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	

	<p>Diolch am y pleser a gafodd o ddarllen Hen Atgofion. Yr oedd ei ddi-ddordeb yn fwy am ei fod yn adnabod rhai o'r cymeriadau yn dda. Mwynhaodd y bennod ar dad W. J. Gruffydd yn fawr. Bu'n cydweithio ag ef ym mhonc New York ac yr oedd ganddo barch mawr tuag ato. Mwynhaodd hefyd y penodau ar William Parry a'r hen gyfarfodydd llenyddol.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 370.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
371. vtls005426426 ISYSARCHB22	<p>File - H. Ellis Hughes, Coedpoeth, Wrecsam, 1941, Chwef. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu at W. J. Gruffydd i ddiolch iddo am ei gyfraniadau i'r Llenor. Y mae'r ysgrifau diweddaraf yn rymus, yn gywir ac mor amserol. 'Hyfrydwch pennaf pob un sy'n caru Cymru yw'r rhyddid personol i famu ei chlefyd a'r feddyginiaeth drosto ei hun'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 371.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
372. vtls005426427 ISYSARCHB22	<p>File - H. M. Hughes, Caerdydd, 1929, Ebrill 30.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Cydymdeimlad ar farwolaeth tad W. J. Gruffydd. Mae'n ddrwg hefyd ganddo am y newydd na chafodd W. J. Gruffydd y swydd yn y Coleg.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 372.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
373. vtls005426428 ISYSARCHB22	<p>File - H. M. Hughes, Caerdydd, 1929, Gorff. 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Cododd dau bwynt yng nghyfarfod Llŷs y Brifysgol a'r Cynulliad Graddio. Yn gyntaf dywedodd yr Athro Morgan Watkin nad oedd athrawon Cymraeg y colegau yn ieithegwyr ond yn llenorion a'u bod yn anwybyddu dysgu iaith ar draul llenyddiaeth. Gwelai hyn fel adlewyrchiad o'r hyn a ddywedwyd am W. J. Gruffydd adeg penodi prifathro, sef nad oedd ond journalist. Yn ail wrth i Henry Lewis gyflwyno Dyfnallt ar gyfer ei radd anrhydeddus, fe ddywedodd i Dyfnallt godi'r Tyst 'o fod yn bapur 'distadl' enwadol i fod yn bapur cenedlaethol o fri a dylanwad'. Hoffai wybod pa un ai Henry Lewis ai W. J. Gruffydd a ysgrifennodd hyn gan ei fod yn sen a sarhad ar y cyn-olygyddion i gyd gan gynnwys H. M. Hughes. Dylai'r sylw gael ei ddileu o'r cofnodion.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 373.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>374. vtls005426429 ISYSARCHB22</p>	<p>File - H. M. Hughes, Caerdydd, 1929, Gorff. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr W. J. Gruffydd. Mae'n derbyn ei esboniad yngl?n â'r cyfeiriad at olygyddiaeth Y Tyst. Gwnaeth Morgan Watkin ddrwg drwy dynnu sylw ato'i hunan cymaint yng nghyfarfod y Llys. Mae'n achwyn na chafodd ei anrhydeddu gan Brifysgol Cymru. Os yw W. J. Gruffydd angen cynorthwywr yn yr adran bydd yn rhaid iddo anfon cais, yna gall H. M. Hughes a Lleufer ac eraill wasgu am gael rhywun i'w gynorthwyo.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 374.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>375. vtls005426430 ISYSARCHB22</p>	<p>File - H. Harold Hughes, Bangor, at Iorwerth Peate, 1937, Gorff. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cyfiawnhau ei benderfyniad i beidio ag anfon slipiau yn hysbysebu cofiant O. M. Edwards gyda rhifyn Mehefin o Arch. Camb. Nid oedd gan y penderfyniad ddim i'w wneud â safbwynt gwleidyddol W. J. Gruffydd. Wrth ailfeddwl fe benderfynodd ganiatáu'r cais oherwydd statws uchel yr awdur a phwysigrwydd y gwaith. O.N. Oni fu i W. J. Gruffydd weithredu yn ôl ei safbwynt gwleidyddol yngl?n ag Eisteddfod Machynlleth?. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 375.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>376. vtls005426431 ISYSARCHB22</p>	<p>File - H. Harold Hughes, Bangor, 1937, July 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfonodd Iorwerth Peate ddyfyniad o'r Llenor yngl?n â chofiant O. M. Edwards. Y mae'n amgau copi o'i ateb iddo (375 uchod). Teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 376.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>377. vtls005426432 ISYSARCHB22</p>	<p>File - H. Harold Hughes, Bangor, 1937, Gorff. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Am fod y galw am y slip hysbysebu wedi bod cymaint, methwyd â chyflawni'r cwbl. Rhoddodd Ifan ab Owen Edwards rybudd na ddylid gwneud dim ar hyn o bryd. Teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 377.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>378. vtls005426433 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. R. Lloyd Hughes, Llanymynech, [19]52, Mawrth 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae yn ddisgynnydd i Huw Huws o Glynnog a oedd yn aelod o 'deulu' Trefeca, ac yn frawd i'r Parch. Howell Harris Hughes. Hanes ei dad John Richard Hughes y Diwygiwr. Credodd y byddai hanes y teulu yn gwneud rhaglen radio ddiddorol ond gwrthodwyd yr awgrym gan y BBC. Meddylodd wedyn lunio llyfr ac anfonodd at Iorwerth Peate. Teimlai yntau y byddai cyfrol yn ddiddorol iawn neu gyflwyno'r deunydd i'r Llenor ar ffurf tair ysgrif. Mae'n gofyn am farn W. J. Gruffydd ar y mater. Rhydd grynoded o'i hanes personol. Teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 378.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>379. vtls005426434 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Joseph Hughes, Aston Hill ger Penarlâg, 1938, Awst 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am ei safiad cadarn dros y Gymraeg ar y radio y Llun blaenorol. Gelyniaeth yr ardalwyr at Gymreictod.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 379.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>380. vtls005426435 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Linnie [Hughes], Llundain, SE3, [1928], Ion. 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae Ifan [ab Owen Edwards] wedi gofyn iddi anfon llythyrau oddi wrth [Owen Edwards] sydd yn ei meddiant. Nid oes ond pethau personol ynddynt ond y mae yn eu gyrru beth bynnag. Hanes marwolaeth ei thad bythefnos ynghynt.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 380.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>381. vtls005426436 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Linnie [Hughes], Llundain, SE3, [1928], Chwef. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon yr unig lythyrau y gall Mrs Hughes gael hyd iddynt. Y llythyrau a dderbyniwyd 'yn nyddiau'r brofedigaeth' yn unig a gadwyd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 381.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>382. vtls005426437 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [W. J. Gruffydd] at Linnie Hughes, Llundain, SE3, 1928, Chwef. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ei llythyr. Efallai y caiff Mrs Hughes afael ar [lythyrau] eraill eto. Gallai Linnie Hughes roi llawer o wybodaeth iddo am Owen Edwards ac awgryma iddi daro unrhyw beth o bwys ar bapur. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 382.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>383. vtls005426438 ISYSARCHB22</p>	<p>File - LL. W. Hughes, Bethel, [19]29, Chwef. 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon rhestr o enwau caeau'r ardal at W. J. Gruffydd. Awgrymu enwau pobl eraill a allai gofio enwau caeau nas rhestrwyd ganddo.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 383.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>384. vtls005426439 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Moelwyn Hughes, Penbedw (Birkenhead), 1927, Awst 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon copi o'r ail argraffiad o'i bregethau yn rhodd i W. J. Gruffydd. Hwyrach i'r cyntaf fynd i golli gan na wnaethpwyd sylw ohono. Hoffai dderbyn barn W. J. Gruffydd arno naill ai mewn llythyr neu yn Y Llenor. Mae'n amgau adolygiadau ar ei waith hefyd. Teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 384.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>385. vtls005426440 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Percy Hughes, Llundain, NW2, [?1930au].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am araith W. J. Gruffydd ar y radio. Y mae'n derbyn anrhydedd gan yr Orsedd ond ni wyr paham.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 385.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>386. vtls005426441 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Percy Hughes, Llundain, NW10, 1942, Hyd. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Mae'n ysgrifennu i ddiolch am Hen Atgofion. Bob tro y bu W. J. Gruffydd yn beirniadu ei waith cafodd ei chwipio ganddo nes iddo ei lisenwi yn 'Himmler y Bwrdd Beirniaid'. Wedi darllen y llyfr fe wêl nad yw W. J. Gruffydd yn ddyn cas yn y bôn neu ni fuasai wedi ysgrifennu mor wych am ei fam. Atgofion am ardal Talwrn, Môn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 386.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
387. vtls005426442 ISYSARCHB22	File - R. N. Hughes, Salford,	1938, Meh. 6.	
	<p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am raglen W. J. Gruffydd ar y radio y noson flaenorol. Clywodd sôn yn ei febyd am lawer o gymeriadau Llanddeiniolen ac am bregethau Robert Ellis. Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am yr Hen Atgofion.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 387.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
<p>Cyfes Series 388-431. vtls005426443 ISYSARCHB22: Llythyrau: Hyde-Jones, A. Gwynn,</p> <p><u>Dyddiad Date:</u> 1911-45. (dyddiad creu) (date of creation)</p> <p><u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)</p> <p><u>Nodyn Note [generalNote]:</u></p> <p>Preferred citation: 388-431.</p>			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
388. vtls005426444 ISYSARCHB22	File - Douglas Hyde, Dulyn,	1912, Rhag.7.	
	<p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae Senedd Prifysgol Genedlaethol Iwerddon yn penodi llefarydd i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Brenhinol ar y Gwasanaeth Sifil. Un o'r pwyntiau a godir fydd lle'r Wyddeleg yn y gyfundrefn. Mae'n hyderu y gwneir yr un peth dros y Gymraeg yng Nghymru. Os na lwyddir i hawlio priod le i'r ieithoedd Celtaidd yn awr fe gollir y cyfle am byth.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 388.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		

<p>389. vtls005426445 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ja[me]s F. Jackson, Newport, Ynys Wyth, 1937, Mawrth 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifenna at W. J. Gruffydd fel Cymro a heddychwyr i ddiolch iddo am ei erthygl yn y Daily Herald y diwrnod blaenorol. Bu'n wrthwynebydd cydwybodol yn y Rhyfel Mawr ac o ganlyniad i hynny colodd y cyfle i gael swydd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Gall ddeall hunan-aberth y tri a weithredodd [yngl?n â'r Ysgol Fomio yn Llyn]. Mae'r dosbarth sy'n rheoli yn Lloegr yn ystyried y Cymry yn un o'r 'lesser breeds without the law', chwedl Kipling. Mae'n rhagweld bod y llywodraeth yn cynllunio ar gyfer rhyfel mawr arall. Y mae heddychiaeth llawer o Gymry yn fygythiad i'w paratodau, sydd yn rheswm da dros iddynt wrthwynebu cenedlaetholdeb Cymreig. Dylid sefydlu mudiad gwrtharfogi yng Nghymru i geisio rhwystro cynlluniau'r llywodraeth. Cerdyn ymweld Jas. F. Jackson, F.G.S., Curadur Anrhydeddus, Amgueddfa Ddaearg Ynys Wyth, Sandown.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 389.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>390. vtls005426446 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Kenneth Jackson, Cambridge, Mass., U. D. A., 1937, Tach. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n ateb y pwyntiau a wnaeth T. J. Morgan mewn adolygiad yn Y Llenor ar ei lyfrau yn trafod y canu gwirebol a'r canu natur Celtaidd. Dechreuodd astudio Cymraeg yn 1931 pan oedd yn 21 oed. Ni welodd erthygl T. J. Morgan tan 1934 pan oedd yn paratoi i deipio ei draethawd. Ni chrybwyllodd nodyn T. J. Morgan oherwydd brys. I'r Athro Chadwick, yn hytrach, y mae ei ddyled ef am y syniad. Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am adolygiad caredig ganddo ar Celtic Nature Poetry yn Medium Aevum.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 390.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>391. vtls005426447 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. Emrys James, ['Dewi Emrys'], Castell-nedd, 1927, Chwef. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau telyneg 'Cwsg' ar gyfer Y Llenor [cyf. VI (1927), t. 71]. Mae'n gresynu iddo fethu â tharo arni wrth baratoi Rhigymau'r Ffordd Fawr. Canmol beirniadaeth 'odidog' W. J. Gruffydd ar gystadleuaeth y Goron yn Abertawe. Dyna'r math o feirniadaeth sydd ei hangen ar farddoniaeth Cymru heddiw 'yn wyneb cymaint o sbwriel pregethwrol a bentyrwyd arni yn enw awen'. Gwrthododd D. Emrys James bum gini gan bapur newydd a ofynnodd iddo ymateb i feirniadaeth W. J. Gruffydd. Nid personau ond eu gwaith sy'n cyfrif i W. J. Gruffydd. Canmolir Y Llenor. Mae'n nodi tloidi llenyddiaeth Cymru o safbwynt cynnyrch gan enweiryd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 391.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>392. vtls005426448 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. Emrys James, ['Dewi Emrys'], Llundain, 1927, Meh. 17.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofynnwyd iddo ysgrifennu erthygl ar feirdd cyfoes Cymru ar gyfer John O'London's Weekly. Mae'n gofyn i W. J. Gruffydd anfon cerdd o'i ddewis ato yn Saesneg a'i sylwadau ar farddoniaeth gyfoes yng Nghymru. Cyhoeddir yr erthygl adeg Eisteddfod [Genedlaethol] Caergybi. Cafodd swydd sy'n talu'n dda yn Fleet Street. Cyhoeddwyd cerdd a stori Saesneg o'i eiddo a chafodd dâl amdanynt. Gwendid Cymru yw'r duedd i gymysgu celfyddyd a moesoldeb. Mae gweinidogion a blaenoriaid anghydfurfiol Cymru yn elynion celfyddyd. Hyn sydd i gyfrif na chafwyd bardd mawr o Gymro ers dyddiau Dafydd ap Gwilym. Bydd ganddo bethau brathog i'w dweud am elynion celfyddyd yng Nghymru yn Tit-Bits ymhen wythnos. Mae ganddo gyfrol o farddoniaeth Saesneg yn nwylo cyhoeddwr.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 392.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>393. vtls005426449 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. Emrys [James, 'Dewi Emrys'], 1928, Gorff. 11. Llundain,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ddiolchgar ac yn llawen iawn o dderbyn cystal cannoiaeth gan W. J. Gruffydd ar ei gyfrol o gerddi Saesneg, [Rhymes of the Road (Llundain, 1928)]. Mae'n anfon rhagflas o ddiwyg y gyfrol orffenedig. Bu'n cywiro proflenni y diwrnod blaenorol. Maent yn rhuthro i gyhoeddi'r llyfr ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Hoffai petai W. J. Gruffydd yn adolygu'r gyfrol un ai yn y Western Mail neu yn y South Wales Daily News. Cyfarfu â Charadog Evans y noson gynt a buwyd yn sôn am W. J. Gruffydd. Cafodd air â [Rhys] Hopkyn Morris y prynhawn Gwener cynt a dywedodd fod W. J. Gruffydd wedi rhoi anerchiad gwych yn yr Undeb. Adroddodd D. Emrys James ei gerdd Saesneg 'Magdalene' i Hopkyn Morris. Ceir adysgrif o'r gerdd honno ar ddiwedd y llythyr.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 393.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>394. vtls005426450 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. Emrys James ['Dewi Emrys'], 1937, Gorff. 8. Llundain,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae ar orffen llawlyfr ar y gynghanedd sef Odl a Chynghanedd ar gyfer ysgolion, beirdd ieuainc a dosbarthiadau nos. Mae'n bwriadu cynnwys darnau o waith W. J. Gruffydd fel enghreifftiau yn y gyfrol ac y mae'n gofyn caniatâd i wneud hynny. Tair pennod yn unig sydd ganddo ar ôl heb eu cwblhau. Mae T. Gwynn Jones yn darllen y gyfrol cyn iddi fynd i'r wasg ac ef hefyd fydd yn ysgrifennu'r rhagair.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 394.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>395. vtls005426451 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [David] Gwilym [James], Rhiwbeina, 19[?40au], Llun.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n anfon 'Gwryfai' [?cerdd Saesneg] gan obeithio nad yw yn rhy drist. Y mae'n mynd i Aber[ystwyth] ar gyfer cyfweiliad. Bydd yn dda ganddo pan fydd y cyfan drosodd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p>

	<p>Preferred citation: 395.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
396. vtls005426452 ISYSARCHB22	<p>File - Edwin Stanley James, Castellnewydd Emlyn, [19]43, Chwef. 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei ethol i'r Senedd. Y mae wedi cyfieithu 'Y Tlawd Hwn' a 'Cofio' Waldo Williams i'r Saesneg. Cred mai'r 'Tlawd Hwn' yw un o'r cerddi gorau a ddarllenodd yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n dangos ei gyfieithiad i W. J. Gruffydd er mwyn iddo benderfynu os yw'n cadw at ysbryd y gwreiddiol. Mae ganddo tua 65 o gyfieithiadau bellach ac y mae'n awyddus i'w cyhoeddi. Mae'n crybwyll ei fethiant wrth ysgrifennu barddoniaeth Gymraeg. Fersiynau llawysgrif a theipysgrif o'i gyfieithiad o'r 'Tlawd Hwn'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 396.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
397. vtls005426453 ISYSARCHB22	<p>File - Eileen James, Llanbedr Pont Steffan, 1944, Hyd. 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n dal yn awyddus i sefyll yr arholiad [anrhydedd] ac y mae'n debyg y daw ei swydd i ben pan agorir yr ysgol eilradd newydd yn Llanbedr.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 397.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
398. vtls005426454 ISYSARCHB22	<p>File - T.G. James, Casnewydd, [19]29, Ebrill 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n crybwyll swydd wag ac yn rhyfeddu sut y gall rhai pobl ymddwyn yn y fath fodd isel a chwerw. Gall Dr Wade sicrhau W. J. Gruffydd sut y bu i T. G. James [Cyfarwyddwr Addysg Mynwy] ymdrechu i lywio'r Cyngor. Rhaid bod Dr Hughes wedi esbonio wrth W. J. Gruffydd sut y digwyddodd pethau. Nid oedd wedi dychmygu y gallai llai na thri ymddangos gerbron.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 398.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
399. vtls005426455 ISYSARCHB22	<p>File - Dafydd Jenkins, ['y Gyfraith'], Caerfyrddin, 1936, Hyd. 30.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon stori fer at W. J. Gruffydd. Dealla fod Y Llenor yn talu am ysgrifau. Hoffai wybod ai gwir hyn gan na chafodd ei dalu am ei gyfraniad 'Traddodiad Eglwys Caergaint' [Y Llenor XIV (1935), tt. 140-51].</p>

	<p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 399.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>	
400. vtls005426456 ISYSARCHB22	<p>File - E. H. Jenkins, BBC, Caerdydd,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n cynnig ffi o ddeg gini i W. J. Gruffydd am bob perfformiad o'i ddrama 'Dull y Byd Hwn'. Gellid defnyddio'r ddrama gan yr awdur ond byddai'r sgript yn para'n eiddo i'r Gorfforaeth. Hoffai dderbyn cydsyniad W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 400.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>	1938, Mai 16.
401. vtls005426457 ISYSARCHB22	<p>File - [J.] Gwili [Jenkins], Castell-nedd,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> [Trafod goreuon cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl 1929]. Y mae Wil Ifan yn bleidiol i 'Llwyd y Berth'. Hoffai dderbyn barn W. J. Gruffydd cyn gynted ag y bo modd. Y mae'n rhestru'r goreuon ganddo ef.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 401.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>	[1929], Dydd Iau.
402. vtls005426458 ISYSARCHB22	<p>File - [J.] Gwili [Jenkins], Castell-nedd,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Rhwng 'O'r Gilfach' a 'Llwyd y Berth' y mae'r Goron. Mae mwy o feddwl gan y cyntaf a mwy o ganu naturiol gan yr ail. Mae Gwili yn ffafrio 'O'r Gilfach' ac y mae'n awyddus i Wil Ifan ddod i'r un fan er mwyn bod yn unfarn ar y pwnc. [Enillwyd y Goron gan 'O'r Gilfach' sef Caradog Prichard].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 402.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>	[1929], Gwener.
403. vtls005426459 ISYSARCHB22	<p>File - Llewelyn Jenkins, Caerdydd,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Wrth ddarllen Y Morysiaid (Caerdydd, 1939) [o waith W. J. Gruffydd] daeth ar draws gyfeiriad at gymeriad yr Arglwydd Lisburne y pryd hwnnw. Yr oedd tad a thaid Llewelyn Jenkins yn talu rhent i deulu Lisburne am fferm Cwmeurig ger Pontrhydfendigaid a bu raid i'w dad adael y fferm am osod magl i ddal cwingod.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p>	[19]40, Ion. 22.

	Preferred citation: 403. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
404. vtls005426460 ISYSARCHB22	File - R. T. Jenkins, Bangor, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n anfon erthygl gan Alun Thomas ar gyfer Y Llenor ('Rhai Agweddau a r Broblem Diarfogi', Y Llenor XIV [1935, tt. 51-62]). Bu'n rhaid ei chwtoegi tipyn. Y mae'n gofyn i W. J. Gruffydd ei chynnwys yn Y Llenor ar fyrder er mwyn i R. T. Jenkins fedru wynebu'r awdur gan iddo ei chadw cyhyd. Daeth [David] Hughes Parry at R. T. Jenkins yn Llundain yn brudd yr olwg a'i hysbysu nad oedd W. J. Gruffydd am barhau gyda chofiant O. M. Edwards. Cafodd R. T. Jenkins wahoddiad i fynd ymlaen â'r dasg. Mae'n pwysu ar W. J. Gruffydd i fynd â'r maen i'r wal. Rhydd hanes ei ymweliad â'r Gyfadran Ddiwinyddol yn Amwythig y diwrnod blaenorol. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 404. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1935, Chwef. 23.
405. vtls005426461 ISYSARCHB22	File - R. T. Jenkins, Bangor, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n gofyn am broflen ar gyfer cyfraniad sydd ganddo i'r Llenor. Mae'n anfon gwahanlith o ysgrif o'i waith a ymddangosodd yn y Sociological Review, a chopi o'r Goleuad am ei fod yn crybwyll W. J. Gruffydd yno. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 405. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1935, Mai 9.
406. vtls005426462 ISYSARCHB22	File - R. T. Jenkins, Bangor, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Clywodd si y bwriedir dileu cadair Hanes Cymru yng Nghaerdydd a neilltuo darlithydd i ddysgu'r pwnc dan ofal William Rees. Mae'n ymateb i awgrym W. J. Gruffydd y gallai ef ddod i Gaerdydd yn athro. Y mae'n fodlon ystyried y swydd o'i chynnig iddo ond fe ddibynnai'r ateb ar ymateb Cyngor Coleg Bangor. Cynnig erthygl fer ar 'Hywel Harris ym Mryste' i'r Llenor. ['Bryste a Threfeca', Y Llenor XIV (1935), tt.232-44]. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 406. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1935, Hyd. 28.
407. vtls005426463 ISYSARCHB22	File - R. T. Jenkins, Bangor, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	1936, Medi 23.

	<p>Trefnu dychwelyd llawysgrif i W. J. Gruffydd pan ddaw i Gaerdydd dros y Sul sy'n dilyn. [? llawysgrif cofiant O. M. Edwards]. Awgrymiadau ar sut i wella'r gwaith. Nid oes ganddo ddim ar gyfer Y Llenor, y mae'r BBC yn llyncu ei holl amser.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 407.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
408. vtls005426464 ISYSARCHB22	<p>File - R. T. Jenkins, Bangor, 1938, Mai 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Anfon deunydd i'r Llenor. Mae'n disgwyl gweld W. J. Gruffydd yn Amwythig a Llundain ddiwedd yr wythnos ddilynol.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 408.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
409. vtls005426465 ISYSARCHB22	<p>File - R. T. J[enkins], Bangor, 1938, Hyd. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n pwysu ar W. J. Gruffydd i beidio â rhoi'r gorau i gyhoeddi ei nodiadau golygyddol yn Y Llenor. Gwnaethant les mawr eisoes a hwyrach mai ar ôl ei farw y bydd iddynt ddwyn ffrwyth. Mae'n ei annog i ddal ymlaen gyda'r Llenor hyd at flwyddyn ei jiwibili.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 409.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
410. vtls005426466 ISYSARCHB22	<p>File - R.T. Jenkins, Bangor, 1939, Hyd. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Drwg ganddo glywed bod W. J. Gruffydd o'r farn na ellid cynnal Eisteddfod Genedlaethol yn Aberpennar yn 1940 oherwydd y Rhyfel. O'r 25 ar y Pwyllgor Gwaith a bleidleisiodd, y mae 22 dros gynnal yr eisteddfod a thri yn erbyn. Mae'n gofyn iddo ailystyried ei bleidlais. Gellir ystyried llogi'r pafiliwn fel buddsoddiad. Y mae cyfleusterau teithio wedi gwella - y Gwr wedi ychwanegu at y trenau rhwng Llundain a Chaerfyrddin. Mae angen dysgu gwerau i bwyllgor lleol Pen-y-bont.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 410.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
411. vtls005426467 ISYSARCHB22	<p>File - R. T. Jenkins, Bangor, 1939, Rhag. 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p>

	<p>Mae wedi cael cais i adolygu llyfr [W. Ambrose] Bebb yn Archaeologia Cambrensis ond byddai'n well ganddo ei adolygu yn Y Llenor. Mae'n cynnig gwneud hynny. [Gweler adolygiad gan R. T. Jenkins ar Cyfnod y Tuduriaid W. Ambrose Bebb yn Y Llenor XIX (1940), tt.102-6].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 411.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
412. vtls005426468 ISYSARCHB22	<p>File - R. T. Jenkins, Bangor, 1940, Medi 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Rhydd hanes Pwyllgor Brys yr Eisteddfod a gyfarfu yng Nghaer y dydd Gwener blaenorol. Clywodd fod Ceridwen, chwaer W. J. Gruffydd, wedi ei hanafu pan fomiwyd y Rhos. Holi am argraffwyr Y Llenor gan i'r proflenni ddod o Landysul yn hytrach nag oddi wrth Hughes a'i Fab. Syfrdanwyd y Pwyllgor Brys o glywed fod [?T. I.] Ellis wedi cael cynnig swydd yn ddarlithydd yn y Clasuron yn Llanbedr. Teimlai rhai y dylai Ellis weithio heb dâl fel Ifan [ab Owen Edwards] gyda'r Urdd. Dadleuai Saunders [Lewis] a Moses Gruffydd y dylid ei dalu fel y telid J. E. Jones gan y Blaid. Y mae felly yn neilltuol bwysig i W. J. Gruffydd fod yn y pwyllgor nesaf.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 412.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
413. vtls005426469 ISYSARCHB22	<p>File - R.T. J[enkins], Bangor, 1941, Ebrill 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Sôn am eitem ganddo ar y radio a ddarledwyd i lanw bwlch rywbyrd. Os byddai o fudd i'r Llenor mae'n awgrymu i W. J. Gruffydd ysgrifennu at Watkin Jones i ofyn a ydyw'n rhydd o hawlfraint. Sôn am gynhadledd 'dila' yn Aberystwyth.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 413.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
414. vtls005426470 ISYSARCHB22	<p>File - R. T. Jenkins, Bangor, 1941, Medi 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon copi clawr caled o Storiâu Gwallter Map at W. J. Gruffydd. Holi os yw am gyhoeddi efelychiad R. T. Jenkins o gerdd [A. H.] Clough 'Say not, the struggle nought availeth' [sef 'Gwawr', Y Llenor XX (1941), t. 163]. Mae'n trafod newid y gair 'goreuro' yn y llinell 'olaf i 'disgleirio'. Crybwyllir casgliad o gerddi, y Detholiad Rhyddid sy'n mynd i gynnwys cerdd W. J. Gruffydd 'Y Diwygiwr'. Diolch i W. J. Gruffydd am ei lythyr cryf i gefnogi achos [Iorwerth] Peate [yn yr Amgueddfa Genedlaethol].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 414.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>415. vtls005426471 ISYSARCHB22</p>	<p>File - R. T. J[enkins], Bangor, 1941, Medi 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon copi o lythyr od a dderbyniodd. Hola paham y bu i W. J. Gruffydd hepgor gwaith Ann Griffiths o'i Flodeugerdd. Cafodd flas arbennig ar ddetholion o 'Storm' 'Islwyn'. Mae wedi pwysu ar yr Eisteddfod i gynnig gwobr am drefnu detholion o'r 'Storm'. Mae newydd ddarllen A Buried Life gan Percy Withers am A. E. Housman ac yn dyfynnu tamaid.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 415.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>416. vtls005426472 ISYSARCHB22</p>	<p>File - R. T. J[enkins], Bangor, 1941, Hyd. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n derbyn awgrym W. J. Gruffydd y gallai cynnwys efelychiad o waith J[ohn] M[orris] J[ones] ymddangos fel sarhad ar y bardd. Y mae wedi cynnig enw D. R. Hughes, Hen Golwyn, ar gyfer gradd anrhydeddus am yr ail flwyddyn yn olynol. Y mae'n poeni am y rhwyg sy'n datblygu rhwng D. R. Hughes a'i hen gyfaill mebyd Harri Ffransis sydd hefyd yn byw yn Hen Golwyn. Bu bron i Eisteddfod Bae Colwyn 1941 beidio bod oherwydd anhyblygrwydd a rhagfarnau Harri Ffransis. Mae hyn yn resyn gan fod brwdfrydedd a gwladgarwch Harri Ffransis y tu hwnt i bob amheuaeth. Hwyrach bod tuedd yn D. R. Hughes i fod braidd yn unbenaethol. Mae'n gofyn am help W. J. Gruffydd i gael papur ar gyfer Cofion Cymru oddi wrth y 'Paper Controller'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 416.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>417. vtls005426473 ISYSARCHB22</p>	<p>File - R. T. [Jenkins], Bangor, 1942, Ebrill 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n dda ganddo glywed bod W. J. Gruffydd yn gwella ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol. Gwelodd arwyddion o ddigalondid yn nodiadau golygyddol Y Llenor. Mae'n ei annog i beidio â gwangalonni. Sôn bod rhai o ddilynwyr y Blaid yn dweud bod Llais Rhyddid yn gwbl ddi-alw-amdano. Dyry enghraifft o fachgen yn y lluoedd arfog a werthfawrogodd y gyfrol yn fawr iawn. Llongyfarch W. J. Gruffydd ar Y Llenor - 'tipyn ysgrif'. R. T. Jenkins yw'r peth lleiaf ei ddiddordeb ynddo ['Dafydd ap Gwilym a Cheredigion', Y Llenor XXI (1942), tt. 34-6]. Mae'n anfon copi o'r Traethodydd am iddo grybwyll enw W. J. Gruffydd ynddo. Holi am Dafydd, mab W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 417.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>418. vtls005426474 ISYSARCHB22</p>	<p>File - R. T. Jenkins, Bangor, 1942, Gorff. 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Roedd yn ddrwg ganddo glywed bod W. J. Gruffydd yn dioddef o'r conjunctivitis. Hydera y gall ddod i Aberteifi. Drwg ganddo hefyd glywed am yr helynt yngl?n â beirniadaeth y Goron. Bu am dro o gwmpas Bro Morgannwg rhwng gwahanol gyfarfodydd y Brifysgol yng Nghaerdydd. Hysbysu W. J. Gruffydd ei fod wedi ysgrifennu nofel fer [Orinda]. Fe'i bwriadodd ar gyfer Y Llenor 'ond aeth dros ben llestri'. Amlinella ei gynlluniau yn ystod Eisteddfod Aberteifi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 418.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
419. vtls005426475 ISYSARCHB22	<p>File - R. T. J[enkins], Bangor, 1942, Medi 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Dychwelyd proflen. Esbonio'r dryswch a fu yngl?n â chrybwyll emynau Nathaniel Williams yn ei erthygl ['Fy Llyfr Emynau Newydd'] yn Y Llenor [XXI (1942), tt. 65-74]. Maent yn paratoi lluniau ar gyfer Orinda. Anfonodd enw D. R. [Hughes] unwaith eto ar gyfer gradd anrhydeddus.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 419.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
420. vtls005426476 ISYSARCHB22	<p>File - R. T. [Jenkins], Bangor, 1948, Mawrth 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch o glywed bod W. J. Gruffydd lawer yn well. Hanes y tro trwstan pan fu R. T. Jenkins yn chwilio am W. J. Gruffydd yn Chertsey ac yn chwilio'n ofer. Trafod y posibilrwydd o roi ymreolaeth i [Iorwerth] Peate yn Sain Ffagan. Hanes y pwyllgor lle trafodwyd y mater. Mae Myfanwy yn hapus iawn ar staff Ysgol Glanadda. Glyn Roberts fydd olynnydd R. T. Jenkins ym Mangor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 420.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
421. vtls005426477 ISYSARCHB22	<p>File - Jesus College Gaudy, Rhydychen, 1936, Hyd. 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Bwydlen yr uchod. Printiedig.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 421.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
422. vtls005426478 ISYSARCHB22	<p>File - John T. Jôb, Abergwaun, 1929, Ebrill 30.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Cydymdeimlo ar achlysur marwolaeth tad W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 422.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
423. vtls005426479 ISYSARCHB22	<p>File - Edw[ard] T. John, [19]11, Mai 28. Llanfairpwllgwyngyll,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr diddorol. Mae'n falch o glywed bod yr elfen fwyaf ystyriol yng ngharfan Young Wales yn gefnogol i'w syniadau. Cafodd ei siomi hytrach gan The League of Young Liberals. Mae'n dda ganddo weld bod W. J. Gruffydd yn prisio'r farddoniaeth ddiweddar cystal. Credai y byddai dadeni ym myd yr awen o weld y beirdd yn ailgydio yn themgu y Mabinogion. Y mae'n credu y dylai Cymru gael rheolaeth dros ei hadnoddau naturiol. Mae'n cytuno â'r angen i bregethu efengyl Cenedlaetholdeb Cymreig. Mae'n gobeithio cael cyfle i siarad â W. J. Gruffydd ar ddydd Sul, 18 Mehefin, am ei erthygl i'r Beirniad ac am Ddatgysylltiad.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 423.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
424. vtls005426480 ISYSARCHB22	<p>File - Wil[liam] John [A.S.], Tonypandy, 1941, Tach. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Nid yw'n gosod llawer o bwys ar feirniadaeth Y Faner. Mae'n ceisio dyfalu beth a ddigwydd yn achos Iorwerth Peate. Bu cyfarfod rhwng y Blaid Gymreig a Greenwood ac addawodd bopeth a ofynwyd. Bydd pwyllgor bychan y dydd Mercher canlynol yn llunio awgrymiadau i Greenwood ar gyfansoddiad y Pwyllgor Ymgynghorol.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 424.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
425. vtls005426481 ISYSARCHB22	<p>File - [A. E. Jones], 'Cynan', Porthaethwy, 1938, Hyd. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Cafodd ei dristáu o ddarllen yn Y Llenor fod W. J. Gruffydd yn bygwth ymddeol o'r olygyddiaeth. Nid oes pynciau pwysicach na'r Eisteddfod a'r iaith yng ngolwg Cynan ac y mae'n annog W. J. Gruffydd i gadw ymlaen am ddwy flynedd ar bymtheg arall. Mae'n protestio yn erbyn tri chamosodiad a wneir gan W. J. Gruffydd yn ei nodiadau golygyddol [Y Llenor XVII (1938), tt. 1929-31]. Y mae'r cyhuddiadau i gyd yn ymwneud â dewis aelodau o'r Orsedd i feirniadu'r prif gystadleuthau yn yr Eisteddfod. Teimla y bydd raid iddo godi'r mater yn y Pwyllgor Gwaith brynhawn Gwener, onibai i W. J. Gruffydd fod yn barod i gywiro'r paragraff tramgwyddus.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 425.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>426. vtls005426482 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [A. E. Jones], 'Cynan', Porthaethwy, [19]38, Tach. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Yn dilyn y draffodaeth yn y Pwyllgor Gwaith y mae'n parhau i esbonio'r rheolau ynghylch beirniadu ac aelodau'r Orsedd yn yr Eisteddfod. Y mae'n amheus fod yna gorff mawr o feirdd cadeiriol a choronog sydd heb fod yn perthyn i'r Orsedd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 426.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>427. vtls005426483 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [W. J. Gruffydd] at A. E. Jones 1939, Mawrth 30. 'Cynan',</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n rhoi ei farn ar 'yr enwau ar y pared' yn yr Eisteddfod. Nid yw'n gefnogol i'r paneli enwogion. Cam yn ôl i Oes Victoria fyddai llenwi'r pafiliwn â baneri pigfain. Yr oedd yr hen eisteddfodwyr yn credu mewn gwneud y pafiliwn yn debyg i siop printer gwlad. O ddefnyddio baneri pigfain byddai'n debycach i syrcau. Mae'n apelio am foelni a symrwydd ar furiau'r pafiliwn. Os oes raid cael enwau enwogion yna dylid defnyddio llythrennau Rhufeinig plaen. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 427.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>428. vtls005426484 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [A. E. Jones] 'Cynan', Porthaethwy, 1942, Gorff. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Yr oedd yn ddrwg ganddo glywed fod W. J. Gruffydd yn anhwylyd ym Methel. Mae'n esbonio sut yr aethpwyd ymlaen gyda beirniadaeth y Goron er na dderbyniwyd beirniadaeth W. J. Gruffydd. Er pob ymdrech i gysylltu â W. J. Gruffydd methwyd â dod o hyd iddo. Gan fod Prosser Rhys a Chynan yn gytûn mai'r gwaith yn dwyn y ffugenw 'Aneirin' [Herman Jones, Deiniolen] oedd y gorau, fe aethpwyd ati yn unol â'r rheol ynghylch cytundeb dau feirniad, i gynnwys y beirniadaethau yn y gyfrol. Mae'n ofid nad yw W. J. Gruffydd yn cytuno ond nid yw'r ffaith honno yn newid dim ar farn Cynan.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 428.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>429. vtls005426485 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [A. E. Jones] 'Cynan', Porthaethwy, [19]45, Tach. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae Cynan yn falch mai ato ef yr anfonodd W. J. Gruffydd ei brotest yn erbyn y rhan honedig a gymerodd yr Archdderwydd Crwys mewn seremoni yn Wessex pan wisgwyd tarw â garlantau barddol. Mae Cynan yn pwysleisio nad oedd a wnelo'r Orsedd ddim â'r peth. Yr adroddiad yn yr Evening News oedd y peth cyntaf a glywodd ef am y digwyddiad. Yr oedd hawl gan Crwys i dderbyn gwahoddiad personol i fynd yno ond nid oedd ganddo'r hawl i fynd â gwisg a theyrnwialen Archdderwydd Cymru o'r Amgueddfa Genedlaethol heb awdurdod Bwrdd yr Orsedd. Pan dderbyniodd Cynan y toriad gan gyd-</p>

	<p>swyddog ysgrifennodd at Crwys [ceir copi o'r llythyr yn atodiad i'r llythyr hwn] ond cadarnhau iddo fod yno a wnaeth Crwys yn hytrach na gwadu. Dywedodd na chymerodd ran yn nefod addurno'r tarw ac y bu iddo ymgynghori â'r Arwyddfardd cyn mynd. Yr oedd yr Arwyddfardd dan yr argraff mai dros Gyngor yr Eisteddfod yr âi Crwys ac nid fel unigolyn. Bwriada'r Arwyddfardd ysgrifennu i egluro hyn i Fwrdd yr Orsedd a chael Crwys i ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad. Teimla Cynan na ddylai W. J. Gruffydd grybwyll y mater yn Y Llenor. Pwyllgor Gwaith Cyngor yr Eisteddfod yw'r lle priodol i wneud hynny.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 429.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
430. vtls005426486 ISYSARCHB22	File - A. G. P[rys]-j[ones], Porthcawl,	[19]35, Gorff. 24.	
	<p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Canmol W. J. Gruffydd ar erthygl o'i eiddo heb ronyn o wawd na chasineb ynddo, dim ond ymresymiad noeth a chllir.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 430.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
431. vtls005426487 ISYSARCHB22	File - A. Gwynn Jones, Capel Garmon,	1938, Tach. 25.	
	<p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Anfon tair cân i'r Llenor. Y mae dylanwad W. J. Gruffydd ar y cyfnod yn fwy nag y tybia. Y mae cynnwys Y Llenor yn gyfoethog. Wfft i'r 'Junior Member' a chriw ffals y Western Mail.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 431.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
<p>Cyfres Series 432-72. vtls005426488 ISYSARCHB22: Llythyrau: Jones, D. J.-Jones, J. Walter,</p> <p><u>Dyddiad Date:</u> 1928-54. (dyddiad creu) (date of creation)</p> <p><u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)</p> <p><u>Nodyn Note [generalNote]:</u></p> <p>Preferred citation: 432-72.</p>			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
432. vtls005426489 ISYSARCHB22	File - D. J. Jones, Portsmouth,	1937, Mawrth 19.	

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llwyddodd i fenthyg llyfrau ar Ddewi Sant o'r Llyfrgell Genedlaethol a phenderfynodd gadw at bwytiau cyffredinol gan osgoi ffeithiau. Tybia fod ei bregeth yn eithaf llwyddiannus. Ei uchelgais yw cael plwyf tawel gwledig heb fod ymhell o'i sefyllfa bresennol ar gyfer y deg i bymtheg mlynedd sy'n weddill o'i yrfa. Atgoffa W. J. Gruffydd o'u hymweliad â bazaar y Groes Goch yn Ismailia. Holi beth yw ystyr yr enw Mabws ym mhlwyf Llanrhystud a beth yw'r esboniad am y ffurf 'Llangwrddon' ar lafar am enw'r plwyf Llangwryfon.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 432.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>433. vtls005426490 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. J. Jones, Hedgerley, [19]38, Awst 2. Buckinghamshire,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd bleser mawr o glywed anerchiad eneiniedig W. J. Gruffydd i'r Cymmrodorion ar y radio. Y mae'n cytuno â barn W. J. Gruffydd ar beth ddylai cynnwys Y Bywgraffiadur fod. Ni ddylai fod yn 'apologia pro vita sua' i'r Saeson nac yn ymgais i brofi bod Cymru wedi cynhyrchu gwyr mawr. Y mae o'r farn y ddylai gwyr fel Evan Phillips, Castellnewydd Emlyn, a David Lewis, y teiliwr a'r cerddor o Lanrhystud, fod ynddo.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 433.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>434. vtls005426491 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. Tafwys Jones, Caerffili, 1926, Awst 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon copi o'r llyfr Y Cydymaith Goreu at W. J. Gruffydd yn rhodd gyda diolch am bopeth a wnaeth dros Elsie [ei ferch]. Nid yw Elsie wedi cael lle hyd yma, dal i obeithio y maent. Cafodd fenthyg cofiant Hiraethog gan Scorpion a Dewi Ogwen ac y mae wedi dechrau ar ei gwaith. Mae D. Tafwys Jones wedi ei ddarllen yn frysiog ac nid yw'n credu ei fod yn dda iawn. Y mae'n proffwydo y bydd W. J. Gruffydd yn bennaeth un o'r colegau sydd yn, ac sydd i ddod yn wag cyn bo hir.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 434.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>435. vtls005426492 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Dafydd M[orris] Jones, Aberystwyth, [19]52, Gorff. 31.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau tocyn maes parcio ar gyfer yr Eisteddfod. Bydd yn rhaid cael trwydded gan y Prif Gwnstabl i barcio'r car ar rai o strydoedd Aberystwyth. Dylid gwneud cais yn Swyddfa'r Heddlu ar ôl cyrraedd gan ddangos y tocyn amgaeedig. Cynhwysir awgrymiadau ynghylch traddodi beirniadaethau yn y Babel Lên. Teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 435.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
436. vtls005426493 ISYSARCHB22	File - Daniel Jones, Aberpennar,	1936, Hyd. 7.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mynegi ei bleser mawr o gael darllen 'Hen Atgofion' W. J. Gruffydd ar ei hyd yn Y Llenor. Fe'i maged ef mewn ardal debyg, bro mebyd 'Brutus'. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 436. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
437. vtls005426494 ISYSARCHB22	File - David Jones [Blaenplwyf], Aberystwyth,	1952, Mai 17.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> [Llythyr yngl?n â beirniadu cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Aberystwyth]. Y mae [Euros] Bowen am wobrwyo 'Efnisien'. Gan nad yw ef a W. J. Gruffydd yn cytuno â'r dyfarniad hwnnw, rhaid iddynt hwy gytuno â'i gilydd bellach. Hydera y ceir gwobrwyo. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 437. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
438. vtls005426495 ISYSARCHB22	File - David Jones, [Blaenplwyf], Aberystwyth,	1952, Mai 24.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Wedi iddo ailddarllen gwaith y cystadleuwyr erys 'Y Perthi Llwydion' a 'Berddig' ar y blaen. Y mae o'r farn y gellir coroni 'Berddig'. Methwyd â choroni gwell na'r cystadleuwyr hyn yn Y Rhos. Nid yw wedi ailgysylltu ag [Euros] Bowen. Mae'n ddrwg iawn ganddo orfod anghytuno â W. J. Gruffydd. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 438. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
439. vtls005426496 ISYSARCHB22	File - Dorothy Jones, Bala,	[1941], Chwef. 13.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am ei safiad ar y 'Gwyliaid' yn ei nodiadau yn Y Llenor diwethaf. Mae'n frawychus bod rhai yn defnyddio eu swyddi i hau had totalitariaeth a gelyniaeth at genhedloedd eraill a llawer o bobl ifanc yn dod o dan eu dylanwad. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 439. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	

<p>440. vtls005426497 ISYSARCHB22</p>	<p>File - E. Aman Jones, Ystalyfera, [19]36, Gorff. 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n dychwelyd 'William' a phennill wedi ei ychwanegu ato. Arferai William fynychu capel R. J. Huws. Esbonio ystyr 'nam' yn y gerdd - nam meddwl oedd ar William. Nodi mân newidiadau eraill. Mae'n amgau ugain llinell ar 'Gwneuthurwr Bwganod' i'r Llenor. [Cyhoeddwyd y ddwy gerdd yn Y Llenor XVI (1937), tt. 74-5].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 440.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>441. vtls005426498 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Edmund Jones, Y Bermo, 1931, Meh. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Negyddol yw pob ymgais am wybodaeth ar gyfer W. J. Gruffydd hyd yn hyn. Mae'n amgau llythyr oddi wrth Morris Davies ac un a dderbyniodd yntau gan gyfaill. Y mae'n disgwyl ateb oddi wrth gyfaill arall yn Nhrawsfynydd hefyd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 441.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>442. vtls005426499 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Elizabeth Jones, Treherbert, 1924, Meh. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae ei thad wedi dechrau copio'r llythyrau a dderbyniodd oddi wrth ei hewyrth, ond gan ei fod yn brysur y mae yn eu danfon fel y maent gan obeithio y bydd W. J. Gruffydd yn eu deall.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 442.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>443. vtls005426500 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Elizabeth Inglis Jones, Derry Ormond, 1929, Hyd. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifenna i ddiolch am adolygiad caredig o'i chyfrrol Starved Fields yn Y Llenor. Y mae geiriau caredig W. J. Gruffydd yn galondid mawr iddi ar ôl ei hymgais gyntaf.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 443.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>444. vtls005426501 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Evan D. Jones, Aberystwyth, 1938, Ion. 20.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ysgrifennu i wrthod y gwahoddiad i adolygu Synfyfyrion. Nid yw'n barod i adolygu barddoniaeth a rhyddiaith greadigol. Y mae'n barod i roi barn ar lyfrau hanes a'r rhai sy'n gorwedd ar y ffin rhwng hanes a llenyddiaeth. Yn achos Synfyfyrion ni all fod yn ddi-duedd tuag at [T. H.] Parry-Williams. Arferai myfyrwyr ei genhedlaeth ef 'addoli' Parry-Williams ac fe ddarlithiai iddynt am oriau beunydd. Y mae'r un peth yn wir am lyfr ysgrifau [Iorwerth] Peate. Cafodd gais gan J. Hugh Edwards am bennod ar O. M. Edwards ar gyfer llyfr arfaethedig. Ysgrifennodd un ar frys ond ni chafodd air ganddo yn dweud ei fod wedi ei dderbyn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 444.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
445. vtls005426502 ISYSARCHB22	<p>File - Frank Price Jones, Dinbych, [19]43, Meh. 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am ei araith ar y 'Scottish Highlands Bill'. Bu'n gweld bai ar Y Faner am beidio â sylweddoli mai W. J. Gruffydd yn unig o'r 600 o aelodau seneddol a welai ymhellach na'i drwyn. Holi pam na fuasai [Aneurin] Bevan a Jim Griffiths yn ei gefnogi. Cynnig cynorthwyo W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 445.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
446. vtls005426503 ISYSARCHB22	<p>File - Griffith Hartwell Jones, Redhill, Surrey, 1929, Hyd. 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Yr oedd diddordeb mawr ganddo yn erthygl W. J. Gruffydd ar agwedd Archesgob Cymru tuag at yr iaith Gymraeg. Mae'n amau bod y syniadau i'w canfod yn yr araith a wnaeth pan y'i gorseddwyd yn Esgob Llanelwy yn 1889. Yr oedd yn tybio mai W. J. Gruffydd, efallai, fuasai wedi cael ei benodi'n brifathro ar Goleg Caerdydd, ond tybia y bydd i'r ymgeisydd llwyddiannus wneud ei waith yn iawn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 446.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
447. vtls005426504 ISYSARCHB22	<p>File - Gwent Jones, Abertawe, [19]37, Mawrth 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifenna ynglŷn â swydd Saunders Lewis yng Ngholeg Abertawe. Mae'n manylu ar y gefnogaeth a'r gwrthwynebiad sydd gan Saunders Lewis yn Abertawe ar y Cyngor. Nodi yr hyn y mae Henry Lewis yn ceisio ei wneud er mwyn llanw'r swydd wag. Manylu ar Melville Richards, nid yw'r myfyrwyr yn ei hoffi. Cythruddwyd llawer o glywed ei fod i'w ddyrchafu yn ddarlithydd llawn. Awgrymwyd i'r myfyrwyr wrthod mynychu darlithiau Melville Richards a mynd i Gaerdydd at W. J. Gruffydd yn lle hynny. Un peth sy'n dal Henry Lewis a'i garfan yn ôl, sef ofn i'r Blaid ddylanwadu ar yr Athro J. Lloyd Jones, Dulyn, i wrthod gweithredu yn arholwr allanol. Dim ond J. Lloyd Jones a Glyn Davies (Lerpwl) sydd o safon ddigon uchel i fod yn arholwyr allanol. Mae'r ddau yn gyfeillion i Saunders Lewis. Pwy fyddai'r dyn gorau i gysylltu â J. Lloyd Jones?.</p>

	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 447. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
448. vtls005426505 ISYSARCHB22	File - Gwilym R. Jones, Lerpwl 8,	1937, Mai 11. <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Anfon rhigwm i'r Llenor, 'onid yw vers libre yn dab!' Hola os gellir cyhoeddi'r gerdd cyn rhyddhau'r tri o garchar ar 10 Awst. Ceir cyfeiriad at y tri yn yr ail bennill [triawd yr Ysgol Fomio, Saunders Lewis, D. J. Williams, Lewis Valentine]. Os na ellir ei chyhoeddi erbyn y dyddiad mae'n gofyn iddo ei dychwelyd. Mae'n lleisio ei edmygedd o safiad W. J. Gruffydd dros y gwerthoedd Cymreig a'i arweiniad i eraill. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 448. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
449. vtls005426506 ISYSARCHB22	File - Gwilym R. Jones, Lerpwl 8,	1937, Awst 10. <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n anfon englynion i'r Llenor. ['Galarnad Gwr o Lyn', Y Llenor, cyf. XVI (1937), tt. 130-1]. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 449. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
450. vtls005426507 ISYSARCHB22	File - Gwyn Jones, Rhiwbeina,	1938, Rhag. 29. <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n anfon prospectws The Welsh Review. Gofynnir iddo ystyried cynnwys cyfieithiadau o'u storïau yn y cylchgrawn, i adolygu llyfrau Cymraeg o bryd i'w gilydd ac i roi sylw i'r cylchgrawn o dro i dro yn Y Llenor. Yn gyfnewid y mae'n cynnig gofod iddo yn y cylchgrawn ar gyfer achos da ar unrhyw achlysur. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 450. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
451. vtls005426508 ISYSARCHB22	File - H. Parry Jones, Llanrwst,	[19]29, Mai 5. <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Cydymdeimlo ar farwolaeth tad W. J. Gruffydd. Dwyn atgofion am yr amser a fu. Rhieni Gorffwysfa a Phenhafodlas [Bethel] wedi eu claddu oll bellach. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 451. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i>

	ARCH/MSS (GB0210)	
452. vtls005426509 ISYSARCHB22	File - H. Parry Jones, Llanrwst,	[19]34, Chwef. 7.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	
	Anfon gair o ddiolch am y cyfeiriad caredig at ei stori 'Gwneuthur Lle' yn 'Hen Atgofion' yn Y Llenor. Bu'n fwriad ganddo gyhoeddi cyfrol o'i gyfieithiadau a gallai'r stori honno ymddangos gyda hwynt wedyn. Mae wedi mwynhau'r 'Hen Atgofion' yn fawr. Mae'n cofio clywed W. J. Gruffydd yn traethu hanes G. Jones, y 'Deryn Mawr' dros ddeng mlynedd ar hugain ynghynt. Bu'n bwriadu ysgrifennu rhywbeth ar gyfer Y Llenor i ddangos nad 'rhyw hunllef a lusgwyd i mewn i Gymru o Loegr yn y 17 a'r 18 ganrif yw Piwritaniaeth'.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>	
	Preferred citation: 452.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i>	
	ARCH/MSS (GB0210)	
453. vtls005426510 ISYSARCHB22	File - H. P[arry Jones], Llanrwst,	1934, Tach. 13.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	
	Diolch am destimonial. Mae ei ragolygon yn ffafriol. Erbyn hyn y mae'n adnabyddus yn y De ac y mae enw da i'r ysgol ac adroddiadau da gan y Bwrdd Addysg Canolog. Enwir y dynion sydd ar y pwyllgor dewis. Golygai'r swydd iddo ddod i fyw i Gaerdydd. Byddai modd iddynt adnewyddu'r hen gymdeithas. Mae'n edrych ymlaen at ddarllen yr adran nesaf o'r 'Hen Atgofion'. Y mae'n rhy brysur i gyfrannu dim ar hyd o bryd.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>	
	Preferred citation: 453.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i>	
	ARCH/MSS (GB0210)	
454. vtls005426511 ISYSARCHB22	File - H. P[arry Jones], Llanrwst,	1954, Gorff. 26.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	
	Hydera fod W. J. Gruffydd yn gwella. Y mae wedi llunio cywydd am salwch ac adferiad W. J. Gruffydd. Mae'n amgau copi teipiedig ohono. Y mae'n bwriadu mynd i'r Eisteddfod yn Ystradgynlais. Mae'n estyn gwahoddiad i W. J. Gruffydd a'i chwaer, Ceridwen, i ymweld ag ef. Cynhwysir copi teipiedig o 'Gywydd y Cur'.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>	
	Preferred citation: 454.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i>	
	ARCH/MSS (GB0210)	
455. vtls005426512 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd] at y Prifathro Stuart Jones, C. P. C. Aberystwyth,	1928, Gorff. 10.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	
	Llythyr yn ymosod ar Timothy Lewis. Y mae'n defnyddio'r Wasg i ymosod ar athrawon Cymraeg y Brifysgol. Y mae ar fin ymosod ar Syr John Morris-Jones yn y South Wales News. Y mae'r erthyglau a gyhoeddir ganddo yn destun sbort yng Nghymru. Y mae ei gais i esbonio enwau lleoedd yn fwy gwallgo	

	<p>na'r rhai welir mewn papurau lleol. Mae'n rhaid i Adran y Gymraeg yn Aberystwyth ysgwyddo'r gwarth am ei ymddygiad. Y mae'n ennill £550 y flwyddyn am wneud dim ond ymosod ar aelodau'r brifysgol. Rhaid gwneud rhywbeth am hyn ar fyrder. Cafwyd addewid yng nghyfnod rhagflaenydd Stuart Jones gan Timothy Lewis y byddai'r ymosodiadau hyn yn darfod. Hydera y gellir delio â'r sefyllfa cyn gorfod codi'r mater gydag awdurdodau'r Brifysgol. Awgryma y gellid holi barn yr athrawon Parry-Williams, Gwynn Jones, Edwards a Fleure. Gallai Henry Lewis ac Ifor Williams roi barn ddiuedd yn ogystal pe bai raid. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 455.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>456. vtls005426513 ISYSARCHB22</p>	<p>File - H. Stuart Jones, Saundersfoot, [1928], Gorff. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Y cam cyntaf fyddai siarad â golygydd y South Wales News. Os na ellir gwneud hyn y mae'n fodlon ceisio gweld y golygydd pan ddaw i gyfarfod Cyngor y Brifysgol ar yr 20fed. Ar y mater cyffredinol bydd yn rhaid iddo drafod y peth gyda'i gydweithwyr. Ysgrifennodd Timothy Lewis draethawd llyfryddol ar gyfer y gyfrol ar Hywel Dda. HOLA OS BU BEIRNIADU AR HONNO.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 456.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>457. vtls005426514 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [W. J. Gruffydd] at y Prifathro 1928, Gorff. 17. Stuart Jones, C.P.C Aberystwyth,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ei lythyr. Y mae Sir John [Morris-Jones] eisoes wedi cysylltu â golygydd y South Wales News ond nid yw hynny yn debyg o wneud gwahaniaeth. Y brif ystyriaeth yw bod y Brifysgol yn talu dyn i ymosod ar ei gwaith ei hunan. Hydera y caiff Stuart Jones gyfle i drafod y mater gyda'i gydweithwyr pan fydd yn dychwelyd i Aberystwyth. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 457.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>458. vtls005426515 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Idwal Jones, Llanbedr Pont Steffan, 1937, Chwef. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau ysgrif gan obeithio ei bod yn teilyngu ei lle yn Y Llenor. Hoffai wybod os yw hi i ymddangos yn y rhifyn nesaf. Gofyn a oes gobaith am adolygiad ar 'Yr Eosiaid'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 458.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>459. vtls005426516 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. E. Jones, Caernarfon, 1942, Gorff. 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Honnir bod Saunders Lewis wedi cydnabod wrth W. J. Gruffydd ei fod yn Ffasgydd. Gofynnir i W. J. Gruffydd gydnabod geirwiredd y stori. Yr unig ffordd o roi taw ar y stori yw ei hateb neu ei chydabod.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 459.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>460. vtls005426517 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. E. Jones, Caernarfon, 1942, Medi 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr W. J. Gruffydd yngl'n â'r cyhuddiad yn erbyn Saunders Lewis. Cafodd geisiadau i'w gyhoeddi yn Y Ddraig Goch gan fod haeriadau cyffelyb yn cael eu lledaenu o hyd. Mae'n gofyn am ganiatâd i gyhoeddi'r llythyr.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 460.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>461. vtls005426518 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Ithel Jones, Bryste, 1941, Gorff. 15.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Tynnu sylw W. J. Gruffydd at y gerdd 'Seren Heddwch' a briodolir i 'Islwyn' yn Y Flodeugerdd Gymraeg. Mae'n cynnwys cerdd Saesneg gan Jane C. Simpson (1835) sy'n awgrymu mai efelychiad gan 'Islwyn' ydyw yn hytrach na cherdd wreiddiol.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 461.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>462. vtls005426519 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Morgan Jones, Bangor, [19]38, Hyd. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gwahoddiad i annerch cyfarfod yn Undeb yr Annibynwyr, Caerdydd, y flwyddyn ddilynol ar achlysur dathlu trichanmlwyddiant Eglwys Llanfaches. Y mae gwahoddiad i Dr Thomas Richards i annerch hefyd. Mae'n debyg mai Syr John Lloyd fydd yn y gadair. Mae'n ofid clywed tinc mor ddigalon yn cael ei daro yng ngholofnau'r Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 462.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>463. vtls005426520 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Morgan Jones, Bangor, [19]44, Rhag. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am gopi o'r Bil Addysg. Mae llawer o bethau da ynddo. Y mae, fodd bynnag, yn gwrthwynebu haerllugrwydd y Catholigion a'r Anglicaniaid. Y mae'n croesawu'r Pwyllgor Ymgynghorol. Siomedig yw'r adran sy'n ymwneud ag addysg oedolion. Mae'n gwrthwynebu cael addoliad yn rhan orfodol o fywyd ysgolion. Y mae caniatáu i weinidogion ac offeiriaid i fynychu ysgolion er mwyn rhoi gwersi crefyddol yn ffwlbrï.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 463.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>464. vtls005426521 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Talwrn Jones, Bodorgan, 1940, Ebrill 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei ddarlith 'Dydd o brysur bwysu'. Y mae wedi ceisio helpu Cymru i gadw ei henaid ar hyd ei oes ac yn awr y mae'n mynd yn hen. Mae'n crybwyll y rhai sy'n debygol o dderbyn Medalau Gee y flwyddyn honno. Y mae'r pump hynaf dros 90 oed, yr hynaf yn 93 ac yn parhau'n ffyddlon i'r Ysgol Sul. Hwy yw cadfridogion Duw - Maginot-line diwylliant Cymru.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 464.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>465. vtls005426522 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Tydu Jones, Montreal, 1940, Mai 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Sôn am englyn i'r 'Don' a ysgrifennodd yn 14 oed. Y mae llinell ohono yr un a'r hyn a geir gan 'Arnant' mewn englyn i'r 'Don' yng nghasgliad W. J. Gruffydd. Blodeuglwm o Englynion. Hoffai wybod pwy yw 'Arnant'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 465.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>466. vtls005426523 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [Llythyr at Mr Jones (?) oddi wrth M. Davies], Trawsfynydd, 1931, Meh. 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi oedi ateb gan nad oedd dyddiadau geni a marw 'Ionoron' ganddo. Anfonodd at J. W. Jones, Tanygrisiau, i holi amdano ac amgaeir ei lythyr [gw. 467 isod].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 466.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>467. vtls005426524 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. W. J[ones], Blaenau Ffestiniog, [1931].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Manylion am 'Tonoron'. Nansi Cadwaladr oedd enw ei gariad ac ar fedd honno y seiliwyd y gerdd 'Bedd fy Nghariad'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 467.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>468. vtls005426525 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. W. Jones, Wigan, 1935, Meh. 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofyn am wybodaeth am y gair 'gwig'. Holodd rhywun ef am y gair gan awgrymu iddo olygu fort. Nid yw'r gair yn hyddysg yn y Gymraeg a cheisiwyd ei ddarbwyllio i beidio â chyhoeddi'r esboniad. Yr unig le y llwyddodd i ddarganfod yr ystyr fort i'r gair 'gwig' oedd yng ngwaith William Owen-[Pughe], ond ni roddir enghraifft o'r gair yn cael ei ddefnyddio yn unman. A oes sail i osodiad Pughe? Ceisiwyd esbonio Wigan yn yr un modd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 468.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>469. vtls005426526 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Walter Jones, Llangatwg, Castell-nedd, [1937].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Apêl dros ei fab-yng-nghyfraith, D. Gwilym James, am gymorth i sicrhau iddo swydd darlithydd cynorthwyol yn Adran Saesneg Coleg Caerdydd. Ceir crynodeb o'i hanes a'i gyraeddiadau a gwybodaeth am lyfr Scepticism and Poetry a gyhoeddwyd ganddo ychydig fisoedd ynghynt. Gofyn i W. J. Gruffydd gefnogi'r cais os bydd modd. Beth sydd i'w wneud yn achos Saunders Lewis?.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 469.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>470. vtls005426527 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Walter Jones, Llangatwg, Castell-nedd, [19]37, Gorff. 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Nodi ei siom o ddeall nad yw W. J. Gruffydd yn aelod o Lys [Coleg Caerdydd], sefydliad sydd mor Seisnigaidd â phe bai'n goleg yng nghanolbarth Lloegr. Nodi beirniadaeth ar W. J. Gruffydd a glywodd gan un o aelodau'r Llys. Trafod rhan Henry Lewis yn helyntion Saunders Lewis.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 470.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

471. vtls005426528 ISYSARCHB22	<p>File - J. Walter Jones, Llangatwg, Castell-nedd, [19]40, Chwef. 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> [Llythyr at ei fab-yng-nghyfraith D. Gwilym James]. Mae wedi bod yn cyfieithu ['Distyll y Dail'] o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae'n rhestru nifer o broblemau wrth gyfieithu.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 471.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
472. vtls005426529 ISYSARCHB22	<p>File - J. Walter Jones, Llangatwg, Castell-nedd, [19]40, Mawrth 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Dweud iddo fynd ati i geisio cyfieithu 'Distyll y Dail' i'r Saesneg. Mae'n amgau rhestr o'r problemau a anfonodd at Gwilym, ei fab-yng-nghyfraith [gw. 471 uchod].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 472.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>

Cyfres | Series 473-518. vtls005426530 ISYSARCHB22: Llythyrau: Jones, Jack-Jones, Thomas Artemus,

Dyddiad | Date: 1904-51. (dyddiad creu) | (date of creation)

Lleoliad ffisegol | Physical location: ARCH/MSS (GB0210)

Nodyn | Note [generalNote]:

Preferred citation: 473-518.

FFeil / rhestr eitemau | File / item list

Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
473. vtls005426531 ISYSARCHB22	<p>File - Jack Jones, Yr Eglwys Newydd,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Anfon copi carbon o ddrama er mwyn i W. J. Gruffydd ei darllen ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd (1938) i weld os byddai cyfieithiad Cymraeg yn gwneud y tro i lanw bwlech ar noson wag. Dywed iddo fwynhau Hen Atgofion.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 473.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>	1937, Ebrill 27.	

<p>474. vtls005426532 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ja[me]s Jones, 'Y Gwehydd', Pentre-cwrt, [1920 x 52].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Llongyfarch W. J. Gruffydd, ar ei waith yn yr Eisteddfod. Pleser yw darllen erthygl flaen Y Cymro.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 474.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>475. vtls005426533 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J[ohn] M[orris] J[ones], [Llanfair Pwllgwyngyll], [1911 x 19], Nos Sul.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Cwyno na all gadw i fyny â'r Wasg. Fe gysodwyd 400 tt. a dim ond 272 tt. a gywirwyd ganddo. Nid yw'r mynegai wedi ei ddechrau ychwaith. Blin ganddo golli W. J. Gruffydd pan fu yn y Gogledd. Y mae'n cael trafferth i gael y rhifyn nesaf o'r Beirniad yn barod. Anfon rhai llyfrau gan ofyn i W. J. Gruffydd eu hadolygu. Y mae'n disgwyl erthygl gan [Thomas] Shankland, Robert Richards, a'r Athro Fleure ond er llawer addewid ni ddaethant.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 475.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>476. vtls005426534 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J[ohn] Morris Jones, Llanfair P.G, [1911 x 19], Nos Sul.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch am ganmoliaeth gan W. J. Gruffydd arno mewn erthygl yn Wales. Canmol cerdd W. J. Gruffydd i 'Ywen [Llanddeiniolen]'. Wrth gywiro proflenni [Y Beirniad] ar frys mawr fe fethodd wallau cysodi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 476.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>477. vtls005426535 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Morris-jones, Llanfair Pwllgwyngyll, 1928, Gorff. 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Ystyried sut y dylid ateb beirniadaeth Timothy Lewis. Awgrymu drafft o lythyr at y South Wales News neu, fel arall, ei anwybyddu'n llwyr.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 477.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>478. vtls005426536 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Llythyr y South Wales News at Syr John Morris-jones, 1928, Gorff. 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Dywedir bod Timothy Lewis yn cyhoeddi cyfres o erthyglau ar yr Orsedd i gyd-fynd ag Eisteddfod Treorci. Yn ei erthyglau y mae Timothy Lewis yn ymosod ar syniadau John Morris-Jones yngl?n â hanes sefydlu'r Orsedd. Gwahoddir Syr John i ymateb i haeriadau Timothy Lewis yn y papur.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 478.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
479. vtls005426537 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd] at Syr John Morris-jones, 1928, Gorff. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anodd gwybod beth ddylai ymateb John Morris-Jones fod. Dylai ateb y llythyr ond peidio sôn am vendetta. Awgrymu drafft o lythyr yn amlinellu beirmiadaeth Timothy Lewis o athrawon Prifysgol Cymru i gyd. Bwriada anfon llythyr at y Prifathro Stuart Jones. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 479.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
480. vtls005426538 ISYSARCHB22	<p>File - Mary Morris-jones, Llanfair Pwllgwyngyll, [1929], Dydd Mercher.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Drwg ganddi glywed am golled W. J. Gruffydd [sef marwolaeth ei dad] ac am iddo fethu â chael ei benodi'n Brifathro hefyd [yng Nghaerdydd].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 480.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
481. vtls005426539 ISYSARCHB22	<p>File - Y Canon Maurice Jones, Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, 1928, Rhag. 21.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Wedi darllen sylwadau W. J. Gruffydd yn Y Llenor yngl?n â'r Orsedd ac wedi ei galonogi o feddwl fod agwedd W. J. Gruffydd ati wedi newid a'i fod yn credu erbyn hyn fod modd gwneud rhywbeth o werth ohoni. Fel un o'r rhai sy'n rheoli'r Orsedd byddai Maurice Jones yn croesawu cyfarfod â'r rhai sy'n feirniadol ohoni.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 481.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
482. vtls005426540 ISYSARCHB22	<p>File - Y Canon Maurice Jones, Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, 1929, Ebrill 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Newydd ddychwelyd o'r Cyfandir a chlywed am farwolaeth John Morris-Jones a bod W. J. Gruffydd wedi cael ei wrthod fel Prifathro Coleg Caerdydd. Trychinebau cenedlaethol yn ôl Maurice Jones. Y</p>

	<p>mae'n dramgwydd anfaddeuol yn y Brifysgol a'r Eglwys i ddyn fod yn Gymro sy'n caru ei wlad a'i iaith. Cafodd yntau ei gosbi am y rheswm hwnnw hefyd. Bydd awgrym W. J. Gruffydd yngl?n â'r Orsedd yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Gweinyddol adeg cyhoeddi Eisteddfod Llanelli.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 482.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
483. vtls005426541 ISYSARCHB22	<p>File - P. Mansell Jones, Caergrawnt,</p> <p>[19]37, Mai 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am gyngor a geirda W. J. Gruffydd drosto wrth geisio am swydd ym Mangor. Bu'n ymweld â [Saunders Lewis] yng ngharchar Wormwood Scrubs. Nid triniaeth lawfeddygol a gafodd ond pigiad at ei aflwydd. Wedi gofal a bwyd arbennig yn yr ysbyty gallodd ddychwelyd i amgylchiadau normal y carchar. Y mae Saunders Lewis a'r lleill yn gobeithio y rhoddir pardwn iddynt gan y Brenin pan fydd yn ymweld â Chymru. Mae P. Mansell Jones ac Saunders Lewis wedi trefnu cyfarfod ym Mharis ym mis Medi. Hydera nad yw'r Rhyfel Cartref yn Sbaen wedi effeithio ar hoff leoedd W. J. Gruffydd tua'r de.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 483.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
484. vtls005426542 ISYSARCHB22	<p>File - R. E. Jones, Llanberis,</p> <p>1910, Tach. 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd am ei ysgrifau yn Y Brython a'r Genedl. Fe ddywed galon y gwir am lywodraethwyr addysg a llenyddiaeth yng Nghymru. Nid yw graddau'r Colegau yn sicrwydd diwylliant. Mae'n pwysu ar W. J. Gruffydd i ddal ati i amddiffyn y gwerthoedd y cafodd ei fagu arnynt.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 484.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
485. vtls005426543 ISYSARCHB22	<p>File - R. Ivor Jones, Llandudno,</p> <p>1944, Chwef. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ysgrifennu fel ysgrifennydd cangen Sir Gaernarfon o'r NUT i ddiolch i W. J. Gruffydd am ei gefnogaeth i'r Bil Addysg a gofyn iddo gefnogi'r Mesur yn frwd fel nad Deddf farw fydd hi.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 485.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
486. vtls005426544 ISYSARCHB22	<p>File - Y Parch. R. J. Jones, Caerdydd,</p> <p>1938, Hyd. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p>	

	<p>Byddai'n golled enfawr pe byddai W. J. Gruffydd yn rhoi'r gorau i olygyddiaeth Y Llenor. Ardderchog o beth yw cael golygydd sy'n broffwyd yn ogystal. Y mae gan W. J. Gruffydd lu o gyfeillion ar hyd a lled Cymru na wyr ef ddim amdanynt. Cafodd R. J. Jones flas mawr o fod ar Bwyllgor Llên Eisteddfod Caerdydd a chael addysg gyda W. J. Gruffydd yn gadeirydd arno. Prawf arall o boblogrwydd W. J. Gruffydd yw'r gwahoddiad a gafodd i ddod i siarad i Lanfaches ym Mehefin.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 486.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
487. vtls005426545 ISYSARCHB22	<p>File - R. J. Jones, Rhuthun, [19]41, Awst 15.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Fe gododd darllen Hen Atgofion lu o atgofion i R. J. Jones am Ysgol Clynnog. Aethai yno yn 1890 ac yr oedd Silyn yno ychydig o'i flaen. Yr oedd yn astudio rheolau barddoniaeth y pryd hwnnw. Hanes Silyn yn beirniadu englyn. Yr oedd yn un o ddynion mwyaf athrylithgar y genedl. Gresyn iddo gael ei dorri i lawr mor gynnar.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 487.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
488. vtls005426546 ISYSARCHB22	<p>File - Rich[ar]d Jones, Llandinam, 1937, Gorff. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am Hen Atgofion, y darlun gorau a chywiraf o'r hen bobl a'r hen bethau a welodd erioed. Hwn fydd y clasur bellach o blith y llyfrau sy'n disgrifio'r cyfnod dan sylw. Bydd yn cael lle parchus yn llyfrgell bersonol Richard Jones rhwng hunangofiant Rutherford ac Old Memories Henry James.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 488.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
489. vtls005426547 ISYSARCHB22	<p>File - Roy Jones, Hen Golwyn, [19]40, Mawrth 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Wedi clywed W. J. Gruffydd yn darlledu y prynhawn cynt ac yn feirniadol iawn ohono a'i safbwynt cenedlaethol. Sut hoffai W. J. Gruffydd fyw o dan ormes y Naziaid?.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 489.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
490. vtls005426548 ISYSARCHB22	<p>File - Roy Jones, Hen Golwyn, [19]40, Ebrill 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p>

	<p>Nid oedd wedi disgwyl gweld ei lythyr yn cael ei gyhoeddi ymhlith nodiadau golygyddol Y Llenor. Y mae'n protestio am y ffordd y bu i W. J. Gruffydd ddarnio'r llythyr fel ag y gwnaeth. Ceisia bwysleisio nad yw W. J. Gruffydd a'i gyfeillion yn cynrychioli barn y mwyafrif o Gymry.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 490.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
491. vtls005426549 ISYSARCHB22	<p>File - [T.] Gwynn [Jones], Caernarfon, 1904, Rhag. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr ac arian at dysteb Eames. Nid yw am fynd i ymgomfa Cymdeithas Gymreig y dref am ei fod yn brin o arian ac yn brysur iawn a'i fod i annerch yno rywbryd ar ôl y Nadolig. Nid oes ganddo arian eto i anfon prospectws ei lyfr allan ond cafodd rai archebion eisoes gan gynnwys un gan Muriel Price. [Mae'n dyfynnu ei harcheb a anfonwyd ato mewn Cymraeg Canol ac yn parhau ei lythyr mewn Cymraeg Canol]. Ni roddwyd Arthur ap Gwynn 'yng nghlos' eto.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 491.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
492. vtls005426550 ISYSARCHB22	<p>File - [T.] Gwynn [Jones], Aberystwyth, 1910, Hyd. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu yn dilyn ymosodiad ar ei lyfr yn y Western Mail. Penderfynodd anwybyddu'r sylw. Y mae'n gwahodd W. J. Gruffydd i lunio adolygiad ar y llyfr yn rhywle fel na fydd i werthiant y gyfrol ddioddef yn y De. Hoffai wybod pwy a ysgrifennodd yr adolygiad. Llawenhau ym muddugoliaeth R. Williams Parry a hwnnw wedi dyfynnu W. J. Gruffydd a dynwared T. Gwynn Jones yn ôl ei addefiad ei hunan.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 492.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
493. vtls005426551 ISYSARCHB22	<p>File - [T.] Gwynn [Jones], Aberystwyth, 1910, Hyd. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am gopi o gerddi W. J. Gruffydd - y mae yn uchel iawn ei ganmoliaeth ohonynt. Y mae'n ffyrnig ei feirniadaeth o'r Western Mail. Ni cheid y fath feirniadu ffyrnig ped ysgrifennai yn Saesneg. Y mae am droi i lunio straeon Saesneg, i gael bywoliaeth a llonydd gan y corgwn beirniaid. Mae'n edifar anfon cynifer o gopiâu adolygu o'i lyfr allan. Sôn am Graves a'i addewid i gydweithio ar gyfrol o gyfieithiadau o farddoniaeth Gymraeg. Y mae am dynnu'n ôl o'r cynllun hwnnw. Cynnwys darn o awdl a ysgrifennodd ar Osian a Thir na nOg ac sydd bellach yn libretto ar gyfer David Evans. Mae'n edifar na allasai fod wedi mynd i Iwerddon i ddysgu Gwyddeleg ymhell o'r 'corgwn a gododd o domennydd glo y De'. Pe bai'n cael cynnig gwaith mewn gwlad dramor byddai'n ei dderbyn ar unwaith er y chwithdod ar ôl y bywyd gwledig Cymreig 'cyn dyfod o'r taeogion yn farchogion ac arglwyddi'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 493.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
494. vtls005426552 ISYSARCHB22	File - T. Gwynn Jones,	1910, Rhag. [].
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Copi o'i lyfryn I'r Nyth Gwag ym Mro Gynin gyda chyfarchion i'w gyfaill W. J. Gruffydd.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 494.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
495. vtls005426553 ISYSARCHB22	File - T. G[wynn] J[ones], Aberystwyth,	1926, Gorff. 12.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Nid oedd T. Gwynn Jones yn cofio ei fod i gyfeirniadu cystadleuaeth gyda W. J. Gruffydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar wahân i'r Goron. Anfonodd gynnyrch y Goron at W. J. Gruffydd wedi eu cofrestru beth amser ynghynt. Yr oedd wedi eu darllen ar frys ar ganol adeg arholiadau. Cododd ddeunydd beirniadaeth ohonynt. Gofyn i W. J. Gruffydd roi gwybod beth yw ei farn cyn gynted ag y gall. Trafodir rhai o'r cystadleuwyr. Y mae'n brysur yn gorffen ei waith ar Dudur Aled. Hanes arholi yn Abertawe. Cafodd Iorwerth Williams distinction ond haeddai Arthur [ap Gwynn] un hefyd. Bu raid iddo ddiodeff am y trydydd tro oherwydd ei fod yn fab i'w dad. Trafod y rhagymadrodd a luniodd i gyfrol o ganeuon o olygwyd gan [W. S.] Gwynn Williams. Mae galw mawr gan gerddorion am gael defnyddio geiriau gan T. Gwynn Jones yn awr. Trafod y sylwadau ar Tom Rees yn y rhifyn diweddaraf o'r Llenor a'r hyn a ddywedodd W. J. Gruffydd am Herbert Vaughan. Ni all disgynyddion yr hen deuluoedd bonheddig ddarllen y farddoniaeth a ganwyd i'w hynafiaid gan eu bod, bron i gyd, yn ddi-Gymraeg. Mae Eluned, merch T. Gwynn Jones, yn priodi ar 28 Gorffennaf.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 495.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
496. vtls005426554 ISYSARCHB22	File - [T.] Gwynn [Jones], Aberystwyth,	1927, Rhag. 19.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Anfonodd broflen Y Llenor ymlaen i Wrecsam. Y mae wedi diflasu ar bedantri argraffyddol. Trafod sut y dylid rhyddhau a datblygu rheolau cynghanedd. Y mae'r Caniadau wedi eu gwerthu i gyd. Sôn am ffurflenni y Bwrdd Amaethyddiaeth. Y mae Brynmor Jones, T. H. Parry-Williams a T. Gwynn Jones wedi trosi nifer helaeth ohonynt i'r Gymraeg. Y taflenni a'r pamffledi Saesneg, er hynny, a fydd ffermwyr Llangeitho ac ardaloedd Cymreig cyffelyb. Aeth yn rhy hwyr ar y Gymraeg. Cafodd argraff dda ar brifathro newydd y Coleg. Dyn cyffredin o allu ydyw, tra swil ac ofnus. Y mae'r Amgueddfa Genedlaethol yn hysbysebu am gynorthwywr yn yr Adran Gelf. Y mae blys ar Llywelyn [ap Gwynn] roi cais amdani. A oes siawns ganddo ei chael?.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 496.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	

<p>497. vtls005426555 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [T.] Gwynn [Jones], Bow Street, [19]34, Ebrill 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am wahanlithiau. Anfon rhai'n gyfnewid. Anfon hefyd drosiad o waith Lladin yr 'Archipoeta' i'r Llenor ['Cyffes Clerwr', Y Llenor, cyf. XIII (1934), tt. 66-9]. Mae hiraeth arno weithiau am eu hen gyfeillgarwch.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 497.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>498. vtls005426556 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [T.] Gwynn [Jones], Bow Street, [19]34, Hyd. 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gwasg Prifysgol Caergrawnt newydd gyhoeddi'r gyfrol gyntaf o ddwy ar Literary Criticism in Antiquity gan Atkins. Hoffai'r awdur gael gweld adolygiad yn Y Llenor. T. Gwynn Jones yn canmol y gwaith ac yn cynnig llunio nodyn ar gyfer Y Llenor, ond byddai cael sylw gan W. J. Gruffydd i'r gyfrol yn llawer amgenach. Petai W. J. Gruffydd yn cael copi o'r Gainc Olaf fe fyddai T. Gwynn Jones yn hoffi cael adolygiad ar honno hefyd gan W. J. Gruffydd ei hunan.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 498.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>499. vtls005426557 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [T.] Gwynn [Jones], Bow Street, [19]34, Hyd. 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n dda ganddo fod W. J. Gruffydd yn barnu bod llyfr Atkins yn un da. Byddai'n well ganddo ped ysgrifennai W. J. Gruffydd yr adolygiad ond y mae'n addo gwneud rywbryd cyn diwedd Tachwedd. Diolch bod W. J. Gruffydd yn bwriadu tynnu sylw at Y Gainc Olaf. Ni all yr actorion wneud cyfiawnder â hi. Y mae T. Gwynn Jones yn mynd yn hen a bydd yn rhaid iddo droi at rywbeth sy'n talu'n well nag ysgrifennu Cymraeg er mwyn talu'r ffordd. Disgwyl gweld W. J. Gruffydd yn Llundain ym mis Tachwedd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 499.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>500. vtls005426558 ISYSARCHB22</p>	<p>File - T. Gwynn Jones, Bow Street, [19]40, Mawrth 21.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Bydd T. Gwynn Jones yn synnu at egni a dycnwch W. J. Gruffydd. Y mae T. Gwynn Jones bellach wedi ymddeol ac yn ceisio byw o fewn terfynau'r ychydig bensiwn y llwyddodd i'w gasglu. Dysgodd sut i eistedd yn llonydd am oriau i feddwl, heb geisio cofnodi dim. Ailafaelodd mewn astudiaethau Lladin a Groeg. Y mae'n disgwyl y diwedd a'r cysgod yn dod yn nes o hyd. Ni bydd neb ar gael cyn hir i ddarllen dim a ysgrifennwyd gan T. Gwynn Jones a'i debyg. Ni fydd dim ond 'bratiaith y papurach Saesneg lle bu Cymraeg fonheddig gynt'. Gwahoddir W. J. Gruffydd i ymweld â hwy.</p>

	<p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 500.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
501. vtls005426559 ISYSARCHB22	<p>File - Taflen goffa Thomas Gwynn Jones yn cynnwys llun ohono 'Emyn Gosber' o'i waith a llythyr printiedig gan ei weddw, M ..., 1949, Mawrth.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Taflen goffa Thomas Gwynn Jones yn cynnwys llun ohono 'Emyn Gosber' o'i waith a llythyr printiedig gan ei weddw, M. Gwynn Jones, yn diolch am bob cydymdeimlad.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 501.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
502. vtls005426560 ISYSARCHB22	<p>File - T. Hughes Jones, Y Drenewydd, [19]41, Rhag. 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Anfon copi o faes llafur ar hanes lleol a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Addysg Sir Drefaldwyn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 502.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
502(a). vtls005426561 ISYSARCHB22	<p>File - Syllabus of Local History adopted by the Montgomeryshire Education Authority (Newtown, [1941]), 40pp, [1941].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 502(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
503. vtls005426562 ISYSARCHB22	<p>File - T. O. [Jones], Caernarfon, [19]36, Ion. 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Y mae wedi mwynhau hanes siop Evan Jonathan yn Y Llenor. Arferai fod yn lle da i brynu hen goleri a hetiau ar gyfer drama. Dyna lle y cafodd ddillad addas ar gyfer Beddau'r Proffwydi 'slawer dydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 503.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
504. vtls005426563 ISYSARCHB22	<p>File - T. Parry-jones, Bodorgan, 1936, Hyd. 31.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p>

	<p>Anfon cerdd ar gyfer Y Llenor. Clywodd mai haws ennill y ddau lawryf cenedlaethol na chael Golygydd Y Llenor i dderbyn cerdd i brif chwarterolyn Cymru.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 504.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
505. vtls005426564 ISYSARCHB22	<p>File - Thomas Jones, Aberystwyth, [19]37, Meh. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau sgwrs ar Elis Gruffydd a ddarllledwyd beth amser ynghynt i'w gynnwys yn Y Llenor. ['Elis Gruffydd, Y Milwr o Galais', Y Llenor cyfrol XVI (1937), tt. 183-9]. Mae'n gobeithio ysgrifennu'n llawnach ryw ddydd am Elis Gruffydd a'i groncl.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 505.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
506. vtls005426565 ISYSARCHB22	<p>File - Thomas Jones, Aberystwyth, 1939, Mawrth 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Amgau cerdd ar gyfer Y Llenor. ['Dihangfa', Y Llenor cyf. XVIII (1939), t. 72].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 506.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
507. vtls005426566 ISYSARCHB22	<p>File - Thomas Jones, Aberystwyth, 1951, Tach. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon copi o The Diaries of Lady Charlotte Guest mewn pecyn ar wahân gan obeithio y caiff W. J. Gruffydd flas ar y gyfrol. Mae'n trafod y term 'pendefig' ac yn nodi enghreifftiau o lenyddiaeth yr Oesoedd Canol er mwyn ceisio dangos bod 'pendefig' yn deitl fel 'arglwydd' a 'thywysog'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 507.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
508. vtls005426567 ISYSARCHB22	<p>File - Thomas Artemus Jones, Llanrwst, [19]36, Awst 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Amgau cyfraniad i'r Llenor gan ddweud ei fod yn darllen y cyfnodolyn yn gyson. [T. Artemus Jones, 'Deddf Harri VIII yng ngolau'r Gwreiddiol', Y Llenor, cyfrol XV (1936), tt. 232-7]. Cafodd sgwrs ag W. J. Gruffydd yng nghwmni Ellis Gruffudd yn smoke-room y National Liberal Club flynyddoedd yn ôl.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p>

	<p>Preferred citation: 508.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
509. vtls005426568 ISYSARCHB22	<p>File - T. A[Artemus] J[ones], Llanrwst, [19]36, Medi 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon y cofnod a ysgrifennodd ynghylch safle'r iaith yn y Brawdlys. Fe'i hanfonodd at Lloyd George a ofynnai am sylwadau T. Artemus Jones ar y mater. Anfonodd gopi hefyd at yr Arglwydd Raglaw (Arglwydd Penrhyn) ac ysgrifennydd yr Arglwydd Ganghellor. Ni ddigwyddodd dim yn y cyfamser. Mae'r bai yn gorwedd ar ysgwyddau aelodau seneddol Cymru. Bydd S[aunder] L[ewis] a'i gyfeillion o flaen y Barnwr yng Nghaernarfon y dydd Mawrth canlynol. Bydd ganddynt gyfle da i gael cyhoeddusrwydd i'r anghyfiawnder.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 509.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
510. vtls005426569 ISYSARCHB22	<p>File - T. A[Artemus] J[ones], Llandrindod, 1936, Hyd. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr a dderbyniodd tra'n pysgota ar Lyn Fyrnwy. Cafodd annwyd yno ac y mae'n gorffen ei wyliau yn ei wely gyda laryngitis. Trafod llwon rheithwyr a swyddogion y llys. Addo anfon copi o'i femorandwm yngl'n â'r anghyfiawnder i Gymro dan y gyfundrefn bresennol. Caiff Saunders Lewis gyfle da iawn i dynnu sylw'r awdurdodau yn Llundain at y ffaith nad yw Cymro yn medru pledio ei achos yn iaith ei fam yng Nghymru. Dylai Saunders Lewis yng Nghaernarfon fod wedi efelychu Emrys ap Iwan yn Rhuthun yn 1889 drwy siarad Cymraeg yn unig. Fel y dywedodd T. P. O'Connor wrth T. Artemus Jones yr unig ddadl y mae John Bull yn ei deall 'yw cic yn ei din neu dyrniad ar ei drwyn!' Gwahoddiad i aros yn Llanrwst.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 510.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
511. vtls005426570 ISYSARCHB22	<p>File - T. A[Artemus] J[ones], Llanrwst, [19]38, Awst 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch ar anerchiad o eiddo W. J. Gruffydd yn yr Eisteddfod. Creadur anwybodus oedd y sawl a ysgrifennodd am W. J. Gruffydd yn y Western Mail.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 511.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
512. vtls005426571 ISYSARCHB22	<p>File - Thomas Artemus Jones, Llanrwst, 1939, Tach. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Anfon cyfraniad i'r Llenor. Rhannodd yr erthygl yn ddwy ran oherwydd ei hyd. ['Dienyddiad John Jones Maesygarneidd' Y Llenor, cyf . XVIII (1939), tt. 233-8].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 512.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
513. vtls005426572 ISYSARCHB22	<p>File - T. A[rtemus] J[ones], Bangor, [19]40, Hyd. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae newydd orffen ail-ddarllen 'Mae'r Gwylliaid ar y Ffordd', [Y Llenor, cyf. XIX (1940), tt. 112-26] o waith W. J. Gruffydd. Tybiodd ef a'i wraig ers blynnyddoedd fod gormod o afael gan Gatholigion ar y Swyddfa Dramor. Gresyn nad yw yn cael ei chyhoeddi yn Saesneg. 'Gyda phob parch i awdur Cwrs y Byd [Saunders Lewis] mae'r peraroglau Rhufeinig drosti i gyd!!'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 513.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
514. vtls005426573 ISYSARCHB22	<p>File - Thomas Artemus Jones, Bangor, [19]40, Rhag. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifenna yn dilyn sylwadau W. J. Gruffydd yn Y Llenor ynglyn â Chatholigion mewn swyddi allweddol. Cyfieithodd yr erthygl ac anfonodd gopi at yr Arglwydd Davies gan awgrymu y dylai dderbyn cyhoedduswydd ehangach. Mae'r erthygl wedi cynhyrfu tipyn ar y dyfroedd ymysg y bobl sy'n cyfrif yng Ngogledd Cymru. Awgrymodd y dylai'r Arglwydd Davies drefnu i gyhoeddi'r erthygl ar ffurf pamffledyn dwyieithog. Gofyn i W. J. Gruffydd os yw'n cefnogi'r syniad. Mae'n ofid i T. Artemus Jones weld Y Faner, o bob papur, yn cefnogi'r Action Française a chriw Vichy. Y mae teyrngarwch S[aunder] L[ewis] i Gatholiciaeth wedi ei ddallu i ddrygioni y rhai hyn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 514.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
515. vtls005426574 ISYSARCHB22	<p>File - T. A[rtemus] J[ones], Bangor, [19]40, Rhag. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau llythyr David Davies [Llandinam]. Y mae'n siwr na fydd Hulton yn cyhoeddi'r cyfieithiad gan mai Catholigion yw'r teulu. Mae'n awgrymu y gallai Hughes a'i Fab ei gyhoeddi fel pamffledyn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 515.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
516. vtls005426575 ISYSARCHB22	<p>File - T. A[rtemus] J[ones], Bangor, at [yr Arglwydd] Davies, [Llandinam], [19]40, Rhag. 11.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Nid yw yn adnabod Hulton ond gwyr fod y teulu yn Gatholigion. Os defnyddir y cyfieithiad gallai problem godi yngl'n â hawlfraint. Dylai W. J. Gruffydd gael cyfle i gywiro'r cyfieithiad. Copi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 516.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
517. vtls005426576 ISYSARCHB22	File - T. A[rtemus] J[ones], Bangor,	[19]41, Chwef. 18.	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi darllen ateb W. J. Gruffydd i'r Faner a'r Ddraig Goch yn Y Llenor. Hydera y caiff ei gyhoeddi fel pamffledyn yn y ddwy iaith. Cafodd sgwrs â Hooson y diwrnod cynt yn Wrecsam. Y mae wedi ymddiswyddo o fwrdd rheolwyr Y Faner. Tybia nad oedd yn teimlo'n esmwyth iawn ymysg 'y fath nyth o Gatholigion!'. Gwael iawn yw dadleuon 'Euroswydd' a Jack [J. E.] Daniel. Cafwyd anhawster i gael Llywydd i'r Tribiwnlys Apêl Cymraeg. Dywed Hopkin Morris ei fod am fynnu cael llywydd sy'n medru Cymraeg. Mae 75% o achosion Gogledd Cymru yn cael eu clywed yn Gymraeg. Y tro cyntaf i lys barn i dderbyn awdurdod oddi wrth y Llywodraeth Brydeinig i farnu achosion yn hollol drwy'r Gymraeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 517.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
518. vtls005426577 ISYSARCHB22	File - Thomas Artemus Jones, Bangor,	[19]42, Mawrth 16.	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Amgau llythyr oddi wrth D[avid] D[avies]. Nid yw'n ei chael hi'n hawdd derbyn mai cyfartaledd isel o staff y Swyddfa Dramor sy'n Gatholigion. Hwyrach mai Catholigion pybyr yn unig a gyfrifwyd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 518.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>Cyfes Series 519-63. vtls005426578 ISYSARCHB22: Llythyrau: Jones, Walter S.-Martray, Joseph,</p> <p><u>Dyddiad Date:</u> 1912-54. (dyddiad creu) (date of creation)</p> <p><u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)</p> <p><u>Nodyn Note [generalNote]:</u></p> <p>Preferred citation: 519-63.</p>			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description

<p>519. vtls005426579 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Walter S. Jones, Llanllyfni, 1928, Ion. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n ysgrifennu i gefnogi syniadau W. J. Gruffydd ynglŷn â'r 'Eisteddfod Fach'. Ychydig yn ôl ysgrifennodd 'Hunangofiant Amaethwr' ac y mae yn cynnig ei anfon i'r Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 519.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>520. vtls005426580 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [W. J. Gruffydd] at Walter S. Jones, Llanllyfni, 1928, Ion. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Nid yw wedi gollwng syniad yr 'Eisteddfod Fach' dros gof. Hoffai weld yr 'Hunangofiant Amaethwr' i'w ystyried ar gyfer Y Llenor. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 520.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>521. vtls005426581 ISYSARCHB22</p>	<p>File - William Jones Llan-soe, Brynbuga, 1938, Awst 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei araith yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Mae'n trafod dylanwad y Rhufeinwyr ar Gymru a'r Cymry. Y mae ganddo ddi-ddordeb mewn ieitheg Gymraeg. Gofyn am gyngor ynglŷn â'r llyfrau diweddaraf ar ramadeg ac iaith.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 521.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>522. vtls005426582 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Wmffra Jones, Patagonia, 1941, Tach. 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch iddo am gefnogi achos [Iorwerth] Peate mewn ffordd mor feistrolgar. Mae'r byd yn ddyledus i W. J. Gruffydd a'i fath am sefyll yn erbyn traha a gormes Nazis Prydain Fawr. Amaethwr a gwladwr syml ydyw ond yn derbyn Y Cymro yn gyson. Canmol dynion a fu'n barod i aberthu ar hyd yr oesoedd er mwyn rhyddid, e.e. Martin Luther. Bu Wmffra Jones yn byw am 50 mlynedd yn Argentina Gatholig am fod Luther wedi sefyll dros ryddid. Cam dybryd â [T. E.] Nicholas a'i fab oedd eu hanfon i garchar heb brawf yn y byd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 522.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>523. vtls005426583 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Maud Joynt, Dulyn, 1933, Tach. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ysgrifennu i nodi pwyntiau lle mae hi'n anghytuno ag W. J. Gruffydd yn ei erthygl 'Crefydd a Chymdeithas' yn Y Llenor [cyf. XII (1933), tt. 144-57]. Mae'n gwadu bod cwn Gwyddelig yn fwy ffyrnig na rhai eraill. Mae'n wir bod y Gwyddelod yn cam-drin eu mulod, drwy anwybodaeth yn aml. Mae enw drwg i borthmyn hefyd. Ond, fel arfer, byddant yn garedig wrth eu cwn a'u cathod. Mae'n cyhuddo'r erthygl o amlygu gwrth-Babyddiaeth W. J. Gruffydd. Un o'r Crynwyr yw hi ond yn gyfarwydd iawn â Phabyddiaeth. Y mae pob math o bobl yn perthyn i rychwant eang yr eglwys honno. Rhestrir y dylanwad da a gafodd yn ystod yr Oesoedd Canol. Bu'n gofalu am anghenion corfforol ei deiliaid yn ogystal â'u hanghenion ysbrydol, eneidol. Mae'n gwrthod y syniad o welliant parhaus y ddyndoliaeth. Er holl fanteision y byd modern ni chynhyrchwyd cerfluniau tebyg i rai'r Groegiaid. Beth bynnag am ddatblygiadau gwyddonol y mae'r datblygiadau celfyddydol yn syrthio'n fyr o gymharu â'r gorffennol. Y mae Protestaniaeth yn ei hanfod yn gyfrwng rhwygol ac ymrannol. Y mae hi'n Brotestant Modernaid yn credu yn yr ymgais am wirionedd yn hytrach na meddiannu'r gwirionedd hwnnw. Mae'n gorffen trwy ganmol Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 523.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>524. vtls005426584 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. A. Lawton, Shawbury, 1944, Mawrth 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu ynglŷn â'r Bil Addysg. Mae'n trafod addysg o fewn y lluoedd arfog. Gwastraff amser oedd y 'General Education Scheme' - ychydig iawn a ddymunai fynychu dosbarthiadau nos. Dangos sut y methwyd â gwerthfawrogi athrawon gwyddoniaeth a'i llafur caled yn y gwaith o baratoi awyrenwyr. Mae wedi clywed eu bod am gael eu cadw ymlaen er bod y rhyfel yn dod i ben a mawr angen amdanynt yn y gymdeithas. Rhestrir nifer o enghreifftiau o wyr â graddau a gamddefnyddiwyd yn y lluoedd arfog.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 524.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>525. vtls005426585 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. Morgan Lewis, Aberystwyth, 1931, Ion. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Atgofion am John Morris-Jones ym Mangor. Buwyd yn astudio fersiwn Gwenogvryn Evans o'r Llyfr Coch. Cafodd ei eni yn agos i gartref George Owen, Henllys. Mae'n dadlau dros estyn cefnogaeth i nodweddion Cymraeg emynwyr y ddeunawfed ganrif. Dibrisir y Gymraeg hon oherwydd ei gwendidau gan golli golwg ar ei rhagoriaethau. Mynd ymlaen i drafod mydryddiaeth emynau Williams. Un o broblemau addysg gyfoes yw sut y mae athrawon i ddiogelu elfennau gorau addysg yr aelwyd a'r capel mewn cytgorod bywydol a'r addysg fwy newydd a dieithr.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 525.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>526. vtls005426586 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [H.] 'Elfed' [Lewis], Llundain N.5, [19]29, Gorff. 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Bwriadai fod yn Lerpwl ond ni all fod yno oherwydd iddo gael damwain. Y mae'n gwella ond bydd yn rhaid iddo rodio'n araf am beth amser. Yr oedd wedi bwriadu cael trafodaeth gyfeillgar ar bwnc yr Orsedd a'r Brifysgol.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 526.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>527. vtls005426587 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Henry Lewis, Sgeti, Abertawe, [19]36, Gorff. 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Trafodaeth ar ddewis llyfrau. Teimlai fod Llywarch Hen yn fwy uniongyrchol lenyddol. Ond cliriwyd yr anhawster gan lythyr W. J. Gruffydd. Gofyn os gwnaiff W. J. Gruffydd ysgrifennu at Jenkin James i ddweud eu bod ill tri yn cymeradwyo G[riffith] J[ohn] Williams ar sail Gram[adegau'r] Pen[ceirddiaid]. Tynnu sylw at gyhuddiad yn Yr Athro. A ellir dwyn achos athrod yn ei erbyn? Bwriada gyngtori Coleg [Abertawe] i beidio â hysbysebu yn Yr Athro o hynny ymlaen. Bu'n sâl yn ddiweddar ond y mae'n edrych ymlaen am chwe wythnos o ddiogi perffaith yn Llangrannog tan ganol Medi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 527.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>528. vtls005426588 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Henry Lewis, Abertawe, [19]40, Ion. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon adysgrif o gerdd 'Iesu, nâd gamwaith ...' a ysgrifennwyd gan gyfaill o feddyg tra'n gwasanaethu yn yr R.A.M.C. yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 528.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>529. vtls005426589 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Hywel D. Lewis, Bangor, 1938, Ebrill 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgaw ysgrif ar feirmiadaeth adrodd. ['Beirmiadaeth Adrodd', Y Llenor, cyf. XVIII (1939), tt. 118-121, 172-83]. Darllenodd R. T. Jenkins yr ysgrif a chred y dylai'r darn ysgafn tua'r diwedd ddod ar y dechrau ond methodd Hywel D. Lewis ag ystumio'r ysgrif felly.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 529.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>530. vtls005426590 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. D. Lewis A'i Feibion CYF., 1952, Gorff. 12. Llandysul,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Cynnig amodau ar gyfer cyhoeddi Hen Atgofion. Awgrymu y dylai W. J. Gruffydd alw heibio y babell fyddai ganddynt ar faes y Brifwyl yn Aberystwyth.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 530.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>531. vtls005426591 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Saunders Lewis at Olygydd Y [19]34, Meh. 8. Llenor, Abertawe,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Codi pwnc o gystrawen sy'n ei ddiflasu a gofyn i'r llythyr ymddangos yn Y Llenor er mwyn rhoi paid arno. Dywed fod y treigladr ar ddechrau soned R. Williams Parry i'r 'Llwynog' yn ei difetha. Cyfeiria at y rheol yn Welsh Syntax John Morris-Jones, t. 171. Y pryd gwaethaf yw pan fo'r frawddeg yn dechrau gyda'r gair 'rhyw'. Onid yw'n erchyll?.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 531.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>532. vtls005426592 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Saunders Lewis, Abertawe, [19]35, Ebrill 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Anfonodd sicc W. J. Gruffydd at J. E. Jones i Swyddfa'r Blaid, Caernarfon. Mae newydd orffen rhyw fath o awdl ymddiddan tua 150 llinell o hyd. Gofyn os hoffai ei gweld i farnu os yw hi'n gymwys i'r Llenor. ['Mair Fadlen', Y Llenor, cyf. XIV (1935), tt. 73-8].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 532.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>533. vtls005426593 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Saunders Lewis, Abertawe, [19]35, Mai 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch am awgrymiadau yngl?n â'i awdl ['Mair Fadlen']. Dileodd yr englyn yn cynnwys y llinell Hwfa Monaidd. Mae'n manylu ar rai penderfyniadau a wnaeth yngl?n â'r awdl.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 533.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>534. vtls005426594 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Saunders Lewis, Y Mwmbwls, [19]36, Gorff. 5.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon cân i'r Llenor. Ni fyddai'n synnu pe barnai W. J. Gruffydd fod ei mesur mor od a thramgwyddus ag yw ei chynnwys. Y mae'n llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei gyfraniadau ef i'r Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 534.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
535. vtls005426595 ISYSARCHB22	<p>File - Saunders Lewis, Abertawe, [19]36, Medi 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gan W. J. Gruffydd yn unig o holl athrawon y brifysgol y cafodd Saunders Lewis lythyr o gysur a chalondid yn dilyn [llosgi'r Ysgol Fomio]. Gweithred sy'n gyson â'i gymeriad. Ni fydd Saunders Lewis byth yn anghofio i W. J. Gruffydd fod mor hael a mawrfrydig tuag ato.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 535.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
536. vtls005426596 ISYSARCHB22	<p>File - Saunders Lewis, Llanfarian, [19]39, Meh. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi darllen y dramâu i gyd ddwywaith ac y mae'n bendant mai drama 'Arawn' sy'n haeddu'r wobr yn llawn. Hoffai dderbyn gair er mwyn iddo fedru ysgrifennu ei feirniadaeth.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 536.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
537. vtls005426597 ISYSARCHB22	<p>File - Saunders Lewis, Llanfarian, [19]39, Medi 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ni wyddai ddim am y trefniant ynglŷn â'r ddrama yn Ninbych. Fe'i syfrdanwyd gan haelfrydigrwydd W. J. Gruffydd. Mae'n diolch am y cynnig ac yn ei dderbyn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 537.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
538. vtls005426598 ISYSARCHB22	<p>File - John Edward Lloyd, Bangor, 1912, Tach. 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am erthygl o'r Revue Celtique. Mae'n codi pwyntiau ynglŷn â Bledfri. Fe gytuna ei bod yn debyg bod Bledfri wedi marw tua 1150, ond tybia mai cerddor crwydrol proffesiynol ydoedd yn hytrach na thirfeddiannwr sylweddol.</p>

	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 538. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
539. vtls005426599 ISYSARCHB22	File - John Edward Lloyd, Bangor,	1929, Chwef. 7.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Nid oedd wedi sylweddoli bod Llanfair-is-gaer yn blwyf mor fach. Hwyrach y byddai Llanrug neu Landdeiniolen yn fwy cynrychioliadol. Gellir gweld y mapiau degwm yn y Gofrestrfa Esgobol ym Mangor, dan ofal Ivor Pryce. Tybia y cedwir copi o'r map degwm yn lleol. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 539. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
540. vtls005426600 ISYSARCHB22	File - J. E[dward] Lloyd, Bangor,	1930, Hyd. 20.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Trafod enwau lleoedd sy'n terfynu yn '-og'. Nid yw'r fannod yn eu rhagflaenu. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 540. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
541. vtls005426601 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd] at Syr John Edward Lloyd,	1939, Mawrth 25.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Codi mater y cymhwyster gorfodol mewn Lladin neu Fathemateg ar gyfer cael mynediad i'r Brifysgol. Mae'r ysgolion yn dewis dysgu mathemateg yn gynyddol a rhoddir llai a llai o bwyslais ar Ladin a Groeg. Mae'n rhagweld cyfnod pan na fydd Lladin yn cael ei ddysgu mewn ysgolion. Nodi enghraifft o ysgol yng Nghaernarfon a arferai fod yn ysgol glasurol dda ond sydd â saith athro mathemateg erbyn hyn. Dylid ceisio sicrhau bod gan fyfyrwyr yn y celfyddydau ryw wybodaeth o'r Lladin. Mae gwybodaeth o'r Lladin yn angenrheidiol ar gyfer gradd Ffrangeg. Pe gofynnid am hynny yn yr Adran Gymraeg ni fyddai ganddo fyfyrwyr ar ôl yn ei adran. Mae'n fwriad cyflwyno rheol yng Nghyfadrann y Celfyddydau yng Nghaerdydd, ond rhaid cael y colegau i gyd i weithredu'r fath gynllun. Copi teipysgrif. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 541. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
542. vtls005426602 ISYSARCHB22	File - J. E[dward] Lloyd, Bangor,	1942, Gorff. 21.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Cafodd flas ar Y Llenor diweddaraf, yn enwedig erthygl T. I. Ellis ['Rhydychen yn yr Wythdegau', Y Llenor, cyf. XXI (1942), tt. 25-33]. Sôn am erthygl R. J. Thomas ar Dir-y-myneich ym Mhenweddig.	

	<p>['Dafydd ap Gwilym a Cheredigion', Y Llenor, cyf. XXI (1942), tt. 34-6]. Sôn am erthygl ar Sieffre o Fynwy sydd ganddo ar fin ymddangos yn yr English Historical Review. Bwriad yr erthygl yw ceisio dangos i ysgolheigion tramor pa mor annibynadwy y mae'r brut.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 542.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
543. vtls005426603 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd] at Roger Sherman Loomis, Efrog Newydd, 1928, Ion. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Dealla iddo dderbyn defnyddiau ar Hu Gadarn. Cyhoeddwyd adolygiad byr ar ei waith yn Y Llenor. Ceisio darbwyllo R. S. Loomis na ddylai drafod y rhestr enwau yn Culhwch nes bod y testun wedi ei astudio'n fanwl. Dylai Math ymddangos ymhen chwech wythnos. Fe anfonir copi iddo y pryd hwnnw. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 543.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
544. vtls005426604 ISYSARCHB22	<p>File - Roger [S.] Loomis, Efrog Newydd, [1928], Mai 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n siomedig na dderbyniodd Math hyd yma na chopi o'r Llenor. Mae'r frwydr ynghylch Celtic Myth and Arthurian Romance wedi dechrau. Cafodd ymateb oddi wrth nifer o brifysgolion Americanaidd. Trafod adolygiadau ar ei waith.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 544.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
545. vtls005426605 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd] at R. S. Loomis, U. D. A., 1928, Mai 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n synnu na fu iddo dderbyn Math. Mae am ofyn i'r cyhoeddwr i anfon Y Llenor ato.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 545.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
546. vtls005426606 ISYSARCHB22	<p>File - R. S. Loomis, Prifysgol Columbia, [1928], Gorff. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Sôn am ei waith yn adolygu cyhoeddiadau W. J. Gruffydd. Diolch am adolygiad ar ei waith ef yn Y Llenor. Nid yw'n debyg y byddant yn gytûn bob amser ond gallant barchu ei gilydd er hynny. Nid yw yn bwriadu ateb Miss Weston yn fanwl yngl?n â'r cerflun ym Modena a'r cysylltiad rhwng Mardoc</p>

	<p>a'r duw Babylonaidd Marduk, y Porta della Peschenia a'r Roi Pescheur. Mae'n bwriadu trafod hefyd y cysylltiadau canlynol: Bron = Bran a Pryderi = Perceval. Cred hefyd mai tad Pryderi oedd Arawn yn hytrach na Phwyll. Mae Golther, beirniad sy'n gyson wrth-Geltaidd, wedi cydnabod yn ddiweddar ei bod yn debygol bod gan Bleddri ran yn lledaeniad chwedl Tristan. Sôn am erthygl ei wraig ar Chwedl Siarlymaen. Cred fod ei chasgliadau yn derfynol.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 546.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>547. vtls005426607 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Roger S. Loomis, Efrog Newydd, 1938, Rhag. 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n cynnig gwaith un o'i fyfyrwyr, Miss Helaine Newstead, i sylw'r Bwrdd Gwybodau Celtaidd gan ofyn iddynt ystyried ei gyhoeddi. Llyfr ydyw ar ddisgynyddion Arthuraidd Brân Fendigaid. Mae'r gwaith cystal ag y medrai ei lunio ei hunan. Y mae yng ngofal ochr ganoloesol yr Adran Saesneg ac wedi cynhyrchu llyfr mawr ar iconau Celtaidd gyda'i wraig. Mae'n cydweithio â'r Adran Ffrangeg i lunio argraffiad o ramantau Chrétien a hydera lunio llyfr ar y Greal ryw ddydd. Mae'n hyderu na fydd olynnydd Math yn hir cyn ymddangos.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 547.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>548. vtls005426608 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Roger S. Loomis, Prifysgol Columbia, 1939, Chwef. 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Cred fod ganddo oleuni i'w daflu ar Preiddiau Annwfn. Trafodwyd peth arnynt yn Celtic Myth ... ond yn awr y mae am drafod y pedwar pennill cyntaf. Mae'n gofyn i W. J. Gruffydd i edrych dros ei gyfieithiad ohonynt i weld os oes gwall ynddo. Mae traethawd Miss Newstead ar ddisgynyddion Arthuraidd Brân ar fin ei gyhoeddi. Mae ef a'i wraig yn bwriadu ymweld â Chaerdydd ar 10 Mehefin.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 548.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>549. vtls005426609 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Roger S. Loomis, Efrog Newydd, 1941, Hyd. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n hyderu bod adeiladau'r Brifysgol a'r Amgueddfa wedi osgoi niwed a bod W. J. Gruffydd a'i wraig wedi llwyddo i ddianc rhag effeithiau gwaetha'r rhyfel. Cynnig anfon bwyd iddynt. Fe amlinellir ganddo sut y mae'r rhyfel yn effeithio ar fywyd yn U.D.A. Mae'n hyderu anfon ei waith ar Preiddiau Annwfn yn Rhagfyr. Holí pa obaith sydd am gael gweld gwaith W. J. Gruffydd ar Culhwch yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Mae ganddo fyfyrwr fyddai'n abl i lunio llyfr ar Culhwch. Ei adwaith i lyfr Miss Newstead erbyn hyn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 549.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p>

	ARCH/MSS (GB0210)
550. vtls005426610 ISYSARCHB22	<p>File - Roger S. Loomis, Efrog Newydd, 1942, Ion. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llawenhau bod America wedi ymuno yn y rhyfel. Bu diwygiad mawr yn America yn ystod y flwyddyn flaenorol mewn rhyddfrydiaeth tebyg i un canol y ganrif cynt. Mae hyn yn golygu bod gwladgarwch America yn llawer iawn mwy cytbwys nag ydoedd yn 1917. Da ganddo glywed bod gwaith W. J. Gruffydd ar y Pedair Cainc a Culhwch yn mynd ymlaen. Trafod ei erthygl ar Preiddiau Annwfn. Mae'n credu mai yr un un yw Morddwyd tyllon a Brân. Mae'n trafod pwyntiau yngl?n â marwolaeth Brân. Mae Mrs Loomis yn gweithio ar siopau llyfrau Llundain yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Y mae hi'n credu i Chaucer ddarllen llawysgrif Auchinleck sydd yng Nghaeredin ac mai hynny a fu'n ysbrydoliaeth i'w waith Sir Thopas.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 550.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
551. vtls005426611 ISYSARCHB22	<p>File - Roger S. Loomis, Efrog Newydd, 1942, Mawrth 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ganmoliaeth W. J. Gruffydd ar ei waith. Amddiffyn ei hun am alw chwedl Geraint yn 'mabinogi'. Gofyn os yw Pwyll a Brân yn gyfystyr. Mae'n credu bod yr enw Peredur yn deillio o'r enw Pryderi. Nodi nifer o draddodiadau yngl?n â Brân.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 551.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
552. vtls005426612 ISYSARCHB22	<p>File - Roger [S.] Loomis, Efrog Newydd, 1942, Meh. 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'r campws yn gwacáu oherwydd effeithiau'r Rhyfel. Mae ef a'i wraig ar wyliau ym Maine. Cafodd lwyddiant mawr gyda'i ymchwiliadau i'r Pedair Cainc. Sôn am gyfystyron neu adlewyrchiadau o Brân mewn chwedlau a thraddodiadau eraill. Mae'n mynd ymlaen i drafod stori Pwyll, Arawn a Hafgan. Mae'n cyfeirio at yr elfen o ymrysonau wrth y rhyd sy'n gyffredin i lawer testun Arthuraidd. Mae'n awgrymu mai chwedl dymhorol, un sy'n ymwneud â chylch y flwyddyn sydd yma, Arawn yn cynrychioli'r gaef a Hafgan yr haf. Gofyn cwestiynau am Pen Llwyn Diarwya, 'erchlas' a Breuddwyd Rhonabwy.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 552.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
553. vtls005426613 ISYSARCHB22	<p>File - Roger S. Loomis, Efrog Newydd, 1942, Medi 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Trafod yr ymryson wrth y rhyd. Sôn am olion amlwg mewn rhamantau Arthuraidd eraill. Ni ellir seilio damcaniaethau ar Breuddwyd Rhonabwy ond tybed na ellir sylwi yno ar fotifau a phatrymau sy'n llawer iawn eglurach mewn lleoedd eraill? Hoffai gael cyfle i drafod pwyntiau o'r fath gyda W. J. Gruffydd. Mae'n sôn am amgylchiadau yn U.D.A. yng nghyd-destun y rhyfel.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 553.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>554. vtls005426614 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Roger S. Loomis, Efrog Newydd, 1943, Tach. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar gael ei ethol yn Aelod Seneddol dros y Brifysgol. Mae'n ofni, fodd bynnag, y bydd hynny yn llesteirio ei waith ar y Mabinogion. Rhestrir eitemau ym mywyd cyfoes yr Unol Daleithiau sy'n profi bod y Chwedl Arthuraidd yn fyw iawn o hyd. Mae'n gobeithio gorffen ei lyfr ar ffynonellau Chrétien yn y gwanwyn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 554.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>555. vtls005426615 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Roger [S.] Loomis, Paris, 1954, Medi 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ei noson olaf yn Ewrop am rai blynyddoedd. Mae blwyddyn brysur yn ei wynebu yn Efrog Newydd. Rhaid cael Halma yn barod ar gyfer y Wasg. Gwasg Clarendon sydd yn debygol o ymgymryd â'r gwaith. Mae'n reit fodlon ar y penodau Cymreig - er fe hoffai petai W. J. Gruffydd yn hytrach nag [Idris] Foster yn ymgymryd â Chulhwch a Breuddwyd Rhonabwy. Hanes Cyngres Rennes. Rhai papurau 'gwyllt' yno, nodir syniadau yr Athro Carney o Ddulyn a'r Athro Draak o Amsterdam. Mae'n bwriadu dod i'r Gyngres nesaf ym Mangor os bydd amgylchiadau yn caniatáu iddo.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 555.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>556. vtls005426616 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Loth, Paris, [1921], Mawrth 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Derbyniodd erthygl ar Bledfri ar gyfer Revue Celtique [W. J. Gruffydd, 'Bledhericus, Bledfri, Breri', Revue Celtique, cyf. XXXIII (1912), tt. [180]-3). Yn y rhifyn nesaf bydd ganddo erthygl ar Gernyw a'r cysylltiad â chwedl Tristan, lle bydd yn profi y tu hwnt i bob amheuaeth fod y chwedl y gwyddai beirdd Ffrengig y ddeuddegfed ganrif amdani wedi cael ei choethi yng Nghernyw. Ffrangege.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 556.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>557. vtls005426617 ISYSARCHB22</p>	<p>File - W. LL. Davies, Llyfrgell 1934, Chwef. Genedlaethol Cymru, Aberystwyth,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n fodlon anfon copi o gatalog teipiedig y llawysgrifau i'r pedwar coleg. Y mae 15,000 o lawysgrifau a 130,000 o ddogfennau a phapurau yn y Llyfrgell bellach. Y mae'r staff wedi gweithio'n galed yn y tair blynedd a hanner ers i W. Ll. Davies gymryd yr awenau. Teipiwyd cymaint fyth ag a ellid o'r schedules a'u rhwymo ar gyfer eu defnyddio gan y darllenwyr. Daeth nifer helaeth o gasgliadau gwerthfawr i mewn yn ddiweddar, mwy nag erioed o'r blaen. Rhestrir rhai o'r rhestrau a baratowyd. Y mae chwech aelod o staff yn Adran y Llawysgrifau yn awr lle roedd dau, Diverres a Marjorie Hall yn 1919. Y mae ef a Miss [Irene] George yn paratoi Arweinlyfr i'r prif gasgliadau. Ni ellir sbario Miss George i adolygu'r Index to the Morris Letters er cymaint y buasai'n hoffi gwneud hynny.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 557.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>558. vtls005426618 ISYSARCHB22</p>	<p>File - W. LL. Davies, Llyfrgell 1940, Gorff. 8. Genedlaethol Cymru, Aberystwyth,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cydnabyddiaeth ffurfiol o sypyn y llawysgrifau gwreiddiol o weithiau a ymddangosodd yn Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 558.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>559. vtls005426619 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Joseph Martray, Villetaneuse, 1950, Tach. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon rhaglen arfaethedig y 3edd Gyngres Ryngwladol ar Gymunedau a Rhanbarthau Ewropeaidd. Fe wahoddir W. J. Gruffydd i gadeirio pwyllgor ar broblemau ieithyddol. Fe delir eu dreuliau. Ffrangeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 559.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>560. vtls005426620 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Joseph Martray, Paris, 1951, Ebrill 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am gytuno i gymryd rhan. Mae'n cadarnhau y telir costau teithio a llety i W. J. Gruffydd yn unig. Bydd yn derbyn yr holl fanylion a'r rhaglen derfynol mewn da bryd. Ffrangeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 560.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>561. vtls005426621 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Joseph Martray, Paris, 1951, Ebrill 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gwahoddiad ffurfiol i gymryd rhan yn y Gyngres. Y bwriad yw trafod ac astudio sut y gellir amddiffyn hawliau grwpiau ethnig ac ieithyddol ar lefel Ewropeaidd. Manylion am y Gyngres. Trefnir teithiau ac wythnos ychwanegol o wyliau os bydd angen. Bydd dyddiadau'r Gyngres yn cael eu newid os cyhoeddir Etholiad Cyffredinol yn Ffrainc ar ddechrau Mehefin. Ffrangeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 561.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>562. vtls005426622 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [Joseph Martray], Copenhagen, [19]51, Meh. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Trefniadau yngl?n â thalu tocyn trydydd dosbarth iddo o'i gartref ac yn ôl. Telir y costau teithio yn llawn ond dim ond 60 y cant o'r costau eraill sydd ar gael ar hyn o bryd. Hyderir y bydd y 40% arall ar gael erbyn y Gyngres. Cyfarwyddiadau yngl?n â chodi tocyn teithio. Bydd yn derbyn arian ar gyfer y daith yn ôl gan swyddog cyllid y Gyngres. Ffrangeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 562.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>563. vtls005426623 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [Joseph Martray], Copenhagen, [19]51, Meh. 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Bydd swyddfa'r Gyngres yn agored wrth adeilad y Senedd, Christiansborg, ddydd Mawrth 7 Mehefin, o wyth tan hanner awr wedi deg p.m. Dylai hysbysu'r swyddfa wrth gyrraedd pa ddyddiad y bydd yn ymadael. Ffrangeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 563.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

Cyfres | Series 564-610. vtls005426624 ISYSARCHB22: Llythyr: Matthews-Owen, Bob,

Dyddiad | Date: 1930-54. (dyddiad creu) | (date of creation)

Lleoliad ffisegol | Physical location: ARCH/MSS (GB0210)

Nodyn | Note [generalNote]:

Preferred citation: 564-610.

FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
564. vtls005426625 ISYSARCHB22	File - R. Lloyd Matthews, Bethel,	[19]38, Mai 16.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi mwynhau 'Fy Mlwydd Arbennig' yn anghyffredin. Cafodd hwyl fawr ar y 'Tir Newydd' hefyd. Bu cryn ddarllen arno ym Methel. Disgwylir ei glywed yn 'amenu' Elfed tua'r Sulgwyn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 564.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
565. vtls005426626 ISYSARCHB22	File - William P. Milne, Leeds,	1930, Mai 16.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Estyn gwahoddiad, fel Llywydd Cymdeithas Astudiaethau Celtaidd Swydd Efrog, i W. J. Gruffydd eu hannerch ar unrhyw destun Celtaidd. Amlinellu dibenion y gymdeithas a ffurf y cyfarfod. Y flwyddyn cynt Dr Robin Flower o'r Amgueddfa Brydeinig oedd y darlithydd gwadd a chyn hynny, yr Athro Tolkien o Rydychen. Telir ei gostau teithio ar y trên ac estynnir croeso iddo aros yng nghartref William P. Milne a'i wraig. Brodor o swydd Aberdeen yw William P. Milne.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 565.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
566. vtls005426627 ISYSARCHB22	File - D. Derwenydd Morgan, Pencader,	[? 1930au].	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae ei enw yn cael ei grybwyll am radd M.A. trwy anrhydedd. Hydera y caiff gefnogaeth W. J. Gruffydd. Mae'n debyg iddo gyhoeddi mwy o lyfrau Cymraeg a Saesneg nag unrhyw awdur Cymreig sy'n fyw. Mae'n amgau rhestr o'i ddramâu. Rhestrir y mathau o lyfrau a baratowyd ganddo. Nid yw wedi cyhoeddi llyfrau ysgolheigaidd - mae'n anodd cael y rheiny i dalu. Mae wedi astudio seicoleg y Cymry. Treuliodd ddeng mlynedd yn nhaleithiau gorllewinol America yn ceisio hybu a diogelu'r Gymraeg. Mae'n anfon copi o un o'i gyhoeddiadau at W. J. Gruffydd. Gofyn i W. J. Gruffydd am ei gefnogaeth i'r cais.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 566.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
567. vtls005426628 ISYSARCHB22	File - Haydn Morgan, Lerpwl,	1939, Rhag. 6.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>		

	<p>Diolch am gyhoeddi 'Ioseff a Mair' [yn Y Llenor, cyf. XVIII (1939), tt. 138-9, sef efelychiad o waith James Elroy Flecker]. Mae'n cynnig ysgrif am ddau Nadolig gynt ar gyfer Y Llenor ['Cofio Nadolig', cyf. XVIII (1939), tt. 239-41].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 567.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
568. vtls005426629 ISYSARCHB22	<p>File - Herbert Morgan, C.P.C. 1938, Chwef. 11. Aberystwyth,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Yr oedd wedi bwriadu cael cyfle i ddiolch i W. J. Gruffydd am ei ddarlith ond erbyn iddo gyrraedd ystafell y Prifathro yr oedd wedi diflannu. Hydera fod crystal hwyl ar y corff ag a welid ar y meddwl.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 568.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
569. vtls005426630 ISYSARCHB22	<p>File - J. H[ubert] M[organ], Caerdydd, [1937], Nos Fercher.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar y Cofiant - cafodd ryw ecstasi wrth ei ddarllen. Rhydd W. J. Gruffydd ymhlith y dwsin neu'r hanner dwsin blaenaf a fu'n traethu yn Gymraeg oddi ar yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae'r Cofiant yn gampwaith drwodd. Y gamp oedd dangos pwysigrwydd ac arwyddocâd Llanuwchllyn fel dylanwad ar gwrs bywyd O. M. Edwards. Dyfynnir darn o adolygiad ar un o lyfrau A. L. Rowse a chymhwysir hyn at waith W. J. Gruffydd gyda'r Cofiant. Dylid cyfieithu'r Cofiant i'r Saesneg.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 569.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
570. vtls005426631 ISYSARCHB22	<p>File - T. Harold Morgan, Llanisien, [19]44, Mai 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu at W. J. Gruffydd ar ran Cynghrair Cymreig y Prifathrawon i ddiolch iddo am ei waith da dros addysg Gymreig yn ystod y dadleuon ynglŷn â'r Bil Addysg yn y Senedd. Ysgrifenna ar ran 550 o brifathrawon Cymru.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 570.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
571. vtls005426632 ISYSARCHB22	<p>File - T. J. Morgan, Radur, [19]36, Hyd. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p>

	<p>Anfon cân sydd wedi bod ar ei hanner ers misoedd er mwyn i W. J. Gruffydd fwrw golwg drosti. Y mae wedi bod fel 'hen gownt' yn pwysu'n drwm ar ei ysgwyddau. Mae ganddo bedair ysgrif yn barod yn y ty ac un ohonynt ar gyfer Y Llenor. Mae'n bwriadu llunio cyfrol gan ei fod yn un o'r ychydig bobl ddigyfrol yng Nghymru. Mae'n mynd i Gwm Tawe dros y Sul ac yn gobeithio cael golwg ar gynnwys Plas Penllergaer gan fod ocsiwn yno yr wythnos ganlynol.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 571.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>572. vtls005426633 ISYSARCHB22</p>	<p>File - T. J. Morgan, Radur, [19]41, Awst 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n cynnig am swydd weinyddol ac yn gofyn i W. J. Gruffydd roi geirada drosto yng nghlust Pierce Jones. Collodd T. J. Morgan wythnos o waith o achos y fflw. Ei argraff o ddarllen hanes yr Eisteddfod oedd mai rhywbeth yn digwydd tua 'Greenland oer fynyddig' oedd hi. Cyfeiriad at erthygl y Morgrugyn Cloff yn rhifyn y mis blaenorol o'r Ddraig Goch. Mae'n wir ddrwg ganddo dros [Iorwerth] Peate, mae'n amlwg mai casineb personol ei gydswyddogion sy'n gyfrifol.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 572.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>573. vtls005426634 ISYSARCHB22</p>	<p>File - T. J. Morgan, Radur, [19]43, Awst 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae eisiau barn W. J. Gruffydd ar ba swydd i'w dewis erbyn diwedd y rhyfel. Pe bai'n dod yn ôl i'r Coleg byddai'n derbyn £200 yn llai na'i swydd yn y Weinyddiaeth Lafur. Nid yw'n gweld bod cadair prifysgol i ddod i'w ran am gyfnod hir. Hoffai gael swydd yn ymwneud â Chymru a'r Gymraeg. Bu'n ystyried swydd fel Cofrestrydd un o'r colegau. Mae'n hoffi gwaith gweinyddol erbyn hyn. Bu'n ystyried cynnig am swydd gyda'r Bwrdd Addysg hefyd. Gwahodd W. J. Gruffydd draw i drafod y mater gan ychwanegu bod yno gnwd ardderchog o wynwyn, cennin a ffa Ffrengig yn ei ddisgwyl.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 573.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>574. vtls005426635 ISYSARCHB22</p>	<p>File - T. J. Morgan, Radur, [19]52, Chwef. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Dyfodol Y Llenor. Ffoniodd Thomas Parry a bu Saunders Lewis yn ei weld. Trafod camddealltwriaeth yngl?n â dyfodol Y Llenor a rhan W. J. Gruffydd fel golygydd. Credai Thomas Parry a Henry Lewis mai galw cyfarfod cyhoeddus i geisio achub Y Llenor oedd yn bwysig. T. J. Morgan yn ceisio profi ei fod wedi llythyru â W. J. Gruffydd yngl?n â beth oedd ganddo ef mewn golwg. Gan mai T. J. Morgan a fu'n gyfrifol am Y Llenor er 1946 yr oedd dyletswydd arno i geisio trosglwyddo'r Llenor i ofal rhyw fwrdd neu gorff newydd. Nid oedd anhawster yngl?n ag enw'r cylchgrawn er mai Hughes a'i Fab, mae'n debyg, oedd piau'r hawlfraint. Nid yw Saunders Lewis yn fodlon cydolygu gyda W. J. Gruffydd, mae'n trefnu cael Hugh Bevan i gydolygu ag ef. Pa un yw'r gorau Llenor a Saunders Lewis yn olygydd arno neu dim</p>

	<p>Llenor o gwbl? Bu T. J. Morgan yn gweithredu'n gyfansoddiadol ar hyd y ffordd gyda'r bwriad o achub Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 574.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
575. vtls005426636 ISYSARCHB22	<p>File - Haydn Morris, Llanelli, [19]51, Meh. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n hoffi emyn W. J. Gruffydd 'Y Cymry Alltud' ac wedi cyfansoddi tŷn yn arbennig iddo. Mae'n amgau copi sol-ffa a hen nodiant o'r dŷn. Hoffai dderbyn ei farn arni. Mae croeso i Gyngor yr Eisteddfod ei defnyddio yn y Seremoni os tybir ei bod yn deilwng.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 575.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
576. vtls005426637 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd] at R. Hopkin Morris, BBC, Caerdydd, 1937, Ebrill 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Y mae [Iorwerth] Peate yn paratoi erthygl yn beirniadu rhaglenni'r tri mis blaenorol ar gyfer Y Llenor. Mae'n cynnwys beirniadaeth lem ar y sgysiaua ddarllwyd. Os hoffai R. Hopkin Morris weld yr erthygl cyn ei chyhoeddi y mae croeso iddo. Fe gaiff gyfle i ymateb yn nes ymlaen. Nid yw am dramgwyddo R. Hopkin Morris gan fod arno gymaint o ddyled iddo. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 576.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
577. vtls005426638 ISYSARCHB22	<p>File - R. Hopkin Morris, Caerdydd, [19]37, Ebrill 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ysgrifennu ato yngl'n ag erthygl [Iorwerth] Peate. Mae'n cytuno na ddylai ei darllen cyn ei chyhoeddi. Os bydd y feirniadaeth yn deg fe geisir cywiro'r diffygion. Mae ei ferch yn ysbyty Dolgellau a'i wraig yn y gwely yn dioddef o phlebitis.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 577.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
578. vtls005426639 ISYSARCHB22	<p>File - R. Hopkin Morris, BBC, Caerdydd, 1938, Ebrill 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Yngl'n a'r bwriad i gael dwy ddarlith genedlaethol i Gymru. Traddodir yr un Saesneg ym mis Hydref a'r llall yn ystod yr wythnos gyntaf o Fawrth yn Gymraeg. Bydd Dr Tom Jones yn traddodi'r un Saesneg</p>

	<p>ar ei brofiadau o'r Cyfrin-gyngor a gofynnir i W. J. Gruffydd draddodi'r un Gymraeg ar 'Beirniadaeth Lenyddol yng Nghymru' ym Mawrth 1939. Cynigir pum gini ar hugain iddo, yr hawlfraint i fod yn eiddo'r Gorfforaeth. Cyhoeddir y ddarlith yn llyfryn. Gall ddewis gwell testun os y mynn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 578.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
579. vtls005426640 ISYSARCHB22	<p>File - R. Hopkin Morris, BBC, Caerdydd, 1938, Ebrill 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am gydsynio â'r cais. Mae ei syniad i draddodi darlith ar Ceiriog yn gampus. Hyd y ddarlith fydd hanner awr i ddeugain munud.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 579.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
580. vtls005426641 ISYSARCHB22	<p>File - R. Hopkin Morris, BBC, Caerdydd, 1938, Mai 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am gael gweld llythyrau [yn canmol rhaglen radio gan W. J. Gruffydd]. Ni chlywodd y sgwrs ei hunan - yr oedd yn teithio ar y pryd. Y mae iddi'r un blas â Hen Atgofion a chofiant O. M. Edwards. Mae'n canmol 'Gair Personol' W. J. Gruffydd yn Tir Newydd. Beth a feddylia wrth sôn am 'sentimentaliaeth anesgusodol 'Sioncyn'? Nid oes gronyn o sentimentaliaeth yn y gerdd mwy nag yn nameg y Mab Afradlon.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 580.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
581. vtls005426642 ISYSARCHB22	<p>File - R. Hopkin Morris, BBC, Caerdydd, 1938, Mai 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Amgau y llythyrau y danfonodd W. J. Gruffydd ato. Gwnaethpwyd nodyn ohonynt.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 581.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
582. vtls005426643 ISYSARCHB22	<p>File - R. Hopkin Morris, BBC, Caerdydd, 1938, Awst 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr W. J. Gruffydd yngl'n â darllediad Mr D. P. Williams. Rhoddwyd cyfle iddo ddarlledu yn 'newyddion' yr Eisteddfod. Ni roddwyd cyfle iddo siarad yn erbyn dyfarniad yr Eisteddfod. Ni fwriedir beirniadu awdurdodau'r Eisteddfod mewn unrhyw ffordd.</p>

	<p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 582.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
583. vtls005426644 ISYSARCHB22	<p>File - T. E. Nicholas, Aberystwyth, [19]43, Ion. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n cyhuddo ysgolheigion Cymru o fygu'r gwrtaith gwerinol sydd yn hybu beirdd drwy fynnu cywirdeb iaith a chystrawen. Cred y byddai'n well i fechgyn gwrdd i lunio englyn anghywir na mynd i chwarae darts. Nid oes neb ond Dewi Emrys yn nawddogi'r math hwn o wrtaith. Cafodd bleser mawr o ddarllen llyfr W. J. Gruffydd. Mae'n llawenychu pan ddadlennir gorchestion y werin. Trafod y 'bwytäwr pechod'. Trafod agwedd y Blaid [Genedlaethol] a S[aunder Lewis] at yr Ail Ryfel Byd. Roedd penderfyniad S[aunder Lewis] i sefyll dros y Blaid yn sedd y Brifysgol yn hollol anwerinol. Y mae W. J. Gruffydd yn ddigon diogel yn yr etholiad hwn. Fe gyll y ddau arall eu hernes.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 583.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
584. vtls005426645 ISYSARCHB22	<p>File - F. J. North, Caerdydd, [19]42, Chwef. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Ysgrifennu at W. J. Gruffydd yn dilyn erthygl ganddo yngl?n ag ailfywiogi cefn gwlad yn y Western Mail. Cred fod llawer ohono yn ymwneud â'r ffaith fod pobl ar y cyfan heb fod yn ymwybodol o'r wlad o'u cwmpas. Deuai ei nain o Langlan ger Abersoch ac er iddo gael ei eni yn Llundain, yr oedd ei sgwrs hi bob amser am ryfeddodau byd natur. Ni chafodd rhai eu dysgu i werthfawrogi'r wlad o'u cwmpas. Mae angen ail-greu diddordeb yn yr amgylchfyd. Ceisiodd wneud hynny trwy draddodi tua 400 darlith ar hyd a lled Cymru. Y mae daeareg Cymru bob amser yn gefndir i'r sgysiau hyn. Nid difaterwch sydd i gyfrif am y diffyg diddordeb.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 584.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
585. vtls005426646 ISYSARCHB22	<p>File - T. J. North, Caerdydd, 1954, Medi 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Penderfynodd Cyngor yr Amgueddfa Genedlaethol anfon llythyr at W. J. Gruffydd i ddiolch iddo am ei waith yn 1943 yn llwyddo i gael pedair torch o Oes y Pres a ddarganfuwyd yng ngogledd sir Frycheiniog i ofal yr Amgueddfa.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 585.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>586. vtls005426647 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Gilbert Norwood, Toronto, 1937, Chwef. 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi darllen hanes yr achos yng Nghaernarfon [Yr Ysgol Fomio] ac wedi cael ei ddwysbigio ganddo yn fawr. Mae'n llongyfarch W. J. Gruffydd am ei lythyr yn y Guardian. Mae'n rhagweld y Cymry'n cael eu ffordd yn yr un ffordd ag y cafodd y suffragettes eu ffordd trwy ddifetha meysydd golff.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 586.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>587. vtls005426648 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Gilbert Norwood, Toronto, 1937, Mai 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ysgrifennu gan ei bod yn rhy boeth i weithio. Mae'n edrych ymlaen i weld W. J. Gruffydd eto. Bydd yn y Barry Hotel erbyn canol Mehefin. Yr oedd yn wrthun ganddo glywed bod Saunders Lewis wedi colli ei swydd. Sôn am lwyddiant P. M. Jones yng Nghaergrawnt. Holi am Llewelyn a Richardson.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 587.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>588. vtls005426649 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Gilbert Norwood, Toronto, 1938, Hyd. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd bleser mawr o dderbyn llythyr W. J. Gruffydd. Y mae arno gywilydd o fod yn Sais ar ôl yr hyn a wnaeth [Neville] Chamberlain. Y mae'n dechrau teimlo diflastod o gymryd dosbarthiadau. Mae'n dod ymlaen yn dda gyda'r rhagymadrodd i waith Pindar.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 588.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>589. vtls005426650 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Gilbert Norwood, Lake Louise (ar fwrdd y Duchess of Athol), 1939, Medi 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Pan gyhoeddwyd bod rhyfel yr oedd yn Blois ac yn lle dal yr Empress of Britain yn Cherbourg fe hwyliodd o Lerpwl ar y Duchess of Athol. Ceisiodd swyddog y tollau yn Ffrainc gymryd ei lythyr credyd Canadaidd oddi arno. Disgrifiad o sut yr hebryngwyd y llong allan gan longau rhyfel. Gofyn am fanylion yngl?n â chyfyngiadau amser rhyfel.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 589.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>590. vtls005426651 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Gilbert Norwood, Vancouver Island, 1940, Gorff. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n synhwyro bod y rhyfel yn digalonni W. J. Gruffydd yn fwy na'r cyffredin oherwydd ei sensitifrwydd creadigol. Nid yw'n credu y bydd i'r Americanaid ymuno â'r rhyfel oni bai iddynt gael eu gorfodi. Y maent yn genedl wedi ei phydru gan foethusrwydd a thrachwant. Mae'n lladd ar yr Americanaid. Peth ffôl yw sôn am yr hyn fydd gan hanes i ddweud am y rhyfel - y presennol sy'n bwysig. Mae'n gweithio ar 'Fetaphyseg' Aristotlys. Y mae dymchweliad Ffrainc yn drychineb. Nid yw'r Ffrancwyr yn ymladdwyr wrth reddf. Mae'n feirniadol iawn o'r gyfrol War and Peace a nifer o glasuron eraill. Disgrifir ei amgylchiadau ganddo. Mae'n hafaidd ac yn fan delfrydol i nofio gyda chopau dan eira yn y golwg. Mae'n paratoi darlith ar Eugene O'Neill.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 590.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>591. vtls005426652 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Gilbert Norwood, Parc Cenedlaethol Jasper, Canada, 1940, Medi 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Wedi aros yn Jasper Park Lodge ar ei ffordd yn ôl i Toronto. Mae'n lle eithaf ffurfiol a'r mwyafrif o'r ymwelwyr yn Americanaid. Mae yno gerddorfa wyth offeryn. Coed yw popeth bron yno, mae hyd yn oed y blwch llythyrau yn dwll ym monyn coeden. Nid oes yna fawr iawn o ddiwylliant yn y gorllewin. Yr oedd yn falch i gyrraedd Victoria er mwyn cael prynu The New Republic a The New Statesman.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 591.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>592. vtls005426653 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [W. J. Gruffydd] at [Gilbert Norwood], 1940 Rhag. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennodd am ei agwedd at y rhyfel yn Y Llenor. Yn yr erthygl ceisiodd ddangos fod Pabyddiaeth a Thotalitariaeth bob amser yn gyfochrog. Ei unig ofid yw y bydd Cymru, gweddill Prydain ac, yn wir, gweddill y byd yn cael eu gwaredu oddi wrth ddemoniaeth y dylid bod wedi ei goncro 2000 o flynyddoedd ynghynt. Sôn am staff Adran y Clasuron yng Ngholeg Caerdydd. Bu ymchwiliad yn ystod y tymor i ddiswyddiad gwraig ar y staff a oedd yn disgwyl plentyn. Olive Wheeler a oedd yn gyfrifol am y diswyddiad. Yr oedd hi wedi cefnogi hawl gwagedd priod i gadw eu gwaith ond nid oedd wedi rhagweld y byddai gwagedd priod yn cael plant! Trafod y bomio a fu ar Fryste a Chwffentri. Holi am hanes Canada ac agweddau yno tuag at y rhyfel. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 592.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>593. vtls005426654 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Gilbert Norwood, Toronto, 1941, Mai 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Mae'r tymor, yng Nghanada, wedi dod i ben. Mae ar fin priodi eto gyda chyn ddisgybl a fu'n llwyddiannus iawn mewn Clasuron, yn gantores a phianydd clodfawr. Bu'n ystyried y cam yn ddwys oherwydd y gwahaniaeth oed yn fwy na dim. Y maent yn priodi ar 28 Mehefin. Cyfeirio at achos Hess. Nid yw'n credu y byddai Churchill yn gwneud arweinydd da yn ystod y cyfnod wedi'r rhyfel er ei fod yn arweinydd rhyfel tan gamp. Y trethi rhyfel a godir yng Nghanada - mae pawb yn gefnogol i'r ymgyrch ond y Catholigion yn Quebec yn gwrthwynebu gorfodaeth filwrol. Mae'n rhoi hanes yr anerchiad a ysgrifennwyd ganddo ar gyfer ei ddarlledu i Brydain a Gogledd America ar ddydd Sant Siôr. Cafodd ei apwyntio yn athro anrhydeddus yn y Clasuron gan Brifysgol California.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 593.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
594. vtls005426655 ISYSARCHB22	<p>File - Gilbert Norwood, Toronto, 1941, Hyd. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafwyd trefn ar bethau. Bu'r briodas, y mis mêl a'r cyfnod o ymgyrfa ac yn awr fe ddechreuodd y Brifysgol unwaith eto. Ceir ychydig o hanes y briodas a disgrifiad o'r cartref newydd. Nifer y myfyrwr Clasuron wedi disgyn eto. Ofn gwaith ymenyddol ar bobl Canada, dyna paham y lluniwyd y gwyddorau cymdeithasegol. Bu'n cynrychioli Caerdydd a Chaergrawnt yn natliadau 50 mlynedd Prifysgol Chicago. Nid yw yn darllen hanes y rhyfel bellach. Ni all neb esbonio goresgyniad Rwsia.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 594.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
595. vtls005426656 ISYSARCHB22	<p>File - Gilbert Norwood, Toronto, 1942, Meh. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Sôn am y ty y maent yn byw ynddo. Yr oedd ef yn rhy hen i brynu ty. Disgrifir y seremoni raddio ddeuddydd ynghynt. Mae wedi dechrau paratoi ei ddarlithiau ar Pindar ar gyfer Prifysgol California, i'w traddodi yn gynnar yn 1944. Mae sôn ei fod am dderbyn F.R.S.C. Hanes ymosodiad ar rywbeth a ysgrifennwyd ganddo gan Almaenwr. Gofynnwyd iddo gyfieithu emyn Saesneg i'r Lladin. Mae siwgrwr i'w ddogni yng Nghanada. Nid oes gorfodaeth filwrol i fod yno ar gyfer gwasanaeth tramor. Darganfuwyd mai dim ond 63% o boblogaeth y wlad oedd yn gefnogol i'r rhyfel.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 595.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
596. vtls005426657 ISYSARCHB22	<p>File - Gilbert Norwood, Toronto, 1943, Mawrth 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar gael ei ethol i Dy'r Cyffredin. Hoffai dderbyn yr hanes i gyd yngl'w'n â'r digwyddiad.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 596.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
597. vtls005426658 ISYSARCHB22	File - Gilbert Norwood, Toronto,	1945, Awst 13.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar gadw ei sedd a chynnyddu ei fwyafrif. Disgrifio ychydig ar wleidyddiaeth Canada. W. J. Gruffydd ei hunan yw un o'r rhesymau dros i Gilbert Norwood ddyfaru gadael Prydain - mae'r rhesymau eraill yn cynnwys yr eglwysi cadeiriol a nofio yn y môr. Cafodd flas mawr wrth ddarllen A Word in your Ear gan Ivor Brown. Fe luniodd fynegai ar 4,000 o gardiau i'w gyfrol ar Pindar. Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei benodiad yn Llywydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n methu deall un frawddeg yn llythyr blaenorol W. J. Gruffydd sef '... to be a Welsh Nationalist means submission to the Vatican ... they have shoals of money supplied by rich Catholics'. Mae Prifathro a Llywydd newydd yn y Brifysgol ac fe addawyd mwy o staff iddo yn Adran y Clasuron. Disgwylir dwywaith gymaint o fyfyrwyr y sesiwn dilynol oherwydd y niferoedd sy'n dychwelyd o'r lluoedd arfog. Mae'n edrych ymlaen i gael ymweld â W. J. Gruffydd gan fod y rhyfel drosodd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 597.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
598. vtls005426659 ISYSARCHB22	File - J. B. Oldham, Amwythig,	1937, Ebrill 14.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ateb ymholiad W. J. Gruffydd ynglŷn â chysylltiad Ellis Wynne yn Ysgol Amwythig. Collwyd y gyfrol berthnasol o'r gofrestr yn ystod y ddeunawfed ganrif. Mae cyfeiriadau eraill at Ellis Wynniaid eraill yn 1579 a 1626. Aeth nifer o fechgyn yr ysgol ymlaen i Goleg Ieuan Sant, Caergrawnt, ond nid oes sôn amdano yn y cofrestri mynediad yno ysywaeth.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 598.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
599. vtls005426660 ISYSARCHB22	File - C[harles] T[albut] O[nions], Rhydychen,	[19]40, Medi 9.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Trafod y gair ciwga, y 'Jew's Harp'. Holi am ystyr canoe mewn brawddeg Ladin. A thynnu sylw at debygrwydd rhwng gwerin y wyddbwyll a foireann fidhchille mewn Gwyddeleg. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 599.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
600. vtls005426661 ISYSARCHB22	File - Ben Owen, Llanberis,	194[1], Mawrth 3.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>	

	<p>[R.] Bryn Williams, y Capel Coch, Llanberis, yw awdur Y Ddarlith Olaf ar J. Morris Jones. Nid anghofir safiad gwrol W. J. Gruffydd adeg helynt Llyn. Braf yw cael teimlo os dwy farn, un galon. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 600.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
601. vtls005426662 ISYSARCHB22	<p>File - [Bob Owen, Croesor], C.P.G.C. [?1931]. Bangor,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n dosbarthu a chatalogio Adran Gymreig Llyfrgell y Coleg. Oherwydd hynny ni chafodd gyfle i ymchwilio i hanes Absalom Roberts. Cafodd gyfle i edrych ar ffeil o gyfeiriadau, fodd bynnag, ac fe'u rhestrir ganddo.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 601.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
602. vtls005426663 ISYSARCHB22	<p>File - Bob Owen, Croesor, 1931, Mai 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymddangosodd Cerdd yr Hen Wr, David Charles (Iau), gyntaf mewn cyfnodolyn o'r enw Yr Addysgydd IX (1823), tt. 107-8. 'Y Cardotyn' yw'r teitl yno. Manylion am Rowland Walter 'Ionoron Glan Dwryd'. Mae darlun ohono yn Cymru (O. M. Edwards) cyf. 48 (1915), t. 225, ynghyd ag ychydig o'i waith barddonol. Mae gan Bob Owen ddau neu dri llythyr o'i eiddo at ei frawd, William Walter, ynghyd â'r ddau lyfr a gyhoeddwyd ganddo. Diolch am Y Llenor ac am yr 'Atgofion' yn enwedig. Mae 'canmol mawr arnynt ond gan hen bregethwyr M.C. a blaenoriaid'. Atgofion Bob Owen am gyfarfod â thad W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 602.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
603. vtls005426664 ISYSARCHB22	<p>File - Bob Owen, C.P.G.C. Bangor, 1931, Meh. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ceir 'Bedd fy nghariad' yn llyfr cyntaf 'Ionoron [Glan Dwryd]', sef Lloffyn y Gweithiwr (Bala, 1852). Methwyd â chael hyd i gofnod am ei farw. Nid oes copi o'r Cenhadwr Americanaidd (1882-3) ganddo ef yn bersonol nac ym Mangor ychwaith. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 603.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
604. vtls005426665 ISYSARCHB22	<p>File - Bob Owen, Croesor, 1931, Gorff. 13.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Yn y Cefnfaes, Blaenau Ffestiniog, y ganed Rowland Walter, 'Tonoron Glan Dwryd' yn 1819. Cafwyd hyd i'r wybodaeth yn Y Drych (15 Medi 1905). Bu farw yn 64 oed yn Hydeville, Vermont, ym Mawrth 1884. Deheuw'r oedd ei dad, Walter Davies a'i fam yn frodor o Lanuwchllyn. Bu'n lled aflwyddiannus fel cystadleuydd eisteddfodol. Onid yw Cerddi Dr T. H. Parry-Williams yn odidog?.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 604.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
605. vtls005426666 ISYSARCHB22	<p>File - Bob Owen, Croesor, 1937, Mawrth 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Rhestrir yr hyn sy'n hysbys ganddo am Ellis Wynne o'r Lasynys. Cynhwysir cartau achau o ochr ei dad, o ochr ei nain a Thalytreuddyn, rhai Lowri Llwyd, ail wraig Ellis Wynne, yn ogystal â rhai y wraig gyntaf. Ceir adysgrif hefyd o'r rhigwm a gyfansoddwyd gan 'Y Tiwniwr Du' yn 1702 i Ellis Wynne.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 605.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
606. vtls005426667 ISYSARCHB22	<p>File - Bob Owen, Croesor, 1937, Ebrill 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Hanes llosgi llawysgrifau a llyfrau Ellis Wynne yn Erw Fair, Beddgelert, yn ôl yr hyn a ddywedodd 'Carneddog'. Arbedwyd ambell eitem yn llaw William Wynne a'u trosglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol. Hanes Beibl Mawr Ellis Wynne a fu ym meddiant teulu ym Mhren-teg. Hanes bwrdd a fu'n eiddo i Ellis Wynne, 1699, mewn arwerthiant ger Pwllheli. Manion am rai sy'n honni eu bod yn ddisgynyddion i Ellis Wynne.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 606.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
607. vtls005426668 ISYSARCHB22	<p>File - Bob Owen, Croesor, 1937, Ebrill 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgaw adysgrif o Gywydd Marwnad Siôn Rhydderch i Ellis Wynne a godwyd o Lawysgrif Tanybwllch. Nid oes unrhyw wybodaeth arall am Ellis Wynne yn y llawysgrif honno. 'Cywydd salw, dienaidd' ond yr unig un sydd ar gael i Ellis Wynne. Mwy o wybodaeth am achau Ellis Wynne, etc. Mae Bob Owen am geisio am le ar y Cyngor Sir dros blwyf Llanfrothen. Mae'n aelod o'r Blaid Genedlaethol er 1925 ond nid yw am gyhoeddi'r ffaith honno, dim ond gweithredu egwyddorion y Blaid yn gall os caiff ei ethol. Mae am wrthwynebu'r rhai sy'n mynd ar y Cyngor Sir er mwyn parchusrwydd ac anrhydedd, snobyddion gan mwyaf yn aelodau o'r Seiri Rhyddion. Gwell ganddo'r gwir ysweiniaid toriaidd. Mae am wneud ei orau i geisio cadw'r ysgolion gwlad yn fyw a chadw'r plant yno hyd nes y'u bod yn 13 oed. Melltith yw'r Ysgolion Canol sy'n tynnu plant o'r wlad 'i snobydda mewn pentrefydd mawr a threflannau.' Cynhwysir adysgrif o'r Cywydd Marwnad i Ellis Wynne.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p>

	Preferred citation: 607. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
608. vtls005426669 ISYSARCHB22	File - Bob Owen, Croesor, 1937, Mai 1. <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Anfon achau ychwanegol yngl?n ag Ellis Wynne. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 608. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
609. vtls005426670 ISYSARCHB22	File - Bob Owen, Croesor, 1937, Mai 4. <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Anfon dau ddyfyniad yngl?n ag Ellis Wynne. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 609. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
610. vtls005426671 ISYSARCHB22	File - Bob Owen, Croesor, 1937, Meh. 8. <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Sôn am gywydd yn llawysgrif Caerdydd 64 i Hwmffre Llwyd o Hafod Ysbyty, plwyf Ffestiniog, o waith Ellis Rowland, bardd o Harlech. 'Roedd Hwmffre Llwyd yn ddisgynnydd o Siôn Prys, merch Edmwnd Prys. Gobeithio gweld W. J. Gruffydd yn Ysgol Haf y Bala. Mae'n gobeithio prowla o gwmpas Arduddy cyn bo hir er mwyn cael mwy o hanes Ellis Wynne. Mae disgynnydd iddo'n byw yn Llanbedr, yn ôl yr hanes, sy'n perchen creiriau a berthynai i Ellis Wynne. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 610. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)

Cyfres | Series 611-52. vtls005426672 ISYSARCHB22: Llythyrau: Owen, J. Dyfnallt-Parry, R. Williams,

Dyddiad | Date: 1924-46. (dyddiad creu) | (date of creation)

Lleoliad ffisegol | Physical location: ARCH/MSS (GB0210)

Nodyn | Note [generalNote]:

Preferred citation: 611-52.

FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
611. vtls005426673 ISYSARCHB22	File - [J.] Dyfnallt [Owen], Caerfyrddin,	1944, Chwef. 15.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ddrwg ganddo i W. J. Gruffydd fethu â dod i annerch oherwydd ei ddigalondid. Y mae llawer yn credu mai W. J. Gruffydd, yn anad neb, sydd i 'ganu corn Arthur i alw'r genedl o'r ogof'. Bu Gwynn yno'r noson o'r blaen yn siarad ag Urdd y Gweithwyr. Chwith yw ei weld wedi mynd yn hen, ond y mae ei feddwl yn fyw iawn. Ceisio sicrhau W. J. Gruffydd fod ganddo flynyddoedd eto o'i flaen 'i achub a ellir o enw da ein hen genedl annwyl'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 611.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
612. vtls005426674 ISYSARCHB22	File - John Owen, Morfa Nefyn,	[19]39, Gorff. 22.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Hanesyn am dorri cyhoeddiadau yn sir Drefaldwyn yn ystod ei gyfnod yng Ngholeg y Bala. Cyfeiriadau at Lyn Dwrdu (Y Tro Olaf, t. 188). Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 612.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
613. vtls005426675 ISYSARCHB22	File - [William Owen], 'Mate Bill', Biwmares,	1937, Mawrth 5.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu yn dilyn y mwynhad a gafodd o raglen o ddarlleniadau am Gymru yn farddoniaeth a rhyddiaith. Sylweddola mai oherwydd iddo fynychu dosbarth llenyddiaeth W. J. Gruffydd yn y gorffennol yr oedd y cyfan mor gyfarwydd iddo. Yr oedd y dosbarthiadau hynny fel 'agor drws teml gweledigaethau'. Cafodd bleser mawr o ddarllen gwaith W. J. Gruffydd hefyd. Gwyr am bob troedfedd o'r triongl tir yn Llanddeiniolen a ddisgrifiwyd mor fendigedig gan W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 613.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
614. vtls005426676 ISYSARCHB22	File - William Richard Owen, Rhewl, Rhuthun,	[19]38, Awst 4.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei araith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gwrandawai cwmni bach arno yno o fewn tafliad carreg i'r fynwent lle gorwedd Emrys ap Iwan. Dymuno pob hwyl iddo ddweud y gwir 'wrth Philistiaid o bob math'. Cerdyn post.</p>		

	<p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 614.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
615. vtls005426677 ISYSARCHB22	<p>File - Blodwen [Jane Parry], Bethel,</p> <p>[19]38, Tach. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch o glywed ei fod yn bwriadu dod adref dros y Nadolig. Pe bai'n medru dod yn amlach hwyrach na fyddai mor ddigalon. Mae'n ofni iddo 'fynd o'i go' gan bod hanes am hynny'n digwydd ar ddwy ochr y teulu. Hyderu iddo gael hwyl ar ei ddarlith yn Rhydychen. Mae disgwyl mawr amdano i ddarlithio ym Methel hefyd. Newyddion lleol.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 615.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
616. vtls005426678 ISYSARCHB22	<p>File - Blodwen [Jane Parry], Bethel,</p> <p>[c. 1940], Dydd Gwener.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon beth a ddywedodd 'Celt' am W. J. Gruffydd yn y Daily Post. Credai hithau ei fod yn swnio'n ddigalon yn ei nodiadau golygyddol i'r Llenor. Mae'n ei annog i beidio â thorri ei galon pan fydd 'ambell i hen granc yn brathu yn o hegar'. Clywodd rai'n dweud lawer gwaith mai ef yw'r llenor Cymraeg a'r beirniad llenyddol gorau'n fyw. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n cyfrif yng Nghymru heddiw o'i blaid. Newyddion lleol. Trefnu lle i'r plant sydd yn dod yno i osgoi'r cyrchoedd awyr. Mae llawer iawn o ddwr yn dod i'r ty.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 616.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
617. vtls005426679 ISYSARCHB22	<p>File - J. Parry, Upton, swydd Gaer,</p> <p>[?1937], Mawrth 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon agenda a rhybudd o gyfarfod cyffredinol Urdd y Graddedigion a fu yng Nghaer y bore hwnnw. Daethai pobl yno o bell i bleidleisio. Cododd un gwr i ddweud ei fod wedi anfon llythyr i osod protest yn erbyn diswyddo Saunders Lewis ar yr agenda ond nad oedd hynny wedi digwydd. Eglurodd Henry Lewis, y cadeirydd na roddwyd digon o rybudd. Cynigiwyd y dylid anwybyddu'r rheolau. Collwyd pleidlais ar y mater. Ceisiodd y pwyllgor wedyn ddiddymu pwynt chwech ar yr agenda a llwyddo i wneud hynny. Gofynnwyd i'r Wasg a oedd yn bresennol i beidio â chofnodi'r digwyddiad. Awgrymir y gellir cyhoeddi'r stori yn Y Brython. Synnai o weld pwy oedd rhai o gefnogwyr y pwyllgor: T. I. Ellis, Morgan Rees ac R. T. Jenkins. Trueni na fuasai'r Blaid, sydd â chefnogaeth cynifer o raddedigion, wedi anfon mwy o gefnogwyr i'r cyfarfod. Roedd yn ymwybodol o wrthwynebiad y cadeirydd drwy gydol y cyfarfod.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 617.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>	

	ARCH/MSS (GB0210)	
618. vtls005426680 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,	[19]24, Ion. 22.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau stori fer o waith Hugh Ellis Hughes, prifathro ysgol yng Nghoedpoeth ac aelod o ddosbarth R. Williams Parry. Bu W. J. Gruffydd yn ei beirniadu yn yr Eisteddfod Ryng-golegol gan ddweud ei bod 'yn nerthol iawn' ond bod angen ei chwtdogi. Gwnaethpwyd hynny a hoffai iddi ymddangos yn Y Llenor. Fe amgaëir hefyd draethawd byr gan fachgen o Langybi sy'n aelod o ddosbarth R. Williams Parry yn Nhrefor. Bu'n sâl am wythnos ar ôl tynnu dannedd. Cafodd E. M[organ] H[umphreys] orchymyn gan ei feddyg i roi'r gorau i'w waith am fis. Rhestru rhai fel E. Morgan Humphreys a ddylai gael eu cydnabod gan y Brifysgol. Bu farw Henry Hughes, Bryncir, heb ei gydnabod.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 618.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
619. vtls005426681 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, [Bethesda],	1931, Awst 13.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon y gerdd ['Blwyddyn'] i'r Llenor [cyf. X (1931), t. 132]. 'Grand Mistake' ei fywyd oedd gadael Cefnddwysarn. Ceir cyfeiriad yn y pennill cyntaf at W. J. Gruffydd yn gwenu pan ddywedodd y bardd wrtho yng ngwesty'r Castell, [Bangor], mai camgymeriad oedd gadael Cefnddwysarn ar ôl bod yno flwyddyn 1912-13. Yr 'hen gyfaill marw' yw Silyn yn y trydydd pennill. O.N. (Awst 19) Mae'n anfon cerdd arall hefyd. ['Canol Oed', Y Llenor X (1931), t. 195].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 619.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
620. vtls005426682 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,	[19]31, Hyd. 5.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Holi am ei gerdd 'Canol Oed' - nid yw wedi ymddangos yn Y Llenor. Os nad yw hi i ymddangos yn rhifyn y gaeaf, hoffai ei hanfon i'r Western Mail neu'r Traethodydd. Y mae D. F. Roberts a David Phillips wedi afradu stampiau arno bob mis ers blynyddoedd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 620.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
621. vtls005426683 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, Talysarn,	[19]31, Tach. 9.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am gyfeiriadau caredig at ei waith yn rhagymadrodd W. J. Gruffydd i'r Flodeugerdd Gymraeg. 'I ddyd sy'n diodde'n drwm dan 'atalwyd y taeg' yr oedd yn brofiad pur felys'. Mae am newid ychydig ar un pennill o'r gerdd 'Canol Oed'. Mae'n falch bod W. J. Gruffydd wedi rhoi lle dyledus i 'Islwyn' a</p>	

	<p>Cheiriog yn Y Flodeugerdd. Bydd y gyfrol yn cyfateb yng Nghymru i Golden Treasury Palgrave yn Lloegr. Mae R. Williams Parry yn siarad ar y radio o Gaerdydd ar 18 Ionawr [1932] ac i ddarlithio yng Nghaerffili y nos Wener cynt ac yna gwylio'r rygbi yn Abertawe ar y Sadwrn. Hydera weld W. J. Gruffydd y pryd hwnnw.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 621.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
622. vtls005426684 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, [19]35, Mai 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ysgrifennu ar ran dau sydd yn ceisio am swydd gyda'r BBC, swydd 'Talks Assistant'. Y cyntaf yw William Thomas Williams o Ben-y-groes, 41 oed, sy'n brifathro'r ysgol elfennol yno. Y mae ganddo ddulliau gwreiddiol o ddysgu plant. Y mae yn wr sy'n llawn o 'vim, pep, a zip'. Y llall yw O. M. Roberts - siaradwr huawdl ar lwyfannau'r Blaid ac yn un o'i haelodau cywiraf. Dylid gadael i Owen Parry ddewis ei gynorthwydd gan mai cydweithio ag ef fydd raid i'r sawl a benodir. Holi os yw Dafydd [mab W. J. Gruffydd] a'i lygad ar y swydd. Os ydyw dylid anwybyddu'r llythyr.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 622.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
623. vtls005426685 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, [19]35, Hyd. 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Rhoi caniatâd i W. J. Gruffydd i ddefnyddio soned o'i waith ar y radio. ['Pantycelyn', gw. Casgliad R. Williams Parry, rhif 166]. Robert Evans y Bala sydd piau'r hawlfraint ar y gyfrol. Mae Stanley Evans braidd yn flin wrth y BBC a'r Brifysgol am ddefnyddio gwaith R. Williams Parry. Hwyrach y dylid gofyn iddo ef hefyd. Ni fydd R. Williams Parry yn medru clywed y darllediad - bydd ganddo ddsbarth nos yn Llanybi yr un pryd. Gwahodd W. J. Gruffydd i ddod i aros atynt. Bu Saunders [Lewis] a Griffith John [Williams] yno'n aros. Aeth â Gruffydd John Williams i Gapel Curig, Betws-y-coed a Llanrwst 'i weled ba ryw ddoethineb a geffid yn nhai gwagedd y lleoedd hynny'. Bu iddo fwynhau.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 623.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
624. vtls005426686 ISYSARCHB22	<p>File - [R. Williams] Parry, Bethesda, [19]35, Hyd. 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am beidio â'i enwi y noson gynt. Caiff wneud hynny ar ôl 1944 pan fydd yn drigain oed a phan na fydd o bwys a yw'n llenor a beirniad llenyddiaeth. Nid yw'n meddwl y buasai wedi collfarnu Y Ddinas nac wedi dibrisio 'Gwladys Ddu'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 624.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p>

	ARCH/MSS (GB0210)	
625. vtls005426687 ISYSARCHB22	File - [R. Williams] Parry, Bethesda,	[19]35, Tach. 3.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am fwyneidd-dra llythyr W. J. Gruffydd ato [gw. R. Williams Parry 167]. Mae'n ddrwg ganddo iddo ei gamgyhuddo. Ceisia esbonio ei groendeneuwch ar y mater. Atgoffa W. J. Gruffydd o'r tro y bu'n cyd[deithio ag ef yn y trê'n o Gaerdydd i Amwythig tua 1923. Dywedodd wrtho y pryd hwnnw wrth ei geryddu am ei adolygiad o'r Llenor cyntaf yn y Welsh Outlook: 'Bardd ydach chi, nid llenor. Llenor ydi'ch cefndar yn gynta', a bardd wedyn. Ond bardd ydach chi'n gynta' ac yn ola' ...'. Adroddwyd y stori hon wrth ddegau o gyfeillion er dirfawr ddifyrrwch iddynt. Ni all anfon cerdd yn hedd offrwm iddo gan iddo dyngu llw tua thair blynedd ynghynt na chyhoeddai ddim hyd onid unionid y cam a gafodd yn 1929. Gallai anfon cerdd dan ffugenw, neu'n ddiennw ond nid yw am wneud hynny. Mae ganddo gymhlethdod o'r math a enwodd W. J. Gruffydd ac y mae amryw yn gwneud eu gorau i'w borthi. Anfonodd restr o wallau pur ddrwg yn llyfr Henry Lewis ar Lydaweg Canol ac ni chafodd ateb am bum mis.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 625.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
626. vtls005426688 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,	[19]36, Ion. 23.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am wahoddiad i anfon cân i'r Geninen. Mae ei lawysgrifen yn dipyn haws ei darllen nag un 'Eifionydd'. Gwrthod y cais am iddo dyngu i beidio â chyhoeddi dim ac yn ail ni hoffai anfon dim dan ffugenw.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 626.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
627. vtls005426689 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,	[19]36, Mai 31.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon cyfraniad i'r Llenor ['A. E. Houseman', Y Llenor, cyf. XV (1936), tt. 69-70], sydd i ymddangos yn ddiennw oherwydd iddo ddweud wrth y Prifathro Emrys Evans na phrydyddai mwyach am nad yw prydyddu'n talu i ddarlithydd. Mae'n edrych ymlaen at nodiadau'r golygydd yn Y Llenor nesaf.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 627.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
628. vtls005426690 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] P[arry], [Bethesda],	[19]36, Gorff. 5.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Hoffai gael sgwrs yngl'n â'r Tair Seren. 'Mae'r arwyddnod brandiaidd wedi peri cryn ddifyrrwch i rai o'[i glyfeillion'. Cerdyn post.</p>	

	<p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 628.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
629. vtls005426691 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,</p> <p>1936, Hyd. 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ysgrifennu yngl?n â phrotest staffiau adrannau Cymraeg [y Brifysgol] yn erbyn Cyngor Coleg Abertawe yn sgîl canlyniadau llosgi'r Ysgol Fomio a dyfodol swydd Saunders Lewis yno. Y mae Tom [Parry] yn fodlon arwyddo ond gwrthod y mae Ifor [Williams]. Bu R. T. Jenkins yn cefnogi Ifor Williams yn ei ddadl. Felly dim ond naw o'r tri ar ddeg fydd yn arwyddo. Dau o Fangor, tri yng Nghaerdydd a phedwar yn Aberystwyth. Nid teg fyddai gofyn i St[ephen John] Williams. R. Williams Parry yn synnu at safbwynt Henry Lewis. Awgrymir pwyntiau i'w hymgorffori yn y llythyr.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 629.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
630. vtls005426692 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry at G. J. W[illiams],</p> <p>1936, Hyd. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n cefnogi'r syniad o bledio pwysigrwydd arbennig Saunders [Lewis] yn llenyddiaeth Cymru. Y mae ei ymddiswyddiad gorfodol felly yn golled drist i Adran Gymraeg Coleg Abertawe. W. J. Gruffydd yw'r dyn i ysgrifennu llythyr cryf i'r Wasg. Dylai bwysleisio bod Saunders Lewis yn cyfateb i T. S. Eliot yn Lloegr. Yn yr ail baragraff gellid pledio achos D. J. [Williams] ac yna yn y trydydd gellid nodi ymddygiad Cristnogol Eglwys y Bedyddwyr yn Llandudno yn achos Lewis Valentine. Mae'n gweld arwyddocâd yn y ffaith 'mai pobl ddiawen fel Ifor, R. T. Jenkins a Harry Lewis sydd yn nogio rhag mynd i'r gad dros gymrodor'. Y mae ganddynt smotyn dall 'na ad iddynt adnabod llenyddiaeth pan welont hi. Nid oes yr un ohonynt wedi gweld magnitude Saunders'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 630.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
631. vtls005426693 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,</p> <p>[? diwedd 1936], Nos Sul.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Wrth ddyfalu beth a allai ei wneud dros Saunders Lewis cofiodd am sgwrs a ddarlledodd ryw dair blynedd ynghynt. Holi a fyddai W. J. Gruffydd yn barod i'w chyhoeddi yn Y Llenor. Mae'n wir iddi fod yn Y Faner ond yr oedd yn llawn gwallau a diflannodd ambell frawddeg yn llwyr. Ymddengys bod y llythyr protest wedi mynd i'r gwellt. Gresyn na buasai Ifor [Williams] yn aeddfed i'w lofnodi. Nid yw ei iechyd yn dda. Mae R. Williams Parry yn arswydo rhag ei farw. Oni ellid darbwyllo G[riffi]th John [Williams] i geisio am ei le. Gofyn i W. J. Gruffydd drosglwyddo llongyfarchiadau i Iorwerth Peate pan fydd yn ei weld ef.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 631.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p>	

	ARCH/MSS (GB0210)	
632. vtls005426694 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,	[19]37, Ebrill 6.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofyn caniatâd i gyhoeddi'r ddwy gerdd sydd heb ymddangos yn Y Llenor un ai yn Y Cymro neu'r Brython. Mae am bryuro i'w cyhoeddi oherwydd eu bod o natur amserol. Nid oeddynt chwaith mor loyw lenyddol â'r soned a gyhoeddwyd. ['Cymru, 1937', Y Llenor, cyfrol XVI (1937), t. 1].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 632.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
633. vtls005426695 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,	1937, Meh. 1.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon soned ['Rhyfeddodau'r Wawr', Y Llenor, cyfrol XVI (1937), t. 69] yn gyfnewid am y ddwy gerdd a ddychwelwyd iddo. Mae ganddo soned arall ond nid yw'n meiddio ei chyhoeddi rhag ofn iddo gael ei ddiswyddo. ['Y Dieithryn', Y Llenor, cyfrol XVI (1937), t. 129]. Saunders Lewis yw ei thestun. Esbonio rhai pwyntiau yngl?n â 'Rhyfeddodau'r Wawr'. Awgrymir pedwar fersiwn o'r llinell 'Rhyfeddaf oll ...' (ll. 9).</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 633.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
634. vtls005426696 ISYSARCHB22	File - R. W[illiams] Parry, Bethesda,	1937, Meh. 6, Nos Sul.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi edifaru anfon soned 'Y Dieithryn' at W. J. Gruffydd [ar hyn gweler Prys Morgan, 'Manyllder Cyfewin R. Williams Parry', Y Genhinen, cyfrol XXII (1972), tt. 31-3]. Mae ei wraig o'i chof am iddo bostio'r soned heb ddweud wrthi. Dywedodd [T. H. Parry-Williams] wrtho pan ofynnodd R. Williams Parry iddo a gai ei ddiswyddo o ganlyniad i gyhoeddi'r soned: 'Ma'n dibynnu'n hollol oes arnyn' nhw isio esgus i dy sacio ai peidio'. Y mae [Thomas Parry] yn gefnogol iddo gyhoeddi'r soned, fodd bynnag. Y mae wedi ailfeddwl, er hynny, gan nad yw ei sefyllfa yng Ngholeg Bangor yn un sicr iawn. Mae'n gofyn felly i W. J. Gruffydd beidio â chyhoeddi'r 'Dieithryn' dim ond 'Rhyfeddodau'r Wawr' a honno dan y ffugenw 'Brynfardd'. Mae'r coleg yn ei gyhuddo o gael inferiority complex ond ar yr un pryd ânt allan o'u ffordd i wneud iddo deimlo'n inferior. Yr enghraifft ddiweddaraf oedd Ifor [Williams] yn cynnig [Thomas Parry] am le ar y Bwrdd Celtaidd ac yntau'n gwybod mai dyna'r unig bwyllgor y buasai R. Williams Parry yn hoffi bod arno. Petasai'n ddyn sengl buasai wedi rhoi'r gorau i'w swydd yn 1929. Bwriada gyhoeddi soned 'Y Dieithryn' yn ei gyfrol, efallai, yn 1944, bydd yn drigain oed y pryd hwnnw. Teitl y gyfrol fydd 'Cerddi Myfyrdod a Phensyndod'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 634.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	

<p>635. vtls005426697 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [R. Williams] Parry, Bethesda, [19]37, Meh. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> 'Please disregard yesterdays letter'. Telegram.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 635.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>636. vtls005426698 ISYSARCHB22</p>	<p>File - R. W[illiams] P[arry], [Bethesda], [19]37, Gorff. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Cyfeiriad at 'Hen Atgofion' W. J. Gruffydd, Y Llenor cyfrol XVI (1937), t. 87, 'yn wyrthiol o anfydol'. Roedd R. Williams Parry wedi defnyddio 'sy'n wyrthiol o addas' mewn erthygl sydd i ymddangos yn y Bwletin nesaf. A oes angen iddo newid yr ymadrodd? Eto y gair 'nogio' - sylwodd 'Meuryn' arno yn 'Hen Atgofion' a defnyddiodd R. Williams Parry y gair yn ddiweddar hefyd. Yr oedd R. Williams Parry yn adnabod William Jones hefyd. 'Edrychai'n fwy o fardd na neb bardd a adnabam i erioed'. Diolch am weld cyhoeddi darn o brydyddiaeth heb wallau print ynddo. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 636.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>637. vtls005426699 ISYSARCHB22</p>	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, [19]38, Mai 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n anfon soned - ystori fer yn null O. Henry [sef 'Angau ar y Ffridd', Y Llenor cyfrol XVII (1938), t. 69]. Y mae'n esbonio rhai pwyntiau yn y soned yn fanwl.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 637.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>637a. vtls005426700 ISYSARCHB22</p>	<p>File - 'Ymryson Ras', [1938].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 637a.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>638. vtls005426701 ISYSARCHB22</p>	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, [19]38, Mai 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n anfon fersiwn arall o'r soned, ond nid ei fai ef yw hynny. Pan ddangosodd ef i'w fam-yng-nghyfraith ac i Emrys Williams o'r Felinheli nid oeddynt yn ei deall. Camarweiniol oedd y gair 'cyw'</p>

	<p>a chenedl 'y bychan'. Gwnaeth fân newidiadau a newidiwyd y teitl i 'Angau ar y Ffridd' - mae ganddo wrthwynebiad cryf i'w galw 'Y Fronwen' neu 'Y Wenci'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 638.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
638a. vtls005426702 ISYSARCHB22	<p>File - 'Angau ar y Ffridd', [1938].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 638a.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
639. vtls005426703 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, [19]38, Mai 31.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ddilema arno. Mae W. J. Gruffydd yn ei gynghori i alw'r soned 'Y Fronwen', ac fe'i rhybuddiwyd lawer tro gan [T. H.] Parry-Williams i beidio â bod yn rhy 'subtle'. Tra bod eraill yn ei gynghori i beidio â gollwng y gath o'r cwd cyn y diwedd. Fe gaiff golygydd Y Llenor benderfynu pa deitl i'w ddefnyddio. Mae'n cynnwys rhai cywiriadau. Mae'r llinell olaf yn ddiffiniad gweddol dda o fronwen.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 639.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
639a. vtls005426704 ISYSARCHB22	<p>File - 'Y Fronwen', [1938].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 639a.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
640. vtls005426705 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] P[arry], Bangor, [19]38, Meh. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Nid cywiriad sydd ganddo y tro hwn. Wrth edrych dros gopi o'r soned y noson cynt gwelodd fod un yn cychwyn: 'Gadawsom ffordd y ffridd - which is absurd!'. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 640.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
641. vtls005426706 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] P[arry], Bethesda, [19]38, Awst 25.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae mewn penbleth eto yngl?n â soned arall. Mae'n amgau dau gopi eto. Nid oes gwahaniaeth rhyngddynt, dim ond bod atodiad i'r ail. Roedd J. O. Williams ac Idris Foster yn edrych y naill mor syn â'i gilydd ar ôl darllen i'r diwedd. 'Pa obeith yssyd i'r glêr?' Nid yw'n awyddus i atodi y tair llinell berthnasol o'r gerdd Saesneg o dan y pennawd fel mae cofianwyr Cymreig yn sodro dyfyniad o Carlyle neu Arnold uwch pob pennod.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 641.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
641(a). vtls005426707 ISYSARCHB22	<p>File - 'Heffrod' gyda nodyn godre 'Gweler cerdd John Keats', [1938].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>['Ode on a Grecian Urn'].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 641(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
642. vtls005426708 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] P[arry], Bethesda, [19]39, Meh. 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Nid oedd wedi bwriadu anfon dim i'r Llenor y tro hwn ac ni wnaethai oni bai am Nuffield. [Mae'n amgau'r soned 'Breuddwyd y Bardd', Y Llenor, cyfrol XVIII (1939), t. 65]. Os yw'n rhy ddiweddar hoffai ei hanfon at Aneirin ap Talfan ar gyfer Heddiw. Ceir cyfeiriad at adlais o'r gerdd 'The Bells of Heaven' gan Ralph Hodgson [gw. Alan Llwyd (gol.), Cyfres y Meistri I, R. Williams Parry (Abertawe, 1979), t. 281]. Tom Richards biau'r term 'braddug', [gw. 642(a), ll.10]. Cyfeirir hefyd at Idwal Ddu o Wynedd 'yn gorfod mynd am dro drwy Landaff Fields yn lle i'r Cardiff Cottage. Ar ddydd Gwener y câi ei gyflog'. [gw. 642(a), ll. 8].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 642.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
642a. vtls005426709 ISYSARCHB22	<p>File - 'Breuddwyd y Bardd', [1939].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 642a.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
643. vtls005426710 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, [19]39, Meh. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Anfon gwelliannau i'r soned 'Breuddwyd y Bardd. Y mae 'hen warior wedi ei ddofi' (ll. 11) yn paratoi'r ffordd i'r 'teigar dof' (ll. 14). 'Performing tiger at gynnal ei berchennog yw'r hen goliar'. Hoffai gael printio dwy seren a'r nodiad ar waelod y ddalen rhag i'r darllenwyr fod mewn dryswch fel y digwyddodd y flwyddyn cynt gyda'r gair 'wrn' yn y soned 'Heffrod'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 643.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
644. vtls005426711 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] P[arry], Bryngwna Inn, [19]39, Meh. 7. Cae Athro,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n well gan Emrys (brawd T. H. W. y Felinheli) y diwedd glo canlynol i'r soned 'Breuddwyd y Bardd': 'A geisiodd gan y Person ollwng deigr. Mewn gweddi, o dosturi at y teigr.'. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 644.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
645. vtls005426712 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] P[arry], [Bethesda], [19]39, Meh. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Dyma'r cais olaf un am ddiwygio'r soned 'Breuddwyd y Bardd'. Aildeipiodd y soned rhag i'r cysodydd feddwl ei fod yn ceisio darllen palimpsest. Mae'r soned yn darllen fel lli'r afon bellach. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 645.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
646. vtls005426713 ISYSARCHB22	<p>File - E. M[yfanwy] Parry, Bethesda, [19]39, Meh. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Gofyn i W. J. Gruffydd wneud un cywiriad bach arall pan ddaw'r profleuni sef rhoi 'y' o flaen 'Siluriad' yn lle 'ryw'. Mae ar R. Williams Parry ormod o gywilydd anfon ato. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 646.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
647. vtls005426714 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, [19]39, Awst 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae mewn gwerysll ymhell o gyrraedd teipiadur. Roedd W. J. Gruffydd yn iawn yngl?n â'r pwsh a'r poteli - mae hynny yn tynnu dan seiliau'r soned a anfonodd i'r Llenor a'i hamddifadu o'i hodl fwyaf trawiadol 'stwnsh' a 'Pwnsh'. Fe fydd yn ceisio ei hailwampio erbyn y rhifyn nesaf. Yn ei lle y mae'n</p>

	<p>anfon cerdd ['Y Band Un Dyn', Y Llenor, cyfrol XVIII (1939), t. 135]. Fe wyr fod 'yn ôl a blaen' ac 'o'i du ôl' yn agored i feirniadaeth y crach-feirniaid. Ond ba waeth?.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 647.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
648. vtls005426715 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] P[arry], Bethesda, [19]40, Mawrth 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Cred iddo gael hwyl dda ar y soned y mae'n ei hamgau. Os nad yw i weld golau-dydd yn rhifyn y Gwanwyn o'r Llenor, yna fe hoffai ei chael yn ôl i'w rhoi i rai o hogiau'r Blaidd yng Ngholeg Bangor sydd wedi gofyn am gyfraniad i'w cylchgrawn rhyfel Yr Her. Siawns na bydd y rhyfel drosodd erbyn Llenor yr Haf, cred Mussolini y bydd. Dic, ei frawd-yng-nghyfraith sy'n byw yn yr hen gartref yn Nhalysarn sy'n gyfrifol am y soned. Y mae'n holwr cwestiynau di-baid. Peidiodd â rhoi'r holiadau yn eu ffurf uniongyrchol rhag peri effaith staccato i'r gwaith. [Cyfeiriad at 'Taw, Socrates', Cerddi'r Gaeaf, t. 77].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 648.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
649. vtls005426716 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, [19]40, Medi 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ni wyr ym mhle y mae W. J. Gruffydd - nid yw ym Mhenarth. Condemniodd y dull dialogaidd yn awdl Rowland Hughes. Cyfeirio at linell olaf y soned 'Dyffryn Nantlle Ddoe a Heddiw' er mwyn trafod un cymal ynddi.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 649.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
650. vtls005426717 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, 1941, Medi 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Anfon cerdd ['Y Dychweledig', Y Llenor cyfrol XX (1941), t. 103] ar gais W. J. Gruffydd. Mae'n sicr y bydd W. J. Gruffydd yn mentro ei chyhoeddi fel soned yr 'academig dost', un y credai T. H. Parry-Williams na fyddai'n gweld golau-dydd. Dywedodd W. J. Gruffydd ei hunan bethau ecrach am Brifysgol Cymru na hyn. Defnyddiodd 'lleddfu' mewn ystyr gyfyngedig - 'to sadden'. Dyma'r peth mwyaf didwyll a nyddodd erioed.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 650.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
651. vtls005426718 ISYSARCHB22	<p>File - R. W[illiams] Parry, Bethesda, 1941, Hyd. 8.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Nid y peth olaf yn ei fryd fuasai brifo Henry Lewis. Cofia Cassie Davies ac eraill yn chwilio strydoedd Aberystwyth amdano unwaith 'gyda'r amcan teilwng hwnnw'. Gall W. J. Gruffydd deimlo'n wahanol at hen ddisgybl. Awgrymu fersiwn gwahanol o drydydd pennill 'Y Dychweledig'. Dylai hyn ryngu bodd awdur Beddau'r Proffwydi. Mae cyhuddo'r 'byd' à la Siôn Cent yn ddiogel ddigon. Rhaid sôn am hers neu fedd neu farwolaeth ar ddiwedd y trydydd pennill er mwyn 'drychiolaeth' y pennill olaf. Bu bron iddo ag anghofio llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei apologia gwych i Iorwerth Peate yn Y Cymro, Y Faner a'r Herald. Cofio at I. C. Peate.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 651.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
652. vtls005426719 ISYSARCHB22	<p>File - [R. Williams] Parry, Bethesda, [19]46, Gorff. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n siwr mai W. J. Gruffydd sy'n haeddu'r diolch am i R. Williams Parry gael cynnig gradd anrhydeddus. Mae'n difaru iddo ei derbyn, neu o leiaf o ddod i Gaerdydd i'w derbyn. Ni all ddod yn y trê'n - rhydd y syniad ias o fycod iddo. Bydd rhaid iddo ddod yn ei Forys nawmlwydd oed. Ni bu ymhellach nag Abergele ers 1939. 'Mae ei wadnau'n denau a'i wynt yn fyr'. Mae gwynt R. Williams Parry yn fyr a phwysedd ei waed wedi codi. Y 'Mri. Claustrophobia, Bronchitis a High Blood Pressure' a fydd ei gyd-deithwyr. Mae'n benderfynol o geisio dod. Bydd yn cychwyn i'r Rhos (cartref ei wraig) ac aros yno er mwyn torri'r siwrne. Ni all fforddio llogi car: yr un faint â chyflog wythnosol gwas ffarm yw ei incwm wythnosol ef. Bydd yn well arno ymhen deuddeng mlynedd pan fydd ei wraig wedi cyrraedd oed annuity.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 652.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

Cyfes | Series 653-95. vtls005426720 ISYSARCHB22: Llythyrau:Parry, Tom-Pugh, E. Cynolwyn,

Dyddiad | Date: 1928-44. (dyddiad creu) | (date of creation)

Lleoliad ffisegol | Physical location: ARCH/MSS (GB0210)

Nodyn | Note [generalNote]:

Preferred citation: 653-95.

FFeil / rhestr eitemau | File / item list

Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
653. vtls005426721 ISYSARCHB22	File - Tom Parry, Groeslon,	1929, Gorff. 25.	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>

	<p>Diolch am bopeth a wnaeth W. J. Gruffydd drosto tra bu yng Nghaerdydd. Fe'i calonogwyd gan ei ddull 'o gyfuno perffraith ryddid a diddordeb yn [ei] waith'. Mae'n falch o'r tair blynedd a dreuliodd yn y De. Mae'n tynnu at derfyn papurau'r Bwrdd Canol ac wedi dechrau darllen profleuni Peniarth 49.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 653.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
654. vtls005426722 ISYSARCHB22	<p>File - Tom Parry, Groeslon, 1936, Ebrill 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofynnodd Edgar Jones iddo ysgrifennu at W. J. Gruffydd ynghylch gwersi radio. Bydd yn falch o unrhyw gyfarwyddyd. Mae'n gofyn os bu i W. J. Gruffydd weld llythyr T. R. [? Thomas Richards] at T. J. M. [T. J. Morgan]. Mae arno gywilydd i'r fath gyfansoddiad gychwyn erioed o Goleg Bangor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 654.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
655. vtls005426723 ISYSARCHB22	<p>File - Tom Parry, Bangor, 1937, Chwef. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae ef wedi ymddiswyddo o fod yn feirniad yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth. Roedd hi'n anodd gwneud hynny oherwydd yr oedd cael beirniadu'r awdl yn ei wneud 'yn dipyn o lanc'. Yr oedd wedi digio wrthynt am benodi Caradoc Evans yn feirniad y nofel ond pan soniwyd am [yr Iarll] Londonderry, fe droes ei stumog. Tybia y buasai Gwenallt, Hooson, Lloyd Jones, S. B. Jones ac [E.] Prosser Rhys yn fodlon dilyn eu hesiampl. Nid yw mor sicr am T. G[wynn] J[ones], ond bwriada gael gair â Thomas Richards. Nid yw'n addo ceisio dylanwadu ar Syr J. E. Lloyd. Mae'n ofni bod ysbryd heddychol I[for] W[illiams] braidd yn anodd i'w gyffroi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 655.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
656. vtls005426724 ISYSARCHB22	<p>File - Tom Parry, Bangor, 1937, Mawrth 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae am dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl o Fachynlleth. Cafodd y pwyllgor ei boenydio ddigon. Mae'n gwneud hyn ar yr amod fod Dr Ashton yn cadw rheolaeth ar ei dafod ac na fydd yn eu difrio ar hyd y wlad fel y gwnaeth tua Gwyl Dewi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 656.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
657. vtls005426725 ISYSARCHB22	<p>File - Tom Parry, Bangor, 1937, Mawrth 8.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Dyry'r cefndir i'w lythyr blaenorol [rhif 656 uchod]. Cawsai lythyr oddi wrth Breese Davies, Dinas Mawddwy, yn gofyn iddo gydsynio i feiriadu gan fod rhwystr yr Iarll Londonderry wedi ei symud a chan fod pwyllgor nos Wener i ystyried y sefyllfa a'i fod am dderbyn ateb cyn hynny. Gan fod problem yr Iarll wedi ei symud a bod y Pwyllgor mewn digon o anawsterau rhwng popeth cytunodd i dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl. Anfonodd at W. J. Gruffydd a 'Meuryn' yr un pryd. Ateb 'Meuryn' oedd mai'r Pwyllgor a ddylai symud, a dyna ddigwyddodd. Daeth llythyr ar ôl y Pwyllgor yn derbyn yr ymddiswyddiad. Mae'n debyg mai T. G. J[ones] a J. Ll[oyd] J[ones] fydd yn beiriadu'r awdl. Gresyn na buasai'r ddau wedi cael digon o blw i ymddiswyddo. Dylai ymddiheuro am beidio â dod i wrando ar W. J. Gruffydd yng Nghynhadledd y Blaid. Cychwynnodd yn dalog ond wedi camgymryd amser y trên yr oedd yn 3.15 arno'n cyrraedd Caernarfon.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 657.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>658. vtls005426726 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Tom Parry, Bangor, 1940, Gorff. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llythyr yngl?n â beirniadaeth y bryddest yn Aberpennar. Mae 'Cynan' am anfon y tair pryddest sydd ag un copi yn unig ohonynt at W. J. Gruffydd - ni raid poeni amdanynt, y maent yn perthyn i'r trydydd dosbarth. Rhestrir yr ymgeiswyr sydd yn yr ail ddosbarth o'r dosbarth cyntaf. Cred Cynan a Tom Parry mai 'Blodau'r Grug' yw'r gorau, mae'n denau mewn mannau ond nid yw'n cynnwys athronyddu gwag fel rhai ohonynt. Mae rhywbeth diffuant yn ei symledd. Rhyfedd iddo beidio â sôn am Frwydr Mynydd Carn a charchariad Gruffydd ap Cynan yng Nghaer. Mae ei waith yn fwy o gyfres o faledi telynegol nag o bryddest. Hoffai wybod os yw W. J. Gruffydd yn gytûn yngl?n â phryddest 'Blodau'r Grug'. A yw hi'n ddigon da i'w chironi? Buasai'n dda medru dyfarnu'r Goron gan fod ym mryd y BBC 'wneud tipyn o firi o'r peth ar y radio'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 658.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>659. vtls005426727 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ffransis Payne, Caerfyrddin, [19]34, Mawrth 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae'n wirioneddol ddiolchgar am dysteb a dderbyniodd o law W. J. Gruffydd. Bydd yn anfon erthygl i'r Llenor cyn bo hir. Y mae'n barod ar wahân i rai manylion ac y mae'n mentro dweud rhai pethau newydd yn y manylion hynny. [John Lewis, Llynwene, Y Llenor, cyfrol XIV (1935), tt. 165-81].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 659.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>660. vtls005426728 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ffransis Payne, Caerfyrddin, 1934, Mai 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>Bu'n llwyddiannus yn Abertawe. Y mae arno ddyled enfawr i [Iorwerth] Peate, i'r Athro Henry Lewis ac i W. J. Gruffydd. Bwriada geisio bod yn deilwng o'i eirida. Gan na fydd raid iddo bryderu ynghylch angenrheidiau bywyd gall ymroi i wneud tipyn o waith.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 660.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
661. vtls005426729 ISYSARCHB22	<p>File - Ffrancis Payne, Abertawe, [19]36, Ion. 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfonodd Iorwerth [Peate] dystysgrif W. J. Gruffydd ato ac y mae yn dra diolchgar amdani. Mae'n amgau ysgrif i'r Llenor. Y mae mwy nag un ystyr iddi a hwyrach nad yw'r ystyr amlwg yn ddigon diddorol. Mae'r arddull yn 'or-gynnil ac od' ond nid oes dim ystyr o gwbl ynnddi iddo fel arall. ['Plygu Gwrych', Y Llenor, cyfrol XV (1936), tt. 24-9].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 661.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
662. vtls005426730 ISYSARCHB22	<p>File - G. H. Peate, Llanbryn-mair, [19]37, Gorff. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae wedi darllen cofiant O. M. Edwards a gafodd yn anrheg gan Iorwerth [Peate, ei fab]. Yr oedd yn fendigedig. Y mae'n rhagori ar bob cofiant a ddarlennodd erioed. Y mae'r Llenor hefyd yn odidog. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 662.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
663. vtls005426731 ISYSARCHB22	<p>File - Iorwerth C. Peate, Rhiwbeina, 1938, Hyd. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymateb i nodiadau golygyddol W. J. Gruffydd yn Y Llenor. Ni ddylid rhoi'r ffidil yn y to. Y Llenor yw halen y ddaear Gymreig ac y mae wedi creu cnewyllyn sydd yn debyg o gadw enaid Cymru. Ni ddylai W. J. Gruffydd ddigalonni - y mae ei waith yn un o bethau arhosol y cyfnod. Mae'n dweud sut y dylanwadodd Y Llenor ar ddatblygiad ei feddwl ef. Y mae'n ymwybodol o'r camliwio a fu ar W. J. Gruffydd ond dylai gadw at olygyddiaeth Y Llenor ar bob cyfrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 663.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
664. vtls005426732 ISYSARCHB22	<p>File - I[orwerth] C. P[eate], Caerdydd, 1941, Chwef. 11.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei ateb i Prosser Rhys a [J. E.] Daniel yn Y Llenor [cyf. XIX (1940), tt. 165-6]. Trafod sylw W. J. Gruffydd bod yn rhaid wrth dduwioldeb i fod yn heddychwr. Nid yw I. C. Peate yn tybio bod angen i'r holl genhedloedd na'r llywodraethau dyfu i gyflwr yr heddychwr cyn y gellir alltudio rhyfel. Petai un neu ddau George [M. Ll.] Davies yn y Llywodraeth byddai pethau'n wahanol iawn. Mater o ddygnwch ydyw.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 664.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
665. vtls005426733 ISYSARCHB22	<p>File - I[orwerth] C. P[eate], Caerdydd, 1941, Mawrth 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Tynnu sylw at lythyr ei gefnder, Frank Price Jones, yn Y Cymro (22 Mawrth) ar bwnc y myfyrwr diwinyddol a nodiadau W. J. Gruffydd yn Y Llenor. Mae Frank yn gorffen ei gwrs anrhydedd gydag R. T. J[enkins]. Mae'n wyr i 'Dafydd Jones y Berllan', Dinbych, gwr a dynnodd lidiardau sgweiar Plas Chambers i lawr gyda'i wedd geffylau mewn brwydr tros hawl tramwy. Cafodd gefnogaeth Thomas Gee ar y pryd. Y mae'r wyr, Frank, yn yr un traddodiad. Mae'n wrthwynebydd cydwybodol ac wedi ei ryddhau eisoes gan dribiwnlys Artemus Jones.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 665.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
666. vtls005426734 ISYSARCHB22	<p>File - I[orwerth] C. P[eate], Caerdydd, 1941, Mawrth 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgaw copi o lythyr a ymddangosodd yn Y Tyst y diwrnod hwnnw. Dylai W. J. Gruffydd ateb y Parch. Trebor Lloyd Evans gan ei fod yn wr digon pwysig i lu mawr o bobl wrando arno a'i gredu.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 666.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
667. vtls005426735 ISYSARCHB22	<p>File - Iorwerth C. Peate, Caerdydd, 1941, Meh. 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae Iorwerth C. Peate wedi ei gofrestru fel gwrthwynebydd cydwybodol. Mae'n gofyn i W. J. Gruffydd am lythyr i'w gyflwyno i'r tribiwnlys i dystio i'w gredo fel heddychwr.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 667.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>668. vtls005426736 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Iorwerth C. Peate, Caerdydd, 1941, Meh. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch o galon i W. J. Gruffydd am fod yn barod i'w gefnogi er gwaetha'r ffaith nad yw o'r un farn ag ef parthed y rhyfel. Cafodd gymwynas debyg gan wr arall tra gwahanol i W. J. Gruffydd hefyd, sef [Syr Leonard] Twiston Davies, sydd hefyd yn anghytuno â safbwynt Iorwerth C. Peate. Mae ganddo dystiolaeth cyn-swyddog o'r Llynges a chyn-swyddog o'r Fyddin a'r R.A.F. felly. Fe ddaw George Davies ac R. J. Jones i dystiolaethu yn y llys os bydd eu hangen.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 668.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>669. vtls005426737 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Iorwerth C. P[ate], Caerdydd, 1941, Gorff. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd ryddid diamodol gan y tribiwnlys. Gobeithia y caiff lonydd hefyd gan wyr yr Amgueddfa i wneud ei waith. Holodd y Barnwr Frank Davies ai gwyddonydd oedd W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 669.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>670. vtls005426738 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Cyril Fox at [Iorwerth C.] Peate, [Amgueddfa Genedlaethol Cymru], 1941, Gorff. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae Cyngor yr Amgueddfa yn gofyn i Iorwerth C. Peate egluro sut y gall gysoni ei gof restru'n wrthwynebydd cydwybodol gyda'i ateb i benderfyniad y Cyngor ar 20 Gorffennaf 1940 lle y dywedodd ei fod yn barod i wneud ei ddyletswydd i'w wlad. Mae'r Cyngor yn deisyf eglurhad.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 670.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>670a. vtls005426739 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Iorwerth C. Peate at [Cyril] Fox, 1941, Gorff. 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymateb i'r llythyr uchod gan amddiffyn ei safbwynt. Copïau teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 670a.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>671. vtls005426740 ISYSARCHB22</p>	<p>File - I[orwerth] C. P[ate], Rhiwbina, [1941, ?Awst 5].</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon manylion am ei achos gogyfer â chyfarfod o Gyngor yr Amgueddfa ar 11 Awst. Gofyn i W. J. Gruffydd gael gair â J. F. Rees ac Edgar Jones. Enwi eraill o aelodau'r Cyngor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 671.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
671(a). vtls005426741 ISYSARCHB22	<p>File - Datganiad Iorwerth Cyfeiliog Peate [1941]. fel gwrthwynebydd cydwybodol ynghyd â chopïau o dystlythyrau Syr Leonard Twiston Davies, W. J. Gruffydd a ...,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Datganiad Iorwerth Cyfeiliog Peate fel gwrthwynebydd cydwybodol ynghyd â chopïau o dystlythyrau Syr Leonard Twiston Davies, W. J. Gruffydd a George M. Ll. Davies.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 671(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
672. vtls005426742 ISYSARCHB22	<p>File - Iorwerth C. Peate, Rhiwbina, 1941, Awst 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ysgrif. Hoffai i W. J. Gruffydd ei gyrru i'r Wasg. Oni ellid perswadio'r Western Mail i'w chyhoeddi. Hoffai iddi ymddangos dan enw W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 672.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
673. vtls005426743 ISYSARCHB22	<p>File - Iorwerth C. Peate, Caerdydd, 1941, Hyd. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am y cyfan a wnaeth drosto yn ystod y tri mis blaenorol. Y diwrnod cynt fe ysgrifennodd at chwaer W. J. Gruffydd i ddiolch iddi hi am ei llythyr gan ddweud mai W. J. Gruffydd fel arfer oedd ei gyfaill gorau yn yr helynt hwn. Mae ganddo bentwr o lythyrau i'w hateb bu wrthi'n ddygn drwy'r dydd. Mae'r wlad i gyd yn cymryd diddordeb yn yr achos. Gwahoddiad i alw, mae'r pryd o gig moch yn ei aros o hyd. Gofyn iddo a fyddai'n llywyddu darlith ar ddiwylliant gwerin yn un o gapeli'r ddinas - neu hwyrach y byddai'n ormod o 'stunt' ar ôl yr hyn sydd wedi digwydd. Dylai dderbyn dyfarniad y Cyngor cyn 11 Tachwedd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 673.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
674. vtls005426744 ISYSARCHB22	<p>File - I[orwerth] C. P[eate], Caerdydd, [19]42, Ion. 8.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau copi o'r penderfyniad y bwriada'r Arglwydd Plymouth ei gynnig yng nghyfarfod Cyngor yr Amgueddfa y diwrnod canlynol. Cafodd y copi drwy law Twiston Davies. Rhestrir gwendidau yr ymresymiad. Dylai'r Llys wrthod y trefniant a phasio cynigiad o ddiffyg hyder yn y Cyngor. Clywodd Iorwerth C. Peate am farwolaeth Dr. E. A. Lewis, Aberystwyth. Pe bai modd cael bias tuag at Ddiwylliant Gwerin i'r adran yno, fe fyddai Iorwerth C. Peate yn barod i gynnig am y swydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 674.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
674(a). vtls005426745 ISYSARCHB22	<p>File - Copi teipysgrif o argymhellion [1942]. Cyngor yr Amgueddfa Genedlaethol i'r Llys yngl?n â diswyddiad Dr Peate,</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 674(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
675. vtls005426746 ISYSARCHB22	<p>File - I[orwerth] C. P[eate], Caerdydd, 1942, Ebrill 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Torrwyd allan enwau'r staff o Adroddiad Blynyddol yr Amgueddfa. Dylid codi'r mater yn y Llys. Anfonodd ei gyfieithiad o God or the Nation? o waith Middleton Murry at Gwynfor Evans, Ysgrifennydd Heddychwyr Cymru. Gwrthodwyd ef gan y gallai gael ei ddehongli fel ymosodiad 'ysgubol' ar y Blaid Genedlaethol. Y mae George [M. LL.] Davies yn gwamalu er mai ef a awgrymodd y gwaith. Bwriedir gofyn barn Gwilym R. Jones yn awr. Iorwerth C. Peate wedi dweud yn blaen wrth Gwynfor Evans beth yw ei farn ar y mater. Trefnodd i ysgrifennu i'r Cymro. 'Cymru Heddiw' gan 'Y Gwerinwr' fydd y teitl. Bydd ganddo le i 2,000 o eiriau'r wythnos. Bydd yn falch iawn o dderbyn pwt o erthygl gan W. J. Gruffydd unrhyw bryd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 675.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
676. vtls005426747 ISYSARCHB22	<p>File - I[orwerth] C. P[eate], Caerdydd, 1942, Ebrill 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Canmol darlith W. J. Gruffydd y diwrnod cynt ar 'Islwyn'. Awgrymu gweithiau gan Middleton Murry mewn cysylltiad â'r ystyr a rydd 'Islwyn' i farddoniaeth. Gofyn oni ellid ailystyried cyhoeddi ei Hanes Diwylliant Cymru ar unwaith yn hytrach nag ar ddiwedd y rhyfel gan fod y Wasg wedi cyhoeddi Hanes Economaidd Cymru o waith Ben Bowen Thomas ac ni fyddal cyfrol Iorwerth C. Peate yn fwy na honno.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 676.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>677. vtls005426748 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Iorwerth C. Peate, Caerdydd, 1942, Medi 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd wahoddiad gan olygydd Y Cymro i fynd yn gyfrifol am golofn o adolygiadau. Awgrymodd R. T. Jenkins y dylai ymgymryd a'r gwaith ond o dan ffugenw. Gofyn barn W. J. Gruffydd ar y mater. Cwyno bod adolygu bron yn gyfan gwbl yn nwylo aelodau o'r Blaid Genedlaethol. Ymosod ar erthygl Aneirin ap Talfan yn Y Faner yr wythnos honno ac ar bamffledyn gan A. O. H. Jarman.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 677.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>678. vtls005426749 ISYSARCHB22</p>	<p>File - I[orwerth] C. P[eate], Caerdydd, 1942, Tach. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd gais gan J. W. Jones, Blaenau Ffestiniog, yn gofyn am ddeg copi o ddarlith W. J. Gruffydd ar 'Islwyn'. Dywed mai Alexander Smith yw'r bardd a ddyfynnir ar glawr Caniadau 'Islwyn' a bod mwy o ddylanwad hwnnw na neb arall ar waith 'Islwyn'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 678.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>679. vtls005426750 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Iorwerth C. Peate, Caerdydd, 1943, Mawrth 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon ysgrif i'r Llenor ['Anghyddfurfiaeth a'r Trefi', Y Llenor, cyf. XXIII (1944), tt. 9-16]. Holi hynt ei gais i dderbyn uchafswm ar raddfa'r Ceidwad o'r cyntaf o Ionawr. Clywodd gan Twiston Davies mai o'r cyntaf o Orffennaf y bwriedid ei dalu ar y raddfa newydd. Y mae ar fin colli gwasanaeth Miss Price, ei ysgrifenyddes. Bydd ef ar ben ei hunan wedyn yn ei adran. Y mae tri neu bedwar o staff ar ôl mewn rhai adrannau.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 679.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>680. vtls005426751 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Gwen E. Powel, Llundain, WC1, 1937, Ion. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mynegi ei phleser o ddarllen Hen Atgofion. Nid oedd wedi sylweddoli cyn darllen y bennod 'Nant yr Wyddfa' gymaint o hiraeth a oedd ar W. J. Gruffydd am ei gynefin ar hyd y blynyddoedd, tebyg i hiraeth ei gwr hi am ardal Llanwrtyd. Dim ond ei mab sydd ganddi ar ôl yn fyw bellach. Sôn am ei chysylltiadau bore oes â Môn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 680.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>

	ARCH/MSS (GB0210)	
681. vtls005426752 ISYSARCHB22	File - John D. Powell, Pontefract,	1933, Rhag. 10.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Y mae wedi anfon y ffurflen at y Bwrdd Addysg. Dim ond caredigrwydd a dderbyniodd oddi ar law W. J. Gruffydd erioed. Trafod ei dystlythyrau. Mae'n awyddus iawn i ddychwelyd i Gymru.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 681.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
682. vtls005426753 ISYSARCHB22	File - John D. Powell, Pontefract,	1933, Rhag. 10.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd ei hysbysu gan y Bwrdd Addysg y diwrnod blaenorol ei fod wedi ei benodi yn Arolygwr Ysgolion Cynorthwyol. Ni wyr sut i ddiolch i W. J. Gruffydd am siarad o'i blaid.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 682.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
683. vtls005426754 ISYSARCHB22	File - J. D. Powell, Caerfyrddin,	1939, Chwef. 21.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ymddiheuro am y dryswch sydd wedi codi yngl'n â'r detholion o lythyrau'r Morrisiaid. Bu'n chwilio drwy'r ty amdanynt ac y mae am holi awdurdodau'r post yn eu cylch.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 683.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
684. vtls005426755 ISYSARCHB22	File - J. D. Powell, Porthcawl,	[19]39, Ebrill 17.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Dywedodd Swyddfa'r Post yn derfynol fod y llythyr yn cynnwys detholiad o waith y Morrisiaid wedi ei gollu. Nid oes dim amdani ond ailddechrau ar y gwaith. Mae wrthi yn ceisio trefnu Cwrs Rhydychen am eleni. Gwahodd W. J. Gruffydd i roi dwy ddarlith ar lenyddiaeth gyfoes Lloegr yn ystod y cwrs. Mae T. J. Morgan wedi cytuno darlithio ar rai o elfennau barddoniaeth Gymraeg. Y mae J. D. Powell wedi cael ei ddyrchafu'n H.M.I. llawn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 684.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	

<p>685. vtls005426756 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. D. P[owell], Porthcawl, [19]40, Rhag. 15.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am adroddiad ar waith y dosbarth Cymraeg. Mae'n ei anfon ymlaen at W. J. Williams. Diolch am eiriau caredig W. J. Gruffydd ar Hwnt ac Yma. Nid oes mis yn mynd heibio nad oes ganddo ryw garedigrwydd i ddiolch i W. J. Gruffydd amdano.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 685.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>686. vtls005426757 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John C[owper] Powys, Corwen, 1942 , Ebrill 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd bleser mawr o dderbyn llythyr W. J. Gruffydd ond y mae'n ddrwg ganddo glywed nad yw W. J. Gruffydd yn iach.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 686.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>687. vtls005426758 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Muriel [E. Price], Pwllheli, [19]29, Ebrill 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ei hymateb a'i siom na chafodd W. J. Gruffydd ei apwyntio [yn brifathro Coleg Caerdydd], er gwaethaf ei gyfraniad enfawr i lenyddiaeth Gymraeg a bywyd Cymru. Bydd yn gallu parhau i fod yn ysbrydiaeth i eraill er hynny.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 687.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>688. vtls005426759 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Muriel [E. Price], Pwllheli, [19]39, Tach. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae Sadie am i W. J. Gruffydd gael gwybod ei bod wedi penderfynu ymddiswyddo oherwydd cyflwr bregus ei hiechyd. Daethant i aros i Bwllheli er mwyn i Sadie gael cerdded tipyn ar le gwastad gan fod eu cartref ar lethr a hithau'n dioddef gyda'i chalon.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 688.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>689. vtls005426760 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Sadie [Price], Dolgellau, 1929, Ebrill 25.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymateb chwyrn i fethiant W. J. Gruffydd yn ei gais [am swydd prifathro Coleg Caerdydd]. Gellir brolio nawr fod yna brifathro o Fedyddiwr ym Mangor a Chaerdydd. Mae'r gyfrol gyntaf o gofiant O. M. Edwards yn berffaith. Hoffai gael sgwrs ag W. J. Gruffydd am ofn O. M. Edwards o ymyrryd gyda'r weledigaeth o Gymru a oedd ganddo.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 689.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
690. vtls005426761 ISYSARCHB22	<p>File - Caradog Prichard, Caerdydd, 1928, Hyd. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am ymdrafferthu â'i bryddest. Roedd chwant arno ar y dechrau i ddadlau ag ef ynglŷn â'r pwyntiau a godai. Mae'n falch iawn o feirniadaeth sy'n anwybyddu popeth ond y gerdd ei hun ac yn rhoi arweiniad i un 'a fydd ddal gafael yn yr ychydig fwsig a glywodd mewn llawer o swm crio'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 690.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
691. vtls005426762 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd] at Caradog Prichard, Caerdydd, 1928, Hyd. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Roedd yn falch o dderbyn ei lythyr gan ei fod mewn cryn bryder ynghylch y modd y buasai'n derbyn y feirniadaeth. Ni chafodd W. J. Gruffydd neb pan oedd yr un oed ag yw Caradog Prichard i wneud yr un gymwynas ag ef. Mae'n hyderus y bydd cân nesaf Caradog Prichard yn well na dim a ysgrifennodd. Awgrymir ei bod hi'n hawdd i rywun benderfynu ennill coron ac 'iselhau ei waith at safon yr Eisteddfod'. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 691.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
692. vtls005426763 ISYSARCHB22	<p>File - Caradog Prichard, [Llundain], [19]44, Mai 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd ei ryddhau o'r Fyddin i gymryd swydd yn India gyda'r M.O.I. Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am yr hyn a wnaeth drosto, buasai o leiaf wedi gwneud bywyd yn y Fyddin yn oddefadwy.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 692.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
693. vtls005426764 ISYSARCHB22	<p>File - E. J. Prichard, Manceinion, 1937, Hyd. 23.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n protestio yn erbyn defnydd W. J. Gruffydd o'r ansoddair 'hyll' i ddisgrifio ei dad yn Hen Atgofion. Mae tri mab a thair merch iddo'n dal yn fyw a gofynnir iddo ddileu'r gair o unrhyw argraffiad pellach. Mae'n gofyn a fu W. J. Gruffydd yn Friars rhwng 1893 ac 1895 ac a fu iddynt gydgerdded i gyfeiriad Pentir gydag E. J. Prichard yn canu 'John Peel' ac 'Auld Lang Syne'. Unwaith y bu iddo weld W. J. Gruffydd fel arall a hynny yn Eisteddfod Caergybi tua 1927. Cafodd fwynhad o ddarlenn Hen Atgofion ond bod y pwynt a grybwyllodd uchod wedi difetha'r llyfr iddynt fel teulu.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 693.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>694. vtls005426765 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. Pritchard, Llanberis, 1939, Mawrth 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae wedi addo ysgrifennu hanes Ysgol Sir Brynrefail. Hoffai drafod dau neu dri o bwyntiau os yw W. J. Gruffydd yn dod i Fethel dros y Pasg. Y mae hefyd yn gofyn i W. J. Gruffydd i ysgrifennu'r rhagair iddo gan ei fod mor gyfarwydd â'r ardaloedd hyn. Ceir ynddo hanes y mudiad addysg ganolraddol yn sir Gaernarfon. Oherwydd hyn cynhwyswyd rhai o atgofion Mr H. Parry Jones, M.A., Llanrwst.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 694.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>695. vtls005426766 ISYSARCHB22</p>	<p>File - E. Cynolwyn Pugh, Efrog Newydd, 1943, Meh. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gair i longyfarch W. J. Gruffydd ar gael ei ethol i'r Senedd. Ni fydd neb yno yn gwybod cymaint ag ef am Gymru. Yr oedd wedi ethol cyn i E. Cynolwyn Pugh dderbyn ei bapur pleidleisio. Bu'n siarad â'r Cynolwr Arthur Evans am W. J. Gruffydd yn ddiweddar. Y mae ef yn A.S. dros ran o Gaerdydd. Mae'n amgau copi o lythyr blynyddol y mae'n ei lunio i'w yrru at ei gyfeillion yng Nghymru. Cafodd ei ferch, Enid, ei M.A. cyn ei bod yn 22 oed a chanmoliaeth uchel gan Jaques Maritain am draethawd ar gyfriniaeth Richard Rolle. Mae hi a'i mam yn siarad Cymraeg Cwm Nedd - nid Cymraeg perffaith mae'n wir, ond nid yw hynny'n rhyfedd gan iddynt fod yn byw yn Chicago a Phenbedw cyn hynny. Mae'n holi a oes modd cael Ysgrifennydd i Gymru. Dylid cael yr hawl i drefnu pethau pwysicaf ein bywyd fel Cymry. Copi o'r cylchlythyr y soniwyd amdano uchod, dyddiedig 17 Mawrth 1943.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 695.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>Cyfes Series 696-730. vtls005426767 ISYSARCHB22: Llythyrau: Rees, Arianwen-Roberts, John,</p> <p><u>Dyddiad Date:</u> 1929-48. (dyddiad creu) (date of creation)</p> <p><u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)</p> <p><u>Nodyn Note [generalNote]:</u></p>	

Preferred citation: 696-730.			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
696. vtls005426768 ISYSARCHB22	File - Arianwen Rees, Caerdydd,	1940, Hyd. 27.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd swydd gyda'r BBC ac y mae'n hapus iawn yno. Aeth yno'n syth wedi gorffen yn y Coleg. Yno dros dro y mae hyd yn hyn ond y mae argoelion am waith parhaol. Roedd prysurdeb y swyddfa yn ddychryn iddi ar y dechrau. Cyn cael swydd barhaol bydd yn rhaid iddi gyflwyno tri geirda i'r awdurdodau ac y mae'n gofyn am un gan W. J. Gruffydd. Mae'n holi os oes modd iddi gael gafael ar gopi o'r Hen Atgofion ar gyfer ffrind. Diolch i W. J. Gruffydd am ei holl garedigrwydd tra y bu ar staff y Coleg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 696.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
697. vtls005426769 ISYSARCHB22	File - Arianwen Rees, Llundain,	[19]40, Tach. 21.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am ei lythyr a'r geirda. Y mae'n gweithio yn Broadcasting House am fis. Bu'n aros mewn ty sydd gan y BBC yn Grosvenor Square a chysgu ar y llawr isaf - rhyw ddeg ar hugain neu ragor ohonynt. Cawsent noson ddrwg o fomio y nos Wener flaenorol. Diolch am gynnig ei gwaith yn y Coleg yn ôl iddi. Ni all awgrymu neb addas ar gyfer y swydd honno.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 697.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
698. vtls005426770 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd] at Caleb Rees, Caerdydd,	1940, Medi 27.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cwyno am dlodi iaith hysbyseb Gymraeg a ymddangosodd yn Y Faner. Mae'n amlwg bod rhywun wedi mynd ati i gyfieithu'r hysbyseb gyda geiriadur. Mae'n hyderu y gellir pwysleisio i'r Weinyddiaeth briodol pa mor ddifrifol yw iaith yr hysbyseb. Mae'n gosod esiampl wael ac yn destun doniolwch i weithiwr cyffredin o Gymro Cymraeg. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 698.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
699. vtls005426771 ISYSARCHB22	File - Caleb Rees, Caerdydd,	1941, Awst 28.	

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Awgrym y gallai W. J. Gruffydd fynd i gynrychioli Cymru ymysg y Cymry alltud yn Efrog Newydd, Philadelphia, Pittsburg, Cleveland, etc., i gyflwyno achos Cymru. Y mae'r nofelydd Jack Jones yn bwriadu mynd yno ond nid yw ei Gymraeg ef yn ddigonol i drosglwyddo'r neges i'r Cymry Cymraeg. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 699.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
700. vtls005426772 ISYSARCHB22	<p>File - J. Seymour Rees, Seven Sisters, [19]37, Chwef. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu i ddiolch am Hen Atgofion. Y mae un frawddeg ar dudalen 54 yn fwy o werth na'i phris. Bwriadau deipio'r erthyglau o'r Llenor a'u rhwymo'n gyfrol cyn i'r llyfr ymddangos. Mae'n diolch am y fraint a gafodd i 'eistedd wrth draed' W. J. Gruffydd am dymor byr. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 700.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
701. vtls005426773 ISYSARCHB22	<p>File - J. Seymour Rees, Seven Sisters, 1938, Medi 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfonodd draethawd i'r Eisteddfod Genedlaethol a dyfarnwyd iddo ddeg gini fel rhan o'r wobr o £25. Wrth ofyn am dderbyn y traethawd yn ôl cafodd ar ddeall ei fod ar goll. Mae'n gofyn cyngor W. J. Gruffydd pa gamau i'w cymryd gan fod wyth mis o lafur caled wedi mynd i'r gwaith. A fyddai hi'n deg gofyn am £14.10s. pellach fel iawndal am y golled?.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 701.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
702. vtls005426774 ISYSARCHB22	<p>File - J. Seymour Rees, Blaendulais, 1940, Ion. 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am y rhifyn diweddaraf o'r Llenor. A oes gobaith cael nodiadau'r golygydd eto a'i Hen Atgofion? Mae ganddo'r Llenor wedi ei rwymo ganddo ef ei hun a silff bwrpasol i ddal y cyfrolau. Mae yno le am hanner cant o gyfrolau eto a hynny o dan yr un golygydd, gobeithio. Mae'n edmygu W. J. Gruffydd am ei gyfraniad mawr. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 702.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>703. vtls005426775 ISYSARCHB22</p>	<p>File - M. J. Rees, Hirwaun, [19]37, Ion. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am gyfraniad W. J. Gruffydd i'r Western Mail y diwrnod cynt. Roedd ateb y golygydd yn syndod o wan. Disgwylir mwy o arweiniad oddi wrth W. J. Gruffydd yn yr argyfwng hwn. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 703.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>704. vtls005426776 ISYSARCHB22</p>	<p>File - R. E. Rees, Derwen-fawr, 1940, Ebrill 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Wedi bod yn gwranddo ar W. J. Gruffydd ar y radio yn trafod Bethesda'r Fro. A oes modd ei chlywed eto tua 9.15 pm ar nos Sul gan fod pump o'r gloch yn amser prysur yn y wlad a llawer wedi colli'r rhaglen?. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 704.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>705. vtls005426777 ISYSARCHB22</p>	<p>File - S. O. Rees, Llandudno, 1944, Ion. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Oddi ar iddo gael ei benodi yn brifathro Ysgol John Bright ym mis Medi cafodd sawl cyfle i annerch cyfarfodydd ynglŷn â'r Mesur Addysg. Mae'n ceisio pwysleisio dau beth yn ei sgysiau: 1) dylid codi safonau'r ysgolion gwladol i safon yr ysgolion cyhoeddus. 2) dylid agor a rhwyddhau mynediad i'r prifysgolion. Cafodd wefr o ddarllen araith W. J. Gruffydd yn Nhy'r Cyffredin. Hoffai gael caniatâd i ddyfynnu o'r araith yng nghyfarfod gwobrwyo'r ysgol, neu'n well fyth, hwyrach y gallai W. J. Gruffydd ysgrifennu neges fer ar gyfer yr achlysur.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 705.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>706. vtls005426778 ISYSARCHB22</p>	<p>File - T. J. Rees, Abertawe, 1944, Chwef. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am anfon gwahanlith o'i araith yn y Senedd. Roedd eisoes wedi darllen fersiwn byr yn y Times. Y mae'r araith yn well nag y disgwyliai.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 706.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>707. vtls005426779 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Vernon Rees, Salisbury, [19]41, Ebrill 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymddiheuro am adael heb ddiolch i W. J. Gruffydd am ei garedigrwydd iddo tra fu yn y Coleg. Dysgodd werthfawrogi'r pethau ceinaf yn y byd. Bydd yn edrych ymlaen yn eiddgar at bob rhifyn o'r Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 707.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>708. vtls005426780 ISYSARCHB22</p>	<p>File - W. H. Reese, Swydd Durham, [1944], Chwef. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ddarllediad grymus. Mae W. H. Reese yn heddychwyr ond y mae hefyd yn sylweddoli'r rheidrwydd o rwystro'r anifail gwyllt ar y Cyfandir rhag difa pawb. Mae'n bwriadu cyhoeddi llyfr bychan o gerddi rhyfel Medi'r Corwynt ymhenn rhyw fis. Bydd yn anfon copi at W. J. Gruffydd er mwyn iddo ei adolygu yn Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 708.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>709. vtls005426781 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Prifysgol Rennes, (A. Loyen), Rennes, 1947, Chwef. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'r brifysgol yn cynnig gradd D.Litt. i W. J. Gruffydd gan obeithio'n fawr y bydd iddo ei derbyn. Cynhelir y seremoni tua dechrau Tachwedd. Hoffai dderbyn cadarnhad gan W. J. Gruffydd ei fod yn derbyn. Ffrangeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 709.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>710. vtls005426782 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Prifysgol Rennes, (A. Loyen), Rennes, 1947, Chwef. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch iawn o glywed bod W. J. Gruffydd yn fodlon derbyn y radd anrhydeddus a'i fod yn barod i ddod i'r seremoni yn Nhachwedd. Ffrangeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 710.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>711. vtls005426783 ISYSARCHB22</p>	<p>File - E. Prosser Rhys, Aberystwyth, 1936, Gorff. 8.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch o glywed bod W. J. Gruffydd am gyhoeddi Hen Atgofion. Byddai'n bleser gan Wasg Aberystwyth gyhoeddi'r llyfr gyda 15% o freindal ar y pris cyhoeddiedig o 2/6 neu 3/6 wedi ei dalu bob chwe mis. Os yw W. J. Gruffydd yn fodlon ar y telerau yna gellid rhoi'r gwaith yn llaw'r argraffwyr ar unwaith. Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am yr arweiniad llenyddol a gwleidyddol godidog a roddir ganddo yn Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 711.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
712. vtls005426784 ISYSARCHB22	<p>File - E. Prosser Rhys, Aberystwyth, 1936, Awst 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n trafod manylion technegol ynglŷn â chyhoeddi Hen Atgofion. Awgrymir dewis maint tudalen sy'n debyg i'r un a ddefnyddiwyd yn y gyfrol Y Crefftwr yng Nghymru. Hoffai sylw W. J. Gruffydd ar hyn ac ar led ymylon y tudalennau. Hoffai gynhyrchu'r llyfr campus hwn mor wych ag y bo modd. Pan gaiff ateb bydd y cysodwyr yn dechrau ar unwaith. Bydd wedi dychwelyd o'i wyliau cyn y bydd raid penderfynu ar rwymiad ond i ble y dylai anfon y proflenni?.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 712.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
713. vtls005426785 ISYSARCHB22	<p>File - Ioan Rhys, Llan-non (Ceredigion), [1930], Ebrill [].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae W. J. Gruffydd ac eraill o'i gyfoedion wedi dylanwadu gymaint arno yn llenyddol a chrefyddol fel ei fod wedi magu digon o asgwrn cefn i ddatgan ei syniadau yn gyhoeddus. Saer coed yw ef a'i wraig yn gofalu am gapel y M.C. yn y pentref. Ers deng mlynedd buont yn byw yn nhy'r capel. Yn fuan ar ôl penodi gweinidog newydd cafodd ei wraig daflen ac arni ddeg o reolau i'w harwyddo. Os gwrthodir eu harwyddo y mae'r teulu'n cael ei orfodi i symud o'r ty o fewn chwe mis. Mae'n anfodlon i'w wraig arwyddo oherwydd bod pwynt naw yn datgan 'Fod y tenant i gario allan unrhyw gais a ofynir gan y bugail neu y swyddogion'. Mae'n gweld cyfle ardderchog i W. J. Gruffydd i ysgrifennu llythyr agored i benaethiaid y Cyfundeb drwy'r Goleuad neu'r Cymro neu'r Western Mail. Cynhwysir copiâu o'r rheolau a thri llythyr oddi wrth ysgrifennydd y capel.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 713.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
714. vtls005426786 ISYSARCHB22	<p>File - R. Richards, Llangynog, 1929, Ebrill 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mynegi ei siom ynglŷn ag apwyntiad [prifathro] Caerdydd. Mae'n adnabod Rees yn dda ac wedi bod yn gydweithiwr iddo ym Mangor. Ni all fyth wasanaethu Cymru cystal ag y gall W. J. Gruffydd, hyd yn oed pe bai'n byw am fil o flynyddoedd. Mae W. J. Gruffydd yn sathru ar gyrn, ond yr aflwydd yw bod y cynn yn dal i dyfu ynghynt nag y sethrir hwy. Caiff gyfle yn awr i ddal ati.</p>

	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 714. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
715. vtls005426787 ISYSARCHB22	File - Tom Richards, Bangor,	[19]36, Ebrill 4.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Ymosodiad ar adolygiad 'anonest' T. J. Morgan yn Y Llenor [cyf. XV (1936), tt. 48-55, adolygiad ar Creigiau Milgwyn, nofel gan Grace Wynne Griffith]. Dywedodd fod hanner beirniadaethau Tom Richards yn ddim ond ymosodiad ar fanion sillafu a chamenwi. Mae hynny'n gelwydd noeth. £50 oedd y wobr nid £100. Nid oedd ond dwsin yn gwranddo arno'n traethu ar gyfnod Morgan Llwyd, nid tyrfa. Dywedodd beth wmbredd o bethau clodwiw am y nofel, ond nid oes yr un sill gan T. J. Morgan. Y pechod mawr oedd peidio â rhoi'r wobr gyfan i Kate [Roberts]. Nid nofel oedd ei gwaith hi, ond cadwyn o storffau (godidog ddigon). Hoffai gael ymateb i'r adolygiad yn Y Llenor, ond hwyrach mai gwell fyddai ymatal hyd oni chyhoeddir adolygiad ar [Traed Mewn Cyffion] Kate [Roberts]. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 715. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
716. vtls005426788 ISYSARCHB22	File - D. O. Roberts, Aberdâr,	1938, Hyd. 17.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n gwerthfawrogi'r anogaeth a roddodd W. J. Gruffydd drwy gyfrwng ei nodiadau golygyddol yn Y Llenor. Cyfeiriodd at sylwadau W. J. Gruffydd yn ei adroddiad blynyddol i'r Undeb Athrawon Cymreig. Yr oedd arwyddion cryf o ymddeffro ac o ymwybod cenedlaethol yno. Cyhudda'r Western Mail o wneud cyhuddiadau annheg yn erbyn W. J. Gruffydd bob tro y bydd yn siarad ar lwyfan. Mae'n ei annog i beidio â rhoi'r gorau i'r Llenor. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 716. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
717. vtls005426789 ISYSARCHB22	File - E. Haddon Roberts, Machynlleth,	1944, Ion. 21.
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae W. J. Gruffydd a Moelwyn Hughes wedi rhoi eu bys ar y man gwan yn y paratodau ar gyfer addysg y dyfodol. Mae'r darpariaethau yn awgrymu mai ymgais ydyw i ostwng safon addysg yr ysgolion eilradd presennol. Cafodd y pleser o bleidleisio dros W. J. Gruffydd yn yr Etholiad. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 717. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
718. vtls005426790 ISYSARCHB22	File - E. Jones-roberts, Bangor,	[19]37, Mai 10.

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n bwriadu ymgeisio am radd M.A. Lerpwl. Aeth deuddeg mlynedd heibio ers cefnu ar Gaerdydd. Hoffai wneud y gwaith ym Mangor, ond y mae hynny'n amhosibl gan na fu iddo raddio ag anrhydedd. Mae'n gofidio nad aeth at W. J. Gruffydd pan fethodd â gorffen ei drydydd papur gradd oherwydd salwch. Gallasai ddisgwyl cael 2B fel arall. Cyn cael ei dderbyn gan Lerpwl rhaid cael geirda gan W. J. Gruffydd. Mae'n bwriadu gweithio ar Richard Jones o'r Wern.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 718.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
719. vtls005426791 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd at E. Jones-roberts], 1937, Mai 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae ei lythyr [rhif 718 uchod] yn gosod W. J. Gruffydd mewn penbleth. Bydd Lerpwl yn gofyn am dystysgrif i ddweud bod ei waith yng Nghaerdydd ar ei gwrs gradd yn ddigonol i arwain at radd M.A. Byddai'n rhaid i W. J. Gruffydd ddweud y byddai'n ofynnol i E. Jones-Roberts eistedd yr M.A. Prelim. yn ôl y rheolau. Byddent hefyd am wybod paham ei fod yn newid prifysgol. Os yw wedi pasio ei B.D. mae W. J. Gruffydd yn ei gynghori i geisio am y radd yn yr Adran Ddiwinyddiaeth. Prin y derbynid Richard Jones o'r Wern fel testun yn yr Adran Gymraeg. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 719.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
720. vtls005426792 ISYSARCHB22	<p>File - Emrys O. Roberts, Lerpwl, [?1940, Awst].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae wedi ystyried yr erthygl yn y Western Mail am Awst 5. Mae'r erthygl yn difenwi ond gallai'r Western Mail osgoi cyfrifoldeb trwy bledio 'Fair comment'. Awgrymir ffyrdd y gellid ymosod ar y tactegau hyn, ond nid oes sicrwydd y byddai'n llwyddo trwy ddefnyddio'r tactegau hynny. Nid yw, felly, am gymell W. J. Gruffydd i fynd i gyfraith heb fod yna gronfa i gyfarfod â'r treuliau.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 720.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
721. vtls005426793 ISYSARCHB22	<p>File - Emrys O. Roberts, Lerpwl, 1940, Tach. 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae wedi cael blas mawr ar erthygl W. J. Gruffydd yn rhifyn Hydref 1940 o'r Llenor. ['Mae'r Gwylliaid ar y ffordd', cyf. XIX, tt. 112-26]. Gallai arwain i ddeffroad mawr ym meddwl politicaidd Cymru. Mae'n gofyn i W. J. Gruffydd ystyried cyhoeddi'r erthygl ar ffurf pamffledyn a pharatoi fersiwn Saesneg yn ogystal. Mae llawer yn dyheu am arweiniad yn y cyfeiriad hwn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 721.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>

	ARCH/MSS (GB0210)	
722. vtls005426794 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd at Emrys O. Roberts, Lerpwl],	1940, Rhag. 12.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymddiheuro am beidio â chysylltu'n gynt, bu'n brysur gyda materion yn ymwneud â'r Rhyfel. Mae'n gwerthfawrogi'r anogaeth i gyhoeddi'r erthygl yn Y Llenor ar ffurf llyfryn. Bwriedir cyhoeddi math ar gyfres Penguin yn Gymraeg gan Gymry yn Abertawe. Mae'n bwriadu ateb cyhuddiadau'r Faner yn Y Llenor nesaf. Mae'n ymddiheuro am ansawdd yr ateb ond roedd yn rhaid ysgrifennu felly ar gyfer rhai fel Prosser Rhys sydd ag ymennydd fel 'gwlan Berlin'. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 722.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
723. vtls005426795 ISYSARCHB22	File - Emrys O. Roberts, Lerpwl,	1940, Rhag. 15.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch o glywed am gynlluniau W. J. Gruffydd i gyhoeddi ateb i'r beirniadu a fu arno. Dylid cyhoeddi'r pamffledyn Cymraeg ar fyrder gan fod Y Llenor allan o brint. Mae angen arweiniad ar feddwl gwleidyddol Cymru, modd y gellir diogelu'r ffordd Gymreig o fyw a'r diwylliant Cymreig yn wyneb dull negyddol, ffyrnig y Blaid Genedlaethol. Mae dyfodol Cymru yn pwysu ar lwyddiant Prydain yn y Rhyfel ar y naill law a thrwy ddatblygu agwedd feirniadol tuag at ddylanwadau Seisnig ar fywyd Cymru ar y llaw arall.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 723.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
724. vtls005426796 ISYSARCHB22	File - Ernest [Roberts], [Bangor],	[Wedi 1938].
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Dogfen ar Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol yn dilyn y camre at ei sefydlu o 1881 ymlaen a rhestru'r hyn a gyflawnwyd a diwygiadau'r blynyddoedd diwethaf.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 724.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
725. vtls005426797 ISYSARCHB22	File - Evan Roberts, Llandderfel,	[19]29, Mai 3.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cydymdeimlo ar gollu tad W. J. Gruffydd a'i siom na chafodd W. J. Gruffydd swydd Prifathro yng Ngholeg Caerdydd. Mae'n edmygu W. J. Gruffydd yn fawr iawn ac yn hoff iawn o'r Llenor a byddai'n fodlon mynd heb fwyd i sicrhau copi ohono. Mae'n diolch i W. J. Gruffydd am ei barodrwydd i lofnodi'r ddeiseb a drefnwyd gan Bob Owen, Croesor, ac athrawon Bangor ar gyfer ceisio cael Bounty brenhinol iddo ef (Evan Roberts). Nid yw wedi clywed gair o Lundain. Fe'i llofnodwyd gan ryw 49 o athrawon</p>	

	<p>coleg a 60 o athrawon Meirion. Roedd brys i anfon y ddeiseb i Lundain cyn i'r Senedd dorri. Byddai Syr Herbert Lewis wedi ei harwyddo pe bai amser wedi caniatâu. Fe anfonodd Dr Miall Edwards air yn syth at Dr Thomas Jones.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 725.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
726. vtls005426798 ISYSARCHB22	<p>File - Goronwy O. Roberts, Caernarfon, 1943, Rhag. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ysgrifennu dros Gwilym Arthur Jones, 19 oed, sydd gyda'r Royal Engineers. Yr oedd ar ganol ei brentisiaeth yn Adran Syrfewr Sir Gaernarfon pan y'i galwyd i'r fyddin. Collodd ei gyfle i wneud cais am ddilyn gwaith yn y fyddin a fyddai'n ei gynorthwyo gyda'i alwedigaeth. Cymerwyd ei enw am swydd clerc mewn adran fapio neu glerc cyffredin o dan y pencadlys. A oes modd helpu bachgen o'r fath? Mae o deulu da ac yn fachgen o gymeriad cryf a gallu anghyffredin. Mae'n fab i Mr Ieuan Jones, Golygydd y Caernarvon and Denbigh Herald.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 726.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
727. vtls005426799 ISYSARCHB22	<p>File - Griffith T. Roberts, Bangor, 1948, Tach. 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Wrth ddarllen yr 'Hen Atgofion' yn Y Llenor a'r cyfeiriad at Owen Llanddeiniolen, cofiodd am gerddi a ganodd Ieuan Lley'n iddo ac y mae'n amgau copïau allan o Caniadau Ieuan Lley'n a olygwyd gan Myrddin Fardd (Pwllheli, 1878). Buasai Ieuan yn cadw ysgol yn Llanddeiniolen tua 1799-1800 a dyna, mae'n debyg, pryd y daeth yn gyfarwydd ag Owen. Yr oedd nain Griffith T. Roberts yn frodor o Fethel. Hanesyn am ddweud adnod yng nghapel Bethel. Cerddi Owen Llanddeiniolen.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 727.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
728. vtls005426800 ISYSARCHB22	<p>File - J. Hugh Roberts, Casnewydd, [19]37, Rhag. 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mynegi ei siom o fethu â dod i gyfarfod yn Ebenezer y noson flaenorol. Roedd wedi bwriadu trafod sut i ddod â chasgliad 'Islwyn' i ben ac yr oedd hefyd yn awyddus i ddiolch i W. J. Gruffydd yn bersonol am Hen Atgofion a chofiant O. M. Edwards. Hoffai sôn wrth W. J. Gruffydd am y cynnod difyr a dreuliodd yn Llanrug rhwng mis Medi 1890 a Nadolig 1891. Adrodd hanesyn am gystadlu ar adroddiad yn Waunfawr. Hanesyn am gollir'r ffordd adref o Rostryfan ar noson a eira trwchus. Bu'n byw ym Mynwys ers dros ddeugain mlynedd ond Llanrug a'r chwarelwyr amdani bob tro. Bu'n sôn am ei atgofion o 1874 i 1934 wrth fyfyrwyr Coleg Caerlleon y noson o'r blaen. Sôn am absenoldeb y Gymraeg o'r ysgolion y pryd hwnnw er bod pawb yn Gymry Cymraeg. Yna yn 1911 pan yn brifathro ysgol yng Nghasnewydd heb un teulu Cymraeg yno a 99% o'r teuluoedd yn hanu a swydd Stafford bu raid dysgu Cymraeg i'r plant hyd 1929 pan ddechreuodd Geddes alw am gwtogi ar gyllid.</p>

	<i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 728. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
729. vtls005426801 ISYSARCHB22	File - John Roberts, [Caerdydd],	[1943], Nos Sul [?	Ion. 31].
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei ethol yn aelod seneddol. Mae'n gweld hyn yn waith cydnaws iddo am weddill ei oes. Rhyfeddai bod [Alun] Talfan [Davies] wedi cael cymaint i bleidleisio drosto. Holi beth yw ystyr y cyfeiriadau mynych at Powys Fadog yn llyfr J. E. Griffith, Pedigrees . <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 729. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
730. vtls005426802 ISYSARCHB22	File - John Roberts, Lerpwl,	1939, Chwef. 28.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Diolch am y llyfr Hen Atgofion. Fe'i darllenodd ddwywaith a'i gael yn 'hufen bywoliaeth'. Yn sir Gaernarfon y mae ei galon. Bu mam W. J. Gruffydd yn ei ddysgu rhwng tair a chwech oed yn Ysgol y Felinheli. Mae llu o'i hynafiaid yn gorwedd ym mynwent Llanddeiniolen. Hanesyn am weld y wawr yn torri a ben yr Wyddfa. Atgofion am ardal Bethel ac am y cyfarfodydd llenyddol. Rhestru perthnasau. Bu yn gweld beddau'r teulu yn Llanddeiniolen yn ddiweddar a gofynnodd i'r clochydd a fedrai gael ei gladdu yno. Trafod y modd y bu i stâd y Faenol gosbi tenantiaid am gefnogi'r Rhyddfrydwyr. Hanes ei blant a'i hanes ei hunan. Bu'n beiriannydd ar y môr. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 730. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
Cyfres Series 731-73. vtls005426803 ISYSARCHB22: Llythyrau: Roberts, Kate-Skaife, E. O,			
<u>Dyddiad Date:</u> 1913-44. (dyddiad creu) (date of creation)			
<u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)			
<u>Nodyn Note [generalNote]:</u> Preferred citation: 731-73.			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
<u>Cod cyfeirnod Reference code</u>	<u>Teitl Title</u>	<u>Dyddiadau Dates</u>	<u>Disgrifiad ffisegol Physical description</u>
731. vtls005426804 ISYSARCHB22	File - Kate Roberts a Morris T. Williams, Rhiwbeina,	[19]29, Ebrill 29.	

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cydymdeimlad ar ôl colli ei dad. Mynegi eu siom am na chafodd ei ddyrchafu yn Brifathro Coleg Caerdydd. Gallent ddeall ei siom o weld rhywun o'r tu allan yn cael ei benodi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 731.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
732. vtls005426805 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Tonypandy, 1933, Ion. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cynnig stori fer i'r Llenor. Mae'n gweld yn ôl y rhifyn cyfredol fod ganddo ddigon o ddeunydd. Os yw am gael stori yna fe hoffai Kate Roberts ei gweld yn ymddangos yn y rhifyn dilynol. Ni all oddef disgwyl yn hwy i weld ei gwaith mewn print na'r rhifyn nesaf. Ysgrifennodd stori i rifyn Nadolig Y Genedl. Nid oedd ganddi syniad cyn dechrau am gynnwys y stori, ac yna'n sydyn cafodd y syniad o ysgrifennu hynt llond cerbyd trên o bobl ar ddiwrnod Ffair Gaeaf 1932 yng Nghaernarfon. Ni lofruddiwyd dim erioed yn debyg iddi. Gadawyd brawddegau cyfain allan gan amharu'n ddifrifol ar y synwyr. Newidiwyd geiriau hefyd ac ymadroddion cyfan. Roedd yn dda ganddi weld sylwadau W. J. Gruffydd ar addysg yn Y Llenor. Dywedodd Kate Roberts yn gyhoeddus yn Ysgol Haf [y Blaid] Bryn Mawr 'mai'r peth gorau a allai ddigwydd yng Nghymru fyddai cau'r ysgolion a gadael i'r plant redeg, hyd y mynyddoedd.' Wrth farcio papurau'r Bwrdd Canol daeth i sylweddoli na wyr plant Cymru ddim am eu gwlad eu hunain. Yr un yw Cymru a Lloegr iddynt. Nid oes yn rhaid i athro yng Nghwm Rhondda wybod Cymraeg i gael swydd bellach. Mae Morris, ei gwr, yn anghydweld ag W. J. Gruffydd ar fater y Blaid Genedlaethol a'r cynghorau lleol. Mae'n bwriadu ysgrifennu pwt ar y mater i'r Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 732.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
733. vtls005426806 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Tonypandy, [19]33, Hyd. 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cynnig stori fer i W. J. Gruffydd ar gyfer Y Llenor. Mae Morris T. Williams, ei gwr, yn amgau cân i'r Llenor. Os na fwriedir ei defnyddio hoffai ei derbyn yn ôl. Dyna'r unig gopi sydd ganddo.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 733.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
734. vtls005426807 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Tonypandy, 1934, Meh. 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu i ddangos gwerthfawrogiad o'r 'Hen Atgofion' y prôs gorau a ysgrifennir yn Gymraeg. Caiff Kate Roberts ei thristâu wrth feddwl fod y bywyd y mae W. J. Gruffydd yn sôn amdano yn ddieithr i drigolion yr ardaloedd o'i chwmpas. Mae gogoniant Cymraeg cyfoes i'w weld yn nisgrifiadau bywyd a fu unwaith ac nad yw mwy. Nid yw pobl ifanc y Blaid Genedlaethol yn gwybod dim am y bywyd Cymreig ac ni allant ysgrifennu Cymraeg. Ni fedrent ddeall Cwm Eithin ar y darlleniad cyntaf. Mae cyflwr Cymru a'r Gymraeg yn druenus. Mae 'Colofn y Merched' yn Y Genedl yn ddigon i godi cramp ar</p>

	<p>ddyn, ac mae Cymraeg Y Darian, er pan adawodd 'Tywi' hi, yn union fel yr oedd yn 1880. Ni wyr pobl ifanc Cymru mo'r termau Cymraeg am y pethau mwyaf cyffredin mewn gwleidyddiaeth, termau a ddi'n hollol naturiol dros dafodau'r tadau.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 734.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
735. vtls005426808 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Tonypandy, 1934, Meh. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n frwdfrydig iawn dros sefydlu cwmnïaeth o lenorion ond bydd yn rhaid gweithredu ar unwaith. Daeth gweledigaeth y Blaid Genedlaethol yn rhy ddiweddar ac y mae Cymru'n anobeithiol. Llenorion cyfoes Cymru yw llenorion olaf Cymru ac felly dylent gael tipyn o hwyl yng nghwmni ei gilydd. Bu R. Williams Parry yn poeni'n arw wrth feddwl y gellid cyfrif Crwys yn well bardd nag ef ymhen can mlynedd. Mae Kate Roberts yn fodlon trefnu'r cyfarfod cyntaf. Bydd amser Eisteddfod Castell-nedd yn hwylus i bawb ond G. J. Williams. Bydd ef yn brysur gyda'r Bwrdd Canol. Awgrymu cwrdd mewn tafarn yn Aberdulais. Gwahodd W. J. Gruffydd i fyny i Donypandy yn yr wythnosau dilynol - byddant yn codi tatws o'u gardd y pryd hwnnw. Nid oes rhaid gofyn i Morris T. Williams, ei gwr, i fod yn aelod o'r cwmni yn unig am ei fod yn wr iddi. Maent yn gallu trafod eu beiau llenyddol yn agored. Mae gan Morris T. Williams drwyn iawn at lenyddiaeth. Nid yw hi'n cytuno ag W. J. Gruffydd fod O Gors y Bryniau yn well na Rhigolau Bywyd. Mae arni gywilydd o ddull plentynnaidd rhai o storïau O Gors y Bryniau.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 735.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
736. vtls005426809 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Tonypandy, [?1935], Mawrth 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Newydd dderbyn llythyr W. J. Gruffydd ar ôl bod yn Lerpwl a Rhosgadfan. Mae'n ymddiheuro am ei llawysgrifen flêr ac yn cadarnhau mai 'Alaw Jim' yw enw'r ci mewn stori o'i heiddo. Morris T. Williams, ei gwr, a luniodd yr enw, yr union fath o enw a roisai dyn o Drealaw ar ei gi. Dychymyg hollol yw'r stori i gyd er hynny. Fe'i hysgrifennwyd mewn iaith sy'n hanner llenyddol a hanner tafodieithol. Dyna pam y rhoddodd 'means test' yn lle 'praw moddion'. Diolch i W. J. Gruffydd am anfon rhestr o dermau bwydydd. Rhyfeddu sut y gall termau newid o un ardal gyfagos i'r llall. Trafod y term 'Picws Mali' neu 'Shot Sir Fôn'. Trafod 'Cig Pen' - potes yn cynnwys y cig wedi ei falu.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 736.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
737. vtls005426810 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Dinbych, [19]36, Gorff. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch iddo am ei adolygiad ar [Traed mewn Cyffion] yn Y Llenor [cyf. XV (1936), tt. 123-7]. Mae'n falch fod un, o leiaf, wedi deall ei hamcan wrth ysgrifennu'r nofel. Mae'n ymwybodol fod y cynfas yn rhy fychan ond yr oedd yn well ganddi neidio dros flynyddoedd na chrynhoi. Yr oedd dau reswm dros</p>

	<p>ei hanfon i'r Eisteddfod - gosod amser penodedig i'w gorffen a'r wobr ariannol. Cafodd ei thwylo o hanner hwnnw. £50 oedd y wobr gyfan ac nid £100 fel y dywedodd T. J. Morgan [mewn adolygiad ar y gwaith arall Creigiau Milgwyn gan Grace Wynne Griffith]. 'Suntur a Chlai' oedd ei theitl cyntaf. Mae'n nodi'r anawsterau yr oedd ynddynt wrth ysgrifennu'r gwaith a bu'n rhaid ei chyhoeddi fel ag yr oedd er mwyn cadw'r pris yn hanner coron. Mae'n bwriadu ei gorffen rywdro drwy ddilyn helyntion William yn y De. Amddiffyn ei hunan rhag beirniadaeth yngl?n â diffyg digrifwch y llyfr. Arddull awduron Ffrengig a'r modd yr ysgrifennwyd 'Buddugoliaeth Alaw Jim'. Mae'n bwriadu ysgrifennu stori arall i'r Llenor ond bu'n rhy brysur oddi ar iddi ddod i Ddinbych. Mae ganddi chwe stori ar gyfer ei chyfrol nesaf. Mae'n amgau torion o'r Genedl gan 'Caswallon' a 'Cymro' sy'n cyfeirio at gystadleuaeth y nofel yn Eisteddfod Castell-nedd. Maent wedi prynu Gwasg Gee. Busnes digalon iawn yw cyhoeddi llyfrau Cymraeg. Sefyllfa druenus Cymru. Mae pawb bron yn Ninbych yn deall Cymraeg ond bod y bobl ifanc yn mynnu siarad Saesneg. Cymraeg yw iaith yr ardaloedd gwledig o gwmpas. Mae Dinbych yn lle braf i fyw ynddo. Bwydydd ffres. Dim ond taith deng munud sydd yna at fedd 'Twm o'r Nant' ac nid yw Maes-y-plwm ymhell ychwaith. Falch o glywed yr hyn a ddywedodd W. J. Gruffydd am Hatter's Castle. Mae'n amlwg o ddarllen Three Loves fod yr awdur yn seilio datblygiad y nofel ar ystyfnigrwydd ei brif gymeriad. Canmol gwroldeb W. J. Gruffydd ym Mhwllheli. Yr unig beth sy'n ei chadw rhag rhoi'r cwbl i fyny yngl?n â Chymru yw gweld ysbryd di-droi'n ôl pobl fel W. J. Gruffydd a Saunders Lewis. Torion papur newydd o'r Genedl.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 737.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>738. vtls005426811 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Kate Roberts, Dinbych, 1937, Ion. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n cytuno i adolygu Hen Atgofion a Storiâu Dilys Cadwaladr. Mae'n bwriadu rhoi copi o Hen Atgofion i'w mam sydd wedi cael pler mawr o ddarllen y gyfres yn Y Llenor. Canmol gwaith Dilys Cadwaladr - mae ganddi ryw gallineb sy'n gweld trwy ragrith a phethau felly. Mae ei storiâu gorau yn well o ran crefftwaith na rhai D. J. Williams. Mynegi'r pler a gafodd o ailddarllen y bennod am fam W. J. Gruffydd yn Hen Atgofion. Rhoddodd dawelwch iddi wrth ei darllen. Ymddiheuro am anfon stori'r 'Cwilt' ato ar gymaint o frys. Bydd rhaid ei thrwsio cyn ei chyhoeddi mewn llyfr. Mae awydd arni ysgrifennu stori ddigri er mwyn yr adolygwyr sy'n dweud nad oes gan Kate Roberts ddim hiwmor. Mae'n gobeithio gorffen 'Ysgolfeistr y Bwlch' rywbryd. Mae ganddi erthygl yn Y Ddraig Goch cyfredol yn condemnio'r Blaid yn hallt am ei diffyg diddordeb mewn etholiadau lleol. Gallesid bod wedi rhwystro'r ysgol fomio pe bai aelodau ar y pwyllgorau lleol. Gresyn bod ymraniadau o fewn y Blaid ei hunan. Mae arwyddion Ffasgiol yn y Welsh Nationalist. Ymddengys fel petai rhyw dynged yn rhwystro Cymru rhag bod yn un. Canfu Kate Roberts o ddarllen hen rifyn o'r Ymwelydd Misol ei bod yn cael ei phen blwydd ar yr un diwrnod ag W. J. Gruffydd ond ei fod ef union ddeng mlynedd yn hyn na hi.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 738.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>739. vtls005426812 ISYSARCHB22</p>	<p>File - K[ate] R[oberts], Dinbych, [19]37, Chwef. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Addo dau adolygiad o fewn pythefnos. Mae'n canmol gwaith W. J. Gruffydd yn ysgrifennu i'r Wasg ac yngl?n â'r Eisteddfod. Mae'r papurau yn gwneud Kate Roberts yn lloerig, dim ond y golofn farwolaethau y mae'n ei darllen yn y Western Mail bellach. Nid yw yn beirniadu ym Machynlleth neu fe</p>

	<p>ymddiswyddai hithau. Nid yw'n beirniadu yng Nghaerdydd ychwaith ac ni welodd enw W. J. Gruffydd ar gyfer beirniadu yno ychwaith. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 739.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
740. vtls005426813 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Dinbych, [19]37, Chwef. 15.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Nid yw'n fodlon ar yr adolygiad a anfonodd ar Hen Atgofion. Nid yw wedi canmol hanner digon arno na rhoi iddo'r pwysigrwydd a haedda. Mae ganddi ormod o waith o lawer ac y mae'n ysgrifennu popeth mewn stâd o flinder. Aeth ati i ychwanegu tipyn at yr adolygiad ar Hen Atgofion gan obeithio y bydd yn asio i'r gweddill.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 740.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
741. vtls005426814 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Dinbych, [19]37, Mawrth 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Cafodd y Tori 400 o bleidleisiau yn yr etholiad a Morris T. Williams, ei gwr, 319 dros y Blaid Genedlaethol. Tybiodd ar un adeg fod gobaith iddo ennill, ond rhyfedd pa mor driw yw pobl y capeli i'r Toriaid. Mae'n dda ar ryw olwg nad aeth i mewn gan nad yw wedi cael ei draed dano yn y busnes. Daeth Rhyddfrydwr o Ddinbych ato i'r swyddfa i'w gynghori i beidio ag ymhel â'r Blaid Genedlaethol am ei fod yn colli busnes oblegid hynny. Yr oedd y dyn hwnnw wedi colli busnes ei hunan wrth sefyll dros Rhyddfrydiaeth ac adeg Rhyfel y Degwm. Dylai'r Blaid fod yn fwy cefnogol iddynt. Argreffir Y Ddraig Goch gan Yr Herald, cwmmi o Saeson, er i Morris T. Williams gynnig ei argraffu am yr un pris. Oni bai bod yn well ganddi Gymru na'r Blaid byddai yn ei gadael yfory nesaf. Hoffai gael M.A. er mwyn creu argraff ar 'bobl ddwl' Dinbych. Ym Mangor y graddiodd ond nid yw am ysgrifennu at yr Athro Cymraeg yno gan nad oes ganddi barch ato erbyn hyn. A oes raid iddi ysgrifennu traethawd. Onid yw ei holl lyfrau creadigol yn ddigonol? A gai hi gynnig am y radd yng Nghaerdydd yn hytrach na Bangor? Awgrymodd rhywun y gallai anfon traethawd byr ar y stori fer ynghyd â'i gwaith gweiddiol. Hanes y terfysg yn y cyfarfod yng Nghaernarfon. Mae'n anfon copi o'r North Wales Times at W. J. Gruffydd er mwyn iddo gael gweld llythyr y Parch. John Williams, Llandudno ar fater Cyngor Dinbych a'r brotest.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 741.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
742. vtls005426815 ISYSARCHB22	<p>File - Kate Roberts, Dinbych, 1937, Medi 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Gofyn i W. J. Gruffydd a gafodd wahoddiad gan Yr Aelwyd i ddod i siarad. Bu'r ysgrifennydd yn hir iawn yn ysgrifennu, felly mae Kate Roberts yn gofyn iddo ddod er mwyn i'r Aelwyd fod yn llwyddiant mawr. Yr unig boen yw bod y tâl yn fychan - dwy gini yn cynnwys treuliau. Hwyrach bod ganddo gyhoeddiad arall yn yr un ardal ac y gellid trefnu'r ddau tua'r un adeg. Mae Morris T. Williams, ei gwr, yn gynghorydd ar dref Dinbych, cafodd ei ethol yn ddiwrthwynebiad. Hysbyswyd yn y Wasg Saesneg</p>

	<p>ddechrau'r wythnos y byddai neges oddi wrth y Tri [Saunders Lewis, D. J. Williams a Lewis Valentine] yn Y Ddraig Goch nesaf. Bu cynrychiolydd y Daily Mirror yn swyddfa Gwasg Gee y diwrnod cynt yn cynnig pum punt i un o'r dynion am gael y neges cyn i'r Ddraig Goch ymddangos. Fe'i hanfonwyd at Morris T. Williams a rhoddodd hwnnw bryd o dafod iddo. Fe hysbysodd Morris T. Williams yr heddlu hefyd ac os daw'r dyn yn ôl bydd plismon yn gwrando arno. Ni wyddai fod Morris T. Williams yn aelod o'r Blaid Genedlaethol. Y mae wedi darllen pedair pennod o gofiant O. M. Edwards. Mae'r ty fel hotel ym mis Awst. Yr oedd Y Llenor diwethaf yn odidog. Cafodd agoriad llygad wrth ddarllen hanes William Jones [Y Llenor, cyf. XVI (1937), tt. 77-87]. Mae'n dyfynnu darn o adolygiad W. D. D. o'r Cymro ar Y Llenor: 'Ysgrifenna Dafydd Jenkins yn ddiddorol iawn ar y Teify Dairy'!! [Stori fer oedd 'Teivy Dairy'].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 742.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>743. vtls005426816 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Kate Roberts, Dinbych, [1937], Tach. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae wedi gorffen darllen cofiant O. M. Edwards ac yn ysgrifennu i ddweud cymaint o bleser a gafodd hi o'i ddarllen. Cafwyd golwg newydd ar y cyfnod, yr ardal ac yn enwedig ar addysg y cyfnod. Ni all ddeall sut mae W. J. Gruffydd yn medru taro'r hoelen ar ei phen bob tro. Bu hi wrthi am wythnosau uwchben un stori fer yn ceisio ei chael yn iawn. Mae'n gobeithio cyhoeddi cyfrol o storïau byrion cyn diwedd y mis. Mae'n bwriadu amgau adolygiadau sy'n dangos gwendid adolygu yng Nghymru. Bydd y 'Mynach Du' yn cwyno yn y Western Mail bod ei storïau wedi ymddangos o'r blaen. Y mae Hughes a'i Fab wedi dechrau peidio anfon copi rhad o'r Llenor ati. Trafod ei dosbarth nos yn Nhanyfron. Mae W. J. Gruffydd i siarad yn yr Aelwyd ar 25 Mawrth. Mae'r pwyllgorau'n dechrau cyfarfod ar gyfer trefnu Eisteddfod Dinbych a phobl sy'n ceisio lladd y diwylliant Cymreig drwy eu hoes yn disgwyl cael swyddi. O.N. 19 Tach. 1937. Mae'n amgau'r torion papur newydd. Holi os bu iddo dderbyn stori fer gan Janet Roberts, Nantglyn. Awgrymodd Kate Roberts iddi ei hanfon i'r Llenor ar ôl ei gwobrwyo mewn eisteddfod yng Ngherrig-y-drudion. Mae'n bwriadu rhwymo rhyw ddwsin o gopïau o Ffair Gaeaf mewn lledr i'w rhoi i gyfeillion llenyddol. Bwriada anfon un at W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 743.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>744. vtls005426817 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Kate Roberts, Dinbych, [1937], Rhag. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Amgau'r copi lledr o Ffair Gaeaf. Er gwaethaf pob gofal fe lithrodd camgymeriadau i'r llyfr. Petai gan Morris T. Williams, ei gwr, amser i ysgrifennu fe gai sôn am y busnes rhwymo ac argraffu. Ni cheir rhwymo gwell nes bod pobl yn fodlon talu mwy am lyfrau. Weithiau fe gondemmir heb eisïau, e.e. llyfr diweddar I. D. Hooson a gondemniwyd gan Iorwerth C. Peate a hwnnw wedi ei rwymo gan un o ffyrmiau gorau Lloegr. Nodir enghreifftiau eraill. Mae W. D. D. yn dyfynnu adnodau wrth hysbysebu yn awr.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 744.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>745. vtls005426818 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Kate Roberts, Dinbych, [19]38, Mawrth 21.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae llawer yn edrych ymlaen at glywed W. J. Gruffydd y nos Wener ganlynol. Mae'n ei wahodd i aros yno. Fe lwyddodd aelod o'r Blaid Genedlaethol i ennill sedd ar Gyngor Dinbych mewn etholiad achlysurol fel aelod annibynnol. Bu gyda Morris T. Williams, ei gwr, yn tanio coelcerth ar fynydd Hiraethog y noson y daeth y tri o'r carchar [Saunders Lewis, etc.], a diflannodd o siop ei daid, sy'n Rhyddfrydwr lloerig, i fynd i'r cyfarfod croeso yng Nghaernarfon. Fe fydd yn siwr o gefnogi Morris T. Williams beth bynnag.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 745.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
746. vtls005426819 ISYSARCHB22	<p>File - Kitty Jones Roberts, Blaenau Ffestiniog, [19]29, Ebrill 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n glaf o'r eryr ers pythefnos. Cafodd siom o glywed am 'frâd' Caerdydd. Cydymdeimlo hefyd ar farwolaeth tad W. J. Gruffydd. Mae ei gwr yn Llundain gan ddychwelyd adref ar 9 Awst ac aros wedyn tan ar ôl y frwydr. Gwahodd W. J. Gruffydd i aros gyda hwy. Beth yw tarddiad y term 'eryr'?</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 746.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
747. vtls005426820 ISYSARCHB22	<p>File - Kitty Jones Roberts, Blaenau Ffestiniog, 1929, Mai 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ei lythyr. Mae'n gallu deall angen W. J. Gruffydd am le i encilio iddo am ddeufis yn yr haf. Nid yw'n adnabod arfordir y dwyrain ond byddai hysbyseb yn Y Times neu Lady yn sicr o weithio. Yn y Lady y bydd pobl Abersoch yn cael hyd i'w hymwelwyr i gyd. Fe'i ganed yn bagan ac felly ni all ddeall yr angen am bwrpas i fywyd a deimla cymaint o bobl. Mae swm y gwynt yn y brwyn ar ben y Migneint yn ddigon o reswm iddi hi am bopeth. Fe fydd yn rhaid i W. J. Gruffydd gael bwthyn yn sir Gaernarfon cyn y bydd iddo gael tawelwch llwyr. Gofyn iddo roi gwybod iddi am ei drefniadau'r Sulgwyn. Byddant yn Harlech ar y Llungwyn er mwyn yr enwebiad.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 747.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
748. vtls005426821 ISYSARCHB22	<p>File - Mai Roberts, Caernarfon, 1937, Ion. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae J. E. Jones yn wael ac y mae hi'n gofalu am y gwaith am ychydig. Gwahodd W. J. Gruffydd i annerch Cynhadledd Flynyddol Sir Gaernarfon o'r Blaid Genedlaethol. Mae cais hefyd o'r Pwyllgor Sir yn gofyn iddo fod yn wr gwadd yng nghinio'r Blaid yr un noson. Diolch am lythyr a ymddangosodd yn y Wasg ar 4 Ionawr. Ychwanegu iddi fwynhad Hen Atgofion yn fawr iawn. Hoffai sôn wrtho rywbyrd am deulu Robert Ellis, Ysgoldy, Brynrefail, gwr diddorol iawn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p>

	Preferred citation: 748. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
749. vtls005426822 ISYSARCHB22	File - Mary Silyn Roberts, Bangor, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Cafodd gyfle i ddarllen sript W. J. Gruffydd 'Fy Mlwyddyn Arbennig I' yn swyddfa'r BBC. Diolch iddo am ddod ag atgofion 1899 yn ôl mor fyw. Trueni iddi gollir cyfle o'i glywed yn ei thraethu, er hynny gwych o beth oedd cael ei darllen a'i hailddarllen. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 749. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1938, Meh. 15.
750. vtls005426823 ISYSARCHB22	File - Mary Silyn Roberts, Bangor, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Bu'n ceisio meddwl sut y gallai goffâu Silyn. Wedi ymgynghori â rhai cyfeillion penderfynwyd paratoi darlun llenyddol ohono trwy gael cydnabod i lunio ysgrifau amdano. Mae Mr David Thomas, Bangor, wedi addo ei chynorthwyo i gasglu'r deunydd ynghyd ac y mae'r Athro W. J. Gruffydd wedi bodloni gweu'r cyfan yn gyfrol deilwng. Gofyn am hanesyn neu unrhyw atgofion amdano. Cylchlythyr dyblygedig. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 750. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1939, Mai [].
751. vtls005426824 ISYSARCHB22	File - Mary Silyn Roberts, Bangor, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch i W. J. Gruffydd am gytuno i olygu cyfrol goffa i Silyn. Mae David Thomas wrth ei fodd ac yn bwriadu dechrau casglu defnyddiau. Mae'n amgau copi o'r llythyr yn gwahodd pobl i gyfrannu i'r gyfrol [rhif 750 uchod]. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 751. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1939, Mai 4.
752. vtls005426825 ISYSARCHB22	File - Mary Silyn Roberts, Bangor, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch i W. J. Gruffydd am gefnogi [Iorwerth] Peate. Petai'r gwyr a fynnai ei droi o'r Amgueddfa wedi llwyddo yna byddai Cymru gyfan ar ben llithrigfa ddychrynlyd. Holi am hynt Dafydd [mab W. J. Gruffydd] a rhoi hanes Glynn a Meilir yn y rhyfel. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i>	1941, Hyd. 25.

	Preferred citation: 752. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
753. vtls005426826 ISYSARCHB22	File - R. Alun Roberts, Bangor, 1929, Mawrth 13. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch am lythyr W. J. Gruffydd. Mae bywyd Cymraeg y Coleg yn gymharol ddiethr iddo er ei fod yn digwydd bod yn Llywydd y Gymdeithas Gymraeg am y flwyddyn. Aeth i fyny i'r Coleg Uchaf a gosod y mater gerbron Mr R. Ellis Jones. Cytunodd iddo fod yn annoeth wrth anfon y cerdyn post at W. J. Gruffydd. Mae wedi addo anfon gair yn y man i sicrhau na olygid unrhyw sarhad drwyddo. Hydera y bydd W. J. Gruffydd yn faddeugar a mawrfrydig. Hydera y cânt reswm llai diflas i ohebu yn ei gylch yn y dyfodol. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 753. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
754. vtls005426827 ISYSARCHB22	File - [R.] Alun [Roberts], Bangor, [1936] Bore Sul. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n ofni y bydd yn rhaid iddo fod yn llym ac angharedig wrth y gyfrol [Glamorgan County History I] yn ei adolygiad [gw. Y Llenor, cyf. XVI (1937), tt. 59-64]. Mae'n bwriadu ysgrifennu adolygiad pur faith a bydd raid i'r dasg aros tan wyliau'r Nadolig. Hoffai wybod beth a fwriedir yng ngweddill y gyfres. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 754. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
755. vtls005426828 ISYSARCHB22	File - R. E. Vaughan Roberts, Llanarmon yn Iâl, 1941, Awst 29. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Trafod y term 'cari dymys' yn Hen Atgofion, t. 152. Sôn am 'gari bans' - rhywbeth tebyg i sipsiwn. Hwyrach i'r term darddu o'r term 'gari fan' fel yr yngenid ef. Bygythid hefyd y 'dra bans' yn ogystal â'r 'Sowldiar coch' a'r sipsiwn ar blant drwg. Trafod 'Ned Drabwn' a 'Wil Drabwn' dau gymeriad yn y Bala, a elwid felly am fod eu tad yn canu'r trombone ym mand Milisia'r dre. Pryfed yw prif ddiddordeb R. E. Vaughan Roberts ac ysgrifennodd ddeugain o ysgrifau ar y pwnc. Ymddangosodd rhai ohonynt yn Yr Haul. Bwriada gyhoeddi'r deunydd yn gyfrol ar ddiwedd y rhyfel. Methodd â chael term Cymraeg i'r cockroach. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 755. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
756. vtls005426829 ISYSARCHB22	File - R. Gwylfa Roberts, Llanelli, 1932, Medi 12. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>

	<p>Ateb llythyr W. J. Gruffydd (21 Medi 1931) ynglŷn â'i awgrymiadau i bwyllgor llenyddol yr Orsedd. Barn y pwyllgor yw mai trwy'r Orsedd yn hytrach nag unrhyw gorff arall oddi allan y mae cael gwelliannau ym myd yr Eisteddfod. Teimlai pawb y gallai W. J. Gruffydd a'r cyfeillion eraill a enwir fod o gymorth yn yr ymdrech i ddiwygio pethau. Fe'u gwahoddwyd i gyd i ymuno â'r Orsedd yn y modd cynhesaf. Hoffai gyhoeddi'r ohebiaeth rhyngddynt fel na byddai camagraff yn y wlad.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 756.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
757. vtls005426830 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd at R. Gwylfa Roberts, Cofiadur yr Orsedd], 1932, Hyd. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ymddiheuro am fod cyhyd heb ateb ei lythyr. Diolch am ddod â'r hyn sydd dan sylw gerbron Pwyllgor yr Orsedd. Mae'n deall o'r ateb nad yw'r Orsedd yn dymuno symud ymhellach yn y cyfeiriad a awgrymwyd. Pe byddai cyfansoddiad yr Orsedd yn wahanol gellid gwneud rhywbeth a fuasai o fudd i iaith a llên Cymru. Yr hyn y mae'r llythyr blaenorol yn ei ddweud felly yw 1) y gall yr Orsedd ei hunan heb unrhyw gydweithrediad o'r tu allan ddwyn diwygiad i'r Eisteddfod a 2) bod croeso i W. J. Gruffydd i ymuno â'r Orsedd. Y mae popeth felly fel yr oeddynt o'r blaen ond fod pawb yn gwybod yn sicr ymhle maent yn sefyll. Mae pob croeso iddo gyhoeddi'r ohebiaeth. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 757.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
758. vtls005426831 ISYSARCHB22	<p>File - R. J. Roberts, Llanrug, 1938, Ion. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mynegi'r pler a gafodd o ddarllen Hen Atgofion. Bu yn cydweithio â thad W. J. Gruffydd ac y mae'n ei gofio'n priodi pan wisgodd bawb dei iâr fach yr haf i ddathlu'r amgylchiad. Roedd ganddo'r parch mwyaf tuag ato ac ni fydd yn anghofio ei gynghorion, e.e. peidio ag ysmegu ac ymwrthod â'r ddiod feddwol. Y mae yn 75 oed erbyn hyn. Cofia am daid W. J. Gruffydd, sef William Parry yn Llanrug wedi dod yno i godi blaenoriaid gydag 'Alafon' a John Rowlands y Cysegr. Cafodd R. J. Roberts ei ddewis a chael cyngor gan William Parry i beidio â gwrthod. Yr oeddent yn 'hen Demlwy'r Da selog'. Diolch hefyd am sylwadau ar Edward Jones 'Ciando'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 758.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
759. vtls005426832 ISYSARCHB22	<p>File - J. H. Rose, St Andrews, [19]30, Meh. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Canmol llyfr W. J. Gruffydd Math vab Mathonwy. Y mae wedi llunio adolygiad ar y gyfrol ar gyfer Folk-Lore. Mae astudiaethau Celtaidd yn yr un man ag yr oedd astudiaethau Clasurol yn nyddiau Aldus Manutius, er bod mwy o brofiad ynglŷn â'r dull. Nodir rhai mân bwyntiau nad yw'n nodi yn yr adolygiad.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p>

	<p>Preferred citation: 759.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
760. vtls005426833 ISYSARCHB22	<p>File - Robert John Rowlands ('Meuryn'), 1929, Mai 2. Caernarfon,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ymateb i'w gais yn yr Herald yn gofyn am ysgrif ac am yr ysgrif gampus gan W. J. Gruffydd yn y Western Mail. Tila ac annheilwng oedd ysgrifau T. Gwynn Jones a Henry Lewis. Ni ellid casglu oddi wrth eu sylwadau hwy fod neb o bwys wedi marw. Mae'n wir ddrwg ganddo na phenodwyd W. J. Gruffydd yn Brifathro [yng Nghaerdydd]. Gwnaeth sylwadau ar hynny yn Yr Herald. Cydymdeimlo hefyd ag W. J. Gruffydd ar golli ei dad.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 760.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
761. vtls005426834 ISYSARCHB22	<p>File - Robert John Rowlands ('Meuryn'), 1936, Gorff. 18. Caernarfon,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cododd 'Y Lawlen a Gollais' o'r hen Bapur Pawb am y flwyddyn 1903. Bu'n bwriadu anfon at W. J. Gruffydd yngl'n ag enwau ei ardal enedigol - Aber. Mae dyfaliad John Lloyd Jones yn ei lyfr am ystyr Cytgoed yn dra anghywir. Cwtogiad o 'Cytiau Coed' yw'r enw diweddar hwnnw. Gyferbyn â'r Cytgoed mae Y Ferdroed a gerllaw eto Y Foel Ddiarth. Ar ochr y Foel honno y mae Llwybr Gorllwy. Mae 'Meuryn' yn enw ar le ar fynydd Aber - Meuryn Uchaf a Meuryn Isaf. Awgrymodd Syr John Morris-Jones y gallai mai Mei-fryn sef 'y bryn canol neu ganolig' oedd yr ystyr, a byddai hynny'n ffitio i'r dim. Mae yno gytiau Gwyddelod ac ar dir Hafod Gelyn mae olion hen eglwys. Diolch am y pleser diddiwedd a gaiff o ddarlenn nodiadau W. J. Gruffydd yn Y Llenor. Wrth gyfeirio atynt mor aml yn Y Genedl y maent yn cyrraedd dosbarth arall o'r Cymry.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 761.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
762. vtls005426835 ISYSARCHB22	<p>File - Robert John Rowlands ('Meuryn'), 1937, Ion. 28. Caernarfon,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Derbyniodd gopi o ysgrif W. J. Gruffydd ar 'Y Praw' ac felly cyhoeddir yn Yr Herald a'r Genedl. Sylwodd fod W. J. Gruffydd yn ymddiswyddo o feirniadu ym Machynlleth ynghyd â thri arall. Pwy yw'r tri hyn? Cafodd 'Meuryn' wahoddiad i feirniadu'r awdl ym Machynlleth ac er mai dyma'r tro cyntaf iddo gael gwahoddiad y mae'n barod i ymddiswyddo os bydd hynny'n help i ychwanegu at y brotest. Cafodd bleser anhraethol wrth ailddarlenn Hen Atgofion.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 762.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>763. vtls005426836 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Robert John Rowlands ('Meuryn'), Caernarfon, 1937, Chwef. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae gan Tom Parry 'awydd mawr i ymddiswyddo'. Bwriada 'Meuryn' ysgrifennu at awdurdodau Eisteddfod Machynlleth y diwrnod canlynol i ymddiswyddo o fod yn feirniad fel bod ymddiswyddiadau dau o feirniad yr awdl yn cyrraedd yr un diwrnod. Ni chaiff 'Meuryn' gyfle arall ond fe gaiff [Tom Parry] ddigon. Gobeithio y bydd mwy eto yn dilyn arweiniad W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 763.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>764. vtls005426837 ISYSARCHB22</p>	<p>File - V. G. Sederman, Caerdydd, [19]44, Chwef. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ei gyfraniad gwych i'r ddadl ar y Mesur Addysg. Mae'n cytuno â sylw W. J. Gruffydd mai gwaith athro yw dysgu. Beirniadu'r ffaith fod athrawon yn gorfod arolygu prydau bywd a dosbarthu llaeth. Hydera y bydd W. J. Gruffydd yn parhau i wrthwynebu yr ymyrraeth cynyddol hwn ar amser dysgu athrawon.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 764.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>765-771. vtls005426838 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Grŵp o ohebiaeth yn ymwneud ag achos o enllib gan gwmni Selfridge, Llundain, yn erbyn W. J. Gruffydd yn 1929 ..., 1929.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymddangosodd hanesyn yn Y Ddraig Goch yn honni bod arwydd yn ffenestr siop Selfridge yn Llundain yn dweud 'No Welsh girls need apply'. Ymddengys nad oedd yr hanesyn yn wir, ond yr oedd W. J. Gruffydd wedi dyfynnu'r stori mewn darlith yn Aberteifi a chafodd y sylw ei nodi mewn adroddiad yn y Cardigan & Tivy-side Advertiser. Bu raid i W. J. Gruffydd a'r papur gyhoeddi ymddiheuriad mewn nifer o bapurau a thalu costau o bedair gini.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 765-771.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>765. vtls005426839 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Jaques & Co., Llundain, at W. J. Gruffydd, 1929, Ebrill 15.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 765.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>766. vtls005426840 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ateb W. J. Gruffydd i Jaques & Co, 1929, Ebrill 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 766.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>767. vtls005426841 ISYSARCHB22</p>	<p>File - The Cardigan & Tivy-Side Advertiser at W. J. Gruffydd, 1929, Ebrill 23.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 767.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>768. vtls005426842 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Jaques & Co. at W. J. Gruffydd, 1929, Ebrill 26.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 768.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>769. vtls005426843 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Jaques & Co. at W. J. Gruffydd, 1929, Ebrill 30.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 769.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>770. vtls005426844 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ateb W. J. Gruffydd at Jaques & Co, 1929, Mai 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 770.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>771. vtls005426845 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Derbynneb Jaques & Co. am £6 9s. a dderbyniwyd oddi wrth W. J. Gruffydd ar ran Selfridge & Co. Ltd ..., 1929, Mai 17.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 771.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
772. vtls005426846 ISYSARCHB22	File - T[homas] Shankland, Bangor,	1913, Awst 9.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Ymddiheuro bod enw W. J. Gruffydd wedi ei hepgor o restr gyhoeddedig. Dylai fod yno. Mae'n ysgrifennu at 'Asaph' i gywiro'r gwall ar unwaith. Cerdyn post. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 772. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
773. vtls005426847 ISYSARCHB22	File - E.O. Skaife, Llandrillo,	[1944], Chwef. 10.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae wedi darllen Hen Atgofion fwy nag unwaith. Mae'n amgau darn o'r Daily Post yngl?n â Humphrey Williams yn rhoi gorchmynion i fataliwn gyntaf y Ffiwsilwyr Cymreig yn Araken [Burma yn 1943] pan amgylchynwyd y lle gan y Siapaneaid. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 773. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)		
Cyfes Series 774-813. vtls005426848 ISYSARCHB22: Llythyrau: Smithers-Watkins, <u>Dyddiad Date:</u> 1903-41. (dyddiad creu) (date of creation) <u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210) <u>Nodyn Note [generalNote]:</u> Preferred citation: 774-813.			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
774. vtls005426849 ISYSARCHB22	File - Waldron Smithers, MP, Knockholt, Kent,	1936, Gorff. 11.	
	<i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Mae'n ceisio dod o hyd i dystiolaeth yngl?n â llygredd yn nghyswllt penodi athrawon yn Ne Cymru. Cafodd sylwadau W. J. Gruffydd yn Y Llenor, cyf. XII (1933), tt. 65-9, wedi eu cyfieithu. Nodir dwy enghraifft yno o lygredd. Mae'n gofyn os gall W. J. Gruffydd roi manylion y ddau achos iddo fel y gall yntau ddwyn achosion i'r llysoedd. Aeth i drafferth mawr a chost bersonol er mwyn dod i wraidd llawer o'r achosion o lygredd a ddaeth i'w sylw. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 774.		

	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
774(a). vtls005426850 ISYSARCHB22	File - Cyfieithiad Saesneg o sylwadau golygyddol W. J. Gruffydd yn Y Llenor, cyf. XII (1933), tt. 65-9, <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 774(a). <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	[1936].
775. vtls005426851 ISYSARCHB22	File - T[homas] C[ollins] Snow, Rhydychen, <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Llythyr o gymeradwyaeth gan yr uchod [darlithydd yng Ngholeg Sant Ioan, Rhydychen] i W. J. Gruffydd am ei waith wrth astudio Saesneg. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 775. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1903, Mai 16.
776. vtls005426852 ISYSARCHB22	File - Walter Spurrell, Caerfyrddin, <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Ymateb i sylwadau W. J. Gruffydd yn Y Llenor yngl'n â phenodiad athrawon gan gyrff cyhoeddus. Mae'n anodd iawn rhoi diwedd i'r arfer o ganfasio. Llwyddodd i berswadio'r Pwyllgor [Addysg] i roi heibio'r arfer o ddefnyddio'r dull aml-bleidlais o ddewis athrawon. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 776. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1933, Hyd. 13.
776(a). vtls005426853 ISYSARCHB22	File - Llythyr a anfonwyd gan Walter Spurrell i'r wasg leol yngl'n â phenodiad prifathro Pentrepof[e]th, <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Copi teipysgrif. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 776(a). <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	[1933, Hyd. 13].
777. vtls005426854 ISYSARCHB22	File - G. Arbour Stephens, Abertawe, <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Llythyr yn cymeradwyo dyfyniad yn y Western Mail o sylw golygyddol gan W. J. Gruffydd yn Y Llenor. Hoffai pe bai Cymry yn gallu sylweddoli gwir arwyddocâd ei sylwadau. Nid oes corff mwy	1940, Gorff 8.

	<p>totalitaraidd ar gael na'r Eglwys Gatholig, un sy'n ceisio chwarae a bwydo ar emosiynau ac ofergoelion pobl gyffredin. Fe geisiodd y pulpudau Cymreig ddynwared hyn gyda chanlyniadau trychinebus.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 777.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
778. vtls005426855 ISYSARCHB22	<p>File - Mary G. Stewart, Abertawe, 1928, Mawrth 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch iddo am gyflwyno penderfyniad yn y Pwyllgor Ymgynghorol Academaidd y diwrnod cynt, ac am ei gefnogaeth. Nid yw'n gallu deall paham y gwrthwynebwyd y penderfyniad gan Undeb yr Ysgolion Sirol. Byddent wedi colli'r achos oni bai am gefnogaeth W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 778.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
779. vtls005426856 ISYSARCHB22	<p>File - [Ateb W. J. Gruffydd i lythyr Miss Mary G. Stewart, rhif 778 uchod], 1928, Mawrth 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch iddi am ei llythyr. Methodd â gweld unrhyw anhawster nes iddo ymddangos. Ei esboniad ef oedd eu bod yn ceisio cadw cyswllt rhwng Undeb yr Ysgolion Sirol â'r Bwrdd Canol Cymreig. Mae'n rhagweld brwydr hir ac yn teimlo fel rhoi'r gorau i'r achos am ei fod wedi blino ar fod yn amhoblogaidd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 779.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
780. vtls005426857 ISYSARCHB22	<p>File - A. S. Thomas, Maesmynys, [19]13, Awst 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Holi pa rai o gerddi W. J. Gruffydd, ar wahân i'r rhai yng nghyfrol A. P. Graves, sydd wedi eu cyfieithu i'r Saesneg. Mae newydd brynu Caneuon a Cherddi - ni ellir gwell. Bu'n darllen cyfrol Eifion Wyn, Telynegion Maes a Môr hefyd am y tro cyntaf. Mae'r cerddi hynny'n dda ond bod ansawdd gwaith W. J. Gruffydd gymaint gwyachach. Hoffai wybod enw cyhoeddwr llyfr arall W. J. Gruffydd, sef Telynegion.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 780.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
781. vtls005426858 ISYSARCHB22	<p>File - B[en] B[owen] Thomas, Harlech, [19]36, Mawrth 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ymateb i anogaeth W. J. Gruffydd i gynnig am swydd pennaeth y BBC yng Nghymru. Nid yw'n teimlo y byddai'n hapus nac yn llwyddiannus yn y swydd. Mae ganddo ddiddordeb yn, a hoffter at ei waith</p>

	<p>presennol. Nid fel 'pwyllgorddyn' y cofir am W. J. Gruffydd ond fel ysgolhaig a llenor. Mae fel petai pethau wedi eu tynghedu i fynd o chwith gyda'r BBC yng Nghymru. Gobeithia'n fawr y ceir rhywun teilwng i'r swydd. Effaith y Rhyfel Mawr ar wlad fechan yw'r ffaith fod cyn lleied o fechgyn ar gael ar gyfer swyddi tebyg. Clywodd yntau si fod Morgan Humphreys yn bwriadu cynnig a byddai'n debyg o wneud yn dda.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 781.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
782. vtls005426859 ISYSARCHB22	<p>File - B[en] B[owen] Thomas, Harlech, 1936, Mai 5.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n teimlo rhwymedigaeth i hysbysu W. J. Gruffydd iddo glywed oddi wrth Emrys Evans ar fater y BBC ac iddynt gyfarfod ym Meddgelert ddoe. Ar ôl sgwrsio cytunodd Ben Bowen Thomas i gyfarfod â'r pwyllgor 'without obligation on either side'. Gresyn bod yn rhaid iddo wneud y fath ddewisiad cas.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 782.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
783. vtls005426860 ISYSARCHB22	<p>File - B[en] B[owen] Thomas, Harlech, 1937, Mawrth 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Nid oes ganddo ddim i'w ychwanegu i'r hyn sydd yn y Bulletin a'r rhaglen goffa. Y mae llyfr festri Llanfair ar gael a chofnodion y plwyf. Gwelodd Sir John E[dward Lloyd] y cofnodion ond nid oes dim at bwrpas W. J. Gruffydd yn y llyfr festri. Mae'n dda ganddo ddeall fod W. J. Gruffydd yn paratoi argraffiad newydd [o waith Ellis Wynne] ac os gall helpu drwy edrych ar bethau drosto yn y cylch, bydd yn falch o gael gwneud hynny.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 783.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
784. vtls005426861 ISYSARCHB22	<p>File - Ceinwen H. Thomas, Beaufort, 1938, Tach. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Roedd yn fwriad ganddi ysgrifennu i ddiolch i W. J. Gruffydd am ei ysbrydoliaeth iddi tra fu yn y Coleg ers amser ac yn awr, wedi darllen rhifyn diweddaraf Y Llenor y mae wedi ennill digon o hyder i wneud hynny. Cafodd les mawr o ddilyn y cwrs Cymraeg, sef dadwneud y drwg a wnaethpwyd yn yr ysgol a'i haddysg Seisnigaidd. Ailgydiodd yn ei balchder o fod yn Gymraes yn ystod ei chyfnod yn y Coleg. Ni all ddiolch digon i W. J. Gruffydd am ei rhyddhau o'r ymdeimlad o israddolder a enynnwyd ynddi yn yr ysgol. Trist ganddi ddeall o'r Llenor fod W. J. Gruffydd yn diffygio wrth y gwaith o fod yn 'llef un yn llefain yn y diffeithwch'. Daeth ei theulu i wybod am W. J. Gruffydd pan fynychai gapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Dywedodd rhywun o'r pentref hwnnw fod W. J. Gruffydd yn 'un o'r rheiny sydd bob amser o ochor y clwtyn tlawd'. Mae ei rhieni yn drist iawn o ddarllen ei ysgrif ddigalon. Dylai fod yn gysur iddo wybod bod rhai hyd yn oed o'r 'dyrfa fud' yn gweld ei ymdrech drostynt, ac yn ddiolchgar.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p>

	<p>Preferred citation: 784.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
785. vtls005426862 ISYSARCHB22	<p>File - Ceinwen H. Thomas, Beaufort, 1938, Rhag. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr W. J. Gruffydd yr oedd yn falch o'i dderbyn. Mae'n dysgu yn Ysgol Sir Glyn Ebwy. Cafodd ei phenodi'n athrawes Ladin gydag ychydig Gymraeg a Hanes i'r dosbarthiadau isaf. Cyfaddefodd yn y cyfweiliad nad oedd yn cofio fawr iawn o'r tipyn Lladin a ddysgodd yn y Coleg, er hynny fe'i penodwyd. Treuliodd weddill yr haf hwnnw yn dysgu Lladin. Un ferch a astudiai'r pwnc a honno yn dra galluog. Gorchest oedd ceisio cuddio'r anwybodaeth rhagddi. Ar ben hynny cafodd yr ysgol 'full inspection' ond Mr Eric Evans a ddaeth i arolygu Lladin a gwyddai ef amdani o'r Coleg. Erbyn hyn daeth athro Lladin iawn i'r ysgol ac y mae hi yn dysgu mwy o Saesneg yn y safonau isaf. Nid yw'n hoffi bod yno gan fod yr ardal mor arswydus o Seisnigaidd. Hoffai petai wedi cael swydd mewn ardal Gymraeg gan mai mewn ardal lle mae'r Gymraeg ar drai y cafodd ei magu. Hoffai ddysgu Cymraeg i blant sy'n rhugl ynddi. Pan fydd yn cwyno bydd ei mam yn dweud mai'r 'Pren a dyfodd yn y storm sydd gryfaf i ddal rhuthr y gwyntoedd arno, a'i fod yn gallu sefyll mewn tywydd a barai i'r pren a dyfodd yn y diogelwch syrthio i'r llawr'. Gwnaeth ardal Glyn Ebwy iddi deimlo'n debycach i frwynen fach lipa nag i goeden. Mae'r prifathro, er hynny, yn gefnogol iawn i'r Gymraeg. Bydd yn falch ganddi dderbyn gwahoddiad W. J. Gruffydd i ymweld ag ef yn y Coleg pan fydd yng Nghaerdydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 785.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
786. vtls005426863 ISYSARCHB22	<p>File - D. Lleufer Thomas, Pontypridd, [19]29, Mai 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Cydymdeimlo ag W. J. Gruffydd ar golli ei dad, am y trafferthion yngl?n â Selfridge ac am fethu â chael ei benodi'n brifathro yng Nghaerdydd. Hydera na fydd i hyn wanhau ei fraich yn y gwaith mawr y mae'n ei gyflawni dros Gymru.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 786.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
787. vtls005426864 ISYSARCHB22	<p>File - Dan Tomos, Caerdydd, 1941, Medi 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch iddo am ei lith ar Peate. Y mae'r genedl yn ddyledus iddo.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 787.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>788. vtls005426865 ISYSARCHB22</p>	<p>File - E. W. Thomas, Manceinion, 1939, Ion. 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Clywodd Cymdeithas y Ford Gron ym Manceinion si bod W. J. Gruffydd yn bwriadu rhoi'r gorau i'r Llenor. Hyderant nad oes sail i'r si ac erfyniant yn daer arno i barhau fel golygydd. Y Llenor yw prif gylchgrawn cenedlaethol Cymru oherwydd ei ddylanwad ef. Byddai colli W. J. Gruffydd fel golygydd yn peryglu ei fodolaeth.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 788.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>789. vtls005426866 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Ellen E. Thomas, Castell-nedd, 1937, Meh. 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd llythyr oddi wrth Saunders [Lewis] yn canmol cofiant O. M. Edwards yn fawr. Mae'n ei ddisgrifio fel un o'r llyfrau Cymraeg pwysicaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai wedi hoffi petai'r gyfrol gyntaf yn hwy ac yn mynd â'r hanes ymlaen ymhellach. Dylid bod wedi cynnwys mynediad O. M. Edwards i Brifysgol Glasgow ac at ei hanes fel myfyriwr yn Rhydychen, yn enwedig o gofio mai R. T. Jenkins sy'n bwriadu ysgrifennu'r ail gyfrol. Mae'n llyfr hyfryd i'w ddarllen er bod W. J. Gruffydd yn cyfeirio ddwywaith at Saunders Lewis fel petai ganddo ddim da i'w ddweud am O. M. Edwards. Gofynnodd Saunders Lewis mewn llythyr o'r carchar i Ellen E. Thomas ysgrifennu at W. J. Gruffydd i ailadrodd yr uchod wrtho. Mae W. R. Owen, Penmaenmawr yn anfon copi o'r cofiant ati hi ac mae'n edrych ymlaen at gael yr un blas arno ag a gafodd Saunders Lewis.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 789.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>790. vtls005426867 ISYSARCHB22</p>	<p>File - H. Evans Thomas, Aberystwyth, [?c. 1938].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae newydd ddarllen Hen Atgofion a chofiant O. M. Edwards. Un o fechgyn Nant Ucha, Llanberis, ydyw ac wedi bod yn gweithio yn Chwarel Dinorwig gyda thad W. J. Gruffydd. Diolch am ddarlun godidog o'r cyfnod. Sôn am ei gysylltiadau ag O. M. Edwards hefyd. Cafodd y cyfeiriad at 'Elidirfab' ar dudalen 154 yn hynod ddiddorol. Cafodd ef a'i wraig y pleser o letya W. J. Gruffydd yng Nghemais, Maldwyn tua 1922 neu 1923. Cyfarfu Dafydd, mab W. J. Gruffydd, yn nhy brawd ei wraig, Tom Pickering, yn Abertawe.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 790.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>791. vtls005426868 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. D. Islwyn Thomas (ynghyd â Geraint Bowen, Gwyneth Evans, Brynmor R. Jones a D. Llewelyn Walters ar ran cangen, [? 1936-7].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>

	<p>J. D. Islwyn Thomas (ynghyd â Geraint Bowen, Gwyneth Evans, Brynmor R. Jones a D. Llewelyn Walters ar ran cangen Coleg Caerdydd o Blaid Cymru). Datgan edmygedd o arweiniad W. J. Gruffydd 'y dyddiau hyn' [?'dilyn llosgi'r Ysgol Fomio]. Nodi eu parodwydd i'w ddilyn hyd yr eithaf.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 791.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
792. vtls005426869 ISYSARCHB22	<p>File - John Thomas, Abertawe, 1933, Awst [].</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu, fel cystadleuydd am y Goron yn Eisteddfod Wrecsam, i achwyn am sylwadau W. J. Gruffydd ar y gystadleuaeth. Mewn adroddiad Saesneg fe ddywedir bod W. J. Gruffydd wedi dweud 'the prize poem was not a masterpiece, but that it was far in advance of the others entered. The others might be described as having a stale and faded prettiness, while some poets had their eyes on the Crown and their backs to Poetry'. Cymer fod ei gerdd ef yn mynd i blith y rhai sy'n cynnwys 'stale and faded prettiness'. Mae'n protestio yn erbyn hynny. Ysgrifennodd ei gerdd mewn pythefnos a'i theipio deirgwaith ei hunan. Bu'n gweinidogaethu y tu allan i Gymru ac felly nid oes ganddo ormod o Gymraeg i addurno cerddi. Mae niwl cryf yn yr Eisteddfod ac y mae angen gwynt i'w chwythu ymaith. Mae'n gosod sialens i W. J. Gruffydd, 'Gwili' a Chynan i ysgrifennu cerdd cystal â'i gerdd ef ar y pwnc 'Yr Hyfryd Lais'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 792.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
793. vtls005426870 ISYSARCHB22	<p>File - John Thomas, Abertawe, 1933, Awst [].</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n cael ei orfodi i ymateb i lythyr W. J. Gruffydd am fod hwnnw wedi osgoi ateb ei lythyr cyntaf. Nid oes awgrym o farddoniaeth yn llythyr W. J. Gruffydd. Ni fedrai bardd go-iawn ysgrifennu cyfrif llaeth heb fod dafn barddonol ynddo. Cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth flynyddoedd ynghynt a chafodd glod gan Syr Edward Russell, Lerpwl. Mae'n protestio yn erbyn beirniadaethau negyddol a sinigaidd yn yr Eisteddfod. Mae'n ail-leisio ei sialens iddynt ysgrifennu cerdd well ar yr un pwnc. Mae'n fodlon gweld eu gohebiaeth yn cael ei chyhoeddi, dim ond i hynny ddigwydd in extenso.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 793.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
794. vtls005426871 ISYSARCHB22	<p>File - Margretta Thomas, Nantgarw, 1938, Rhag. 4.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae W. J. Gruffydd yn wrthrych edmygedd a gweddïau am ei fod yn fab y storm. Cred y daw Cymru'n rhydd oherwydd rhai fel W. J. Gruffydd a'r tri fu yn y carchar. Rhaid bod 'mantell Elias' wedi disgyn arno. Yr oedd ei gwr yn falch iawn pan aeth eu merch, Ceinwen, i'r Coleg at W. J. Gruffydd. Diolch iddo am ei chynorthwyo yn y Coleg. [Dr. Ceinwen Thomas].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p>

	Preferred citation: 794. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
795. vtls005426872 ISYSARCHB22	File - R. J. Thomas, Aberystwyth, [19]37, Rhag. 6. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Ateb ymholiad yngl?n â'r elfen 'Powys' mewn enwau lleoedd ar wahân i'r dalaith a Dinas Powys ger Caerdydd. Mae'n sôn am Gwern-bwys rhwng Maenan a Phandy Tudur, sef cywasgiad Gweun neu Gwern Bowys. Ceir Powysfa arall (heblaw Powysfa Ddewi) in ôl pob tebyg yn yr enw lle Y Bwysfa tua hanner milltir i'r de o Dreicastell ym mhlwyf Llywel. Am Gorffwysfa (neu Pen-y-Pas), diamau mai Gorffwysfa Beris oedd yr enw llawn yn wreiddiol. Sonia Edward Lhuyd am Gorphwysfa Peris (gw. Arch. Camb., I, iii, 245-6). <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 795. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
796. vtls005426873 ISYSARCHB22	File - [Thomas Jacob Thomas] 'Sarnicol', 1928, Mawrth 20. Aber-fan, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Gofyn i W. J. Gruffydd a fyddai rhywbeth tebyg i'r ysgrif amgaeidig ['Dan yr Allt'] yn dderbyniol i'r Llenor. A yw yn rhy lleol ei hapêl? Diolch am halen beirmiadaeth W. J. Gruffydd sy'n rhoi tipyn o flas ar lôn Cymru. Ai yng ngwaith ein beirdd ieuainc y mae holl rinwedd yr awen Gymreig heddiw? Beth am Elfed, Job, Crwys, 'Wil Ifan' ac eraill? Bu'n ceisio cymharu 'Eifion Wyn' â'r 'Shropshire Lad'. A yw'r bardd o Borthmadog ymhell iawn ar ôl Housman? Onid oes ambell i ddarn gwan a rhai nodau garw a dichwaeth gan Housman? Onid eco o oes farbaraidd y Rhufeiniaid sydd yn rhai o'i linellau?. 'Dan yr Allt'. Printiedig. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 796. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
797. vtls005426874 ISYSARCHB22	File - [W. J. Gruffydd at Thomas Jacob 1928, Mawrth 22. Thomas, 'Sarnicol', Aber-fan], <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch am ei lythyr, [rhif 796 uchod]. Y mae'n cytuno'n llwyr ag ef. Bu'n ceisio amddiffyn gwaith 'Wil Ifan', Crwys ac eraill yn erbyn Saunders Lewis. Byddai'n ddiolchgar iawn am rywbeth tebyg i'r hyn a anfonodd. Nid yw yn rhy lleol gan fod diddordeb cenedlaethol yng Nghymru yn dibynnu ar bethau lleol. Bu'n disgwyl cyfraniad gan 'Sarnicol' ers hir amser. Copi teipysgrif. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 797. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
798. vtls005426875 ISYSARCHB22	File - T[homas] J[acob] Thomas, 'Sarnicol', 1933, Tach. 30. Aberystwyth,

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon ychydig 'Fân Ffolinebau' i'w printio neu eu llosgi. Gofyn iddo nodi y gorau ar gerdyn a'i ddychwelyd ato os mai dim ond rhai a ddefnyddir ganddo. Mae'n bwriadu edrych eto i mewn i'r gair 'Gurnos'. Mae'n nodi'r dywediadau 'topstan o wllân', 'mwys o sgadan', a 'stang o dir'. Ystyriai alw'r penillion yn 'Papur a Smeica', ond o'r braidd bod y cynnwys yn ddigon poeth.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 798.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
799. vtls005426876 ISYSARCHB22	<p>File - [Thomas Jacob Thomas], 'Sarnicol', [19]40, Ebrill 13. Aberystwyth,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Canmol 'Breuddwyd y Bardd' gan W. J. Gruffydd yn Y Llenor, [cyf. XIX (1940), t. 9]. Pethau felly sy'n mynd i gadw'r Gymraeg yn fyw. Y mae gan W. J. Gruffydd y beiddgarwch a'r gallu i greu. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 799.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
800. vtls005426877 ISYSARCHB22	<p>File - W. Jenkyn Thomas, Llundain, WC1, 1938, Ebrill 11.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ceisio perswadio W. J. Gruffydd i'w gefnogi yn ei ymgais i wrthwynebu ffafiaeth a llwgrwobrwyo wrth wneud apwyntiadau addysgol. Mewn cyswllt arall hoffai nodi ei falchder o ddarllyn sylwadau diweddar W. J. Gruffydd am ei hen gyfaill Trevor Owen a'r gwaith da a wnaeth fel y prifathro cyntaf i gael ei apwyntio i'r system Addysg Ganolraddol Gymreig.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 800.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
801. vtls005426878 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd at The Times], 1931, Meh. 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Achwyn am safon adolygiadau yn y Times ar lyfrau ysgolheigaidd Celtaidd. Mae'n amlwg mai newyddiadurwr a hwnnw'n ddi-Gymraeg o bosibl, sydd wrthi yn adolygu. Mae digon o adolygwyr addas ar gael ym Mhrifysgol Cymru ac oddi allan iddi. Mae'n nodi'r adolygiad gwan a gafodd llyfr E. J. Jones, History of Education in Wales. Mae'n amlwg i bawb nad oedd yr adolygydd yn gymwys i ddelio â'r llyfr. Nid oes gan W. J. Gruffydd unrhyw achwyniad personol, mae'n ysgrifennu fel Athro Cymraeg hynaf y Brifysgol a'i fod yn ymwybodol o'r anffodlonrwydd sydd yn bodoli ymhlith ysgolheigion am adolygiadau'r T.L.S. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 801.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>802. vtls005426879 ISYSARCHB22</p>	<p>File - ?S. C. Tippetts, (Byrsar Ysgol Amwythig), Amwythig, 1937, Ebrill 15.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Cydnabod llythyr W. J. Gruffydd at J. B. Oldham, y llyfrgellydd. Y mae ar ei wyliau. Caiff W. J. Gruffydd ateb ganddo pan ddaw yn ôl.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 802.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>803. vtls005426880 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J[oseph] Vendryes, Paris, 1936, Rhag. 29.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Dymuno'n dda iddo am y Flwyddyn Newydd. Mae'n llawen wrth feddwl y caiff weld W. J. Gruffydd yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf. Cafodd ei gyffwrdd gan ewyllys da W. J. Gruffydd tuag ato hyd yma. Cerdyn post. Ffrangeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 803.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>804. vtls005426881 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Helen Waddell, Llundain, N.W.3, [?1930au], Hyd. 27.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Ymddiheuro am fod yn hir yn ateb ei lythyr. Nodi'r trafferthion sydd wedi ei goddiweddyd. Cyfeiriad at atodiad llyfr Edmond Faral Les Jongleurs en France au moyen âge - llyfr y mae hi wedi ei goli. Nid yw hi'n gwybod llawer am 'folk verse'. Cyfeiriad at gyfieithiadau Kuno Meyer a Robin Flower. Mae ei chwaer yn werthfawr iddi er gwaethaf ei salwch. Hi oedd gwreiddiol y cymeriad Denise yn Peter Abelard. Bu yng Ngwyl Gerddorol Gregynog.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 804.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>805. vtls005426882 ISYSARCHB22</p>	<p>File - H[elen] W[addell], [Llundain], N.W.3, [?1930au], Gwener.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> W. J. Gruffydd yn gwneud iddi chwerthin, yn enwedig y cyfeiriad at y Sycamorwydden. Hoffai gyfarfod W. J. Gruffydd wedi'r Nadolig. Mae'n bwriadu mynd â'i chwaer draw i Iwerddon pan fydd yn gallu teithio. Bydd yn ddedwydd am ddyddiau wedi derbyn gwaith Julius Caesar a John Bull's Other Island.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 805.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>806. vtls005426883 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Havard Walters, Merthyr Tudful, [19]38, Hyd. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofyn am ysgrif ar hen gofnodion Cymdeithas Cymreigyddion Merthyr yn ôl. Anghofiodd roi ei enw wrthi hi. Cyfeirio at nodiadau golygyddol mis Hydref. Mae llu o bobl ieuainc yn cefnogi W. J. Gruffydd. Mae'n debyg i W. J. Gruffydd gael ei frifo gan ymosodiad y Western Mail arno, ond dylai gofio am y derbyniad a gafodd yn yr Eisteddfod pan ddaeth i'r llwyfan yn lle Lloyd George. Ei annog i ysgrifennu ei nodiadau'n amlach.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 806.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>807. vtls005426884 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Havard Walters, Merthyr Tudful, 1941, Mai 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofyn am ganiatâd i ailgyhoeddi erthygl o'i eiddo yn y Merthyr Express, un a ymddangosodd gyntaf yn Y Llenor yn 1939. Bu'n bwriadu dweud wrtho, wedi ymosodiad Y Faner, nad yw ar ei ben ei hunan ymhlith carwyr Cymru yn ei wrthwynebiad at y Blaid Genedlaethol ar fater y rhyfel. Mae llawer o'i gynddisyblion yn cytuno ag W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 807.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>808. vtls005426885 ISYSARCHB22</p>	<p>File - James Walters, Merthyr Tudful, 1938, Awst 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch iddo am siarad y gwir golau y prynhawn hwnnw. Cafodd gymeradwyaeth fawr gan ei gynulleidfa anweledig. Enghraifft o Gymro yn annerch Cymmrodorion cenedlaethol Cymraeg mewn iaith estron.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 808.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>809. vtls005426886 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Morgan Watkin, Johannesburg, 1920, Gorff. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Clywodd ei fod wedi cael y Gadair Ffrangeg [yng Nghaerdydd] ac y mae'n diolch i W. J. Gruffydd am y diddordeb a gymerodd ef yn ei achos. O'r saith a fu'n dewis, W. J. Gruffydd oedd yr unig un a iawn ddeallai gwerth ymchwiliadau Morgan Watkin. Mae'n diolch i W. J. Gruffydd hefyd am gywiro proflenni erthygl o'i eiddo. Trafodir beth sy'n debygol o ddigwydd yn Abertawe - sibrdw fod Ernest Hughes wedi cael cynnig y Gadair Hanes. Pwy gaiff y Gadair Ffrangeg a phwy y Gadair Gymraeg? Clywodd si mai Ifor Williams fydd olwynydd Anwyl, os felly nid yw'n debyg y caiff Tim[othy] Lewis yn Abertawe yr hyn y methodd ei chipio yn Aberystwyth. Nid yw'n debyg, am resymau cyffelyb, y caiff Parry-Williams Gadair Abertawe. Nid oes neb â chystal mantais na 'Gwili' a Henry Lewis. Nid oes digon o brofiad gan</p>

	<p>Griffith [John] Williams. Cred y dylai 'Gwili' guro Henry Lewis. Daw Henry Lewis a Morgan Watkin o'r un pentref ac y mae 'Gwili' yn perthyn iddo drwy briodas. Hwn fydd cyfle olaf 'Gwili' i gael ei benodi.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 809.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
810. vtls005426887 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd at Percy E. Watkins, 1928, Rhag. 10. Bwrdd Addysg, Llundain],</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ceisio llunio darlun brysiog o hanes addysg gynradd ar gyfer cofiant O. M. Edwards. Holi os gwyr ef am unrhywun yn y Bwrdd a all roi gwybodaeth iddo am hanes ysgol Llanuwchllyn. Ysgol yr Eglwys oedd hi yng nghyfnod O. M. Edwards. Hwyrach y bydd angen ei boeni eto yn nes ymlaen yngl'n ag addysg uwchradd. Dywed Mary Davies wrtho mai Percy E. Watkins sydd â'r wybodaeth yngl'n ag apwyntiad Owen Owen. Mae'n dymuno cael sgwrs ag ef. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 810.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
811. vtls005426888 ISYSARCHB22	<p>File - Percy E. Watkins, Llundain, S.W.1, 1928, Rhag. 12.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Derbyniodd lythyr W. J. Gruffydd yngl'n ag ysgol Llanuwchllyn [rhif 810 uchod] a bydd yn ysgrifennu eto mewn ychydig ddyddiau gyda chanlyniad ei ymholiadau. Mae'n cofio am apwyntiad Owen Owen fel Prif Arolygydd y Bwrdd Canol Cymreig yn dda. Mae ganddo hefyd beth deunydd dogfennol sy'n taflu golau ar y digwyddiad.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 811.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
812. vtls005426889 ISYSARCHB22	<p>File - Percy E. Watkins, Llundain, N.W.3, [19]31, Ebrill 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu i ddweud cymaint o bleser a gafodd o ddarllen 'Hen Atgofion' yn Y Llenor. Er nad yw ei wybodaeth o'r Gymraeg yn eang iawn mae'n gallu dirnad mawredd yr arddull a'r cynnwys. Mae W. J. Gruffydd wedi anfarwoli ei daid. Gofyn iddo ysgrifennu cymaint ag y gall yn y dull hwn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 812.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
813. vtls005426890 ISYSARCHB22	<p>File - Stanley Watkins, Exeter, [19]29, Mai 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p>

	<p>Cydymdeimlo ag W. J. Gruffydd am na chafodd swydd [Prifathro] Caerdydd, bron na ellid ei longyfarch hefyd ar beidio â'i chael. Nid yw yn swydd i'w chwennych ac eto nid W. J. Gruffydd yw'r cyntaf i beidio â chael ei gydnabod yn ei ardal ei hunan.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 813.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
<p>Cyfres Series 814-60. vtls005426891 ISYSARCHB22: Llythyrau: Wedgwood-Williams, Ffowc,</p> <p><u>Dyddiad Date:</u> 1926-50. (dyddiad creu) (date of creation)</p> <p><u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)</p> <p><u>Nodyn Note [generalNote]:</u></p> <p>Preferred citation: 814-60.</p>			
<p>FFeil / rhestr eitemau File / item list</p>			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
814. vtls005426892 ISYSARCHB22	<p>File - [Lord Josiah Clement] Wedgwood, T?'r Arglwyddi, Llundain,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Llongyfarch W. J. Gruffydd ar ennill sedd y Brifysgol. Diolch iddo am y calondid hwn gan hyderu y caiff ddeugain mlynedd o wasanaeth. Gwahoddiad i bryd canol-dydd unrhyw ddydd Mawrth, Mercher neu Iau. Anfon copi o'i lyfr Testament to Democracy i'w adolygu mewn cyfnodolyn Cymraeg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 814.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	[19]43, Mawrth 19.	
815. vtls005426893 ISYSARCHB22	<p>File - Ernest Weekley, Cricieth,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr diddorol W. J. Gruffydd. Mae yng Nghymru ar ôl treulio'r gaeaf yn Ucheldiroedd yr Alban gan fod ei gartref yn Richmond wedi profi'n darged i'r awyrennau Naziiaidd ar ddau achlysur. Mae ei lyfrgell yn ddiogel ond y mae dan anfantais fawr o orfod bod hebddi. Mae dan anfantais wrth geisio ailysgrifennu ei lyfr Jack and Jill ar gyfer ailargraffiad. Mae'r llyfr yn gwerthu'n wael am ei fod yn rhy ddysgedig a'r cyhoedd yn dymuno sothach di-ddysg. Teimlodd fod yna ddiffyg yn yr elfen Gymreig yn Jack and Jill. Nid yw'n ysgolhaig Celtaidd a phan holodd Adran y Gymraeg Bangor, ni chafodd ateb. Mae wedi ymgorffori sylwadau W. J. Gruffydd. Daeth i fyw yng Nghricieth i fod yn agos at hen gyfaill a ymddeolodd yno. Mae'r lle yn ddymunol dros ben ac y mae'n edifar na fedr ddeall y Gymraeg a siaredir o'i gwmpas ym mhobman.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 815.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>	[19]41, Medi 17.	

	ARCH/MSS (GB0210)	
816. vtls005426894 ISYSARCHB22	File - Ernest Weekley, Cricieth,	[19]41, Tach. 13.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae wedi gorffen diwygio ei lyfr Jack and Jill [Llundain: John Murray, argraffiad cyntaf 1939, ail argraffiad 1948]. Mae'n anfon rhestr o fân gwestiynau. Mae'n gofyn am ystyron enwau ac y mae'n addo cydnabod ei gymorth yn y llyfr. Gofyn am y ffurf Yves, tybed a oes perthynas â'r ffurf Yvain? Hydera y caiff y llyfr weld golau ddydd eto wedi'r rhyfel. Os na fydd ef byw gall ei esgutorion ei gyhoeddi.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 816.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
817. vtls005426895 ISYSARCHB22	File - Western Mail (William Davies), Caerdydd,	1929, Hyd. 11.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch am ei lythyr. Mae'n ddrwg ganddo fod gan W. J. Gruffydd achos i gwyno am y driniaeth a gafodd gan y papur. Yr oedd wedi darllen cyfraniad y 'Junior Member' ond heb sylwi ar y frawddeg dramgwyddus. Y mae arno gywilydd am fod mor esgeulus. Ni ddigwydd hynny eto. Yr oedd yn 66 oed y Llun cynt ac y mae yn dechrau teimlo ei oed. Nid yw am golli mwy o gyfeillion er hynny.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 817.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
818. vtls005426896 ISYSARCHB22	File - Western Mail (J. A. Sandbrook), Caerdydd,	1935, Ebrill 17.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch i W. J. Gruffydd am ei erthygl ar Lenyddiaeth Cymru yn ystod teyrnasiad Siôr V. Ni chafodd gyfle i'w darllen eto ond mae'n sicr o fod yn wych a digonol. O.N. Newydd ddarllen yr erthygl. Y mae'n feistraidd. Hoffai petai W. J. Gruffydd yn ysgrifennu'n amlach i'r papur.	
	<i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 818.	
	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
819. vtls005426897 ISYSARCHB22	File - Western Mail (J. A. Sandbrook), Caerdydd,	1935, Mai 22.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Esbonio bwriad y papur wrth geisio codi arian i hyrwyddo ymweliad y Gyngres Geltaidd â Chaerdydd. Enw da Cymru oedd yn y fantol. Byddai'n sarhad ar Gymru a Chaerdydd yn enwedig, pe byddid yn methu codi ychydig gannoedd er mwyn croesawu'r Gyngres yn unol â dymuniad y Cymmrodorion. Llwyddwyd i roi cystal croeso i Dywysog Cymru beth amser yng nghynt, ni ellid peidio â cheisio cynorthwyo'r Gyngres hefyd. Mae'r papur yn addo rhoi adroddiadau teilwng. Cafwyd papurau diddorol iawn yng nghynhadledd Bangor, 1927. Maent yn falch o glywed bod W. J. Gruffydd am eu cynorthwyo.	

	<p>Tybed a all W. J. Gruffydd ynghyd ag ysgolheigion amlwg eraill fel J. E. Lloyd, Ifor Williams, Henry Lewis, Lloyd Jones, Fleure, etc., gynorthwyo i wneud y cyfan yn llwyddiant?.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 819.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
820. vtls005426898 ISYSARCHB22	<p>File - Western Mail (D. R. Prosser), 1940, Awst 8. Caerdydd,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Trafodwyd y posibilrwydd i W. J. Gruffydd ysgrifennu dwy erthygl i'r Western Mail ar Gymru a'r ymdrech ryfel. Bu'n holi ynglŷn â'r cyngor ymgynghorol i Gymru. Nid yw'r canlyniadau yn addawol iawn. Cred yr aelodau seneddol mai eu gwaith hwy ydyw. Nid yw'r Llywodraeth yn debyg o drafod hyn oni bai fod yr aelodau seneddol yn cyflwyno'r mater. Gallai W. J. Gruffydd drefnu i gyfarfod â'r aelodau Cymreig yn dilyn ei erthyglau yn y papur.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 820.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
821. vtls005426899 ISYSARCHB22	<p>File - Western Mail (D. G. Prosser), 1940, Hyd. 3. Caerdydd,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ymddiheuro bod W. J. Gruffydd wedi cael ei gamddechongli yn y Western Mail unwaith eto. Mae'n awgrymu y gallai W. J. Gruffydd gynnig crynodebau o unrhyw ddeunydd o'r Llenor a allai fod o ddiddordeb i ddarllenwyr y Western Mail yn y dyfodol. Mae'n croesawu cyfraniadau gan W. J. Gruffydd am ei fod yn gefnogol i'r rhyfel. Rhaid i bobl Cymru weld yn glir fod yn rhaid iddi gefnogi'r rhyfel er ei lles ei hunan. Awgrymu y dylai W. J. Gruffydd gyfieithu ei erthygl i'r Saesneg a'i chyhoeddi yn The Round Table. Awgrymu dwy neu dair erthygl o ryw fil o eiriau.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 821.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
822. vtls005426900 ISYSARCHB22	<p>File - Westminster Bank LTD., (Rheolwr), 1938, Ion. 5. Abertawe,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Agorwyd cyfrif yn 1927 yn enw'r 'Welsh Drama League'. Mae yna gredyd o £24-7-3 yn y cyfrif erbyn hyn. Deallir nad yw'r corff yn dal i weithredu. W. J. Gruffydd oedd y Cadeirydd. Nid yw cyfeiriad yr Ysgrifennydd ganddynt ac y mae'r Trysorydd wedi marw. Hoffent wybod beth i wneud â'r cyfrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 822.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
823. vtls005426901 ISYSARCHB22	<p>File - W[ynn] P. W[heldon], Llundain, 1936, Mai 7. S.W.1,</p>	

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd lythyr yn enwi aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor Canol ar Ddarlleu i Ysgolion. Mae'n falch o weld bod W. J. Gruffydd yn dal ar y pwyllgor; ond ef yw'r unig Gymro ar bwyllgor o bedwar ar bymtheg. Mae hyn yn annigonol ac y mae wedi achwyn. Dylid cael dau aelod o Gymry o leiaf.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 823.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
824. vtls005426902 ISYSARCHB22	<p>File - Wynn P. Wheldon, Llundain, S.W.1, 1936, Hyd. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Derbyniodd lythyr W. J. Gruffydd ac un tebyg oddi wrth [Ben Bowen Thomas], Warden Coleg Harlech. Mae'n anfon copi o'i ateb at Ben Bowen Thomas. Mae'n ddrwg ganddo glywed bod amgylchiadau ariannol [D. J.] Williams yn fain, ond ofer yw disgwyl cydymdeimlad swyddogol. Mae gofyn amdano yn gwneud y drwg yn waeth.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 824.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
824a. vtls005426903 ISYSARCHB22	<p>File - W[ynn] P. Wheldon at [Ben Bowen Thomas], [Llundain], 1936, Hyd. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Nid oedd yn deall fod disgwyl i'r Bwrdd [Addysg] i draethu barn ar sefyllfa D. J. Williams. O chwilio gwelir bod ateb wedi ei anfon ar Hyd. 8 yn dweud na all y Bwrdd dalu dim nes bod canlyniad yr achos yn hysbys. Nid oedd ganddynt wrthwynebiad i gyflogi rhywun yn lle Mr Williams. Nid yw'n deall i ba ddiben y defnyddir y Gronfa Amddiffyn onid i helpu mewn achos fel hwn. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 824a.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
825. vtls005426904 ISYSARCHB22	<p>File - [Wynn P. Wheldon], Llundain S.W.1, 1945, Ion. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ceisio ymryddhau o fod yn Llywydd Cronfa Goffa Morgan Llwyd. Hydera y bydd Syr T. Carey Evans wedi derbyn y gwaith hwnnw cyn bo hir. Cafodd ohebiaeth fywiog gyda J. W. Jones ac y mae'n cynnwys copi o lythyr a ysgrifennodd at Carey Evans. Mae ei fwriadau yn dda ond nid yw yn deall yr hyn sy'n ymhlwg yn y math hwn o beth. Mae ef a J. W. Jones yn teimlo'n flin at Bob Owen am awgrymu rhoi'r ffenestr yn y 'capel Sentars yn y Llan'. Mac ef, Wynn P. Wheldon, yn tueddu cytuno â Bob Owen. Maent i gyd yn rhy ddiarydd yn gl?n â beirniadaeth ac yn methu sylweddoli mai ychydig iawn o arian a gesglir i achos fel hwn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 825.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p>

	ARCH/MSS (GB0210)	
825(a). vtls005426905 ISYSARCHB22	File - Wynn P. Wheldon at Syr T. Carey Evans, Llundain,	1945, Ion. 10.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch iddo am anfon cynllun y ffenestr liw. Mae ganddo ragfarn yn erbyn ffenestri lliw. Mae'r cynllun yn artistig ac yn gymesur. Ni ellir gwrthod sylwadau W. J. Gruffydd yn ysgafn. Mae'r cynllun presennol yn awgrymu bod Morgan Llwyd ar y cyfan yn swyddog milwrol. Nid dyna oedd yn nodweddu'r Annibynwyr cynnar. Mae'n falch mai yn Gymraeg y bwriedir yr arysgrif ac ni ellir gwrthwynebu cyfieithiad Saesneg. Byddai'n well ganddo weld enw T. Carey Evans ar y taflenni fel Llywydd na'i enw ef os nad ydynt eisoes wedi eu hargraffu. Yr arysgrif yw: 'Pregethwr: Proffwyd: Llenor: Gwladgarwr'. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 825(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
826. vtls005426906 ISYSARCHB22	File - G. W. Whittington, Gwauncaegurwen,	[19]35, Tach. 22.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu at W. J. Gruffydd i ddiolch iddo am bopeth a wna dros Gymru. Ceisiodd yntau fod yn ffyddlon i Gymru drwy ei oes, ond gwr yr un dalent ydoedd. Mae'n anfon cyfraniad bach at W. J. Gruffydd i'w roi at unrhyw achos teilwng ar wahân i'r Blaid Genedlaethol. Mae eisoes wedi cyfrannu at y Blaid gyda'r un post. Awgrymu y gellid cynorthwyo un o'r myfyrwyr i brynu llyfrau, neu roi gwobr i'r myfyriwr Cymraeg gorau ar ddiwedd y tymor. Nid yw am wybod sut y gwerir yr arian ac nid oes angen cydnabod ei lythyr ychwaith gan fod W. J. Gruffydd mor brysur.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 826.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
827. vtls005426907 ISYSARCHB22	File - G. W. Whittington, Porthcawl,	[19]36, Hyd. 31.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n gweld o'r Western Mail fod W. J. Gruffydd yn amddiffyn Ceiriog. Nid yw'n deall pam y ceisir dilorni'r bardd. Pan oedd tua phymtheg oed clywodd rywun yn canu cerdd o waith Ceiriog mewn tafarn yn Nhonypandy, sef 'Breuddwyd y Bardd'. O'r dydd hwnnw ymlaen dechreuodd ymddiddori mewn barddoniaeth a chred y gall adrodd mwy o farddoniaeth oddi ar ei gof na neb arall yng Nghymru. Gadawodd Gwm-gors oherwydd salwch nerfol. Bu yn Ysbyty Nerfol Muswell Hill yn Llundain a deuai llinell o waith W. J. Gruffydd yn aml i'w gof yno: 'Estynnodd law a rhoddodd iddi hun'. Diolch i W. J. Gruffydd am ei apêl ar ran Cronfa'r Tri Gwron. Bu'n darllen gwaith Caspar Nuñez yn ddiweddar a gwelodd debygrwydd rhwng ei Miserere a'r stori fer 'Dygwyl y Meirw'. Diolch eto i W. J. Gruffydd am ei waith dros Gymru.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 827.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	

<p>828. vtls005426908 ISYSARCHB22</p>	<p>File - G. W. Whittington, Porthcawl, 1937, Gorff. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr W. J. Gruffydd. Mae angen codi calon mewn cyfnod sydd mor ofnadwy o ddigalon. Sylwodd nad yw ysgrifennydd Cymdeithas y Cambrians yn fodlon hyrwyddo unrhyw lyfr o waith W. J. Gruffydd. Druan ohono. Pan fydd ei enw ef yn anghof bydd pawb yn cofio am O. M. Edwards a W. J. Gruffydd. Mae'n atgoffa W. J. Gruffydd iddo ddweud 'fod rhai pobl yn rhoi mwy o bwys ar benglog Cymro marw nag ar enaid Cymro byw'. Mae'n bwriadu mynd i Abertawe i brynu copi o gofiant O. M. Edwards pan fydd yn gweld y Basgiaid bach. Bu'n byw yn Bilbao ar un adeg ac y mae'n medru'r iaith. Nid yw'r Western Mail am weld rhwystro cylchrediad y llyfr neu ni fuasent yn cyhoeddi adolygiad. Bu ymosodiadau'r papur ar W. J. Gruffydd yn farbaraid er hynny.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 828.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>829. vtls005426909 ISYSARCHB22</p>	<p>File - G. W. Whittington, Porthcawl, 1937, Gorff. 6.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Daeth y llyfr i law [cofiant O. M. Edwards] a daeth dagrau i'w lygaid pan welodd y cyflwyniad. Diolch filwaith am ei alw'n gyfaill.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 829.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>830. vtls005426910 ISYSARCHB22</p>	<p>File - G. W. Whittington, Porthcawl, 1937, Hyd. 19.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Awgrymu bod W. J. Gruffydd yn anfon copi wedi ei lofnodi o gofiant O. M. Edwards i dloty Dolgellau a chopi o Hen Atgofion i dloty Caernarfon. Mae'n amgau 11 swllt at y gost. Rhoi peth o hanes George Rees yr emynydd. Gwelodd ef gyntaf yn 1884. George Rees Heycock oedd ei enw. Cafodd ei dad a brawd iddo eu lladd yn nhanchwa Penygraig, 27 Ionawr 1884. Aeth George Rees i weithio yn y lofa a dechreuodd farddoni. Cymerodd ddiddordeb yn enwogion Cymru a bu'n ymweld â bedd 'Iolo Morganwg'. Ymwelodd â chartrefi beirdd y Gogledd. Priododd ferch o Ffestiniog. Aeth i weithio i Aberteleri ac ymlaen i Lundain ar ddechrau'r dirwasgiad gan ollwng yr 'Heycock'. Cafodd ei fagu yn hen draddodiad llenyddol Morgannwg.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 830.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>831. vtls005426911 ISYSARCHB22</p>	<p>File - G. W. Whittington, Abertawe, 1940, Chwef. 20.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ymddiheuro am gamarwain W. J. Gruffydd wrth ddweud bod 'Alun' wedi bod yn ficer Glynorrwg. Cafodd ei gamarwain i ddweud hynny. Mae'r dirgelwch yn dal felly sut y bu i Alun ysgrifennu cân</p>

	<p>hela am ardal Glynorrwg a'i gwneud mor debyg i gân hela arall a oedd yn adnabyddus i helwyr ardal Llantrisant a'r Rhondda. Tybed mai ar gyfer cystadleuaeth y bu hyn?.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 831.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
832. vtls005426912 ISYSARCHB22	<p>File - Penri Williams, Cyfreithiwr, Abertawe, yngl?n ag ewyllys Griffith William Whittington, 1950, Mai 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae W. J. Gruffydd a Dr Henry Lewis i dderbyn arian ar gyfer Geiriadur Prifysgol Cymru. Y mae Griffith William Whittington fodd bynnag wedi llunio ei ewyllys yn y fath fodd fel bod yn rhaid i'w weddw werthu'r t? er mwyn cael digon o arian i'w rannu. Tybed a fyddai W. J. Gruffydd a'r lleill yn fodlon aros am eu cymynroddion fel y gall Mrs Whittington gael defnydd y t? yn ystod ei hoes. Mae hi yn 70 oed ac ychydig o arian sydd ganddi. Byddai'n ddigartref pe gweithredid yr ewyllys fel ag y mae.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 832.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
832(a). vtls005426913 ISYSARCHB22	<p>File - Copi teipysgrif o ewyllys Griffith William Whittington, 1948, Hyd. 7.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 832(a).</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
833. vtls005426914 ISYSARCHB22	<p>File - Alun [Llywelyn-williams], Caerdydd, 1937, Hyd. 10.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'r awen wedi aildeffro ynddo ac mae'n amgau cerdd i'r Llenor. ['Y Glöwr Diwaith', Y Llenor, cyf. XVI (1937), t. 200]. Mae rhai o fewn y BBC ac oddi allan i'r gorfforaeth yn bwriadu cyfarfod yn ystod y gaeaf i drafod pynciau o ddiddordeb mewn celfyddyd. Byddent yn hoffi cael cwmni W. J. Gruffydd. Dweud cymaint o bleser a gafodd wrth ddarllen cofiant O. M. Edwards. Cyfrol wirioneddol wych. Nodi un broblem yn y gerdd i'r Llenor. A oes angen defnyddio'r fannod o flaen 'Rhondda Fach'. Arferai feddwl fod defnyddio'r fannod o flaen enwau afonydd neu gwm, os defnyddid enw'r afon yn lle'r cwm, yn anghywir. Gwelodd T. J. Morgan yn y Llenor diwethaf yn ysgrifennu 'y Rhondda'. Mae'n hyfryd gweld adwaith R. Williams Parry at y digwyddiadau diweddaraf yng Nghymru. Byddai hynny'n rhywbeth o werth amhrisiadwy hyd yn oed os na ddaw dim lles arall o'r helynt.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 833.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
834. vtls005426915 ISYSARCHB22	<p>File - Alun [Llywelyn-williams], Caerdydd, 1938, Awst 18.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p>

	<p>Mae am drefnu 'Rhifyn Rhyddid' i'r Tir Newydd ym mis Tachwedd. Y syniad yw cael gwahanol ysgrifenyddwyr i fwrw golwg yn eu priod faes ar yr ymosod ar ryddid sydd eisoes ar gerdded drwy'r wlad. Gan fod pethau'n debyg o waethygu, yn enwedig os daw rhyfel, dylid ceisio rhyw foddion o wrthwynebu'r tueddiadau hyn yng Nghymru. Mae'r perygl yn waeth i Gymru am fod yr holl baratoadau ar gyfer rhyfel yn gwbl groes i'r hen draddodiadau ymneilltuol a radicalaidd ac yn bygwth dinistrio'r genedl yn derfynol. W. J. Gruffydd yw'r unig Gymro addas i drafod dylanwad hyn oll ar y celfyddydau cain. Pwysodd Mr Hopkin Morris arno i wahodd W.J. Gruffydd i ymgymryd â'r dasg. Awgrym y Parch. Gwilym Davies yw'r rhifyn ac y mae'n amgau llythyr ganddo sy'n egluro'r amcan ymhellach. Mae angen ysgrif o ryw ddwy fil o eiriau.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 834.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
835. vtls005426916 ISYSARCHB22	<p>File - Alun [Llywelyn-williams], Llundain 1939, Tach. 28. W.1,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau darn o farddoniaeth ar gyfer Y Llenor. ['Yma'n y Meysydd Tawel', Y Llenor, cyf. XIX (1940), t. 69]. Mae arno ofn fod ei awen wedi rhydu. Dyma'r gerdd gyntaf iddo ef lwyddo i'w hysgrifennu ers oes mul. Efallai y daw rhyw ddaioni o'r rhyfel os gall ei brofocio i ddychwelyd at yr hen lwybrau.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 835.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
836. vtls005426917 ISYSARCHB22	<p>File - Alun [Llywelyn-williams], Llundain, 1940, Chwef. 16. W.9,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Anfon cerdd arall. ['Dwy Gerdd i Alis', Y Llenor, cyf. XIX (1940), t. 111]. Onid yw'n drueni nad oes neb yn deall ei gerddi. Diolch am gyhoeddi'r gerdd flaenorol yn Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 836.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
837. vtls005426918 ISYSARCHB22	<p>File - Alun [Llywelyn-williams], Llundain 1940, Awst 20. W.C.1,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n gyrru ysgrif i'r Llenor ar iaith lafar y radio. ['Y Gymraeg ar y Radio', Y Llenor, cyf. XIX (1940), tt. 143-54]. Ei syniadau personol ef sydd ynddi nid datganiad swyddogol o bolisi'r BBC. Addasiad o femorandwm ydyw, mewn gwirionedd, a anfonwyd ganddo at Mr Hopkin Morris. Derbyniodd ganiatâd Mr Morris i anfon yr ysgrif at W. J. Gruffydd. Mae'n bosibl y bydd yn cynnig rhyw fath o arweiniad i'r pwnc. Mi fydd yn profi, beth bynnag, fod rhai o aelodau staff y BBC yn dymuno'n dda i'r heniaith ac yn awyddus i wneud eu gorau drosti. Mae De Cymru yn ei chael hi'n ddrwg gan gyrchoedd awyr yr Almaenydd. Mae'n anodd derbyn bod pobl yn cael eu lladd yng Nghaerdydd ac Abertawe a manau eraill yng Nghymru. Gobeithio y caiff y Gogledd lonydd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p>

	Preferred citation: 837. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
838. vtls005426919 ISYSARCHB22	File - D. J. Williams, Abergwaun, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Gofynnodd ysgrifennydd Cymrodorion Abergwaun iddo wahodd W. J. Gruffydd i roi darlith iddynt yn ystod y gaeaf dilynol. Bydd Eisteddfod Abergwaun wedi mynd heibio erbyn hynny a hoffent fanteisio ar olion y llanw cenedlaethol a adewir ar ei hôl. Mae wedi gwerthfawrogi sylwadau W. J. Gruffydd ar fywyd Cymru bob amser. Mae rhyw ddawn wyrthiol gan W. J. Gruffydd i dreiddio i mewn at graidd cydwybod y genedl. Awgrymir dyddiadau pwrpasol ar gyfer y ddarlith. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 838. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	[19]36, Meh. 28.
839. vtls005426920 ISYSARCHB22	File - D. J. Williams, Abergwaun, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch am llythyr gwerthfawr W. J. Gruffydd o gefnogaeth [yn dilyn llosgi'r Ysgol Fomio]. Mae brenin Lloegr, am y tro cyntaf ers canrifoedd, wedi cael trwyn coch gan Gymru, y barchusaf, y boneddigeiddiaf, a'r llyfrau'r o'r cenedloedd. Dywedodd W. J. Gruffydd beth gwir iawn am Saunders Lewis yn y Western Mail, sef ei fod ef yn tragic figure. Dyma'r unig ddyn sydd â gweledigaeth gwleidydd mawr ganddo yng Nghymru heddiw. Mae rhagfarn gibddall, ddiystyr Ymneilltuaeth Cymru yn erbyn Pabyddiaeth yn golygu bod Cymru yn gwrthod derbyn arweiniad Saunders Lewis. Byddai'n edrych ymlaen at garchar y Sais gyda gorfoledd pe gwyddai y byddai'r brotest yn gorfodi Cymru i ddechrau teimlo drosti ei hunan. Mae ei wraig yn ddewr iawn yn wyneb y dyfodol. Bu llythyr W. J. Gruffydd yn wir ysbrydiaeth iddynt eu dau. Y mae Mr Watcyn Evans, Ysgrifennydd Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun a Chastell Nedd yn cynnig am swydd Ysgrifennydd Eisteddfod Caerdydd ac y mae W. J. Gruffydd ar y Pwyllgor Dewis. Y mae yn ysgrifennydd tan gamp. Bu Eisteddfod Abergwaun yn llwyddiant gwirioneddol. Mae'n meddu doniau'r gwir drefnydd. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 839. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	[19]36, Medi 21.
840. vtls005426921 ISYSARCHB22	File - D. J. [Williams], Abergwaun, <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Y noson cynt fe wrthodwyd ei gais i ddychwelyd fel athro gan y llywodraethwyr am yr ail dro. Dywedid y telid ei gyflog hyd y Frawdlys yng Nghaernarfon. Cydsyniodd y Pwyllgor Addysg ond gwrthodwyd hynny gan y Bwrdd Addysg hyd oni cheir dedfryd y Brawdlys. Dilynwyd hyn gan y Pwyllgor Addysg a dilynodd y llywodraethwyr yn yr un modd. Mae ei gydathrawon wedi bod yn gefnogol iawn. Mae ei hen ddisgyblion wedi anfon deiseb gref at y llywodraethwyr ar ei ran. Yr oedd y ddau weinidog ymneilltuol, y Parch. H. T. Jacob a'r Parch. Owen Young yn absennol o'r cyfarfod. Torraeth wrth-Gymreig oedd yn gyrru'r offeiriad a'r cyfreithiwr ('Ab Domen') ymlaen. Tybed a ellid gwneud rhywbeth i symud y rhwystr o du'r Bwrdd Addysg? Fel arall, tybed a wyr W. J. Gruffydd am swydd wag yng Nghaerdydd neu Forgannwg. Clywodd fod Gwasg y Brifysgol yn chwilio am drafaeliwr i werthu llyfrau. Nid oes	[19]36, Hyd. 21.

	<p>ganddynt lawer o arian wrth gefn. Nid ydynt am bwysu ar berthnasau er bod ganddynt rai gweddol gefnog. Mae ei wraig yn athrawes drwyddedig, hwyrach y medrai hi gael gwaith. Hyd yn oed os ceir dedfryd ranedig eto fe fydd gwrthwynebwy'r yn sic'r o geisio profi ei fod yn anghymwys i ddysgu plant.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 840.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
841. vtls005426922 ISYSARCHB22	<p>File - D. J. [Williams], Abergwaun, [19]36, Tach. 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n cynnig stori fer i'r Llenor, mae tua 4,500 o eiriau. Caiff ei dychwelyd os yw hi'n rhy hir neu yn annerbyniol am ryw reswm arall. Fe'i hysgrifennodd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gallai fod wedi treulio'r amser wrth amgenach gwaith na 'sbaddu cwrcyn'. Mae Gwasg Aberystwyth yn cyhoeddi nifer o'i storiâu ddiwedd y flwyddyn dan y teitl Storiâu'r Tir Glas. Mae'n bwriadu ysgrifennu cyfres arall o dan y teitl Storiâu'r Tir Coch - storiâu coch o'r tir. Heblaw stori'r cwrcyn y mae wedi llunio un arall am hen lanc yn dod yn arwr i'w frodyr drwy ddod yn dad i blentyn gordderch. Mae'r Athro John Hughes, Montreal, wedi addo £5 at Gronfa Gwyl Ddewi'r Blaid os cyhoeddir 'Yr eunuch' mewn unrhyw gylchgrawn Cymraeg.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 841.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
842. vtls005426923 ISYSARCHB22	<p>File - D. J. [Williams], Abergwaun, [19]36, Rhag. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am lythyr W. J. Gruffydd fe'i cafodd ef yn nhy Wil Ifan ym Mhen-y-bont [ar Ogwr]. Mae'n gweld yr anhawster o ysgrifennu llythyr i'r Wasg ar ran Saunders [Lewis] ac yntau. Byddai absenoldeb enwau gwyr amlwg yn adrannau Cymraeg y Brifysgol yn tynnu cryn dipyn oddi wrth rym y neges. Synnodd weld enw Dr Parry-Williams ymhlith y gwyr gochelgar - nid cachgi mohono ef. Mae mor gadarn â neb yng Nghymru dros yr hyn y cred ynddo. Y mae hefyd yn aelod o'r Blaid. Clywodd Cassie Davies yn dweud ei fod yn gwbl gefnogol i losgi'r Ysgol Fomio. Ond ni chafodd D. J. Williams air ganddo ar y mater er hynny. Bu'n gyfaill gwerthfawr bob amser. Mae Mr Tim Lewis o'u plaid hefyd er na chafodd air ganddo yntau. Yn yr Old Bailey y dydd o'r blaen yr oedd y cyfan wedi ei drefnu gan y tri barnwr ymlaen llaw. Gwnaeth Norman Birkett araith wych drostynt yn erbyn symud lle'r prawf. Ond hynny a benderfynwyd. Bwriad D. J. Williams yw peidio â dadlau ei achos a thrwy hynny wrthod cydnabod hawl rheithwyr estron i eistedd mewn barn arno. Am y cwrcyn y mae croeso i W. J. Gruffydd gadw'r stori ar gyfer rhifyn y Pasg o'r Llenor, os na fydd ei sawr yn rhy gryf!</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 842.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
843. vtls005426924 ISYSARCHB22	<p>File - Sian Williams, [gwraig D. J Williams], Brongest, 1937, Chwef. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Bu D. J. a hithau yn trafod y stori 'Yr Eunuch' ychydig cyn ei ddedfrydu. Ofnont fod enllib yn y cyfeiriad at 'y Ffarier' a'r sôn amdano'n 'codi ei fys bach' ac 'afradlonedd ei fywyd cynnar fel efrdydd meddygol'.</p>

	<p>Mae gwraidd y stori yn wybyddus yn yr ardal - gwyr pawb pwy yw'r ffariar. A fyddai'n well gohirio cyhoeddi'r stori hyd nes y daw D. J. allan [o'r carchar]? Dyna yw ei dymuniad hi beth bynnag. Gobeithia na fydd hyn yr golygu llawer o drafferth iddo. Diolch am lythyr cryf W. J. Gruffydd i'r papurau. Ofna y gellir camddeall un frawddeg ynddo. Mae ganddynt lawer o ffrindiau o Saeson sy'n cydymdeimlo â hwy yn yr helynt presennol.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 843.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>844. vtls005426925 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Sian Williams, [gwraig D. J. Williams], Y Borth, [19]37, Mawrth 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n gofyn i W. J. Gruffydd tybed a oes modd iddo gael ail gynnig i feirniadu yn Eisteddfod Machynlleth. Tybed a fyddai'n fodlon gweithredu er mwyn y Blaid? Mae'n byw yn awyrgylch yr Eisteddfod ac y mae'n ddolur calon ganddi glywed pa mor chwerw y mae pobl yn erbyn y Blaid, yn dweud mai unig amcan y Blaid yw lladd yr Eisteddfod. Hoffai petai'n ystyried ei chais a cheisio dylanwadu ar y lleill i wneud yr un peth. Mae'r wlad yn colli golwg ar y brotest yn erbyn yr Ysgol Fomio yn Llyn ac yn erbyn dewis yr Arglwydd Londonderry - amddiffynnydd y bomio, yn llywydd un o gyfarfodydd yr Eisteddfod. Rhaid cyfaddef ei fod wedi tynnu'n ôl yn foneddigaidd er lles yr Eisteddfod. Dyna gyfle'r Blaid i wneud popeth i sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod yn awr. 'Eiddigedd santaidd' dros y Blaid sy'n peri iddi ysgrifennu fel hyn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 844.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>845. vtls005426926 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Sian Williams, [gwraig D.J. Williams], Y Borth, [19]37, Mawrth 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch iddo am ei hateb ac am gydsynio â'i chais. Fe'i chamarweiniwyd yngl'n â'r mater neu ni fuasai wedi ysgrifennu ato. Diolch iddo am eiriol dros D. J. yn y Bwrdd Addysg. Mae'r llywodraethwyr yn debyg o roi dyfarniad cyn i'r Bwrdd Addysg ymateb. Cywilydd o beth fod lle Saunders Lewis wedi ei lanw mor ddiseremoni. Mae'n teimlo'n flin iawn dros ei wraig, y siom ofnadwy o weld Cymry yn ei drin fel hyn. Cafodd ei anfon i ysbyty'r carchar, 'wedi rhedeg lawr dipyn'. Cafodd yr hanes gan A. Gray Jones, ysgrifennydd yr A.M.A. a oedd wedi bod yn ymweld â D. J. Williams. Mae [Lewis] Valentine a D. J. Williams yn iach ac mor gysurus ag sydd bosibl.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 845.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>846. vtls005426927 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. J. [Williams], Abergwaun, [19]39, Ion. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Dymuno blwyddyn newydd dda iddo, yn enwedig gyda'r Llenor. Amgau stori fer. ['Y Cwprdd Tridarn', Y Llenor, cyf. XVIII (1939), tt. 9-18]. Bu ar ei lasog tra yn y carchar ond nad oedd cyfle yno iddo ei chofnodi. Os nad yw hi'n dderbyniol mae'n gofyn am ei chael yn ôl gan nad oes ganddo gopi arall ohoni. Mae'n gofyn hefyd am i W. J. Gruffydd ddychwelyd hanes y cwrcyn a gafodd ddwy flynedd ynghynt. Fe</p>

	<p>gaiff hwnnw ymddangos mewn casgliad o storïau yng nghyflawnder yr amser. 'Dyn bach fel Methusalah wyf i, a wnâi lawer o waith mewn llawer o amser'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 846.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
847. vtls005426928 ISYSARCHB22	<p>File - D. J. [Williams], Abergwaun, [19]40, Gorff. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n amgau cân oddi wrth George M. Ll. Davies, cân sy'n gwbl nodweddiadol ohono. ['Heddwch', Y Llenor, cyf. XIX (1940), tt. 172-3]. Mae'n methu â chytuno â rhai o sylwadau diweddar W. J. Gruffydd ynglŷn â'r rhyfel. Mae hefyd yn methu cytuno â Saunders [Lewis] weithiau er cymaint ei edmygedd ohono. Dim ond gwahaniaeth graddau sydd yna rhwng totalitariaeth Hitler a thotalitariaeth Seisnig. Os oes rhaid i D. J. Williams ufuddhau i Churchill a'i debyg, yna y mae popeth y credodd ynddo erioed ac y ceisiodd fod yn ffyddlon iddo wedi bod yn gyfeiliornus. Mae'n eironig fod W. J. Gruffydd yn gofyn gan Gymru gyflwyno ei holl ynni i gynorthwyo Prydain i gyflawni ei gwrth. Mae gwraig D. J. Williams wedi ailgopïo cerdd George M. Ll. Davies gan fod yr ysgrifen yn anodd a'r papur yn wael yn y gwreiddiol.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 847.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
848. vtls005426929 ISYSARCHB22	<p>File - D. J. [Williams], Abergwaun, [19]40, Awst 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n falch fod cerdd George [M. LL.] Davies i ymddangos yn Y Llenor. Diolch i W. J. Gruffydd hefyd am ei lythyr caredig yn esbonio ei safbwynt yn fanylach. Mae'n ceisio cymod er mwyn osgoi dadl agored rhwng W. J. Gruffydd a Saunders [Lewis]. Byddai anghytundeb cyhoeddus yn drasiedi, er yn wledd wrth fodd calon gwyr Philistia. Anghytuno am ddamcaniaethau crefydd a gwleidyddiaeth y maent. Nid dadlau dros Gatholiaeth y mae D. J. Williams ond ceisio rhoi ei lle i athrylith anghyffredin o rymus sy'n ceisio achub einioes y genedl. Nid oes gan D. J. Williams ragfarn gref yn erbyn Pabyddiaeth. Ni all y grefydd a gadwodd wareiddiad Ewrop yn fyw am bymtheg canrif fod yn ddrwg i gyd. Cred ei fod yn deall tipyn ar W. J. Gruffydd ac ar Saunders Lewis. Onid oes modd iddynt gyfarfod i anghytuno'n breifat er mwyn medru cytuno i gyd-arwain Cymru yn yr argyfwng presennol. Ni fedrai Saunders Lewis fyw hanner awr yn y Gymru sy'n annwyl iddo ef ac W. J. Gruffydd. Mewn theori y mae Saunders Lewis yn werinwr, nid mewn calon ac ysbryd. Yn hynny o beth y mae'n debyg iawn i Parnell. Nid yw'n credu fod W. J. Gruffydd yn gywir wrth honni bod Saunders Lewis yn ddilynwr yr Action Française. Mae'n ei atgoffa o adolygiad Saunders Lewis ar ddyddlyfr pythefnos [W. Ambrose] Bebb, lle dywedodd ei fod yn synnu fod Cymro fel Bebb yn gallu llyncu'r Action Française yn gwbl ddihalen. Mae gwraig D. J. Williams yn cytuno â W. J. Gruffydd ynglŷn â Chatholiaeth. Mae D. J. Williams yn mentro anghytuno ag W. J. Gruffydd ynglŷn ag ysgrifau 'Cwrs y Byd'. Cred mai hwy yw 'y pethau gorau a chywiraf o ddim a gyhoeddir ym Mhrydain'. Hoffai petai W. J. Gruffydd a Saunders Lewis yn setlo'u hanawsterau yng nghegin gefn y Red Lion yn hytrach nag ar y sgwâr o'i flaen.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 848.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>849. vtls005426930 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. J. [Williams], Abergwaun, [19]40, Tach. 26.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Dymuno'n dda i W. J. Gruffydd yn y gynhadledd bwysig iawn yn Amwythig y dydd Gwener canlynol. Hoffai D. J. Williams fod yno ond nid yw hynny i fod. 'Y mae'r Quislingiaid yng Nghymru yn ddigon i dorri calon y diawl ei hunan ambell dro, yn enwedig y rhyw Galfinaidd ohonynt'. Mae'n anghytuno'n llwyr â W. J. Gruffydd ar fater y rhyfel gan gredu mai ef, D. J. Williams sy'n iawn, wrth gwrs. Nid yw ei edmygedd o ddewrder a didwylledd W. J. Gruffydd fymryn yn llai. Bydd y cyfarfod ddydd Gwener yn un o'r rhai mwyaf tyngedfennol yn hanes Cymru. Os gellir llwyddo i sicrhau ymddiriedaeth Cymru yn y gynhadledd er gwaethaf pob dallineb a llyfrdra, yna fe fydd gobaith i Gymru.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 849.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>850. vtls005426931 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [W. J. GRUFFYDD, Penarth, at D. J. Williams, Abergwaun], 1940, Rhag. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ymddiheuro am anfon llythyr Saesneg, nid yw ei ysgrifenyddes yn deall Cymraeg. Nid yw'n gallu deall safbwynt D. J. Williams ynglŷn â'r rhyfel. Rhaid iddo dderbyn mai dyna yw ei safbwynt fel y wraig a fethai gredu bod y fath anifail i gael â jiraff. Bwriedir ei sylwadau yn Y Llenor ar gyfer rhai â dipyn llai o grebwyll na D. J. Williams. Yr unig beth sydd yn ei boeni ar hyn o bryd yw sut i achub Cymru, gweddill Prydain, a gweddill y byd oddi wrth bwerau y credid iddynt gael eu concro ddwy fil o flynyddoedd ynghynt. Mae ei holl fryd ar ffoi oddi wrth y sefyllfa, ond ni fydd hynny ond osgoi cyflafan fawr. Cofio at Mr D. J. Williams. Hoffai ymweld â hwy yn fuan i fod ymhlith pobl a all fod yn ddifrifol ac yn llawen. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 850.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>851. vtls005426932 ISYSARCHB22</p>	<p>File - D. J. [Williams], Abergwaun, 1942, Rhag. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ateb i'w lythyr. Yr oedd yn anghytuno'n llwyr â phopeth bron a ddywedodd ynddo. Mae'n dyfynnu darn o lythyr ato gan wr amlwg: 'Yr wyf innau'n gobeithio na hud-ddenir mo W. J. Gruffydd i sefyll yr etholiad. Diau y byddai ganddo gyfle gwych i fynd i mewn, ond trwy bleidlais y gwrth-Gymry a phobl ddiddrwg ddidda yr âi'. Dyna hefyd farn D. J. Williams ar y sefyllfa a phawb arall y bu'n siarad â hwy. Gellid eu galw y 'Royal Welsh Standbacks'. Byddai pawb a fu o'i blaid ar hyd ei oes yn ei erbyn, petai hynny o ryw bwys iddo. Un o bethau godidocaf W. J. Gruffydd oedd ei araith yn lle Lloyd George yn Eisteddfod Caerdydd yn 1938. Sut y gall fod yn gyson â'r hyn a ddywedodd yno. Y mae'r llythyr y dyfynnodd W. J. Gruffydd ohono yn gelwyddog wrth gyhuddo'r Blaid Genedlaethol o ladd y Gymraeg ar aelwydydd Arfon. Os yw'n credu'r fath lythyrau nid oes ryfedd ei fod yn ymgeisio yn erbyn Saunders Lewis a'r Blaid. Nid yw'n bwriadu ateb yr haeriadau eraill a wna yn erbyn y Blaid. Dangoswyd i W. J. Gruffydd fod ganddo gyfle gwych i ddinistrio'r Blaid. Y ffordd hawsaf at y gwaith yw codi'r rhagfarn wrth-Gatholig. Dywed W. J. Gruffydd mai ei gydwybod sy'n peri iddo ddod allan yn erbyn y Blaid. Rhaid angori'r gydwybod wrth egwyddor sylfaenol. Rhaid fod cydwybod W. J. Gruffydd wedi cael mwy nag un droedigaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n debyg y bydd iddo ennill yr etholiad ond fe wneir hynny ar gôst ddifrifol i Gymru ac ar gôst uchel i enw da a choffa W. J. Gruffydd. Syniad uchel a</p>

	<p>hoffter D. J. Williams o W. J. Gruffydd sy'n rhoi'r hawl iddo ysgrifennu fel hyn ato. Ni all fyth anghofio caredigrwydd W. J. Gruffydd i'w wraig, Siân, tra fu 'ymhell o dre'.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 851.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
852. vtls005426933 ISYSARCHB22	<p>File - D. J. [Williams], Abergwaun, [19]44, Ion. 22.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifenna yn dilyn adroddiad yn y Western Mail am araith W. J. Gruffydd yn y Senedd y diwrnod blaenorol ar y Bil Addysg newydd. Rhagorol iawn. Yn ail, ysgrif ddiweddaraf Saunders Lewis yng 'Nghwrs y Byd' (19/1/44). Mae'r ddwy erthygl yn waith gweledydd a gwladweinydd mawr sydd â thynged Cymru yn pwyso'n drwm ar ei enaid. Mae'r sbonc o egni newydd a welwyd yn ddiweddar gan y Blaid Seneddol Gymreig yn fwy dyledus i sbardun cyson W. J. Gruffydd nag i ddim arall. A oes modd i'r seneddwyr Cymreig roi ystyriaeth ddifrifol i argymhellion gwerthfawr Y Faner? Dim ond ar berygl einioes y genedl y gellir anwybyddu'r fath faterion. Un o'r pethau tristaf oll i lawer yw nad yw Saunders Lewis a W. J. Gruffydd yn yr un gwersyll. Diolch iddo am ei eiriau hael i Storiâu'r Tir Coch yn Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 852.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
853. vtls005426934 ISYSARCHB22	<p>File - D. Llewelyn Williams, Hen Golwyn, 1939, Gorff. 31.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu i ddweud iddo fwynhau gwranddo ar sgwrs W. J. Gruffydd, 'Beth a ddaeth o Lanfaches?' ar y radio y prynhawn cynt. Trafodwyd y pwnc mewn modd gonest ac amhleidiol. Canlyniad ei sgwrs fydd dwyn y pedwar enwad yn nes at ei gilydd. Gellir uno am fod yr enwadau yn cychwyn o'r un man. Mae'r clawdd terfyn rhwng yr enwadau wedi diflannu. Mae'n pwyso ar W. J. Gruffydd i gymryd ei le fel arweinydd yng Nghymru. Nid yw arweinwyr y Blaid Genedlaethol yn apelio at Ymneilltuwyr.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 853.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
854. vtls005426935 ISYSARCHB22	<p>File - D. Llewelyn Williams, Hen Golwyn, 1940, Rhag. 1.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Adrodd hanes bredddwyd gas. Meddyliai am arweinwyr Cymru ac yna ymddangosodd offeiriad Catholig o'i flaen. Dywedodd wrtho fod arweinydd y Cymry yn Gatholig. Atebodd mai W. J. Gruffydd a gyfrifid yn fwyaf ym mywyd Cymru a'i fod yn Annibynnwr o'r Annibynwyr. Atebodd yr offeiriad mai Catholig oedd W. J. Gruffydd a'i fod yn gwneud Catholig ardderchog. Cafodd fraw a deffro'n chwys a deall mai breuddwyd oedd. Mae'r Catholigion yn rhy gryf yng Nghymru eisoes. Trueni na allai W. J. Gruffydd arwain Ymneilltuaeth yng Nghymru, dyna'r gallu cryfaf yng Nghymru o hyd. Nid oes na 'Hiraethog' na Thomas Gee i arwain Cymru.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 854.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
855. vtls005426936 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd at D. Llewelyn Williams], 1940, Rhag. 13.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Roedd y llythyr ynglŷn â'i freuddwyd yn ddiddorol iawn. Nid yw'r freuddwyd, fodd bynnag, yn debyg o gael ei gwireddu. Trafferth Anghydfurfwr yw eu bod yn anghydfurfiol ynglŷn ag Eglwys Loegr a'r Deyrnas, ond yn cydymffurfio'n ormodol â chonfensiynau pietistig yr oes. Mae rhai fel W. J. Gruffydd na fedr honni bod yn dduwiol yn darganfod ei bod yn amhosibl iddynt gymryd rhan yn eu gweithgareddau crefyddol er eu bod yn cydymdeimlo hwy. Mae arweinyddiaeth y cylchoedd Anghydfurfiol yng Nghymru yn tueddu cael ei gyfyngu i ddwylo gweinidogion a diaconiaid, yn annheg iawn i Eglwys Rufain, Eglwys Loegr a'r Huguenots. Mae W. J. Gruffydd am drafod y pwyntiau hyn yn gyhoeddus rhyw ddiwrnod. Anghyflawn. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 855.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
856. vtls005426937 ISYSARCHB22	<p>File - D. Llewelyn Williams, Hen Golwyn, 1940, Rhag. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Hydera y bydd W. J. Gruffydd yn rhoi amlygrwydd i'w syniadau ar Anghydfurfiaeth yn Y Llenor. Mae'n gallu cofio'r cyfnod pan nad oedd dim ond y pulpud i'w gael i wyr ag addysg a oedd heb y modd i ymuno â'r galwedigaethau proffesiynol. Gwleidyddion politicaidd yn hytrach na phregethwyr oedd rhai fel Thomas Gee, 'Hiraethog' a M[ichael] D. Jones. Pan ddarfu am gyfnod y gwleidydd-bregethwr, cymerwyd eu lle gan ddynion fel Lloyd George, S. T. Evans, Ellis Griffith a Tom Ellis. Ofnau cyffredinol am ddyfodol Cymru a achosodd ei freuddwyd. Bu'r Blaid Genedlaethol o dan arweiniad [J. E.] Daniel a Saunders Lewis yn siom fawr. Cred fod yr Hen Gorff wedi ei drefnu'n ormodol. Y mae'r cyrff anghydfurfiol, er hynny, heb arweinydd. Nid yw'r Wasg yn arwain fel y gwnaeth yn amser Thomas Gee. Fe werthfawrogir nodiadau W. J. Gruffydd yn Y Llenor yn fawr iawn gan lawer.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 856.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
857. vtls005426938 ISYSARCHB22	<p>File - 'Dafydd' [Y Parch. David Williams, (1877-1927)], Coleg y Bala, 1926, Tach. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae wedi derbyn copi o'r cyfieithiad o Efengyl Ioan a chais am nodiadau beirniadol arno. Bu'n sâl am bum mis ac ni all ddefnyddio ei law dde. Mae'n teipio'r llythyr hwn gyda'i law chwith. Ymddengys y cyfieithiad yn rhagorol ond methodd â chofnodi nodiadau wrth fynd ymlaen. Mae'n diolch hefyd am Y Llenor. Ni fynnai fod hebdo. Y mae rhwybeth yn perthyn i'r Llenor a oedd yn eisiau yn Y Beirniad. Mae'n troi yn syth at ddarnau o'r cylchgrawn sydd gan W. J. Gruffydd. Mae'n mynd at feddyg yn Llundain ddiwedd yr wythnos gyda'r gobaith o ailgydio yn ei waith y tymor dilynol.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 857.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p>

	ARCH/MSS (GB0210)	
858. vtls005426939 ISYSARCHB22	File - L. C. Williams, Porthcawl,	1937, Ion. 25.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Canmol W. J. Gruffydd ar ei erthygl yn y Western Mail y bore hwnnw - mae'n wych. Dylid cystwyo'r papur am yr erthygl yngl?n â'r ffatri awyrennau yn Maidenhead. Paham protestio yn ei herbyn a pheidio â gwneud hynny yn erbyn yr Ysgol Fomio yn y Gogledd, heb sôn am yr un ger Llanilltud Fawr. Byddai'n fodlon ysgrifennu at y papur ei hunan ond gwrthod cyhoeddi ei lythyrau a wnaethant yn y gorffennol. Mae ar ei ffordd i Lundain. Anogir W. J. Gruffydd i ysgrifennu at y Western Mail yngl?n â'r anghysondeb gwarthus hwn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 858.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
859. vtls005426940 ISYSARCHB22	File - 'Eifion Wyn' [Eliseus Williams], Porth[mado]g,	1914, Mawrth 3.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gwrthod cynnig W. J. Gruffydd. Nid yw'n deilwng i ddod dros ei gronglwyd. Mae eisiau diolch i wyr da'r Coleg am gynnig y fath uchelfraint. Bu oddi cartref neu fe fuasai wedi ateb ynghynt. Holi os oes gan W. J. Gruffydd ddrama arall ar y gweill. Mae Cymru yn disgwyl llawer oddi wrth awdur Beddau'r Proffwydi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 859.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
860. vtls005426941 ISYSARCHB22	File - Ffowc Williams, Llandudno,	1938, Mai 16.
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Lleisio ei fwynhad ar ôl bod yn gwrando ar W. J. Gruffydd y nos Wener cynt. Synnai o wybod cynifer o drigolion 'lle mor anobeithiol â Llandudno' a fu'n gwrando ar y darllediad. Gobeithio bod y pigiad a roddwyd i'r BBC na cheir mwy o ddarledu tebyg, wedi cyrraedd adref.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 860.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>	
<p>Cyfres Series 861-910. vtls005426942 ISYSARCHB22: Llythyrau: Williams, Francis-'Uncle O',</p> <p><u>Dyddiad Date:</u> 1908-50. (dyddiad creu) (date of creation)</p> <p><u>Lleoliad ffisegol Physical location:</u> ARCH/MSS (GB0210)</p> <p><u>Nodyn Note [generalNote]:</u></p>		

Preferred citation: 861-910.			
FFeil / rhestr eitemau File / item list			
Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
861. vtls005426943 ISYSARCHB22	File - Francis Williams, Caergrawnt,	[19]40, Hyd. 13.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am erthygl oleuedig yn Y Llenor diweddaraf. Ymddengys yn ffasiwn ymhlith llawer o ysgrifenyddyr Cymreig yn dilyn cyhoeddi cyfrol y diweddar Llewelyn Williams, The Making of Modern Wales, i glodfodi a channol Catholigion a Chatholicaeth. Mae'n hen bryd i rywun o safle W. J. Gruffydd i daflu goleuni llachar ar y perygl. Mae'n apelio arno i gyfieithu'r erthygl i'r Saesneg a'i chyhoeddi'n ddiymdroi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 861.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
862. vtls005426944 ISYSARCHB22	File - G. J. Williams, Gwaelod-y-garth,	[19]42, Gorff. 3.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd afael ar gyfeiriad at lawysgrifau 'Islwyn'. Llawysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol 5854-79 ydynt.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 862.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
863. vtls005426945 ISYSARCHB22	File - G. J. Williams, Gwaelod-y-garth,	[19]50, Tach. 22.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Methodd â chael hen enghraifft o'r ffurf 'Llantorfaen'. Y mae'n rhestru enghreifftiau cynnar o ffurf Llantarnam gan nodi ei ffynonellau. Bu trwy gywyddau'r beirdd, ond Y Fynachlog a geir ganddynt hwy. 'Llanfihangel y Fynachlog' oedd yr enw a glywid gan hen Gymry'r cylch, ceir sôn hefyd am y ffurf 'Llanfihangel Ton-y-groes'. Y mae wedi holi yngl'n ag enw'r afon. Mae'n addo anfon gair eto. Da ganddo glywed bod W. J. Gruffydd yn dychwelyd i Gymru. Caiff ei weld mewn cyfarfod o Fwrdd y Wasg cyn hynny.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 863.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>		
864. vtls005426946 ISYSARCHB22	File - Ifor [Williams], Porthaethwy,	[19]29, Ebrill 25.	
	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p>		

	<p>Cydymdeimlo ar farwolaeth tad W. J. Gruffydd ac am iddo fethu â chipio swydd prifathro Caerdydd. Collodd ef ei fam flwyddyn i'r haf cynt ac ni all feddwl amdani hyd y dydd hwnnw. Collodd ei dad pan yn blentyn, pan oedd yn rhy ifanc i sylweddoli ei golled. Cafodd W. J. Gruffydd amser i adnabod ei dad a'i werthfawrogi ac y mae'r golled yn fwy o'r herwydd. Nid tywyllwch i gyd yw'r ffaith iddo fethu â chael swydd prifathro. Colled fawr fyddai hi i Gymru petai raid iddo roi'r gorau i'r Llenor, yr ymchwil a llenyddiaeth. Bydd croeso cynnes iddo ym mhwyllgor Iaith a Llên y Bwrdd Gwybodau Celtaidd.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 864.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
865. vtls005426947 ISYSARCHB22	<p>File - Ifor [Williams], Porthaethwy, [1930], Nos Fawrth.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am adolygiad ar ei gyfrol Pedair Keinc y Mabinogi. Ymesgusodi dros beidio â chynnwys cyfeiriad at esboniad W. J. Gruffydd ynglŷn â'r Mabinogi fel helaethiad o fabinogi Pryderi. Brys wrth lunio'r rhagymadrodd a oedd yn gyfrifol am hynny, nid bwriad i anwybyddu'r syniad. Lluniai'r rhagymadrodd fesul paragraff mewn ychydig oriau. Ysgrifennodd druth ar T[imothy] Lewis i'r Cymmrodor. Mae'n hyderu gweld W. J. Gruffydd yn Amwythig. Cael ei lusgo oddi wrth y Gododdin at y Pedair Cainc a wnaeth. Ni fu'r Pedair Cainc erioed yn faes ymchwil iddo a chyda chwerwder ysbryd yr aeth ati i lunio'r llyfryn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 865.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
866. vtls005426948 ISYSARCHB22	<p>File - Ifor [Williams], Pontllyfni, [19]38, Gorff. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am delegram W. J. Gruffydd yn ei longyfarch [ar ei wneud yn farchog]. Ni wyddai ddim am y peth hyd nes y bu iddo dderbyn y gair swyddogol - yr oedd yn 'syfrdanedig'. Ychydig a ysgrifennodd yn Saesneg ac mewn lludded a llesgedd y llafuriodd ar Aneirin. Mae'n troi at Daliesin yn awr, ond yn bur ddi-ffrwt.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 866.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
867. vtls005426949 ISYSARCHB22	<p>File - J. E. Williams ('John Tynyfawnog'), Dwyran, [1936].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am Hen Atgofion ar ffurf llyfr. Bwriadodd ysgrifennu pan ymddangosodd y gyfres gyntaf a'r sôn am y 'grwp'. Tua'r adeg honno y bu farw 'Bob Jones Peintar' ac felly dim ond J. E. Williams sydd yn dal yn fyw. Mae merch i 'Katie'r Ffynnon' yn byw yn Nwyran, ei thad yw rheithor Llangeinwen. Adwaenai J. E. Williams dad ac ewythr Huw W. J. Gruffydd yn dda. Cofia 'Eos Mai' yn canu mewn cyngerdd yn Ysgoldy Llandinorwig. Adwaenai'r hen 'Gando' hefyd a gwyddai am amryw o'i driciau direidus. Mae'n cofio mynd i Fethel unwaith i gystadlu ar adrodd 'Arwerthfa'r Caethwas'. Gofynnwyd iddo ddechrau</p>

	<p>adrodd o ganol y darn yn y rhagbrawf, ystyfnigodd yntau ac ni chafodd lwyfan. Hoffai weld yr 'Hen Atgofion' yn parhau.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 867.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
868. vtls005426950 ISYSARCHB22	<p>File - J. Ellis Williams, Blaenau Ffestiniog, 1937, Gorff. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Lleisio ei fwynhad o ddarllen cofiant O. M. Edwards ac ysgrif ar William Jones yn Y Llenor [cyf. XVI (1937), tt. 77-87]. Mae ganddo gof plentyn am W. J. yn dod i aros at ei dad i Benmachno. Mae'n cofio amdano yn ei 'yrru i Gaer' ac yntau'n palfalu'n wyllt am ei farf ddu. Gan O. M. Edwards y cafodd ei siec gyntaf am ysgrifennu. Dwy gini am gyfres bymtheng mis yn Cymru'r Plant pan oedd yn 14 oed. Yr oedd mor falch o'r siec fel mae loes iddo oedd meddwl ei newid am arian. Bu'r banciwr yn pendroni'n amheus uwch ei phen pan aeth â hi o'r diwedd. Bu farw ei dad chwe mis ynghynt. Po fwyaf y mwynhâi y cofiant a'r ysgrif mwyaf y gofidiai nad oedd yntau'n fyw i'w darllen.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 868.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
869. vtls005426951 ISYSARCHB22	<p>File - J. Ellis Williams, Pontypridd, 1943, Meh. 7.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am ei ddiddordeb yn achos y merched fydd yn eistedd Arholiad Uchaf y Bwrdd Canol y mis canlynol ond a rwystrir rhag mynd i'r colegau i hyfforddi fel athrawon am eu bod yn 19 oed cyn Hydref laf. Gwelodd hanes y trafod a fu rhwng W. J. Gruffydd, Mr Harvey a Mr Butler yn y Western Mail ac y mae'n mawr hyderu y symudir yr anghyfiawnder yn awr. Yr oedd eisoes wedi ysgrifennu at Mr Harvey ar ôl darllen yn Education iddo holi Mr Butler yn y Ty ar fater cyflenwad digonol o athrawon. Eglurodd wrth Mr Harvey fod y Parti Seneddol Cymreig wedi apelio'n daer iawn i eisoes at yr awdurdodau ond heb lwyddo hyd yn hyn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 869.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
870. vtls005426952 ISYSARCHB22	<p>File - J. J. Williams, (gynt o Lanrug), Penbedw, 1938, Mai 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu i ddweud iddo fwynhau sgwrs W. J. Gruffydd. Cafodd gwranddo arno yr un effaith â'i Hen Atgofion sef cyffwrdd â rhyw deimlad am ramant bywyd Arfon fel ag yr oedd flynyddoedd lawer yn ôl. Llwyddodd W. J. Gruffydd i'w ail-greu er ei fod wedi newid drwyddo draw erbyn hyn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 870.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>871. vtls005426953 ISYSARCHB22</p>	<p>File - J. L. Williams, Fforest-fach, Abertawe, [19]38, Chwef. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ysgrifennu i ddiolch am ysgrif W. J. Gruffydd yn Y Cymro. Gallai ddweud 'Amen' i bob syniad ac awgrym sydd ynddi. Mae'n anfon ei gyfarchion fel cydfyfyriwr ac un a adwaenai ei dad yn dda.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 871.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>872. vtls005426954 ISYSARCHB22</p>	<p>File - 'Jerry' [Jeremiah Williams], Caernarfon, [19]40, Gorff. 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Ei annog i ysgrifennu at De Valera i geisio ei berswadio i ymuno â'r rhyfel. Byddai'n wych o beth petai W. J. Gruffydd yn medru ei gael i weld rheswm a gweithio tros ddiogelwch Iwerddon a Chymru. Mae'n fwy tebygol o wrando ar genedlaetholwr amlwg fel W. J. Gruffydd nag ar unrhyw aelod o'r Cabinet Seisnig. Os bydd iddo barhau i bledio niwtraliaeth yna dylai'r Llywodraeth anfon lluoedd amddiffyn i Iwerddon, er y gallai hynny olygu ymladdfa i'r Ira. 'Does dim amser i'w golli. Mae'r perygl wrth law'. Hydera y bydd i W. J. Gruffydd ysgrifennu at De Valera yn ddiymdroi.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 872.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>873. vtls005426955 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Williams, Llandudno, [19]37, Chwef. 3.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n cytuno â llythyr W. J. Gruffydd yn Y Genedl. Nid yw'n bwriadu gwneud dim ynglŷn â'r Coroniad a bydd mwyafrif ei eglwys yn ei gefnogi y tro hwn hefyd. Hydera y bydd llu o'i gydweinigion yn cytuno â'i awgrym. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 873.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>874. vtls005426956 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Williams, Llundain, N.W.10, [19]37, Ion. 25.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>'O! Frenin, bydd fyw byth'. Cerdyn post.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 874.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>875. vtls005426957 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Williams, Llundain, N.W.10, 1935, Gorff. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae rhan olaf llythyr Syr William Jenkins yn y Western Mail y diwrnod cynt yn gamdystiolaeth ac yn gwbl annheilwng. Hydera na fydd i W. J. Gruffydd geisio ei ateb. Mae'r holl Gymry meddylgar yn coleddu'r syniadau uchaf am ddoniau W. J. Gruffydd a'i ran yn cyfoethogi llên Cymru. Na fydded iddo daflu gemau o flaen y moch.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 875.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>876. vtls005426958 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Williams, Llundain, N.W.10, 1938, Gorff. 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cynnig cadwyn o englynion ymson i'r Llenor. Bu Mr G. Rees ac yntau yn englynnu â'i gilydd. Rhaid fyddai cael ei ganiatâd yntau cyn cyhoeddi. Gwaith dau hen wr dros 65 yn cael ychydig ddifyrwrch gyda'r gynghanedd ydynt. Saesnes a deipiodd y cwbl ond ei bod yn gyfarwydd â ffurf englynion.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 876.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>877. vtls005426959 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Williams, Llandwrog, 1941, Chwef. 24.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n debyg y caiff ddigon o sylwadau wedi ei erthygl yn Y Llenor diweddaraf ar 'Y Gwylliaid'. Yr oedd ei sylwadau yn hollol deg a chywir. Gellir anwybyddu'r beirniaid. Bydd enw W. J. Gruffydd yn anfarwol pe na bai'n cyflawni dim ond golygu'r Llenor. Mae wedi bod yn cofnodi ei hanes. Mae ganddo bymtheg tudalen wedi eu teipio ar hanes y chwarel. Mae'n cynnig y gwaith i'r Llenor. Os na ddefnyddir ef hoffai ei gael yn ôl a'r hawl i'w ddefnyddio eto yn ei hunangofiant. Hwyrach y cânt weld ei gilydd yng Nghaernarfon dros y Pasg. Awgrymodd D. R. H[ughes] iddo anfon ychydig o hanes y Ddolen iddo. Ef yw'r cymhwysaf ar gyfer y gwaith hwnnw.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 877.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>878. vtls005426960 ISYSARCHB22</p>	<p>File - John Williams, Llandwrog, 1941, Tach. 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Darllenodd Y Llenor diweddaraf yn ei wely mewn teirawr tra'n ceisio gwella o ryw aflwydd dibwys. Mae'n rhifyn cyfoethog drwyddo. Mae'n derbyn dau gopi - un i'w gadw a'r llall i'w fenthyca i ambell gyfaill. Nid oes cwmwd mwy diddiwylliant yn y sir na'r rhan isaf o blwyf Llandwrog. Ef yw'r unig un sy'n derbyn Y Llenor yn y fro. Tebyg yw cyflwr meddwl pob ardal sy'n byw tan gysgod plas uchelwr fel y mae Llandwrog tan gysgod Glynllifon. Nid yw R. G. Berry yn taro deuddeg y tro hwn ['Y Pirynt Parym', Y Llenor, cyf. XX (1941), tt. 117-21]. Gresyn na fedrodd ddal ei 'Nodiadau' yn ôl cyn cael y</p>

	<p>ddedfryd gan Gyngor yr Amgueddfa yngl?n â swydd Dr Peate. Gofyn iddo 'groeshoelio'r' criw yn y rhifyn nesaf. 'Llawen pe bawn alluog. Y rhown y criw ar bren crog'. Gofyn iddo ymatal rhag cyhoeddi ysgrif o'i eiddo.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 878.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
879. vtls005426961 ISYSARCHB22	<p>File - 'Canwy' [Parch. John Henry Williams], Bangor, 1929, Meh. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am Y Llenor ac am nodiadau'r golygydd yn fwy na dim a'r erthygl 'Yr Anianol a'r Ysbrydol' yn arbennig. [Y Llenor, cyf. VIII (1929), tt. 90-9]. Yr oedd yn credu pob gair a ddywedodd er ei fod yn weinidog Methodist. Ei annog i ddal ati i ddweud y gwir. Agorodd gyfarfod misol yn ddiweddar ond nid oedd ei gydweinidogion yn cytuno ag ef o gwbl. Nid oedd wedi darllen araith Peter Hughes Griffiths. Pobl a'u dyddiau gorau wedi mynd heibio sydd yn y gadair fel arfer. Mae rheolwyr crefydd y Methodistiaid Calфинаidd wedi gweld eu dyddiau gorau. Nid oes ganddynt weledigaeth heddiw. Os na ddaw ymwardd buan i grefydd y capeli, bydd yn rhwystr i wir wleidyddiaeth a chrefydd. Mae'n drist ganddo weld bechgyn a ddechreuodd fel proffwydi yn troi'n geidwadwyr ac yn ddiwinyddion cul enwadol. Creadur unig yw ef ers blynyddoedd, yn dewis bod felly. Fe'i siomwyd na phenodwyd W. J. Gruffydd yn brifathro.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 879.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
880. vtls005426962 ISYSARCHB22	<p>File - Lewis Williams, Treharris, [19]35, Hyd. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon stori fer i'r Llenor ['Ennill y Minimym', cyf. XV (1936), tt. 156-60]. Yr oedd y stori yn un o dair, a daeth yr awdur yn chweched allan o un ar hugain yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Stori pwll glo ydyw. Mae'r ffeithiau ynddi am amgylchiadau'r glöwr yn hollol wir.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 880.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
881. vtls005426963 ISYSARCHB22	<p>File - M. E. Williams, Llundain, W.2, 1934, Pasg.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n teimlo mor ddigalon fel ei bod am ysgrifennu at un o gyfeillion ei diweddar wr, Llew. Diolch i W. J. Gruffydd am ei eiriau caredig yn ei lythyr ati. Roedd gan ei gwr feddwl uchel iawn o W. J. Gruffydd. Yr oedd yn trysori'r Llenor. Yr oedd caredigrwydd Llew tuag ati bob amser yn ei gwneud hi'n llawer anoddach iddi fod hebdo. Mae'n casâu meddwl am fynd ymlaen hebdo. Mae'n anfon copi o Herald Môn. Soniodd am W. J. Gruffydd yn yr ysbyty fel ffrind mawr. Bu farw Llew yn ogoneddus, yn llawn ffydd, gobaiha a llawenydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 881.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
882. vtls005426964 ISYSARCHB22	File - Robert Williams Talycafn,	1908, Hyd. 30.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n ysgrifennu iddo fwynhau darllen llyfr W. J. Gruffydd ar gywyddau Goronwy Owen [Cywyddau Goronwy Owen (Casnewydd, 1907)]. Gormod fyddai disgwyl i bawb gytuno ag ef ar bob pen. Dadleuodd W. J. Gruffydd mewn ffordd deg a boneddigaidd. Mae Cymru yn gallu magu rhai sy'n medru esbonio cyfrinion ei llenyddiaeth. Mae'n llawlyfr a all gystadlu â goreuon llawlyfrau y clasuron Lladin a Groeg a gyhoeddir gan weisg y prifysgolion Seisnig. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 882. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
883. vtls005426965 ISYSARCHB22	File - Stephen [J.] Williams, Abertawe,	[19]29, Mai 2.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Amgau adolygiad ar Robinson Crusoe i'r Llenor ar gais yr Athro [Henry] Lewis. Hwyrach ei fod yn rhy hir, ond haws talfyrru nag ychwanegu. Buont yn rhegi colled y Brifysgol a llawenhau ennill ysgolheictod a llenyddiaeth Gymraeg [yn sgîl peidio penodi W. J. Gruffydd yn brifathro yng Nghaerdydd]. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 883. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
884. vtls005426966 ISYSARCHB22	File - Stephen [J.] Williams, Abertawe,	[19]37, Chwef. 17.
	<i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Diolch i W. J. Gruffydd am roi mynegiant mor groyw a dewr i'r unig farn sydd yn werth ei mynegi yn y Gymru gyfoes. Gwelodd y W[estern] M[ail] y golau coch. Crybwyll cyfarfod o Gyngor Coleg Abertawe. Un oedd y mwyafrif dros ddiswyddo S[aunders] L[ewis], a hwnnw wedi ei ddychryn gan y bygythiad yr atelid cyfraniadau'r cyfalafwyr i'r coleg oni ddiswyddid Saunders Lewis. Fe rwystwyd o leiaf ddau o gefnogwyr Saunders Lewis rhag bod yn y cyfarfod. Mae'n ddigon hawdd i gyfarfod arall ddileu'r penderfyniad a wnaed. Petai arholydd allanol y Brifysgol mewn Cymraeg yn gwrthod arholi fel protest hwyrach y byddai'n amhosibl i'r Brifysgol gael neb yn ei le. Byddai'n rhaid i Abertawe wedyn ailystyried y diswyddo. Byddai'r holl faich yn disgyn ar J. Ll[oyd] J[ones] a hwyrach y ceid y darlithydd o Lerpwl i gymryd ei le. Gallai arholwyr mewnol y Brifysgol wrthod gweithredu ond anodd fyddai cael pawb i gydsynio. Hoffai gael barn W. J. Gruffydd a G[riffith] J[ohn] W[illiams] ar y mater. Dylid anfon yr ateb i'w gartref. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 884. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	
885. vtls005426967 ISYSARCHB22	File - T. H. Williams, Llundain, N.I.,	1929, Mai 8.

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cydymdeimlo â W. J. Gruffydd ar golli ei dad ac am beidio â chael ei benodi yn brifathro [Caerdydd]. Collodd yntau ei dad. Nid oes gwell amgylchedd na chartref Cymraeg er iddo fod yn ddigon cyfyng a helbulus. Er mai 'gwyr y llwybrau blin' yw gweithwyr Arfon, eto disgyblir y goreuon i fywyd dwfn a thyfant yn gymeriadau gwastad. Ni fyddai unrhyw ystyr i fywyd ym meddwl T. H. Williams onibai iddo gredu fod yna rywbeth parhaol mewn dynion fel eu tadau hwy. Yn wyneb colli'r cyfle i fod yn brifathro Caerdydd ni ellir ond ategu sylw Puleston, 'W. J. Gruffydd, wedi chwyrn[u] gormod ar gorgwn'. Hen ystryw yw clwyfo'r cymwynaswyr - O. M. Edwards, J. M. J. a H[enry] Jones. Fe wyr ei hunan am y pris sydd raid ei dalu am geisio cadw ei enaid. Holi os bu iddo weld araith P[eter] H[ughes] G[riffiths] yn Y Cymro. Dywedodd T. H. Williams air yn y Cyfarfod Misol am felltith enwadaeth gan sôn am J.M.J. wedi sefyll dros ei argyhoeddiadau yn ystod y rhyfel, tra eraill yn plygu fel brwyn.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 885.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>886. vtls005426968 ISYSARCHB22</p>	<p>File - T. H. Parry-williams, Aberystwyth, 1935, Hyd. 2.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae ganddo ddeg neu ddeuddeg o rigymau taith tebyg i'r rhai a gyhoeddwyd yn Y Llenor rai blynyddoedd ynghynt. Y mae yn eu cynnig ar gyfer Y Llenor. ['Rhigymau Taith' (Awst-Medi, 1935)', Y Llenor, cyf. XIV (1935), tt. 193-7].</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 886.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>887. vtls005426969 ISYSARCHB22</p>	<p>File - T. H. Parry-williams, Aberystwyth, 1935, Hyd. 9.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae arno gywilydd braidd ar ôl darllen y rhigymau, ond y mae yn eu hanfon er hynny. Mae arno ofn eu gweld mewn print ond os yw W. J. Gruffydd yn fodlon mentro y mae croeso iddo wrthynt, os yw'n credu bod 'rhyw lygedyn o rywbeth ym mhlaendra diaddurn y rhan fwyaf ohonynt.'</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 887.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>888. vtls005426970 ISYSARCHB22</p>	<p>File - T.H. Parry-williams, Aberystwyth, 1936, Mawrth 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Awgrymodd W. J. Gruffydd yr hoffai gael cyfraniad arall i'r Llenor. Mae'n amgau ysgrif fer. Os yw'n ddigon buan ar gyfer rhifyn Ebrill yna caiff ei chyhoeddi, os nad yw yna hoffai ei chael yn ôl gan ei fod wedi addo cyfraniad i'r Drysorfa. Mae'n addo ysgrifennu rhywbeth arall i'r Llenor. Hoffai dderbyn proflen.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 888.</p>

	<i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
889. vtls005426971 ISYSARCHB22	File - T. H. Parry-williams, Aberystwyth, 1937, Rhag. 3. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mae'n cytuno eu bod yn bur ddrwg am destunau cywyddau. Maent yn teipio copïau o gywyddau yna, rhai o lyfrau a rhai o lawysgrifau a'u rhannu i'r myfyrwyr yn y dosbarth. Fe gymer y gwaith y gofynnwyd iddo ei wneud gryn dipyn o amser os yw i fod o unrhyw werth parhaol. Mae nifer o ymchwilwyr ar ganol llunio testun o waith nifer o'r cywyddwyr. Annoeth fyddai gwneud dim cyn i'r rheiny orffen. Mae Bangor yn defnyddio Gwyneddon 3 yn helaeth iawn at y diben hwn. Y mae casgliad Y Ford Gron a rhai T. G[wynn] J[ones] yn ei Llên Cymru ar gael wrth gwrs. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 889. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
890. vtls005426972 ISYSARCHB22	File - T. H. Parry-williams, Aberystwyth, 1939, Ion. 13. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Anfon dwy soned i'r Llenor. Hoffai weld eu cynnwys yn y rhifyn nesaf. Cas ganddo adael i bethau fel hyn sefyll - maent yn suro mor fuan. Buasai wedi eu hanfon ynghynt ond ei bod yn adeg gwyliau. ['Dwy Soned', Y Llenor, cyf. XVIII (1939), t. 5]. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 890. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
891. vtls005426973 ISYSARCHB22	File - T. Lloyd Williams, Llundain, S.E.25, 1937, Chwef. 25. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Ymddiheuro am ei boeni ac am y ffaith na fedr ysgrifennu yn Gymraeg. Ei dad oedd y darlithydd Hebraeg cyntaf yng Ngholeg Caerdydd. Bu'n ceisio dadlau fod yna reswm tra phwysig dros ddiogelu'r iaith Gymraeg. Ni chydabyddir Cymru fel undod gwleidyddol. Yn wahanol iawn i'r Alban a'r ddwy Iwerddon, nid oes gan Gymru ei systemau cyfreithiol a chyllidol ar wahân. Nid yw cenedligrwydd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ddibynnol ar yr iaith. Yr iaith yw'r unig arf sydd gan y Cymry i gadw eu hunain rhag troi'n Saeson. Mae'n rhaid bod y ddadl hon yn iawn gan fod y Western Mail yn gwrthod ei hargraffu er gwaetha'r ffaith eu bod yn cyhoeddi sothach 'Listener-in' a Huw Menai dros y Saesneg. Ni fydd ef yn dathlu dydd y Coroniad. <i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 891. <i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
892. vtls005426974 ISYSARCHB22	File - Tom Williams, Aberystwyth, 1936, Ion. 20. <i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i>

	<p>Gellir trefnu bod rhywun arall yn darllen Rheol Buchedd Sanctaidd [ar gyfer Geiriadur Prifysgol Cymru]. Gwell ganddo pe bai W. J. Gruffydd neu Mr Jenkin James yn ymgymryd â'r sgwrs radio, byddai ef yn fodlon danfon unrhyw wybodaeth angenrheidiol. Mae'n amgau ei ysgrif ar oedran geiriau ['Oedran Geiriau Cymraeg', Y Llenor cyf. XV (1936), tt. 44-7]. Y mae hefyd yn amgau copïau o slipiau'r Geiriadur am y gair 'egwyd'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 892.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
893. vtls005426975 ISYSARCHB22	<p>File - W. Williams, Llandudno, [19]39, Gorff. 17.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Arferai fod yn Arolygydd Ysgolion o dan Syr Owen Edwards. Y mae wedi ymdeol o'r gwaith hwnnw ers dros ddeng mlynedd. Darllenodd Y Tro Olaf gan W. J. Gruffydd gyda blas. Mae'r hyn a ddywed am 'Hedd Wyn' wedi ei annog i ysgrifennu ato. Cymerodd ddiddordeb mawr mewn barddoniaeth a'r cynganeddion ond methodd erioed â chael blas ar ddarllen gwaith 'Hedd Wyn'. Ni chafodd 'afael' ar awdl y 'Gadair Ddu' ychwaith. Wedi darllen ysgrif W. J. Gruffydd y mae wedi codi ei galon. Mwynhaodd hefyd yr ysgrif 'Y diweddar Pontius Pilat' a'r sôn am Fair o Fagdala. Dywed H. P. Latham yn ei lyfr The Risen Master nad oes sicrwydd mai yr un oedd hi i'r 'bechadures' y ceir sôn amdani yn Luc vii, 37-50, na bod lle i amau ei diweirdeb. Mae'r dehongliad o'r modd yr atgyfododd yr Iesu yn cydfynd â dehongliad Pwyllgor Caerdydd o Ioan xx, 7. Cafodd bleser mawr o ddarllen cofiant O. M. Edwards. Mae'n darllen fel rhamant.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 893.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
894. vtls005426976 ISYSARCHB22	<p>File - [William Edward Williams] 'Gwilym Rhug', Bae Colwyn, 1929, Rhag. 23.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'r Orsedd yn ymgynghori â gwyr amlwg ym mywyd Cymru sydd y tu allan i'r Orsedd i weld y modd gorau i sicrhau eu cydweithrediad er mwyn ehangu gwasanaeth a dylanwad yr Orsedd fel gallu cenedlaethol. Penderfynodd yr Orsedd godi Pwyllgor Arbennig a chael nifer cyfatebol o Gymry amlwg i'w cyfarfod mewn cynhadledd. Cynhelir hon ar 17 Ionawr 1930 yn Amwythig a gwahoddir W. J. Gruffydd i fod yno. Rhestrir swyddogion yr Orsedd. Ni thrafodir cyfansoddiad yr Orsedd, ei phasant na'r defodau cysylltiol. Cylchlythyr teipiedig.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 894.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
895. vtls005426977 ISYSARCHB22	<p>File - [William Edward Williams] 'Gwilym Rhug', Bae Colwyn, 1929, Rhag. 31.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch am ei ymateb i'r llythyr blaenorol [894 uchod] ac am ei awgrym amserol. Amgaeir rhestr o'r personau o'r tu allan i'r Orsedd. Gan fod 17 Ionawr yn anhwylyd i rai, a fyddai 10 Ionawr yn</p>

	<p>hwylusach? Trefnir y cyfarfod am 2.30 p.m. Rhestr o bedwar enw ar ddeg a wahoddwyd i'r gynhadledd yn Amwythig. Cylchlythyr teipiedig.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 895.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
896. vtls005426978 ISYSARCHB22	<p>File - 'Bill' [William J. Williams], 1942, Gorff. 4. Caerdydd,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Awgrymwyd enw W. J. Gruffydd ar gyfer bod yn gynrychiolydd Cymru ar Bwyllgor yr Ysgolion Bonedd. Byddai'n well ganddo weld W. J. Gruffydd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Ail-lunio and nid yw ei enw wedi ei gynnwys ar gyfer hwnnw. Cyhoeddwyd yr enwau yn Nhy'r Cyffredin y noson cynt. Y mae William J. Williams ei hunan ar y pwyllgor hefyd. Mae'n trefnu iddynt fynd i Aberteifi ddydd Mawrth Gwyl y Banc a daw Wheldon i lawr gyda William Thomas. Mae Tom Owen yn holi os oes modd iddynt aros yn Abergwaun. Y syniad yw mynd i Aberteifi ddydd Mawrth neu ddydd Mercher a dychwelyd ddydd Iau neu ddydd Gwener.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 896.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
897. vtls005426979 ISYSARCHB22	<p>File - [W.] Nantlais [Williams], Rhydaman, 1940, Gorff. 16.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Diolch am groeso mor garedig i aelwyd anrhydeddus Y Llenor. ['Ar y Ffordd i Dal-y-llychau', Y Llenor cyf. XIX (1940), t. 68]. Cafodd ias a lawenydd hefyd pan ddarllenodd nodiadau eirias, gwrol a gonest W. J. Gruffydd. Nid oes agwedd arall yn bosibl heddiw. Mwynhaodd 'Bethesda'r Fro' gan W. J. Gruffydd hefyd yn yr un rhifyn [tt. 72-7].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 897.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
898. vtls005426980 ISYSARCHB22	<p>File - [W.] Nantlais [Williams], Rhydaman, 1941, Mai 8.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n anfon cyfrol o gerddi i blant - 'ychydig o felysion ar adeg prinder melysion!' Efallai y bydd y gyfrol yn gymorth i gadw'r Gymraeg yn fyw. Bechgyn Talfan sy'n gyfrifol am ei chyhoeddi. Teimlodd chwant anfon copi i W. J. Gruffydd yn rhodd fel un sy'n caru Cymru. [Darlun a Chân].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 898.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
899. vtls005426981 ISYSARCHB22	<p>File - [W.] Nantlais [Williams], Rhydaman, 1941, Tach. 20.</p>

	<p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Diolch i W. J. Gruffydd am ei gyfeiriadau caredig ato yn Y Llenor. Mae pawb sy'n ceisio gweithio'n gydwybodol yn hoffi cael clap ar ei gefn yn y byd hwn. Mae'n edmygu W. J. Gruffydd yn fawr fel bardd, llenor, gweledydd a meddyliwr gafaelgar. Bu yn y Wladfa a theimla y dylai Cymru ddeffro i borthi'r miloedd sydd yno yn well, eu porthi'n llenyddol. Dylai rhyw lenor mawr fynd allan yno a rhyw gerddor gwych, heb sôn am efengylwr. Rhaid achub miloedd Cymry Ariannin oherwydd trwy eu hachub hwy ceir allwedd i efengyleiddio Argentina a De America i gyd. Dylid anfon mwy o negesau iddynt yn Gymraeg dros y radio.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 899.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
900. vtls005426982 ISYSARCHB22	<p>File - W. Nantlais Williams, Rhydaman, [1940au].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Taflen brintiedig Hymns in Wartime o waith Nantlais wedi hargraffu gan Jones & Mainwaring, Rhydaman.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 900.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
901. vtls005426983 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd at Gofrestrydd 1929, Ion. 25. Coleg Caerdydd, D. J. A. Brown],</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Adroddiad ar staffio Adran y Gymraeg. Pwysleisio pwysigrwydd dysgu Cymraeg yn y pedwar coleg oherwydd na wneir hynny yn unman arall. Mae dyletswydd ar ddarlithwyr Cymraeg i gynhyrchu testunau ar gyfer eu dosbarthiadau. Mae'n amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu'r Wyddeleg ac astudiaethau Gwyddelig yn Iwerddon. Mae'n cynnwys siart yn dangos y staffio yn adrannau'r colegau eraill a'r nifer cyfatebol o fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg. Maent i gyd yn tanlinellu mai adran Caerdydd sy'n dioddef fwyaf. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 901.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
902. vtls005426984 ISYSARCHB22	<p>File - [W. J. Gruffydd at Gofrestrydd 1929, Medi 8. Coleg Caerdydd, D. J. A. Brown],</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Gofyn am gyfle i newid geiriad ei anerchiad wrth gyflwyno Dyfnallt Owen. Gwnaeth gam â pherson arall wrth eirio'r datganiad. Os caiff weld copi neu broflen fe'i dychwela gyda'r troad. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 902.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

<p>903. vtls005426985 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [?Griffith John Williams], Caerdydd, [?1930au].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Awgrymu teitl llyfr a allai fod o gymorth i W. J. Gruffydd, sef Bibliography of 15C Literature gan T. L. Tucker & A. R. Benham, Gwasg Prifysgol Washington, pris \$1.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 903.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>904. vtls005426986 ISYSARCHB22</p>	<p>File - 'Cymro' gwaed Coch cyfan!, [1929].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n iawn i gredu nad oes gan Archesgob Cymru [Alfred George Edwards] unrhyw gydymdeimlad â'r iaith Gymraeg. Penododd Ll. Wynne Jones, Cymro di-Gymraeg yn archddiacon ac yn Ddeon Llanelwy a chafwyd protestio mawr. A phan ymddiswyddodd y Deon yn ddiweddar fe benododd Sais yn ei le. Penododd offeiriaid Saesneg yn y Rhyl, Bae Colwyn, etc. Mae hyn i gyd yn dangos ei fod yn anwybyddu'r iaith yn llwyr. Mae hefyd wedi penodi ei fab yn Ganghellor yr Esgobaeth ac yn Gofrestrydd y Llys Prawf, er i hwnnw fethu fel bargyfreithiwr. Rhestrir nifer o enghreifftiau eraill o ffafrio perthnasau. Nid oedd un o'i blant yn medru'r Gymraeg. Mae hyn i gyd yn profi ei fod yn haeddu'r feirniadaeth a fu arno yn Y Llenor.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 904.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>905. vtls005426987 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [Di-enw] 'Dros Gymru', [Abertawe], [1936-7].</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Cafodd wybodaeth yngl?n â phenodiad [Melville] Richards a diswyddiad J. S[aunder] Lewis. Cafodd Senedd Coleg Abertawe ei chamarwain. Nid y Senedd a fu'n apwyntio ond pwyllgor wedi ei ddewis gan y Prifathro, sef y Prifathro H[enry] Lewis a Mary Williams. Mae'r Cyngor yn ofni y bydd y mater yn gorfod mynd o flaen Llys y Brifysgol ac oddi yno i Gyngor y Brifysgol. Os felly fe brofid bod penodiad [Melville] Richards yn annilys. Byddai hyn yn caniatâu i Saunders Lewis gael ei le yn ôl yr eilwaith.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 905.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>906. vtls005426988 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [Di-enw], Abertawe, [1936-7], Mercher.</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i></p> <p>Mae'n cofnodi ffeithiau yngl?n â diswyddiad Saunders Lewis. Yr oedd un ar ddeg dros ei ddiswyddo a deg yn erbyn. Ymddangosai fod Saunders Lewis am gario'r dydd ond bygythiodd Lewis Jones, A.S., y gwelai ef fod Coleg Abertawe yn fethdalwr o fewn chwe mis pe na chai Saunders Lewis ei ddiswyddo. Dyna sut y llwyddwyd i ennill y bleidlais. Roedd o leiaf ddau o gefnogwyr Saunders Lewis yn absennol. Fe arwyddwyd deiseb o blaid Saunders Lewis gan holl aelodau staff Coleg Abertawe ar wahân i'r</p>

	<p>Prifathro, yr Athro Bacon a'r Jiwddas hwnnw yr Athro [Henry] Lewis. Fe siaradodd yr aelodau hynny o staff sydd ar y Cyngor o'i blaidd. Gall athrawon a staff yr adrannau Cymraeg eraill a rhai Celteg Iwerddon wrthod arholi tan ailbenodir Saunders Lewis. Canlyniad hynny fyddai i'r diwydiannwyr ddal yn ôl eu £2,500 y flwyddyn. Cafodd y wybodaeth yn gyfrinachol gan gyfaill sydd â'i ewythr ar Gyngor y Coleg. Nid yw Dr Stevens ar y Cyngor yn awr ond y mae ei wraig, Dr Mary Williams yn gefnogol i Saunders Lewis. Awgryma y dylai W. J. Gruffydd ei ffônio hi i gael cadarnhad fod y ffeithiau'n gywir. Pe cyhoeddid yr hanes am fygythiad Lewis Jones yna byddai ymateb chwyrn a gallai Saunders Lewis fynd yn ôl i'w swydd yn sgîl hynny. Mae'r Athro [Henry] Lewis am fod yn Is-Brifathro y Sesiwn dilynol, dyna paham y mae ef yn gyfeillgar â'r gelyn.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 906.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>907. vtls005426989 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Frances [?], [?1929], Gwener.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Mae'n ddrwg ganddi am bopeth. Roedd hi'n casáu'r Western Mail ddydd Mawrth a gwrthododd ei agor tan yn hwyr yn y dydd. Yr oedd wedi gobeithio cymaint y byddai popeth yn iawn i W. J. Gruffydd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 907.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>908. vtls005426990 ISYSARCHB22</p>	<p>File - [W. J. Gruffydd , Llundain at ? Y Llywodraeth], 1943, Meh. 14.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Llythyr sy'n gwrthwynebu'r chwarel ar safle castell Clegyr Voia ger Tyddewi. Mae'n ysgrifennu ar ran Amgueddfa Genedlaethol Cymru i weld beth ellir ei wneud i ddiogelu'r hen safle yn wyneb y tyllu a'r gwaith o gario cerrig oddi yno i greu maes awyr Tyddewi. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd y safle ers dros fil o flynyddoedd a'r cysylltiad â Dewi Sant. Gofyn i'r llywodraeth i wrthod hawl i dyllu mwy ar ôl gorffenn y maes awyr er mwyn diogelu'r hyn sy'n weddill. Dylid rhoi cymal ymhob cytundeb i dyllu am dywod, calch, etc., yn caniatâu i'r Adran Henebion gael archwilio'r safle cyn i'r gwaith ddechrau. Mae'n deall nad oedd angen agor chwarel Clegyr Voia yn yr achos hwn gan fod digon o chwareli tebyg cyfagos ar gael. Copi teipysgrif.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 908.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>909. vtls005426991 ISYSARCHB22</p>	<p>File - 'Another Celt', Somewhere in Scotland, [19]43, Mai 28.</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Hoffai petai W. J. Gruffydd a Syr Arnold Gridley yn gwrthwynebu'r Bil Hydro-Electric Albanaid. Nid yw'r Sais cyffredin yn malio am Ucheldiroedd yr Alban. Mae dros bedair miliwn o aceri ar gyfer ceirw ac adar i'w saethu - cymaint â maint deg o siroedd yr Alban ar gyfartaledd. Mae yna filoedd o bobl heb dir a hoffai weithio mewn amaethyddiaeth. Ni ellir cael digon o dir i bori un buwch arno i gyflenwi digon o laeth. Caiff y plant y darfodedigaeth a'r tir o'u cwmpas yn pydru dan y ceirw. Mae'r Toriaid yn rheoli yn yr Ucheldiroedd. Cyfeiriad at ddeddf 1911 'The Scottish Small Landholders Act' a'r gwaith</p>

	<p>da a wnaethpwyd ar y cychwyn i greu tiroedd a thyddynnod allan o'r fforestydd ceirw. Dylid gofyn i Ysgrifennydd Gwladol yr Alban paham nad yw'r gwaith hwn yn parhau. Paham na fedrid defnyddio'r 30 miliwn o bunnau i greu cartrefi a thiroedd i'r milwyr sy'n dychwelyd o'r rhyfel. Ni all roi ei enw a'i gyfeiriad oherwydd ei fod yn dal swydd arbennig.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 909.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>
910. vtls005426992 ISYSARCHB22	<p>File - 'Uncle O', [1930au].</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Dinorwig. Dweud beth sydd ar garreg fedd 'Glan Padarn' a'i wraig Mary. Manylion amdano. Bu farw Mary yn 1878 yn 28 oed ac yna priododd ei chwaer. Bu iddo ddau fab. Disgrifiad corfforol ohono. Bu mewn ysgol yn Nulyn a Rhuthun. Bu'n gweithio am gyfnod byr ym Mhenbedw. Aeth yn aberth i 'nychdod' yn gynnar iawn. Roedd llais tenor swynol ganddo. Cadwai ei freichiau yn syth i lawr pan âi i hwyl. Dywedodd 'Llew Llwyfo' lawer gwaith mai'r tri bardd mwyaf canadwy oedd 'Ceiriog', 'Mynyddog' a 'Glan Padarn'. Arferai gyfansoddi alawon i'w siwtio ei hun o ran llais. Nid yw'r alawon hyn wedi eu cyhoeddi. Sgets o'r garreg fedd.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 910.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i></p> <p>ARCH/MSS (GB0210)</p>

Cyfes | Series 911-13. vtls005426993 ISYSARCHB22: Atodiad: deunydd ynglyn â W. J. Gruffydd a bwrcaswyd ym mis Gorffennaf 1979,

Dyddiad | Date: 1895-1931. (dyddiad creu) | (date of creation)

Lleoliad ffisegol | Physical location: ARCH/MSS (GB0210)

Nodyn | Note [generalNote]:

Preferred citation: 911-13.

FFeil / rhestr eitemau | File / item list

Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
911. vtls005426994 ISYSARCHB22	<p>File - Albwm yn cynnwys cant o gardiau post, 1903-31, a ffotograffau teuluol, tua deugain o'r cardiau wedi eu hanfon gan W ...,</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i></p> <p>Albwm yn cynnwys cant o gardiau post, 1903-31, a ffotograffau teuluol, tua deugain o'r cardiau wedi eu hanfon gan W. J. Gruffydd at aelodau o'i deulu ym Methel, ger Caernarfon, tra'r gweddill wedi eu hanfon at W. J. Gruffydd, gan gynnwys rhai yn llaw R. W[illiams] P[arry], Rhys J. Huws, [T.] Gwynn [Jones], [R.] Silyn [Roberts] a [J.] Dyfnallt [Owen].</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i></p> <p>Preferred citation: 911.</p>	1903-31.	

	<i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
912. vtls005426995 ISYSARCHB22	File - Albwm yn cynnwys tri deg wyth o gardiau post ac un ffotograff, 1903-09, wedi eu hanfon at aelodau o deulu ... <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Albwm yn cynnwys tri deg wyth o gardiau post ac un ffotograff, 1903-09, wedi eu hanfon at aelodau o deulu W. J. Gruffydd yng Ngorffwysfa, Bethel, ger Caernarfon, gan gynnwys un oddi wrth Rhys J. Huws. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 912. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)
913. vtls005426996 ISYSARCHB22	File - Nodiadau Pregethau a glywyd, 1895-99, gan ?[William Parry taid W. J. Gruffydd trwy briodas], <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 913. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)

Cyfes | Series 914-21. vtls005426997 ISYSARCHB22: Llyfrau Printiedig a fu'n eiddo i W.J. Gruffydd,

Dyddiad | Date: 1888-1900. (dyddiad creu) | (date of creation)

Lleoliad ffisegol | Physical location: ARCH/MSS (GB0210)

Nodyn | Note [generalNote]:

Preferred citation: 914-21.

FFeil / rhestr eitemau | File / item list

Cod cyfeirnod Reference code	Teitl Title	Dyddiadau Dates	Disgrifiad ffisegol Physical description
914. vtls005426998 ISYSARCHB22	File - Harriet Beecher Stowe, A Dog's Mission ... (London, 1887), yn cynnwys label yn cofnodi gwobr a ddyfarnwyd i W. J. Gruffydd J ... <i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Harriet Beecher Stowe, A Dog's Mission ... (London, 1887), yn cynnwys label yn cofnodi gwobr a ddyfarnwyd i W. J. Gruffydd gan Fwrdd Ysgol Llanddeiniolen am fynychu Ysgol Bethel yn rheolaidd hyd at 31 Hydref 1888. <i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 914. <i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)	1888.	

<p>915. vtls005426999 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Mrs Saxby, Breakers Ahead 1889. (London, 1887), llyfr a gyflwynwyd i W. J. Gruffydd am fynychu Ysgol Bethel am y flwyddyn ...,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Mrs Saxby, Breakers Ahead (London, 1887), llyfr a gyflwynwyd i W. J. Gruffydd am fynychu Ysgol Bethel am y flwyddyn yn gorffen ar 31 Hydref 1889.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 915.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>916. vtls005427000 ISYSARCHB22</p>	<p>File - George Gill, Gill's Imperial 1894. Geography (London, 1894) yn dwyn enw 'Willie John Griffith, Gorphwysfa, Bethel',</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 916.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>917. vtls005427001 ISYSARCHB22</p>	<p>File - The Public School Latin Primer 1894. (London, 1893) yn dwyn enw 'Willie John Griffith, Carnarvon County School, Feb. 26. 1894',</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 917.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>918. vtls005427002 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Léon Contanseau, A Practical 1895. Dictionary of the French and English Languages (London, 1891), yn dwyn enw 'William John Gruffydd The ...,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Léon Contanseau, A Practical Dictionary of the French and English Languages (London, 1891), yn dwyn enw 'William John Gruffydd The County School, Carnarvon, 15/3/95'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 918.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol / Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>919. vtls005427003 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Samuel Rawson Gardiner, A 1896. Student's History of England ... vol. II (London, 1892), gyda'r llofnod 'W. J. Griffith C.C.S. March ...,</p> <p><i>Natur a chynnwys / Scope and content:</i> Samuel Rawson Gardiner, A Student's History of England ... vol. II (London, 1892), gyda'r llofnod 'W. J. Griffith C.C.S. March 1896'.</p> <p><i>Nodyn / Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 919.</p>

	<p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>920. vtls005427004 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Samuel Rawson Gardiner, A 1896. Student's History of England ..., vol. III (London, 1892), gyda'r llofnod 'W. J. Gruffydd 1696',</p> <p><i>Natur a chynnwys Scope and content:</i> Yng nghefn y gyfrol ceir nodiadau mewn pensel ar y cynganeddion.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 920.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>
<p>921. vtls005427005 ISYSARCHB22</p>	<p>File - Septimus G. Green, Jennifred, and other verses (London, 1899), gyda'r llofnod 'W. J. Gruffydd, Jesus College, Oxford. Oct. '00', 1900.</p> <p><i>Nodyn Note [generalNote]:</i> Preferred citation: 921.</p> <p><i>Lleoliad ffisegol Physical location:</i> ARCH/MSS (GB0210)</p>